

Sylwadaeth gan Mr Alun Ffred Jones AC,

y gweinidog dros Dreftadaeth, yn 2010:

*'Mae yn achos pryder inni fel Llywodraeth fod y Gymraeg yn colli tir fel iaith lafar yn ei chadarnleoedd. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cymunedau lle mae dros 70% yn siarad Cymraeg – gostyngiad o 92 yn 1991 i 54 yn 2001 – ac mae'n fwriad gennym fynd i'r afael â hyn wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.'*

## **A FYDD**

## **Y CYMRY CYMRAEG**

## **MEWN PRYD?**

R. M Jones

Wedi'r Brotest, beth sy ar ôl?

Nid y Diwylliant Protest.

Adennill yw'r cam nesaf

**2011**

## CYNNWYS

	Nod y Drafodaeth: Cymru'n Un	3
	PONT I <i>Ein Nerth yw Pontio Pawb</i>	
1.	Iaith Pawb, a Diffinio 'Pawb'	16
2.	'Gwirfoddol' – deall y Gair 'Coll'	25
3.	Harneisio'r Gwirfoddol	34
4.	Profiad o Gyfundrefnu'r Gwirfoddol	44
5.	Meithrin Ewyllys yr Iaith	51
	PONT II <i>Cynllunio Cyrisiau'n Broffesiynol</i>	
	Nod y rhan hon o'r drafodaeth	60
6.	Yr Alwad am Gynllunio Proffesiynol Gwybodus	63
7.	Model Iaith Lafar Safonol	77
8.	Model Graddio Strwythurau	
	Model i'r Graidd Frawddeg	90
	Model o Gyfundrefn y Ferf	107
	Cyfundrefnu Treigladau	117
9.	Graddio Geirfa	125
10.	Methodoleg Holi ac Ateb	147
11.	Egwyddorion Ymarferion	159
12.	Ymchwil a Chasgliadau	169
	PONT III <i>Sefydlogi Cymreictod i Bawb</i>	
13.	Strwythuro Diddanwch: <i>Pawb mewn Diddanwch</i>	179
14.	Ôl-nodyn: Dau Argymhelliad	184

## NOD Y DRAFODAETH

Lluniwyd yr ymdriniaeth hon yn ôl y dybiaeth driphlyg:

1. Drwy drefn *wirfoddol* yn unig (ymhlith oedolion yn gyntaf) yr adferir yr iaith, a a hynny drwy ddulliau addysgol cynlluniedig proffesiynol a thrwy boblogeiddio trefnus. Hynny yw, rhaid adeiladu'n gyntaf amgylchfyd mwy cadarnhaol. Mae angen llawer mwy o feddwl am y gwirfoddoli ac am ran y Cymry Cymraeg yn hyn o dasg. A rhaid dechrau mewn meicrocosm. Er bod cryn wella yn y drefn weinyddol i blant, **oedolion sy'n newid iaith cymdeithas** ac yn ewyllysio'r fath newid. Ac ni feddyliwyd am y dyfodol yn ddigonol yn yr oed yna, hynny yw, sut yr eir ati'n sefydliadol oddi wrth Ddysgu tuag at Gadw ac at Ennill Effeithiol, i oedolion megis i blant. Os ydym yn mynd i weld yn y pen draw ymarferol luoedd lawer o blant yn ymuno'n wirfoddol ag addysg Gymraeg, ac yn ewyllysio mawrygu'u gallu yn y Gymraeg, yna – yn baradoesaidd wir – y mae angen hoelio'n sylw ar oedolion yn flaenaf.

2. Nid yw'r cynlluniau gwleidyddol, cyfreithiol, cymdeithasol, nac addysgol presennol yn ddigon uchelgeisiol ar gyfer *adfer* yr iaith Gymraeg, er pwysiced ydynt o safbwynt 'hawliau'. Ni chafwyd chwaith y deunyddiau sy'n ddigon pellgyrhaeddol ym maes ail iaith i ennill yn ddigon helaeth ym maes addysg. Credaf na chawn Gymru Ddwieithog y ffordd yna. Datblygwyd ysgolion Cymraeg effeithiol, ond heb ddigon o rai cynradd, a heb 'ddarpariaeth barhau' ar gyfer y cyfnod ar ôl addysg uwchradd: unwaith eto, ym maes oedolion. Gweithiwyd hyd yn hyn yn ddiwyd ac yn ffrwythlon tuag at wneud yr iaith yn 'swyddogol'. Ond nid dyna'r ateb i ganol problem enfawr adferiad heddiw. Ac ar ffrynt yr ail iaith, bodlonwyd yn rhy ddiuchelgais ar anelu at addysgu plant iaith estron â dulliau gwanllyd. Ni cheisiwyd creu'r cyd-destun meddyliol ar gyfer **cymdeithasu'r iaith** iddynt ledled Cymru. Ni feddyliwyd yn ddigonol chwaith ynghylch **y gwendid o ddibynnu ar blant** mewn cyd-destun cymdeithasol cyfrifol, nac am y lle sydd i gynnal hyd yn oed y rhai a enillodd yr iaith o fewn cyd-destun diwylliant drwy gyfrwng y Gymraeg. Bodlonwyd yn yr ardaloedd Cymreiciaf ar '**Gadw**' mewn '**Geto**'. Ac esgeuluswyd gosod *Adfer Iaith Oedolion* fel y nod ymarferol arweiniol yn y manau hynny drwy apêl at 'Bawb' ledled Cymru.

3. Gan fod y drefn bresennol **o ddibynnu ar blant ac ar ddeddf** yn gwbl anymarferol, ac am na chymerwyd o ddifri hyd yn hyn yr *ewylllys* sy'n angenrheidiol i hybu adferiad yr iaith ar raddfa uchelgeisiol eang, mae angen chwyldro meddyliol. Dim llai: mae angen tipyn o fyfyrion a hel gwybodaeth. Bydd angen meddwl bellach sut y gellid troi *cynnau a chynnal yr ewylllys* yn sefydliad caboledig. Gosodwyd ffydd hyd yn hyn yn y lle anghywir. Bu'r weledigaeth neu'r nod o du'r Cynulliad, Bwrdd yr Iaith, a llawer o unigolion a chymdeithasau yn ganmoliaethus o safbwynt cefnogi'r iaith yn y golwg, ac yn achos llawer o ddatblygiadau mae wedi ymwared â'r protestiadau pennaf. Nid oes yr un amheuaeth ynghylch dymuniadau didwyll a doniau'r gweithwyr glew a fu wrthi. Ond o safbwynt ymarferoldeb, ni chafwyd myfyrdod digonol na chynllunio ymarferol hyd y pen draw ynghylch y modd i ddyfnhau'r dymuniad a'r weithred o *adfer* a sefydlogi'r iaith yn llwyddiannus drwy ddulliau graddedig.

4. Mae 'Pawb' yn uned hanfodol. Dim ond drwy barchu'r uned 'Pawb' y llwydda'r rhai sy'n parchu Cymreictod i newid llif aruthr y duedd bresennol. Heb gymorth ymarferol y Cymry Cymraeg yn *wirfoddol* ni ellir cyfannu'r gymuned Gymraeg. Nid aethpwyd ati erioed i sefydlu techneg i hybu potensial cymorth y Cymry Cymraeg. Os lleddir y Gymraeg fe'i lleddir oherwydd diogi'r Cymry rhugl a brwd yn eu cyd-destun eu hunain, gan gynnwys yr awdurdodau. Pe ceid cyfran eithaf rhesymol o'r *rhain* i ymuno'n ymarferol mewn grwpiau clebran trefnedig a gwirfoddol, a sefydlu cadwyn gref o bontio felly, beth a ddigwyddai? Ceid gobaith newydd, yn sicr. Yn sydyn, ceid byddin fawr bwerus newydd. Yn sydyn, yn lle llonyddwch, clywid yma ac acw, drwy gydol y gymuned, eplesu addawol. Yn lle'r diymadferthedd, ceid optimistiaeth weithredol. Gellid newid pethau o'r diwedd. Yn lle iselder, gobaith hunan-gynhaliol. Mae 'Pawb' mewn amgylchiadau newydd yn adlewyrchu delwedd gadarnhaol iach o gyfannus. A'r rhyfeddod yw, am mai gwirfoddol o raid fyddai datblygiad o'r fath at ei gilydd, ni byddai'n fawr o gost mewn cyfnod mor brin.

## 2. SUT Y GWNEIR HYN?

Yn yr adroddiad hwn, ni honnir rhoi ateb terfynol i broblem eithriadol o amlochrog. Ni wneir ond ynysu'r ddau fan gwannaf cyntaf yn adferiad yr iaith; a cheisir eu hateb.

Sef:

1. **Absenoldeb strwythur uchelgeisiol i gydlynu'r prif actorion:** sefydlu mudiad grymus i bontio a thrwchuso cymunedau oedolion Dysgwyr a Chymry Cymraeg yn arbennig ar y wedd wirfoddol, a chan ddwyn felly y siaradwyr rhugl ymrwymedig o fewn y symudiad hwn. Mae angen penodoli nod ymarferol newydd sy'n diffinio lle oedolion, a hanfod dull y gwaith o bontio'r gwaith o fewn y gymuned yn drylwyr. **Y siaradwyr brodorol iaithgarol yw'r ffactor coll yn yr adfer ei hun.** Bodlonir ar hyn o bryd, yn y bröydd anodd, ar ddrifftio tuag i lawr.

2. Mae yna hefyd ddiffyg cyrsiau (amryw-gyfryngol) proffesiynol i hyrwyddo dysgu graddedig trefnus mewn addysg i blant, ond yn bwysicach i oedolion o fewn dosbarthiadau a'r tu allan. Mae mawr angen i'r awdurdodau fynd at y gwraidd, a sicrhau gwell cyngor a hyfforddiant a thrwyadled eithafol i'r llunwyr cyrsiau sydd eu hunain yn fynych yn bobl ddawnus. Mae hyn yn fwy na symud y blaenoriaethau gyda 'mwy a mwy o'r un peth'. Mae'n golygu chwyldro meddwl sy'n dad-flaenoriaethu safle gwasanaethol gwleidyddiaeth yn yr ymgyrch, peth beiddgar i ofyn amdano gan wleidyddion. Golyga ganolbwyntio ar ewyllys a diddanwch oedolion cadarnhaol. Mae hefyd yn ceisio **proffesiynoli'r paratodau**, a seiliwyd yn y gorffennol ar wybodaeth amaturaidd. Ar hyn o bryd, ni chafodd y paratowyr llawn-amser y cyfle teg i gyflwyno deunyddiau gwir hyfforddedig.

Ni fwriedir i'r sylwadau hyn fod yn negyddol. Y nod yw manylu ar y **cam nesaf**. Mae'n angenrheidiol, bid siŵr, i feirniad beidio â difrïo paramedrau deddfu gwleidyddion na brwdfrydedd negyddol protestwyr. A phwysleisiaf fy mharch tuag atynt oll a'm cydnabyddiaeth o'u swyddogaeth werthfawr barhaol yn y gorffennol. Bydd eu gwerth amheuthun hwy a'u paratodau, o hyd gobeithio, gyda ni am amser maith eto. Bydd yna angen eu hunplygrwydd i hyrwyddo fframwaith i ddeall ac i gefnogi

ymroddiad gwirfoddol i adennill yr iaith Gymraeg. Ond mae angen bellach fwy o lymder o lawer i gynllunio'r Adferiad hwnnw ymhlith pobl gyfrifol. A hynny'n strwythurol ganolog. Ac ymgais yw'r ymdriniaeth hon i ddadlau ac i esbonio ym mha ffordd.

Dyna pam nad ydys am feirniadu'r gorffennol un iot yn bersonol, eithr sôn a wnawn am y dyfodol.

Nid aethpwyd erioed ati'n **systematig**, mewn tymor hir a pharhaol, **i feddwl am raddio strwythurau'r iaith Gymraeg ar gyfer dysgu**. Hynny yw, sonnir weithiau fod gennym gyrsiau wedi'u strwythuro. Honnir yn hyderus gan ambell un fod 'y dull strwythuro wedi methu'. Ond synnwyr bawd yw sail beirniadaethau felly. Rhaid yn gyntaf amlinellu'n llawn gyfundrefnau'r iaith mewn modd didactig (tasg hir) yn llawer mwy gofalus nag a wnaethpwyd hyd yn hyn. Yna, mae eisiau ystyried ym mha drefn olynol ystyrllon y dylid eu cyflwyno, cyn cael cwrs strwythurol boddhaol... Gellid cymharu'r dull a fu o raddio cyrsiau â'r dull amaturaidd y ceisir cynllunio'n genedlaethol yr Adferiad ymhlith Oedolion. Nid drwy ddsbarthu cyrsiau'n unig, fel y gwneir ar hyn o bryd, ond drwy ddsbarthu'n dra manwl batrymau iaith ac ymarferion. Rhaid strwythuro hefyd holl sector trefnu adfywiad fel symudiad ymarferol. Credaf fod modd ychwanegu'r ffactor newydd o Gymry Cymraeg rhugl a gwirfoddol gyda hyn yn yr hafaliad. Ond mae angen sylweddoli hyn hefyd yn fyw o fewn cynllunio strwythuredig proffesiynol sy'n cynnwys yn fwriadol dechneg ddatblygedig ar gyfer ymarfer yn y gymuned.

Oherwydd y gymhariaeth hon felly, rhwng **gwendid yn y strwythur Adennill** yn y gymdeithas a'r gwendid yn strwythur y Cyrsiau Graddedig, trafodir yn y sylwadau hyn y ddwy wedd gyda'i gilydd. Arolygir y gwaith o baratoi deunydd i adfer yr iaith yn addysgol. Arolygir sylfeini sydd o hyd yn anorffen. Dadleuir bod modd cyflawni hyn oll yn gyfundrefnus ar lefel cyrsiau a dosbarthiadau. Ac felly, amlinellir y maes yn fwy manwl egwyddorol. Yn enghreifftiol, yn y drafodaeth fer hon disgrifir a mabwysiedir gennyf yn enghreifftiol saith gyfundrefn greiddiol wrth drafod cynllun y cyrsiau yn y dyfodol. Sef Cyfundrefn yr Ymadrodd, Cyfundrefn y Ferf a Threiglo, Dosbarthu Geirfa, Cyfundrefn Holi ac Ateb, a Model Ymarferion, saith gyfundrefn ganolog mewn cwrs

iaith. Ond y sector mwyaf addawol yn y dyfodol, gredaf i, fydd asio'r fath beth yn fwy pwrpasol yn yr Ymarferion. Mae eisiau dosbarthu, fel y cawn weld, a chymhwysu Ymarferion o sawl math o fewn y traddodiad gramadegol a geirfaol.

Yn undod ymarferol, felly, ceisir amlinellu adnodd cyflawn a allai fod wrth law wedyn i adeiladu defnyddiau amrywiol ar gyfer athrawon yn lle trefnu hap a damwain. **A dangosir fel y daw'r gymdeithas oll i mewn i'r gyfundrefn o holi ac ateb a'r ymddiddan rhydd.** Dônt yn rhan o gynllun cyfun. Mewn modd cyffelyb, fe ellid cyfundrefnu'r cyd-hyrwyddwyr gwirfoddol wedyn a fydd yn sefydlu'r grwpiau ymddiddan yn y gymdeithas. Hynny yw, sonnir am ddwy 'bont' yn y sylwadau hyn; a gwelir eu bod ill dwy yn gysylltiedig. Nid cwrs yw'r llyfryn hwn, felly (er bod cryn sôn am enghreifftiau penodol yn y maes), ond trafodaeth ar strategaeth ac ymagwedd eang. Yn y drafodaeth hon, **trafodwn yn gyntaf y ffactor newydd o ricriwtio Cymry Cymraeg brwd i ymuno yn y Pawb a fydd yn gallu hybu'r dysgwyr.** Mae angen ystyried yn ofalus, yn wyneb profiad, sut y mae 'adeiladu ffatri grwpiau adfer dwyochrog': beth yw'r dechneg, yn olynol drefnus, o'u sefydlu.

**Ac yna – er nad yn ddigyswllt – sylwn ar yr angen i wella strwythur cyffredinol y cyrsiau a ddefnyddir ar hyn o bryd.**

Dadleuir y dylai fod gennym ni yng Nghymru rai personau wrth law, yn y gegin gefn fel petai, a allai ddod yn hyddysg mewn *leithyddiaeth Gymwysedig a Didacteg Iaith* ac a allai gyfarwyddo'n gyson ymarferol gan ganoli ar gyrsiau. Gallai canolfan felly roi cyfarwyddyd proffesiynol ac arwain ymchwil yn y maes hwn. Ni ellir fforddio methu gyda'r broblem hon. Buwyd yn rhy barod i fodloni ar y gorau sy'n digwydd bod gennym ar y pryd ac ar ymchwil anymarferol. Dylai'r swyddogion newydd eu hunain fod yn brofiadol o gynllunio cwrs a'i gyflwyno, i lawr ar y ffâs, ac wedi'u hyfforddi o bosib mewn Adran leithyddiaeth gymwysedig o safon gydwladol. Dylent fod yn gyfarwydd â'r sector gwirfoddol. Dyna ddelfryd i weithio tuag ato. Dylai fod gennym hefyd gyfnodolyn safonol academaidd sy'n cyhoeddi gwaith ymarferol, ac ysbrydoli yn y maes. Ni wn am yr un cyfnodolyn ar hyn o bryd lle y gellir ymdrin ag adferiad ymarferol a phroffesiynol yr Iaith, na thrafod ei hadeiladwaith o safbwynt trefnus difrif.

Yr ydym yn dal yn y meddwl pwyllgorol amatur o hyd, ac y mae'n bryd inni ddifrifoli'n ddwys.

Cafwyd yng Nghymru gyfresi o athrawon, tiwtoriaid, a chyflwynwyr cyrsiau gwir ddawnus ac ymroddedig. Buwyd yn aberthol o ddyfal. Eto, ni roddwyd digon o sylw gwir broffesiynol a dwfn hyfforddedig i gynllunio'n ddigon proffesiynol eu defnyddiau. Ac felly, ni allesid gwella'n ymarferol y cyrsiau i'r athrawon hynny gan olrhain y gwelliannau'n systematig ar gynnydd o gwrs i gwrs newydd. Cafwyd tafodieithgwyr a gramadegwyr pur a hyfforddedig yn y Brifysgol ar un cyfnod. Ond diflannodd llawer o'r rheina ac y mae angen hyfforddiant ymrwymedig pur wahanol ac ymarferol yn awr mewn didacteg genedlaethol ymarferol ar y ffâs, pobl sy'n ymwneud ag iaith yr adfywiad.

Ystyr hynny yw canolfan lle y ceir cefndir o wybodaeth am didacteg iaith ar raddfa ryngwladol ynghyd ag ieithyddiaeth gymwysedig yn y dosbarth.

Mae angen arolwg mwy ymarferol bellach o'r diriogaeth oll a'i pharmedrau a'i chydlyniad, mewn gramadeg, geirfa, a dulliau dysgu. *Ac yn y pontio ymddiddanol*, y cynorthwywyr gwirfoddol. Ar y ffâs ei hun, mae angen ymholi'n gyfundrefnus beth yw cyfanswm y materion sy'n berthnasol i ddysgwyr. Un peth sy'n fwlch, felly, yw 'Pawb'. **Ac yna'r gostyngedd rwydd i sylwi ar lynder angen trefn yn y cyrsiau ac yn y gwirfoddol.** Wedyn, gellir ynysu problemau, penodoli'r strwythurau dechreuol a chanlynol (a chyferbyniol efallai), penderfynu'r cyd-destun sefyllfaol neu ffwythiannol sy'n addas i'r strwythur a'r strwythur, cymhwyso'r fethodoleg holi ac ateb i'r strwythur a'r eirfa dan sylw yn ymarferol yn y cyrsiau, ac ymgynghori â'r model ymarferol. Ond cyn hynny, mae angen amlinelliad syml o rywbeth mor sylfaenol â Chyfundrefn y Ferf, dyweder. Ac ni chafwyd un gyflawn tan yn ddiweddar (meddyliar), ac nid yw honno'n hysbys i athrawon. Dyna'n sefyllfa wryfol ni yn y Gymraeg. Yn yr un modd, yn fwy cynhwysfawr, y mae angen ateb yn ddigonol – yng ngolwg y 'Pawb' – y rhan sydd yn y Strwythur i 'Fethodoleg Holi ac Ateb' fel y dull *par excellence* i bontio, ac ymlaen i'r dosbarthiadau yn hyfforddedig i 'Ymddiddan Rhydd'. Ni ddylid cymryd dim oll o hyn yn ganiataol. Yr ydym ar waelod y grisiau o hyd.



Gwir fod yna fwhwman cyson drwy'r canrifoedd ym maes dysgu iaith – rhwng pegynau dysgu gramadeg *ac* ymarfer, rhwng strwythurau *a* defnydd llafar. Ond yng nghyfnodau aur didacteg iaith yn rhyngwladol, fe gafodd rhyw fath o 'Ddysgu Cyfansawdd' ei dderbyn fwyfwy sy'n cyd-gynnwys pob dim yn ôl trefn, y ddwy wedd gyda'i gilydd yn gydlynol. Wrth edrych yn ôl dros y canrifoedd hynny bu tuedd hefyd tuag at gydnabod cyffredinol yr angen i *fod yn gynhwysfawr*. A dyna gasgliad cyffredinol cewri megis Quintilian, Erasmus, Comenius, Herbart, Gouin, Palmer a Mackey ar hyd y canrifoedd. Erbyn hyn yng Nghymru, tyfodd y farn fwyfwy o blaid y norm hwn (ond yn bur annelwig) o anelu at drefn graddio ac ymarfer cyfathrebol gyda'i gilydd. Ni wnaethpwyd hyn er mwyn cyfaddawdu, ond am mai dwyochrog oedd natur sylfaenol iaith. Hynny yw, cafwyd fod dwy wedd ar ddysgu iaith, – ar y naill law dadansoddi a'r llall y mynegi. Mewn gwirionedd y maent ill dwy yn angenrheidiol i'w gilydd, megis yr ieithyddol a'r seicolegol, neu'r 'militarwyr' a'r 'hwiangerddwyr' o ran dull dysgu. Cafwyd cyfnod *unochrog* o 'ffwythiannau' yng Nghymru, ysywaeth. Ond bu'r cydlynu'n niwlog drybeilig, yn ysglyfaeth i amaturiaid. Ers chwedegau'r ugeinfed ganrif, drwy drugaredd, gogwyddodd cwrs-lunwyr Cymraeg ychydig, bron yn isymwybodol, tuag at *gyfuno* dwyochredd lefelau iaith (Tafod a Mynegiant) a'r cyflyrau (Caeth a Rhydd). Ond nis gwnaethpwyd ar seiliau cynllunio proffesiynol ymwybodol. Hiraethai Dysgu Cyfansawdd, mae'n wir, fwyfwy am yr anochel broffesiynol. Ond prin iawn yw'r weledigaeth drefnus gan yr awdurdodau oherwydd nad ydynt yn ddigon hyddysg yn gyntaf, nac yng nghanol y problemau ymarferol a'r gwaith gwirfoddol yn ail.

Yr hyn sy'n aros i ni bellach, ac nid ar chwarae bach y'i cyflwynir, yw:

(a) Caboli defnyddiau: eu trefnu o ran graddio; eu cysoni; a'u hymarferoli;

(b) a'u lledu a'u helaethu o ran defnydd cymwysedig yn addysg a bywyd hamddenol a swyddogaethol y dysgwyr (hynny yw, cymhwyso'r dysgu i swyddi'r bobl neu i'w diddanwch);

**a sicrhau (c), yng nghanol yr Holi a'r Ateb, – ynghyd â'r Ymddidan Rhydd, --- y fframwaith o 'Bawb'. Cymdeithasolir yr iaith drwy gymdeithasau.**

Nod yr ymdriniaeth hon yw manylu ychydig ar y rhain gan ddynodi'n enghreifftiol ym mha gyfeiriadau y mae angen ymchwilio a gwella cyrsiau a'n strategaeth i'r dyfodol.

Gadewch inni ystyried beth yw natur y broblem sy'n ein hwynebu.

Bob amser – cadwn mewn golwg 'beth yw nod Pawb?'... **Ymarfer â Chymraeg llafar, yn gyntaf, er mwyn ei hadfer ledled Cymru, gan gadw adeiladu ewyllys yn ein bryd, a chan feithrin grwpiau ar y cyd i ymarfer.** Ni wna gwamalu'r tro, na bod yn amwys. Pwy yw'r pawb a beth yw'r Gymraeg – o'r Ysgol Feithrin hyd Oedolion, gan *bontio* Cymry Cymraeg a Dysgwyr, yn fyddin gyflawn? Neb llai na ni.

Rhan o'r broblem o hyd, i'r dosbarth, yw'r cwestiwn 'Pa fath o Gymraeg'? Ai tafodiaith, ai Cymraeg Llafar Safonol? Ynteu Cymraeg Llyfr? Mae yna beth bwlch rhwng y naill fodel a'r llall, on'd oes? Ond cymerwn bellach mai'r peth naturiol, y peth cyflymaf efallai a'r olyniaeth arferol yw dechrau gyda deall: yna siarad iaith safonol naturiol. A symud ymlaen i ddarllen a sgrifennu yn y drefn honno. Gwedd yw hyn hefyd ar y pontio a'r cydlynu. Dyma'r pontio cyntaf rhwng dysgwyr a'r Cymry Cymraeg.

Ystyriwn yn gyntaf felly Gymraeg Llafar Safonol. Fel ym mhob iaith fyw, ceir tafodieithoedd pert yn y Gymraeg – a'u pleidwyr selog; ond fel yn y rhan fwyaf o ieithoedd Ewropeaidd, ceir iaith lafar safonol hefyd. Bydd yr iaith lafar safonol honno yn naturiol, bydd yn ddealladwy ym mhobman, ac er bod cryn amrywiadau lleol y mae llawer o bobl yn ei defnyddio megis tafodiaith rugl, heb feddwl am y peth. Ceisiwn drafod rhai o'r problemau sydd ynglŷn â hynny ymhellach ymlaen. Ond dyna fydd mewn golwg gennym ni.

\*

\*

\*

Ar ôl trafodaeth estynedig ar y symudiad i ricriwtio cynorthwywyr i'r dysgwyr ymddiddan, cawn ofyn cwestiwn mwy technegol. Nid cwestiwn yw y dylai'r awdurdodau ei gymryd yn ysgafn nac yn amherthnasol dechnegol. Pa **ddull** a gymerwn ni i gyflwyno'r iaith? 'Gadawn y broblem hon i'r ychydig,' meddir... Mae'n bryd peidio.

Ceir llawer o ddulliau gwahanol, wrth gwrs. Ond gan mai drwy ddull llafar y symudwn ninnau ymlaen orau ac yn fwyaf naturiol, a chan ein bod am i ddysgwyr eu hunain ddefnyddio'r iaith yn ymarferol mor fuan ag sy'n bosibl, ystyriwn mai **Dull Holi**

**ac Ateb** yw'r un sylfaenol cynnar a chanolog. Dyna'r dull gorau i esgor yn naturiol ar sgysio rhydd yn y pen draw. Dyma'r bont felly rhwng y Symudiad Uno Pawb a'r Symudiad i Wella'r Offer. Mabwysiadwn y dull hwnnw'n sylfaenol yn y drafodaeth hon yn benodol er mwyn dewis un dull enghreifftiol ymarferol. Bid a fo am ddulliau eraill, mae sefydlu medr holi ac ateb cwestiwn yn procio'r weithred o siarad ac yn sylfaen wedyn i ymddiddan. Ac yn y myfyrdod hwn, yr ydym am anelu'n weddol unplyg drwy **Holi ac Ateb** tuag at Ymddiddan Rhydd. Dyma'r ffordd tua'r Pawb.

Ceisiwn drafod y problemau didactig neu'n hytrach 'y materion sy'n codi' yn eu tro. Ond, myfyriwn ynghylch yr un broblem gyffredinol sylfaenol: sut y gallwn gracio problem Adfer Iaith o gam i gam o'r dechrau drwy ddilyn un llwybr sy'n ymarferol?

Dyma drefn fras i'n myfyrdod yn ail adran y llyfryn hwn:

**A. Rhagymadrodd i arolygu'r sefyllfa: –**

**B. 1. Model Iaith Lafar Safonol, Ystwyth ond Cyson (ac Ysgrifenedig!).**

**2. Model Graddio Strwythurau (Model graddio brawddegau. Arolygu model o gyfundrefn y Ferf yn arbennig).**

**3. Graddio Geirfa.**

---

**C. 4. Model Holi ac Ateb (gan ddechrau yn y dosbarth ar gyfer y Pawb wedyn).**

**5. Model Ymarferion.**

---

**CH. 6. Trafodaeth ar Seiliau Sefydlu Grwpiau Adfer i bawb.**

**7. Ymchwilio.**

Ni byddwn yn cyflwyno cwrs, sut bynnag. Mae ffordd bell i fynd cyn gwneud hynny'n foddhaol. Am y tro, bydd rhaid bodloni ar yr hyn sydd gennym. Ni fwriedir y sylwadaeth hon ar gyfer y Gweinidog Treftadaeth yn unig nac ar gyfer y Dysgwyr eu hunain yn uniongyrchol. Dadl agored yw'r cyfan. Arolwg o'r maes argyfyngus. Fe'i bwriedir ar gyfer pobl gyfrifol arbenigol yn y gwaith o ddysgu ar y naill law. Ond fe'i

bwriedir ar gyfer siaradwyr cyffredin cymharol ddarllengar hefyd ar hyn o bryd. Yn benodol, yn gyntaf, mae'n wir, ar gyfer hierarci (boed yn Weinidog yn y Cynulliad, yn Fwrdd yr Iaith, yn Gynllunwyr Cyrsiâu, yn Ddarlithwyr yn y maes, yn Drefnyddion neu'n Diwtoriaid, yn Arholwyr ac yn Arolygwyr): cefndir yw i athrawon cydwybodol hefyd. Ond wedyn ar gyfer aelodau darllengar mewn grwpiau pontio, pobl o bob gradd. Y gobaith wrth anelu'n uchel felly yw dangos pam ac ym mha ffordd y mae modd ateb mawr angen yng Nghymru, a sicrhau dealltwriaeth pam y dylid cael arbenigwr neu arbenigwyr i'n harwain *wedi'u haddysgu'n briodol* sy'n meddu ar gefndir ymchwil difrif a phrofiad yn y dosbarth (mewn gwahanol fathau o gyrsiau), ac sydd hefyd yn paratoi cyrsiau graddedig ymddiddanol. Nid cymdeithasegwyr ac nid gwleidyddion yw'r rhai allweddol, er pwysiced yw eu procio. Nid ymchwilwyr mewn problemau amhosibl chwaith. Holwn beth yw'r gwaith sylfaenol angenrheidiol? Ac ynghlwm wrth hynny ceisir holi sut y symudir tuag at fesur o undod cydweithredol ymysg y rhai sy'n ymhel yn broffesiynol â'r gwaith ymarferol pwysig hwn. Sut y clymir y graddio wrth ffrwythlondeb yr ymarferion?

Arolwg yw hyn felly o 'fodel polisi dysgu' ar gyfer sawl math o berson sydd oll ar y ffâs. Yn gyntaf, bydd yr Arbenigwr yn y cefndir yn astudio graddio iaith a dulliau cyflwyno; bydd yn paratoi dadansoddi strwythuredig ieithyddol, bydd yn casglu ac yn dadansoddi ymarferion, ac yn gwneud hyn oll yng ngoleuni dosbarth. Bydd yn ymgynghori â thiworiaid. Wedyn, bydd yn rhoi canllawiau, felly i'r sawl ar y ffâs sy'n llunio cwrs safonol. Mae'r nodiadau hyn yn bwrw golwg ar draws y camre olynol a threfnus sylfaenol. Ac mae'r adeiladwaith cymeradwy yn gyfryw o'r herwydd fel y bo pob athro ysgol yn ymwybod â bricsen ar fricsen, y naill ran yn dibynnu ar y llall, honno yn arwain at un arall. Gydag ymwybod felly, bydd yn sylweddoli beth sydd i'w feithrin gan diwtor yn olynol.

**Wedyn, y daw'r Pawb arall. O'r dosbarth i'r gymuned. Y camu anorfod.** O hyd ar y ffâs. Nid yw'r gwaith yn orffenedig. **Rhaid i raglen orffenedig sicrhau'n drefniadol y trosglwyddo o'r dysgu i'r defnyddio.** Rhaid datblygu techneg drefnus i sefydlu grwpiau gwirfoddol.

Trafodir y gwahanol ystyriaethau anochel a geir wrth baratoi cwrs proffesiynol er mwyn cael trafodaeth a all arwain at sefydlogrwydd cymharol yn drefniadol ymarferol wedyn.

Trafodir hefyd senario y cefnogwyr gwirfoddol.

Beth yw'r problemau? A beth yw'r dadleuon ynglŷn â threfn mewn cwrs aeddfed? Mae'r dulliau mor bwysig â'r graddio.

Ambell waith, gofyn rhai cynghorwyr am y 'dull naturiol' mewn cwrs ffwrdd â hi; siarad, bod mor unieithog ag sy'n bosibl. Clebran, a dysgu fel y gwna'r baban. Ond o efrydu iaith plant yn ddwys, sylweddolir bod y norm ei hun eisoes yn hynod o annisgwyl drefnus, a bod y plentyn ei hun yn dod o hyd i egwyddorion yn graddio iaith yn ystyrllon heb yn wybod. Ac yn sicr, nid y ffordd broffesiynol i wneud y gwaith yw crwydro'n ôl ac ymlaen o fewn iaith lle y ceir ffurfiau dieithr ac astrus cyn dod ar draws rhai haws efallai, ac mewn ymddiddan o dreiglâd i dreiglâd yn gymysglyd ffri, na tharo wrth gystrawennau prin ambell waith, gan ohirio rhai cyffredin a haws tan wedyn. Nid dyna sylfeini iaith. Rhaid i'r graddio briodi'r dulliau.

Felly, ni bydd lle i'r grwpiau pontio nes bod lefel o holi ac ateb wedi'i sefydlu. Ni ddylid brysio o'r dosbarth i'r gymuned, er mai dyna'r nod, beth bynnag fydd pwysau gwleidyddion dibrofiad.

Y gwir yw, am lawer o flynyddoedd, yn rhy aml, synnwyr y bawd a gafwyd yng Nghymru wrth lunio cyrsiau, gydag ymdrechion glew i dorri'r cylch seithug. Ac nid oedd esboniad o blaid unrhyw ddull strwythurol gofalus, sy'n pwyso a mesur, a chymhwyso natur y strwythurau cydlynol sy'n clymu'r iaith yn undod, tan yn ddiweddar iawn. Mewn gwirionedd, does dim *un* 'dull strwythurol'. Ceir wrth gwrs, iaith sydd eisoes yn ei bodolaeth wedi'i strwythuro: nid ni sy'n strwythuro'r iaith. Gellir deall pa hierarci o strwythurau sydd eisoes yn yr iaith, a'u hyfforddi hwy; ac y mae hynny'n hanfodol. Cafwyd eisoes rai dadansoddiadau defnyddiol a gwerthfawr gan ysgolheigion, yn wir, ers canrifoedd. Mae'r meddwl strwythurol yn Ewrob ei hun yn mynd yn ôl dros filoedd o flynyddoedd. Ond mae angen cam mawr pellach.

O ran polisi i'r gyfrol hon, yn gyntaf ym mhob adran cawn archwilio un broblem benodol yn ei thro gan nodi'n benodol beth yw'r gyfundrefn dan sylw. Yna, amlinellir cynghorion sy'n berthnasol wrth ymarfer â'r defnydd hwnnw mewn cwrs.

Bwriadaf i'r gyfrol hon fod yn Gyfrol 2 i *Ddysgu Cyfansawdd*. Soniais am fy ngobaith ar dud. 185 yn y gyfrol theoretig honno am gyfres o gyfrolau i fod yn gefn ac yn gyfarwyddyd i'r athrawon a'r cwrs-lunwyr a'r pontwyr Cymraeg. Cyfrolau fyddent i ddysgu 'gwybodaeth', cyfrwng i gyflwyno ffeithiau newydd am feysydd gwahanol mewn iaith gyraeddadwy, fel y ddi'r iaith yn fwy na meistroli 'geiriau' ond yn fodd i feddwl drwyddi am faterion newydd – pynciau cyfoes, casglu syniadau, adnabod y wlad, ymarferion diddanwch, chwaraeon, caneuon, posau, dramodigau byrion. Byddai'r fath baratoadau'n gallu bod yn sylfaen i ymgom i'r pontwyr – y grwpiau o oedolion, yn ddysgwyr ac yn siaradwyr rhugl – sy'n cyfarfod i ymarfer. Gobeithiwn i y buasai rhywun iau yn cydio yn y rhaglen honno a amlinellais yn y fan honno. Ond tueddir o hyd (yn ddigon dealladwy) i aros ar lefel dosbarthiadau a chysiau parod (ar sail profiad gweddol amatur) a'u cymhwyso gyda synnwyr bawd heb sylweddoli egwyddorion graddio. Mae'r cynllunio technegol o hyd, a'r difrifoldeb ynghylch llu o grwpiau ymddiddan, ar goll. Ac felly'r ymarferion lliwgar effeithiol. Galwad yw hon, felly, am Atgyfodi Iaith sy'n gofyn llawer mwy o ddifrif na'r ynysoedd gobaith hynny.

Dwy wedd sydd i'r gyfrol hon: (1) Sefydlu grwpiau pontio rhwng Cymry Cymraeg a Dysgwyr ar raddfa uchelgeisiol; (2) Llymhau a phroffesiynoli cynnwys a ffurf y cysiau. Dau beth go amlwg yw'r rhain nas deallwyd neu a osgowyd. Fe'u pwysleisir fel na bydd y cyfnod nesaf yn Hanes Cymru yn edrych yn ôl ac yn gofyn 'Pam na wnaethom ni yn y cyfnod olaf hwnnw lenwi'r bwlch syml hwnnw? Pam y methwyd yn yr amlwg?

**PONT 1**

\*

EIN NERTH YW PONTIO PAWB

## 1. IAITH PAWB, A DIFFINIO 'PAWB'

Yn baradocsaidd iawn, dechreua'r ymdriniaeth hon yn y diwedd. Fe ddechreua yn y grwpiau adfer, y grwpiau ymgom gwirfoddol lle y digwydd y pontio aeddfed rhwng dysgwyr sy'n meddu ar beth profiad a gwybodaeth ar y naill law a'r ymddiddanwyr rhugl ar y llall. Y rheswm am ddechrau yn y diwedd, fel yna, yw mai felly y sylweddolir pwy yw'r 'Pawb' yn *Iaith Pawb*. Mae angen ystyried diffiniad a swyddogaeth y Pawb. A'r nod. Gwaith i Bawb yw hyn. Felly y ceir y darlun cyflawn o'r hyn sy'n arwyddocaol yn yr Adfer. Y perygl yw cymysgu'r ymwybod o Fudiad Iaith (a'r ymgyrchu am hawliau a phethau da felly a gafwyd gynt) a dyfnder gwahanol Adfer.

Nid gwaith gwleidyddol yn gyntaf yw hyn. Ond gwaith i bawb, yn gyfrifol.

Ers 1962 daeth yn eglurach eglurach mai *amhleidiol wleidyddol* oedd Mater yr Iaith yng Nghymru. Os oeddem yn mynd i adennill tiriogaeth i'r iaith, buasai'n rhaid i'r symudiad fod yn drawstoriad llawer mwy catholig. Cydweithrediad fyddai gan garedigion, heb ei wneud mwyach yn gyfyngedig i un blaid – na chwaith, fel yr ymddengys mwyach, i un mudiad. Dyna un wedd ar y 'Pawb'. Heb y Pawb hwn, ni fydd yna ddyfodol i'r iaith. Ac mae angen i bawb o garedigion yr iaith sylweddoli maint y dasg hyd waelod ein bod.

**Nid drwg i bawb yw dechrau yn y diwedd, gyda'r gymuned. Ac yn wir, yn yr 'ardaloedd Cymraeg traddodiadol' y ceir y prawf. Dyma'r lle y mae'r argyfwng pennaf.**

Daeth hefyd yn eglurach fod angen bod yn llawer mwy uchelgeisiol. Aeth y colledion niferus yn yr hen gadarnleoedd yn enbyd. Buont yn diflannu'n gyflym, a'r arweiniad ieithyddol yn pasio'n ôl i'r dwyrain poblog yn bennaf, ynghyd â phocedi trefol bach yn y gorllewin. Ofnir bod yr hen symudiad gan y sefydliad arweiniol i'w 'hadfer' drwy brotest a 'chadw diwylliannol' wedi osgoi anelu at y pethau pwysig. **Sefydlwyd yn y ganrif ddiwethaf ryw fath o uniongrededd protestiol. Y diwylliant protest. Nid protest, ond y ddibyniaeth ar arfer protest. Rhoddwyd gormod o bwyslais ar statws, ar iaith swyddogol, ac ar rym deddf. Heblaw hynny, tybiwyd y byddai'r cynnydd enbyd o araf mewn addysg yn ddigonol.**



Bu gormod o siarad gan wleidyddion fod brwydr yr iaith drosodd.

Aeth y sefyllfa sut bynnag mor argyfyngus fel y sylweddolwyd na ellid drifftio ymlaen yn yr un hen ffordd ddeddfol hon a chwarae trefnu dosbarthiadau, chwarae eisteddfodau a chyngherddau, a sianel teledu, heb weithredu yn ôl patrwm cwbl wahanol a chyfun. Mae angen meddylfryd newydd am y lle sydd i ehangder ac ymarferoldeb gweithredol **ynghlwm wrth Adennill**. Mae'r sefyllfa mor ddwys, ac ymateb y Sefydliad protestiol ac arall mor annigonol. Ac y mae angen meddwl o'r sylfeini am yr hyn sy'n angenrheidiol er y gall hynny fod yn ddieithr. Yn sicr, bydd angen amlinellu fframwaith pwerus a llydan ymhlith pobl go iawn. Ac wrth inni gael ein gwasgu llai lai yn y manau Cymraeg sydd ar ôl, ymddengys fod y dewis lwybr yn cael ei amlygu'n fwyfwy anochel. Rhaid rhoi sylw i gyswllt y Popeth, y Pawb, a'r Iaith.

Ni ddaw gwaredigaeth mwyach heb godi llawer iawn mwy o wirfoddolwyr, a chydlynu'r Pawb. Ni ddaw heb fod yna symudiad heintus dwysach. Ac ni ddaw heb ei droi'n broffesiynol ac yn atyniadol. Ond gwirfoddolwyr! Beth gall pobl gyffredin ei wneud? Sut y gellid gwneud y fath beth mewn amgylchfyd sgeptig, prysur, lle y mae gorffwys mewn diddanwch poblogaidd yn rheoli'r oriau sbâr?

Mae angen pwyslais ar flaenoriaethau newydd.

Mae angen yn gyntaf i'r awdurdodau eu hunain sylweddoli i'r byw nad allanolion (statws ayb.) yw'r ateb, er pwysiced y bônt yn gefndirol. Er bod yna wella beunyddiol yn yr adnoddau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mae twf y sector hwnnw hefyd yn dal yn beryglus o araf. Ac yn y diwedd, nid yw'n dylanwadu'n ymarferol yn y gymdeithas, ond yn bytiog. Rhaid wynebu'r anghenfil hwnnw felly – y Gymuned.

Golyga hynny atrefnu meddwl yr Adfywiad Iaith. Heb fforffedu'r camre breision a wnaethpwyd, yn arbennig ym Maes Addysg Statudol (hyd at fan arbennig), sy'n dal yn lleiafrifol, awgrymir ailstrwythuro'r disgwyliadau. Bydd 'dweud' hyn yn rhwydd, efallai. Ond fe'i 'dwedwn', er hynny, cyn ystyried ym mha ffordd ymarferol y cyflwynir hyn oll mewn pedwar cyfeiriad enghreifftiol.

*Yn gyntaf*, mae angen meithrin ymhellach, cyn belled ag y gallwn ni, yn fedrus hydeiml, y meddwl a'r agwedd 'Wirfoddol'. Nid ydym yn gwneud ein gorau ynglŷn â hyn.

*Yn ail*, ceisir proffesiynoli'r 'Paratoad' a'r 'Cyflwyniad' o gyrsiau iaith, i oedolion megis i blant nad ydynt yn derbyn addysg gyfrwng y Gymraeg, a hynny yn ôl graddio'r iaith.

*Yn drydydd*, mae angen sôn lawer mwy am swyddogaeth y Cymry Cymraeg yn yr Adennill. Dyma'r grym coll.

*Yn bedwerydd*, ceisir cyflwyno'r 'Awydd' i dderbyn addysg Gymraeg i blant, ac i oedolion drwy wella Cysylltiadau Cyhoeddus. Gwneler drwy sefydlu yng nghefn gwlad ddiwydiant a gwyliau iaith i oedolion i aros mewn mannau atyniadol. Ymlaen llaw yn y cefndir gellir paratoi defnyddiau wedi strwythuro'r holl bwyntiau cyswllt i hwyluso'r iaith yn gyffredin rhwng dysgwyr a Chymry Cymraeg. Golyga hyn amlhau defnyddiau (o safon) ynghylch Adennill – ar gyfer y we, teledu, radio, cyfrifiadur (DVD), a darllen, ynghyd â gwyliau a chyrsgiau – a'r cwbl yn dathlu llwyddiant a phresenoldeb dysgwyr. Dylid sicrhau yn elfen, mewn polisi, arddangos hyfrydwch yr iaith a'i defnydd cyfoes o'i thraddodiadau a'i llenyddiaeth (nid yn unig yr ysgafn, eithr yn sylweddol hefyd), ac eto ym maes diddanwch. Mae'r bedwaredd wedd hon yn gysylltiedig â'r 'Cadw' y dangosir ei derfynau hefyd yn yr arolwg hwn. Unig ystyr gall y 'Cadw' yn y Gymraeg sydd ohoni yw creu bob amser atyniad diwylliannol sy'n hanfodol i adennill, a symud i'r dyfodol. Nid yn ysgafn y dylid ystyried rhaglen ddiddanus eang iawn o weithgareddau cymdeithasol i ddathlu'r Adennill. Galwaf hyn yn sector cydlynol lle y mae angen myfyrdod a chynllunio gofalus.

Ceisir manylu ar hyn, sut bynnag, yn yr adeiladwaith bras o gynllun crwn i'r dyfodol. A cheisir trafod rhai o'r problemau yn weddol fanwl a geir wrth adeiladu hyn oll. Eisoes mae rhai o'r elfennau sylfaenol yn eu lle, a rhai yn gweithio'n rhagorol. Gellid treulio amser i ganmol llawer. A gellid treulio gofod i gydnabod llwyddiant. Ond tra bôm yn gwneud peth felly, mae Rhufain yn llosgi.

Y gwir yw bod angen byddin *fwy*, sy'n ymwybodol o angen gweithredu i adfywio'n uniongyrchol mewn paramedrau eang. A'r angen a esgeuluswyd hyd yn hyn yw'r iaithgarwyr pennaf. Dyma'r bobl a all gyfannu'r genedl. Hwyl yw'r alltudion o'r briffordd. Gallwn gymryd yn ganiataol fod yna symudiad eisoes tuag at undod o du'r Dysgwyr. Maent hwy'n drefnedig. Mae cnewyllyn gweddol o'r rhain eisoes yn bod. Cafwyd hedyn go fawr ar gyfer dechrau. Ond faint o groeso gweithredol neu ymarferol a threfnedig a gânt o'r tu arall, gan siaradwyr rhugl? A oes posibil adeiladu ynghanol pobl felly, sy fel petaent yn ymneilltuo hyd yn hyn? Onid felly y ceir newid seicoleg ein pobl, a gwella agweddau mewn cyfeiriad ymarferol ymrwymedig? Nis ceir ar chwarae bach, rwy'n ofni, nac o bell.

\*

\*

\*

O safbwynt Cymru, roedd darlith Saunders Lewis ar Dynged yr Iaith 1962 yn drobwynt yn yr ugeinfed ganrif. Roedd yn floedd i ddeffro pobl. Cynigiai'r hyn a ystyriai ef fel llwybr ymlaen. Fe'n deffrowyd, do.

Ond dyma uchafbwynt annigonol a chasgliad ei ddarlith: 'Pe ceid unrhyw fath o hunan-lywodraeth i Gymru cyn arddel ac arfer yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yn holl weinyddiad yr awdurdodau lleol a gweledol yn y rhanbarthau Cymraeg o'n gwlad, ni cheid mohoni'n iaith swyddogol o gwbl, a byddai tranc yr iaith yn gynt nag y bydd ei thranc hi dan Lywodraeth Loegr.'

Er iddo awgrymu gweithrediadau ymarferol ynghylch statws ac 'iaith swyddogol', gellid hawlio yn deg ac yn bwylllog fod yr awgrymiadau hynny yn siom ac yn gyfan gwbl annigonol. Fe'i dilynwyd ef gan ddwy genhedlaeth. Yr oedd yn sylfaenol ddiffygiol ei uchelgais – 'iaith swyddogol ...rhanbarthau Cymraeg.' Ni buasai byth fodd *cadw'r* iaith ar sail y math o weledigaeth anraddedig ac allanol gyhoeddus a gynigiai Saunders Lewis yn y fan yna, heb sôn am *gynyddu'i* chylchrediad. Nid oedd ond yn cyffwrdd yn fân fân â'r ymylon ac â materion eilradd. Yr oedd yr iaith yn ymddryllio ymhobman ar raddfa gatastroffig. Ymwneud ag *amgylchfyd* ieithyddol yr oedd, a hynny'n unig, megis y gwnaethpwyd yn Iwerddon. Cefndirol oedd y materion hynny y gwrthdystiai ef ynglŷn â hwy. Er pwysiced yw'r amgylchfyd, nid oedd arolwg Saunders

Lewis o galon y sefyllfa gyflawn ieithyddol yn ddigonol. Beth bynnag a honnwyd wedyn, apeliai at Plaid benodol. Apeliai at unigolion protestiol. Ceisiai hefyd drosglwyddo'r cyfrifoldeb yn y pen draw i eraill. **Nid oedd rhaid i ni wneud dim oll o'r adfer ein hun, ond protestio i'r awdurdodau a'r llywodraeth, er mwyn i bobl eraill ei siapio hi.**

Collwyd blynyddoedd o gyfle oherwydd y ffordd y dilynwyd yr arweiniad annigonol hwnnw.

Ar sail y ddarlith bwysig honno sylfaenwyd Mudiad glew Cymdeithas yr Iaith. Nid dyna fwriad Saunders Lewis. Bwriadwyd neges i newid Plaid Cymru. Ond yn lle hynny, cafodd wrthdystio gan yr ifainc yn erbyn arwyddion ffyrdd Saesneg, yn erbyn diffyg deddf gan yr awdurdodau, yn erbyn diffyg statws cyfreithiol, yn erbyn diffyg ffurflenni, trwyddedau, yn erbyn diffyg sianel deledu yn Gymraeg, ac yn y blaen, drwy garchariadau aberthol a dramatig. Popeth heb fod i lawr ar y ffâs, lle y buasai amlhau'r siaradwyr newydd. Caed rhestr fer anrhydeddus o arwyr ifainc dewr. Wedyn, am gyfnod ymhelaethent yn y maes yn rhestr hir, ond gosodent bopeth, fel y gwnâi Saunders Lewis ei hun, i fod yn gyfrifoldeb ar *bobl eraill*.

Cafwyd cryn dipyn o fuddugoliaeth. A cholled enbyd o flynyddoedd gwerthfawr.

Cafwyd yng Nghymdeithas yr Iaith, yn sicr, floedd mwy manwl a mwy effeithiol nag eiddo Saunders Lewis. Bloedd a droes yn weithred negyddol er mwyn cadarnhau. Rhoesant sbonc arbennig o ymarferol mewn un ymagwedd tuag at yr iaith. Ond nid oedd a wnelo hyn eto fawr â'r canol, nac â *chynyddu* meistrolaeth gan y bobl, nac â grym yr iaith, yn uniongyrchol, o leiaf ar wefusau newydd odid neb. Ni chyfeiriwyd y brwdfrydigion tuag at adennill ymarferol eu hunain gyda'r dysgwyr. Bu'n ymgyrch unochrog, heb unrhyw rith o'r Pawb. Chwalwyd egnïon mewn dihangfa. Ond yn sicr, caffaeliad seicolegol fu yn wir. Eithr nid oedd eto YMRWYMIAD PERSONOL I ADENNILL ar ran y Cymry Cymraeg. 'Cadw diwylliannol' (heblaw protestio) oedd swydd y Cymro Cymraeg brwd o hyd i fod. Cydymffurfiai fel arfer â'r '*cadw* sy'n arwain at gilio'. Ac ymlaen ac ymlaen. Mae'n rhaid diolch wrth gwrs i Gymdeithas yr Iaith am roi rhuddin seicolegol hynod arwyddocaol a phrin i Gymru yr adeg honno.

Gwnaethant hynny yn hwyliog iach, gyda chân a difrifoldeb yn eu calonnau, gan godi hyder ymhlith y Cymry gwasaiidd. A bu aberth llawer ohonynt yn y carchardai yn ysbrydoliaeth i lu. Ond cadw o fewn cyd-destun 'swyddogol' oedd fframwaith arferiadol y Meddwl Cymraeg hwn o hyd. A chyfeirid y symudiad tuag at y caeedig.

Doent i'w huchafbwynt mewn deddf. Chwilient wedyn ddeddf arall. A deddf. Deddfwyd heb sylweddoli annigonolrwydd deddf i wneud y gwaith.

Trafferth gwrthdystio, sut bynnag (boed ar lafar fel SL yn ei ddarlith neu drwy lafur fel Cymdeithas yr Iaith wedyn), yw nad yw'n meithrin safbwynt ennill tir i'r iaith yn effeithiol ffrwythlon yn naturiol. A heblaw hynny, gellid meddwl mai'r Cymry gwannaf, y Sefydliad cysurus a diplomatig a di-wneud bondigrybwyll, fu'r gwrthrych i bob protest ganddynt. Dyna'r union bobl y disgwylid iddynt wneud y gwaith ar ein rhan, drueiniaid bach. Nid oedd a fynnai'r Cymry brwd a gweithredol eu hunain â gwneud odid ddim uniongyrchol bwrpasol ac adeiladol o blaid *adennill* yr iaith. Nid oedd yna ymrwymiad uniongyrchol i fod yng nghanol yr atgyfodi. Nid oedd yna ddeinameg bersonol i wasanaethu ar y ffâs. Cadw oedd y nod, mewn Geto. Ni sefydlwyd osgo adfywiol ymarferol. Yn erbyn y Cynghorau Sir a'r llywodraeth yn bennaf yr oedd pob ymdrech i fod. Nhw oedd ar fai. A thrwy brotest, i raddau helaeth, y daethpwyd i lunio cenedl a fyddai'n 'trosglwyddo' iddyn 'nhw'. Hen glwyf Cymreig.

Cawsom yr arweiniad gwleidyddol a haeddwyd.

Nid wyf am fychanu am funud na neges Saunders Lewis na chenadwri fanylach Cymdeithas yr Iaith. Ond aeth llawer o ddegawdau heibio heb i'r Cymry brwd yn gyffredinol wneud fawr ar raddfa ddylanwadol yn gadarnhaol uniongyrchol onid ym maes protestio. Anodd yw cynnal stŵr newyddiadurol yn barhaol, heb beri lludded. Mae'n glod i ffyddloniaid glew mewn dyddiau gwan. Caffaeliad fu, wrth gwrs, geisio fel hyn gael 'Amgylchfyd' sgerbydol Gymraeg ar gyfer yr iaith. Ond tybed oni ddaeth yn bryd bellach ymorol hefyd yn uniongyrchol hyd yn oed ymhlith myfyrwyr i sicrhau bywyd mwy *adferol ddeinamig* hefyd — yn fwy amlwg nag o'r blaen — o fewn y Blaendir, sef yn yr *adfer drwy ddysgu siarad, bawb â'i gilydd ledled Cymru, yn ddysgwyr ac yn gynorthwywyr yn strwythuredig, gan odro o symudiad felly bob*

*heulwen a hwyl?* A hynny sy'n dod yn gyntaf o ran ffurf, yn ymarferol ac yn seicolegol. Yr adennill holistig. Y fframwaith newydd. A'r gweithredu adenillol dyfal-barhaol yn y symudiad hwn gan y Cymry Cymraeg yn anad neb.

Cafwyd bloedd wedi bloedd gynt wrth droi'r pwnc yn 'wleidyddol'. Ond ni welwyd y pwynt. Ceid llawer o elfennau rhamantaidd a newyddiadurol. Ond oherwydd trosglwyddo cyfrifoldeb yn ymarferol, lleihâ'r bloedd hwnnw i sibrydiaeth gyda'r blynyddoedd.

Yna, cafwyd rhywbeth a oedd ymhell o fod yn floedd, gellid meddwl... Taran o si.

Cyhoeddodd llywodraeth y Cynulliad, o bawb, adroddiad cryno 58 o dudalennau: *Iaith Pawb*, 2003. Adroddiad a oedd bron yn swil o gyfrinachol. Bûm yn chwilio am gopiâu mewn siopau, mewn llyfrgell, yn dawel dan y cerrig ar draethau Aberystwyth; ond methais â'u cael. Sgrifennais at y Cynulliad, a chael copi'n ôl yn rhad ac am ddim. Es ati heb frwdfrydedd i'w ddarllen. Nid oeddwn yn hyderus. Roeddwn wedi dilyn hynt y paratodau ynghynt yn y Wasg ac ar y cyfryngau teledu a radio, heb gael f'ysbrydoli i synied y caem yma fwy nag un arall o'r adroddiadau ystadegol ond go ddibrofiad ac aneffeithiol. Gwnaethant gân fawr ymlaen llaw ynghylch rhyw flwyddyn neu ddwy o 'ymchwil' wrth sgrifennu'r fath ddogfen. Gwyn ei fyd yr ymchwil na chymer ond dwy flynedd. A cheisiwn holi yn ddihyder pa fath o ymchwil oedd y swmp aruthr hwnnw. Ble yr hyfforddwyd *un* ymchwiliwr dyweder dros gyfnod sylweddol o flynyddoedd lawer gan y Bwrdd neu gan y Cynulliad i wybod am fanylion ymarferol rhyngwladol a thechnegol ***ddidactig*** y gwaith uniongyrchol sylfaenol o adfer iaith, heb sôn am y gweddau eraill? Ble y cafwyd trefniadau i hybu'r lle i'r Cymry Cymraeg yn hyn o ymgyrch. A astudiwyd methiant Iwerddon yn fanwl, gan sylwi ar orfodaeth yr iaith yn yr ysgolion, a'r Deddfu gorfodol annigonol, a'r ennill allanol cyhoeddus wedyn, ac yna'r cilio cosmetig cyson yn y bôn, a'r ysgolion. Y patrwm annigonol dwp a chwenychai Cymru. Pa gymwysterau ymarferol a gawsant mewn strwythuro adferiad? Pwy oedd eu harweinydd? Ble'r oedd y cyhoeddiadau yr oeddent wedi'u defnyddio yn arbennig ynghylch dulliau o adfer yr iaith yn ymarferol, *yn flaendirol* ? Ble oedd y sector gwirfoddol – beth oedd lle EWYLLYS yn hyn oll. Brys oedd y cwbl.

Eto, cefais fy siomi ar yr ochr orau. Cefais dipyn o syndod; efallai am nad oeddwn yn disgwyl digon.

A haedda'r Adroddiad feirniadaeth gyfeillgar a difrif.

Ar ôl darllen y ddogfen ar y pryd, ond chwap wedyn o'r diwedd, canfûm y gwaith ei hun a nodai fel pe bai'n dechrau o dan fy nhrwyn, sef y cyfuniad rhyfedd hwn o bolisi a gweithredu. Un peth yr wyf yn sicr ohono oedd ewyllys da Llywodraeth y Cynulliad. Roedd yna barodrwydd i wario mewn rhai sectorau allweddol, hyd yn oed o'r diwedd gydag oedolion. Ond sut oedd y 'Pawb' yn gallu bod yn rhan o hyn? Ai 'Adroddiad arall' fyddai hynny eto? Dyna gwestiwn mawr y byddai angen ei ystyried.

Pobl sy'n gwneud gwahaniaeth. A gweithredoedd lleol yn y tir. Nid llwyth o arian, er mor bwysig a gwerthfawr i hyrwyddo gwaith yw hynny. Nid dosbarthiadau prin gwasgareddig yn unig. Yn sicr, nid drwy adroddiadau chwaith; er bod *Iaith Pawb* yn gynllun sy'n amlinellu strategaeth eglur ac adnoddau i gyflawni'r nod (i raddau) o Gymru ddwyieithog. A fyddai'r swyddogion newydd yn ddigon uchelgeisiol yn eu **hymchwil**? Ac yn bwysicach, a fyddai'r Cymry brwd yn y gymdeithas yn cael offer strwythuredig i ymuno'n effeithiol? A threfniant profedig anodd. Medi'r miliynau yw'r dasg, yn llythrennol, credwch fi. A yw'r *Pawb* yma ar gael yn yr adennill? Ynteu a yw'r 'Cymry Cymraeg' unwaith eto'n gadael yr adennill anodd i'r dysgwyr?

Mae gennym swyddfeydd bellach, a swyddogion rif y gwllith yn ddiau i arolygu ac i lunio adroddiadau gwych ar lawer o fân bwyntiau, a hyd yn oed asesu'r anasesadwy. **Ond mae sefydlu grŵp lleol rheolaidd sy'n ddosbarth neu'n grŵp Cyd effeithiol a rheolaidd yn werth llond gwlad o adroddiadau diweithred. Dyma'r Pawb ar y ffâs. Ni cheisiwyd ricriwtio cynorthwywyr o du'r Cymry rhugl brwd a phoblogeiddio y sefydliad newydd hwn.** Ni chymerwyd pontio erioed o ddifrif. NID EDRYCHWYD AR Y BROBLEM FAWR. Ac y mae mynychu grwpiau felly, ie gan yr awdurdodau eu hunain, hyd yn oed yng nghefn gwlad, yn ddieithrbeth canolog.

Bu'r Cymry Cymraeg brwd, yr ymgyrchwyr, yn dawel.

Araf yw olwynion Llywodraeth. Ond gall un person gwirfoddol wneud rhywbeth ar unwaith. Yfory nesaf.

Gwelwyd sefydlu Canolfannau Iaith effeithiol i amlhau dosbarthiadau tan gamp i Oedolion. Cymer lawer o amser ac arian eto. Rhan o'r symudiad yw adeiladu seicoleg. Eto, o'r dechrau mae angen meddwl am y strwythur cyflawn. Y cyswllt pontiol â'r gymuned. Y defnyddio mewn grwpiau difyrru amrywiol. Rhan o'r pen draw fydd pwysu a llwyddo i gael gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru i *ddefnyddio'r* iaith Gymraeg yn effeithiol, ochr yn ochr â'r Saesneg, yn weledig ac yn glywedig. Cymer lawer mwy o amser eto nes bod pobl yn dechrau siarad am y fath beth. Adfer iaith! Gan y Cymry Cymraeg yn y Pawb! Ymddengys fod defnyddio'r iaith eisoes yn diffygio beth ymhlith Cymry Cymraeg y Cynulliad ei hun. Ac yn y sector *preifat*, nid oes yn draddodiadol fawr o le i barchu na diwylliant na sensitifrwydd ieithyddol y gymuned a wasanaethir. Ond fe lwyddodd Bwrdd yr Iaith yn anad neb, chwarae teg, i gyflawni llawer o gampau fel asiant i'r Llywodraeth, ond yn gyfyngedig enbyd ei weledigaeth, heb ystyried nac amgyffred y lle i'r Pawb. Erbyn hyn, fe lwyddodd y Canolfannau Iaith yn bendant o fewn cyfyngiadau traddodiadol. Hwyl yw'r goleuadau mwyaf addawol. Ond a oes yna ystyrian o ddifri yn y llwyni i wella?

A fyddwn rywbryd yn ystyried y Pawb? Cafwyd eisoes mewn man arall yn y Sector Addysg Statudol gadwyn o gynorthwywyr gwirfoddol unigol sy'n dod i mewn i'r ysgolion i hybu sgiliau a darllen unigolion. Yr hyn a ofynnir yw estyniad nid cwbl annhebyg ymhlith oedolion: cynhorthwy drwy gwmnïaeth: practis cyn ymuno â'r gymdeithas. Mae'r patrwm eisoes ar waith mewn un sector: mae angen i oedolion, un ac un, drefnu rhywbeth tebyg ynglŷn â'u dosbarthiadau hwythau.



## 2. 'GWIRFODDOL' — Y GAIR 'COLL'

Yr wyf wrthi'n ceisio trafod o'r newydd yr hyn a ystyriaf fel y ddogfen orau am ddyfodol yr Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd erioed.

Dogfen danddaearol yw. Ni chyrhaeddodd y siopau. Nid ymddangosodd yn Neg Uchaf y Cyngor Llyfrau, nac yn y Deg Isaf chwaith. Nid wyf yn cofio'r un adolygiad arwyddocaol amdani yn un man. Ond y mae ei 58 o dudalennau'n llawer pwysicach yn botensial na *Tynged yr Iaith* Saunders Lewis, er y gellid dadlau'n deg na buasai wedi ymddangos oni bai am y ddarlith nodedig honno.

Cynnyrch Llywodraeth y Cynulliad yw hon, sef *Iaith Pawb*, 2003. Cafwyd rhes o adroddiadau olynol iddi. Ei his-deitl yw 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru'. Mae'r agwedd mor iach: bellach, y mae'r gweithredu ym maes Cymraeg i Oedolion ar ei sail yn dechrau dod yn weledig amlwg o ddifri. Ond a yw'r meddwl yn ddigon miniog? A oes bylchau cyhyrog pwysig?

Dau enfawr, efallai.

Ateb yw'r ddogfen i fod i'r cwestiwn syml: 'Sut y mae mynd o A i Y?'

Medd yr Adroddiad am Y: *'Rydym am i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl [a chymeraf, yn ôl teitl y ddogfen, mai 'Pawb yng Nghymru' yw ystyr 'pobl'] ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a lle mae presenoldeb y ddwy iaith yn ffynhonnell amlwg a hygryw o falchder a chryfder i bob un ohonom.'* Dyna'r Nod ardderchog ac ymarferol.

Dyna Y. A ellid disgwyl Y arall sy'n bosibl? Beth yw A?

Nis nodir, ond ceir yr awgrym yn Y mai dyna yw A: 'Cymru sydd *heb* fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog, a lle *na* all pawb ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.'

Mae diffinio 'Pawb' yn fanylach ar y dechrau yn bwysig oherwydd y cymhlethu arferol bendramwnwgl o ofynion a gafwyd yn fuan y tu ôl i'r Adroddiad hwn maes o law. Bob amser, ceir 'agenda' gan y rhai sy'n ymateb i beth felly, fel sydd gan fyndriniaeth bresennol. Weithiau yn ddiwybodaeth, neu'n ddibrofiad. Yn y cefndir,

ceid rhai a osodai fath o gyflyru ar y cynnyrch. Gellir gwneud rhestr, yr amryfal elfennau di-drefn a allai garlamu i mewn i ddrysu'r darlun a'r anghenion, i dynnu'r llygaid oddi wrth ganol y briffordd, y grwpiau pwyso, y cwsmeriaid diderfyn, nawdd, grantiau, ffurflenni, arwyddion, cyfieithu, deddf, Coleg Ffederal, a'r rhestr siopa a fu ar gael yn A ym meddwl rhywrai. Gwell gennyf i ddweud yn syml felly. 'John Smith Lledrod, gynt o Gaerlŷr' sydd ar hyn o bryd o hyd heb fedru'r Gymraeg, ac yn aml heb ei hewyllysio. A 'Jane Smith Abergafenni, gynt o Abergafenni' sydd yn medru'r Gymraeg, ond yn gofyn 'Ble mae'r achlysur i'w defnyddio?'

Beth yw'r strwythur ymarferol a threfnus o sicrhau cynnydd dyweder mewn chwech ardal ddethol arbrolfol? Dyna a roddwyd inni gan y Canolfannau Iaith.

Pam yr wyf yn enwi'r rheini? Er mwyn i Strwythur yr Adroddiad hwn amlygu trefn amlycach a diffinio'r llwybr drwy'r amllderau. Canys er mwyn i John a Jane fynd o A i Y a llenwi'r bylchau *en route*, mae angen gwybod beth yw'r holl bwyntiau (a'u trefn) o A i Y, a sut y gellir cynnal Y ar ôl ei chyrraedd. Ar ôl i bob John a Jane yng Nghymru gyrraedd Y, a chael yr amgylchiadau priodol i gadw iaith swyddogol, aeddfed a gwâr wedyn, yna bydd priffordd y dasg drosodd. Sôn y mae'r Adroddiad wedi'r cwbl am 'Bawb'. A dyna'n gobaith. Mae cryn dipyn o diriogaeth Cymru ar gyfer rhai o'r rhieni, manau gwerthfawr yn denau'i phoblogaeth. A myrdd o anawsterau i Bawb.

Mae peryg i Ganolfannau Iaith oherwydd prinder tiwtoriaid feddwl am drefi, am ffurfioldeb dosbarth, ac am uchelgais isel. Mae peryg i'w dysgwyr feddwl am un llais ac acen gan athrawes, ac amgylchiadau dosbarth. Mae peryg iddynt deimlo bod yr ychydig a wneir, yn draddodiadol, yn ddigon. Ar gyfer yr ychydig, gan yr ychydig. Mae peryg iddynt beidio â rhoi blaenoriaeth fawr i'r Pontio. Mae peryg iddynt, oherwydd yr anawsterau, fod yn rhy isel eu huchelgais.

Mae peryg i Fentrau hwythau beidio â meddwl am ddolennu Dysgwyr i mewn i'r Siaradwyr rhugl mewn modd sensitif. Am y Pawb.

Gadewch imi adrodd un o ddamhegion Alwyn D. Rees. Yr wyf yn dibynnu ar fy nghof:

Yr oedd yna wŵr a gollasai sofran aur ryw noson. Ac yr oedd yn chwilio dan lamp. Daeth dieithryn ato i'w helpu a gofynnai, 'Ble golloch chi hi?' 'O! ryw ganllath 'lawr ffordd yna.' 'Wel, pam ych chi'n chwilio fan hyn?' 'Mae'n oleuach ac yn rhwyddach fan hyn, dan y golau.'

A gaf i gymhwyso'r stori i'r mater dan sylw.

Dwi'n ofni mai fel yna y bu ein polisi ieithyddol. Roedd yn rhy anodd sefydlu grwpiau llafar rheolaidd i ymddiddan â'r dysgwyr, lle yr oedd Cymry Cymraeg gwirfoddol yn rhan o'r anturiaeth. Roedd hynny'n gofyn dyfal barhad. Roedd hi siŵr o fod yn anodd o du'r Cymry Cymraeg. Sut mae dechrau peth felly? Buwyd yn tyrchu yn y lle anghywir.

Dwi ddim am fod yn annheg. All neb ddweud bod cychwyn ysgolion Cymraeg, na sicrhau arwyddion, ffurflenni Cymraeg, a swyddfeydd sy'n meddu ar siaradwyr Cymraeg ac yn y blaen, yn ddibwys o fewn fframwaith gwirfoddol cryf. Ond os deliwch ati'n ddigon hir i ganolbwyntio ar Ddeddf, fe gewch ddeddf. Mae pethau felly dan y golau. Os anelwch ar ffurflen, cewch ffurflen yn sydyn efallai. Ond os anelwch at adennill iaith i oedolion ledled Cymru wirfoddol – peth nad yw'n taro'r chwaeth swyddogol na'r newyddiadurwyr, fe gymer hanner can mlynedd, gyda'r trefniadau gorau i ymledu'n wirioneddol ffrwythlon. Ond fel yna y mae iaith yn gweithio. Mae angen dyfal barhad dros hanner can mlynedd yn ôl cynllun adennillol cyhyrog i Bawb. Os gwneir hyn, nis gwneir ar frys.

Beth sydd yn hyn i ni'r Cymry Cymraeg? Dim ond gwaith adennill yw i ddiogelu iaith. Dim ond sicrhau dyfodol iddi. Chwiliais ymhobman am ddull gwell i ddiogelu gwareiddiad y cymunedau Cymraeg heb ofyn i'r siaradwyr rhugl wneud dim, ac i adennill yr iaith hefyd ar raddfa uchelgeisiol yn yr ardaloedd dwyreiniol heb i wirfoddolwyr drefnu dim chwaith, ac ni welais yr un ffordd arall.

Fel yna y bydd yr ychydig yn dechrau tyfu'n fwy, yn ymwarded â blinder hen ddefod arferol. Aeth yr hen negyddiaeth gyhoeddus amlwg i golli sioc newydd-deb. Cafwyd cyfnod arwrol. Ond mae'r cyfnod dwysach presennol yn gofyn dwysach ymateb. Yn llai syml arwrol; ac yn anos. Ond yn eithriadol o foddhaus, ac yn hwyl.

Yr adroddiad hwn, *Iaith Pawb*, oedd y tro cyntaf i neb mewn awdurdod fynd yn agos at y nod o amlinellu natur y broblem a'i maint. Dyma enwi'r 'Pawb', sef y miliynau, ac amlinellu amlochredd strwythuraeth y broblem — yn arbennig dwy wedd, beth bynnag, sef y wedd ddysgu, a'r wedd gyhoeddus gysylltiedig yn ei holl gymhlethdod. A'r Nod. Dyma fentro ar fath o Ddeddf Synnwyr Cyffredin sy'n well na Deddf Wleidyddol arferol. Nid oes gennyf ond parch mawr at ddewrder a chymhellion uchelgeisiol ein llywodraeth yn hyn o dasg hyd yn hyn. Yr wyf i'n falch iawn ohoni. Eithr sut y clymir y nod wrth y weithred yn y cyfnod newydd gyda'r cam nesaf?

Ni chofwyd y gwirfoddol hyd yn hyn, na sut i'w sicrhau: Strwythur y Gwirfoddol anodd. Na'r rheidrwydd i feithrin un gynneddf.

Beth yw hynny? Un peth. Yr ewyllys. Nid deddfau, nid gorfodaeth ar hyn a'r llall ac arall, nid dysgu statudol, nid iaith swyddogol, nid dyna yw adfer iaith i Bawb. Nid adroddiadau. Heb *adeiladu ewyllys*, yr ydym heb ddyfodol. Ni chodir ewyllys heb weithredu. Ni thrafododd yr awdurdodau na'r protestwyr erioed mo'r un 'Elfen', sef y 'Sector' gwirfoddol amodol. *Ni chofiodd Iwerddon am hynny ychwaith*. Ni roesant feddwl i'r arwyddocâd sylfaenol a chwbl ganolog sydd i'r ewyllys a'r farn gyhoeddus ymarferol. Unwaith y deallir problem go iawn, gellir mynd ati i'w datrys. A'r tro hwn: heb nodi ewyllys, neu heb symudiad gwirfoddol grymus iawn, heb wynebu cymhlethdod y problemau gwirfoddol, tila fydd y cynnydd, wyneb yn wyneb â'r Pawb. Yn wir, heb y Gwirfoddol a'r *ewyllys cenedlaethol newydd ymhlith Cymry rhugl*, y mae *Iaith Pawb*, er ei rhagoriaethau doeth yn carlamu i ddistryw.

Ni cheir y Gwirfoddol chwaith heb fynd yn wirfoddol strwythurol ymhlith pobl, o ddau i bedwar ac o bedwar i bump i ddeg i filoedd. Adeiledir yr ewyllys angenrheidiol drwy feddwl ymlaen llaw ym mha ffordd – pa bamffledi bychain, pa raglenni radio a theledu, pa flogiau deniadol, hysbysebu ac atynnu, sut y gellir riwcriwtio hen bensynwyr sy'n hiraethu am sgysio, sut y gall rhieni rhai ysgolion Cymraeg gynorthwyo. Sut y trefnir symudiad o'r fath yn wirfoddol mewn Prifysgolion a Cholegau? Beth yw'r strwythur mewn ardal benodol lle y mae pobl yn nabod eu bro?

Ni sylweddolir hyn efallai nes ei bod yn rhy ddiweddar. Mae'r blynyddoedd yn carlamu ynghynt bellach. Meddylir am y degawdau a gawsom ac a gollasom i raddau yng Nghymru o ymgyfyngu i Brotestio ynghylch y 'Cefndirol', neu bwyllgora.

**Mor gyfan gwbl bwysig yw sylweddoli HANFOD canolog unrhyw broblem er mwyn ei datrys. A phan drown at broblem adfer yr Iaith Gymraeg ledled Cymru, y mae a fynnom ym mhob twll a chornel â'r Gwirfoddol ganolog yn y Blaendir.** Heb wynebu'r ffaith heriol hon, ymhlith y bobl yn gyffredinol, ac *wedyn* mewn Masnach, mewn Addysg, mewn Llywodraeth, yr angen a'r her arbennig yna, y gwirfoddol eto yn y canol, – yr ydym yn chwarae gêm. Gall y pethau swyddogol gorfodol oll fod yn eu lle. Gellir trefnu swyddogion. Eto, does dim dyfodol i'r Gymraeg o gwbl bellach yn y pen draw onid o wirfodd calon Pawb, nid yr addysgedig, na'r gramadegol, na'r awdurdodol, ond oedolion rhydd cyffredin yn bennaf. A oes rhaid bod yn gyfan gwbl besimistig ynghylch strwythur symudiad mawr iddynt hwy? Ddim nes rhoi cynnig arni o ddifri.

Mae yna amgylchiadau amrywiol.

Gellid ystyried, yn achos plant er enghraifft, eu bod hwy yn cael eu magu o fewn math o fframwaith statudol. Gellir eu gorfodi felly i astudio'r pwnc, er y gellir chwarae â hynny. Gellid eu dala'n gynnar, a gwneud y gwaith o ddifri. Dyma ran naturiol o addysg iach iddynt, er mwyn iddynt fod yn rhan o'u gwlad mewn amser, o'r gorffennol ymlaen drwy'r presennol i'r dyfodol. Mae yn wedd ar wareiddiad. Os paratoir cyrsiau addas a'u cefnogi drwy ddiddanwch digonol, dyma, yma, roi iddynt brofiad rhyngwladol gwerthfawr heddiw, o fod yn ymwybodol o'u rhan ddiddorol hwy ym mosëig pobloedd y byd, gan dyfu'n hydeiml hyderus ynghylch y berthynas ffrwythlon (a niweidiol) rhwng diwylliannau â'i gilydd. Dyma Addysg wir gywir. Gwelent wreiddioldeb hunaniaeth Cymru o fewn byd lliwgar o amrywiaeth. Cânt flasu cynhysgaeth gyfoethog a gwreiddiau eu pobl hwy eu hunain. Cânt brofi'r pleser mewn meicrocosm o gladdu imperialaeth annheg ryngwladol gymhleth. Gall rhywrai yn eu plith ddod wyneb yn wyneb â llenyddiaeth fawr. Pwysig i adran Dwyieithedd yn y Brifysgol ym mryd rhai yw ceisio mesur manteision neu anfanteision Dwyieithedd a chofio'r ffactorau 'amlochrog', gan gynnwys y rhai seicolegol os yw'r math yna o

ymchwil yn dal i lewyrchu'. Ceir pob math o ymchwil anymarferol. Ond mae modd newid pethau. Mae modd yn awr gynyddu meistrolï'r iaith ac ymglydnabod â'r diwylliant yn wirfoddol ymhlith oedolion. Tyf plant. Newidia sefyllfa. Bydd pob rhyddid i'r plant hyn efallai o'r diwedd luchio'r iaith yn wirfoddol i'r bûn sbwriel. Digwydd hyn fesul miloedd. Ond mae modd datblygu'n helaethach ffasiwn ac agweddau oedolion yn fwy optimistaidd. Wedyn, os oes tuedd gan blant i daflu'r iaith, gadawant iddynt wneud hyn yn wybodus ac yn effro. Pair y bombardio masnachol Americanaidd a gânt yn eu diddanwch gormesol beunyddiol iddynt gael eu llyncu. Nid yw fframwaith gweddill eu haddysg yn eu harwain i ymfalchïo yn eu cynhysgaeth eu hunain. Bydd eu safle israddol yn gymdeithasol ieithyddol mewn cenedl nad yw 'yn y canol' naturiol yn drech na'u rhuddin seicolegol ieithyddol. Ildiant yn wirfoddol hwylus i golledigaeth a chydymffurfiad israddoldeb. Dyna a ddigwyddodd yn Iwerddon. Ond na adawn i hyn ddigwydd heb fod oedolion yn gwneud fawr heblaw eu hanfon i ysgolion Cymraeg. Nid hysbysebu yn unig a wneler, ac nid dannod, ond mynd i lawr i'r arena.

A'r un modd gyda pholisïau campus Bwrdd yr Iaith yn y sector cyhoeddus. Gyda phob parch, gallant gyhoeddi 'Cymraeg yn gyntaf', a chynnal ymgyrchoedd glew 'Diwrnod i'r Gymraeg'. Gwyddom oll am brofiadau lawer gyda'r siars hon felly yn 'y Fro Gymraeg-gynt'. Gellid amlhau dwyieithedd hysbysebol a ffurflenni. Ond heb feithrin *dymuniad ar waith yn wirfoddol weithredol reolaidd*, a'r ewyllys yn sicrhau adferiad yr iaith, ni ddaw hi yn ei hôl felly. A heb sylweddoli (bob tro y'i trafodir mewn Adroddiad) fod angen bwrw union hanfod y broblem *hon*, ac anelu'n uniongyrchol at bresenoldeb mewnol yr adennill gwirfoddol, yna nid ydys yn anelu o gwbl at yr angen canolog. Parchwn yr ystadegau di-ben-draw; ac awn ati i'w newid nhw drwy strwythurau dynol hwyliog di-ildio. Trown y sloganau yn grwpiau gwaith.

Oherwydd gofyn yr ŷm ni am *waith perthnasol ymrwymedig (er mai gwaith go ysgafn yw clebran i Oedolion)*; ac ni ddaw hynny dros nos. Daw yn y bach, y gellir ei droi yn fawr, os ceir dealltwriaeth.

Yn y pen draw, dyma'r wir broblem i'w thrafod ynglŷn â phresenoldeb yr iaith ym mhob twll a chornel, — cyn llunio neu weithredu Deddf, cyn ffurflen, cyn gorfodi yn yr ysgolion hyd yn oed. Bydd rhaid adeiladu ewyllys fesul cynllun enghreifftiol, yn

lleol, gyda phobl mewn oed, yn ddiriaethol, gyda dychymyg mawr. **A oes digon o egni seicolegol ar ôl ymhlith digon o Gymry Cymraeg rhugl a brwd i gael dysglaid neu hyd yn oed panaid o goffi neu beint gyda rhai o bobl fwyaf diddorol ein gwlad mewn miloedd o ganolfannau bach? Yr adenillwyr presennol.** A yw'r gwladgarwch a'r hysbysebu a'r anogaeth yno yn ddigonol i gynorthwyo, drwy glebran â'r dysgwyr fesul cannoedd o filoedd, ac i uno yn y gwaith o integreiddio? Credaf fod. Mae angen ar y dysgwyr, lawer ohonynt, achlysur y funud hon i ddefnyddio'r iaith rywbryd yn ystod yr wythnos — am hanner awr neu am awr. **A ydym ni'n barod i drefnu cyfathrebu rhwng y Dysgwyr a'r siaradwyr rhugl?** Sef y 'Pawb' mewn tameidiau. Mae'n anodd i ddieithryn unigol o ddysgwr o'r tu allan drefnu cyfle gyda rhyw berson haelfrydig Gymraeg i rannu'i drysor diwylliannol mawr gydag ef: mantais yw bod yna strwythuro ymwybodol yn ôl anghenion. Mae angen uniaethu'r Cymry Cymraeg â'r adenillwyr drwy drefnyddion. Nid oes dim yn fwy pendant uniongyrchol na'r clymu wrth yr ymarferol drwy gynorthwyo, i ddechrau siarad y tu allan i'r gwersi, y naill ochr yn croesawu'r llall. Mae angen pontio rheolaidd eang a phroffesiynol. A phoblogeiddio trefnedig gyda'r Pawb.

Drwy weithredu adenillol ymarferol yr adeiledir ewyllys ar lefel uchelgeisiol, gan wynebu holl broblemau ymarferol a dardd o'r fath gynllun. Drwy siarad i ennill, felly yr adenillir.

Ai dyna'r ffordd i adeiladu'r ewyllys?

Drwy wneud y bach. Mae yna lawer y gellir ei wneud. Ond dwi'n ymglyfyngu nawr i ddweud un peth. Drwy weithredu ein hun i ymgysylltu â Chymry Cymraeg lleol brwd, ddau neu dri, fe'i gwneir. Drwy fynd ati – i ddefnyddio'r papur bro i hysbysebu cyfarfod, trefnu cyfarfod yn rheolaidd, ricriwtio ffrindiau, dod i wybod pwy yw'r Cymro brwd lleol sy'n adnabod ei gymdogaeth, dalennau mewn siop, canfasio, cynnal Sadwrn Siarad yn yr ardal i 'brofi'r dŵr', canolbwyntio ar aelodau o gymdeithas Gymraeg – gwahodd sefydlu grŵp siarad rheolaidd, ymgysylltu â dosbarthiadau sydd eisoes mewn bod. Hynny yw, meithrin ewyllys drwy weithred a dawn denu. A dal ati i gysylltu, adnabod ardaloedd, cysylltu y siaradwr â'r dysgwr. Ac os na cheir neb, symuder ymlaen. Drwy

wasanaethu felly, gyda manylder a deheurwydd, *gellir gweithio technegau a phatrymau amrywiol cymwysedig o sefydlu trefn.*

Roedd SL yn arfer dweud mai drwy garchardai Lloegr y mae achub yr iaith. Rwy'n dweud mai drwy gwpaneidiau o goffi y mae ennill, ynghyd â'r ewyllys a geir ar waelod pob cwpanaid. Mae eisiau newid meddwl, ac yna *gwneud*, yn anarwrol. Mae'r cefndirol yn gymorth. Ond presenoldeb y blaendir – gyda gwaith tawel i bob un, mawr a bach, prysur a segur, dyna'r gyfrinach.

Yn Iwerddon, yn ôl ymholiad ymchwil, y mae 76% o'r boblogaeth am weld Gwyddeleg yn cael ei siarad ledled y wlad fel iaith gyntaf y wlad honno. Chwarae teg iddynt. Ond os nad yw'r 76% yn *gwneud rhywbeth* fel oedolion i hyrwyddo a gweithredu hynny'n uniongyrchol, yna sentimentalïaeth chwerw yw hi. Sentimentalïaeth ronc fuasai protestiadau a chyfarfodydd cadw yng Nghymru, heb yr ewyllys ymarferol i adennill. Y gwneud adfywiol, yr adeiladu yw'r unig brawf ar ein pobl ifanc.

Ond gofynnir, pa werth yw tipyn o grŵp yn y pentref bach hwn neu'r dref fach nesaf yn erbyn holl rym y Teledu Americanaidd a'r diddanwch Americanaidd a'r fasnach a'r blinder corff a'r *status quo*? A dyna'r cwestiwn rhwydd digalon. Nid drwy ryw ryfeddod holir yr un cwestiwn yn y pentref nesaf wedyn, a'r pentref ar ôl hynny, a'r pentref wedyn hefyd. Ond pe lledid yr arfer arall o fod yn gadarnhaol, a'r sôn amdano, o bentref i bentref, *pe sefydlid y gadwyn fechan mewn sir o bwyntiau twf*, yna byddai sôn am obaith y Gymraeg yn gaseg eira. Pe cymerid y peth o ddifri yn y bach, fe gynyddai'r dosbarthiadau a'r siaradwyr ymarferol rhydd yn y mawr. Fe dyfai'n adnabyddus. Cryfhâi'r ewyllys. Yn fwy na hynny, drwy'r lleol y mae'r realiti'n digwydd. Wrth ein traed mae'r genedl i gyd yn gallu deffro, heb drosglwyddo cyfrifoldeb. Ni fethir ond ceisio o ddifri. Gwn fod hyn yn bosibl.

Gellid dychmygu y buasai pawb ifainc, sy'n meddwl o ddifri am sefyllfa'r iaith, yn sylweddoli nad oes dyfodol iddi mwyach mewn unrhyw sector heb fod yr ewyllys ar waith yno'n gryf. Ond peth yw ewyllys nad yw'n bodoli heb ymarfer. Mae'r wlad yn gwaedu yn ei disgwyliad parod i'r Cymry rhugl ifainc gymryd eu lle allweddol o fewn cyfanrwydd uniongyrchol yr adfywiad hwn. Adeiledir ewyllys drwy wneud. Ond ceisier



darbwyllo'r siaradwyr hyn fod gweithredu o'r fath mewn cyfnod mor ddifater â'r un presennol yn her i gymeriad y wlad. A! Mae'n codi'r cwestiwn ymarferol: sut y gellid sianelu'r grym potensial ac aruthr hwn mewn cymuned sy'n dadfeilio? Sut y gellid cynnau ymrwymiad ac argyhoeddi'r rhain yn ddigonol i ymffurfio'n ddisgybledig, i symud gyda'i gilydd ledled Cymru i greu bywyd newydd yn uniongyrchol yn yr iaith? Yn anad dim, yn fy marn i, y cwestiwn pwysicaf oll ynghylch yr iaith yw — *sut y gellid strwythuro'r Gwirfoddol yn ddeniadol yn yr Adennill?* Drwy gysylltu'r Cymry Cymraeg brwdfrydig â'r Adfywio mewn trefn sefydlog a phoblogaidd gwbl angenrheidiol. Mae hynny yn ddo'i hun yn ysbrydoliaeth.

Dyma gwestiwn ymarferol os anodd y dylid ei wynebu, ie hyd yn oed gan yr 'awdurdodau', ar sail profiad llaw-gyntaf ac ymroddiad gwirfoddol eu hunain. Os gall yr awdurdodau *feddwl fel hyn*, ie nhw, ac *ymuno yn hyn eu hunain*, ac ystyried ar y ffâs sut y mae procio a chynorthwyo hyn, gorau i gyd. Fe geid hyder a hwb, a phrofiad gwerthfawr iddynt. Hyd yn hyn, ni ddeallodd yr awdurdodau swyddogaeth *gyfartal* y Cymry Cymraeg yn yr Adennill. Doedd dim llawer o glem. Gwahanwyd y ddwy broblem. Mentrau/ Dosbarthiadau. Bu'r awdurdodau wrth gwrs drwy Gyfnod y Statws: bellach daeth yn bryd agor Cyfnod yr Adennill. A braf fyddai gweld swyddogion ac aelodau'r holl bwyllgorau sydd a wnelont ag Adennill yn ymuno'n bersonol yn y profiad gwirfoddol hwn. Dowch i lawr i'r arena.

### 3. HARNEISIO'R GWIRFODDOL

Erbyn hyn, dichon fod miloedd yn ennill arian go lew, nid yn unig wrth weithio'n deg i hyfforddi'r Gymraeg neu i ddiddanu drwy'r Gymraeg, eithr hefyd i bwyllgora a gweinyddu'r adferiad hwnnw. Gwae ni. Byddaf yn ystyried mai'r ffordd i fesur Cymreictod heddiw yw drwy sylwi ar yr hyn a wneir *am ddim*.

Yng nghyfarfod cyntaf Cyd, rhybuddiodd Cadeirydd cyntaf y mudiad hwnnw am lwybr a chamgymeriad Iwerddon. Cyn 1916 yr oedd y Mudiad Gwyddeleg yn cael ei gynnal gan fudiad poblogaidd gwirfoddol, sef y *Cynghrair Gwyddeleg*, a hynny gyda llwyddiant aruthrol. Ar ôl ymreolaeth, dyma newid y pwyslais yn llwyr. Troes y Mudiad Iaith i ymddiried yn gyfan gwbl mwyach, yn gyntaf yn y Llywodraeth a'r Deddfu, ac yn ail yn yr ysgolion. Ymddiriedaeth naif iawn oedd hyn. I bob pwrpas, fforffedwyd y Cynghrair Gwyddeleg, pwerdy gwirfoddol yr Iaith, gan y bobl a chan y Llywodraeth. Troes y Mudiad Iaith bron yn hollol statudol. A chrinodd ewyllys y bobl wrth beidio ag ymwneud ag adfywio'r iaith drwy'u hymdrechion penderfynol uniongyrchol eu hunain.

Dyma'r frawddeg bwysicaf am ddyfodol yr iaith Wyddeleg a sgrifennwyd erioed: (Osborn Bergin, 1927): *Heddiw mae'r bobl yn gadael y broblem i'r Llywodraeth, y Llywodraeth i'r Adran Addysg, yr Adran Addysg i'r athrawon, a'r athrawon i'r plant ysgol*. Mae'n frawddeg i'w hongian yng Nghymru ar y wal mewn unrhyw ystafell lle y trafodir dyfodol y Gymraeg. Sylwer ar y gair 'pobl'. Peidiwch â dibynnu ar y plant bach. Peidier â dibynnu ar drosglwyddo'r Adennill i neb ond lle y bo'r ewyllys eisoes ynghyn ac ar waith.

A glywch Gymru yn y fan yna? Heb i'n harweinwyr wybod yn eu hesgryn mai'r gwirfoddol ymhlith oedolion yw calon adfywiad y Gymraeg ym mhob twll a chornel, ni byddant wedi dechrau wynebu'r her yn iawn. Yr wyf am sôn nawr am un hedyn. Yng nghyfarfod cyntaf Cyd (yn Aberaeron), penderfynwyd dod ag elfen newydd i mewn i'r hafaliad Cymraeg. Er cydnabod mai ysgolion a'r Llywodraeth oedd rhan bwysig o'r hafaliad, ar y pryd honnid yno y dylid ceisio argyhoeddi Cymru mai ofer fuasai'r cwbl heb ewyllys yr oedolion ar y ddwy ochr a'r plant a ymadawai â'r ysgolion; ***ac mai'r sector mwyaf anghenus ar y pryd oedd nid y dysgwyr, eithr y Cymry rhugl brwd***

***mewn oed.*** Beth gallent ei wneud? Os oedd Oedolion Cymraeg yn mynd i fod yn ffactor arweiniol a niferus yn y Mudiad Iaith, ac os mai adennill, yn hytrach na galarnadu a phrotestio a chadw diwylliannol yn unig oedd priod gywair y symudiad, yna dylem geisio *denu* Cymry Cymraeg brwd o'r diwedd i ymuno â rhythm a sylwedd adfywio uniongyrchol cyson. Roedd eu swyddogaeth hwy yn yr adferiad ymarferol uniongyrchol mewn gwirionedd yn allweddol. Rhaid fyddai iddynt gyffwrdd â chorff yr adnewyddu. Hwy a adeiladai'r ewyllys. Hwy ynghyd â'r dysgwyr oedd cenedl botensial unol y dyfodol. Hwy fyddai ar eu mwyaf ennill, gredwn i. Ac yn awr oedd yr amser i ddechrau.

*Syniad* oedd ac yw Cyd yn y bôn, nid Mudiad: Mudiad yn ail, yn ddatganoledig o raid. Meicrocosm, symbol, man cychwyn i'r ewyllys, cysgod i'r dyfodol.

Rai blynyddoedd *wedi* sefydlu Cyd, sefydlwyd Bwrdd yr Iaith, ac yna'r gyntaf o'r Mentrau Iaith i'r Cymry Cymraeg yn bennaf; ceisiwyd atal cefnogaeth i Cyd; ac amlhaodd y Mentrau gan bwyll cyn iddynt hwythau ymffurfio'n fath o Fudiad cenedlaethol datganoledig cyflogedig. Rai blynyddoedd yn ôl, mewn cyfarfod cyffredinol, pasiodd Cyd benderfyniad y dylid (gyda chefnogaeth Bwrdd yr Iaith) geisio modd i'w uno ei hun â'r Mentrau. Ceisiwyd sefydlu cynllun peilot a olygai y buasai Cyd yn datganoli fel y gellid ei weithredu o dan ymbarél y Mentrau mewn uniad. Ond ni lwyddwyd y pryd hynny, er bod yr uniad wedi aros yn hen ddyhead cyson. Ni ddeallwyd swyddogaeth weithredol fyw fodern y Cymry Cymraeg brwd.

Wedyn, sut bynnag, dyma Fwrdd yr Iaith yn cyhoeddi dalen a amlinellai briod waith y Mentrau. Ymhlith y pwyntiau a nodwyd fel gwaith y Mentrau, caed trefnu cyfarfodydd integreiddio ar y cyd rhwng siaradwyr rhugl a dysgwyr. Llwyddwyd i gynnal rhai o'r rhain yma ac acw ledled Cymru, fe ddywedir, o fewn gweithgareddau'r Mentrau. Ond ni sefydlwyd y dechneg o drefnu grwpiau.

Yna, yn 2007, dyma, bellach o dan gynllun *Iaith Pawb* y llywodraeth, yn sefydlu Canolfannau Iaith newydd i oedolion ac atrefnu'r holl strwythur. Eto, mewn un ganolfan (o leiaf) dyma hysbysebu un swydd o leiaf (efallai rhagor) ar gyfer trefnu cyfarfodydd ymgom rhwng dysgwyr ar y naill law a'r Cymry Cymraeg rhugl ar y llall: gyda chynllun pontio Cyd (dan enw arall efallai, megis Clonc) ar ddiwedd y

dosbarthiadau nos. Ni wn a sefydlwyd canghennau *newydd* rheolaidd a thechneg sefydlu grwpiau o'r fath ynghyd â gweledigaeth eglur o bresenoldeb y Cymry Cymraeg. Ni chlywais am hynny. Erbyn hyn, sut bynnag, yr oedd yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg mewn cyflwr go enbyd. Caed 'statws' uwch i'r iaith efallai, caed lle helaeth iddi yn yr ysgolion, caed ffurflenni rif y gwllith, a pheth cynnydd ymhlith yr ardaloedd gwan eu Cymraeg. Ond wynebai'r bröydd Cymraeg fewnfudiad enbyd o Loegr, o ddwyrain Ewrob ac ymhellach. Teimlent yn ddiymadferth. Dyna'r ardaloedd adfer newydd: y bröydd Cymraeg diymadferth. I ble yr awn ni?

*Ym 1971 trodd 279 o gymunedau lle y ceid 80% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg i 66 erbyn 1981, ac i 33 erbyn 1991; wedyn i 17 erbyn 2001, a'r rhai cryfaf i gyd yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Eto, y cymunedau gwledig hyn yw'r union rai lle yr oedd polisiau 'cadw' a 'gwrthdystio' yng ngwaed arweinwyr y siaradwyr Cymraeg.*

Difrifolwyd y sefyllfa ieithyddol hon yn enbyd ym mryd y rhai a oedd â'u clustiau yn agos at yr ardaloedd Cymraeg hyn. Ac yr ydym yn dal i wynebu her enfawr — y diffyg gweithredu dwys o du Cymry brwd, sy'n dal ati naill ai i alaru yn eu corneli, neu i brotestio, neu ar y gorau i 'gadw' (peth na fydd yn arwain ond at encilio). Y diffyg pontio. Breuder trefnu gweithredol adenillol. Erys hefyd ddiffyg llunio polisi aeddfed gan yr awdurdodau ynghylch y ffyrdd amrywiol i ddatblygu'r Gwirfoddol yn arbennig ymhlith y Cymry rhugl. Oherwydd, wedi i'r geiniog ddisgyn ymhlith yr awdurdodau, ceir yr her ymhellach, *i lunio techneg* i godi brwdfrydedd, i sefydlogi a chyfundrefnu'r Gwirfoddol o genhedlaeth i genhedlaeth, ac i adeiladu fframwaith atynnu-hysbysebu cyson ac ymledol.

Ar Fedi 19eg 1909, cafwyd protest yn Stryd O'Connell, Dulyn na chafwyd erioed mo'i thebyg yng *Nghymru* o blaid unrhyw achos. Dyna ichi brotest eithriadol enfawr mewn gwlad fach. Roedd yna filoedd ar filoedd yno. Beth oedd yr achos? Cefnogi cynnig gan Urdd yr Wyddeleg (Gaelic League) yr oedden nhw. Mynnai'r Urdd y dylai fod yn fwy *anodd* i fynd i mewn i'r Brifysgol Genedlaethol, ac yn orfodol i bob myfyriwr basio mewn Gwyddeleg cyn cael mynedfa. Protestio o blaid rhoi amod, hyd yn oed rhwystr efallai, ar y ffordd iddyn nhw eu hunain gael eu derbyn i addysg Brifysgol. Er mwyn dyfodol yr iaith. Dyna ewylllys.

Ond beth oedd gwir ystyr y brotest aruthrol hon? Protest a fu'n llwyddiant dros dro oedd. Yr oedd Urdd y Wyddeleg (Gaelic League) yn berthynas seicolegol i Gymdeithas yr Iaith, ond bod a wnelont hwythau â **sefydlu dosbarthiadau** hefyd. Yr oedd yna fwy nag ewyllys cryf sentimental wedi datblygu'n wirfoddol yn nhrwch y boblogaeth ar y pryd i fynnu i'r Wyddeleg fyw, i raddau na allwn ninnau ddim breuddwydio amdano. Ond pallodd yr ewyllys yna ar ôl ymreolaeth. Ystyr y gwaith yn Stryd O'Connell oedd troi oddi wrth y gwirfoddol i'r gorfodol a'r swyddogol.

Ddeugain mlynedd ac un yn ddiweddarach fe lithrais innau drwy ddrws y cefn i mewn i'r Brifysgol honno heb y cymwysterau priodol,... er mai mynd yno a wnawn i astudio'r iaith Wyddeleg a llenyddiaeth Wyddeleg yr Oesoedd Canol. Bid a fo am hynny, yr oeddwn yn cynrychioli'r dirywiad.

Darfu'r llwyddiant a fu gan Urdd yr Wyddeleg, a'r ymddiriedaeth mewn gorfodaeth a oedd gan y tyrfaoedd. Beth oedd wedi digwydd? Dim llai na cholli'r ewyllys i fyw. Colli gwth Urdd yr Wyddeleg. Ymddiriedwyd yn y Llywodraeth ac yn yr ysgolion.

Pan bellha'r Gwirfoddol, ofer yw pob llywodraeth.

Beth oedd wedi lladd yr ewyllys hwnnw? Gwyddom mai'r un ateb a geir wrth edrych ar Gymru heddiw. Ceir sawl peth sydd ar gerdded yng Nghymru, sy'n *bygwith* yr iaith Gymraeg, yn arbennig ymhlith y Cymry Cymraeg mwyaf brwd a'r Cymry Cymraeg mwyaf gweithredol.

Yn bennaf oll, y diwylliant protest ei hun. Protestio oedd hoffter y Gwyddelod hwythau. Ac felly'r Cymry Cymraeg mwyaf brwd a didwyll, er mwyn i bobl *eraill* wneud rhywbeth, sef trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r awdurdodau, yn enwedig i wleidyddion – o bobl y byd – weithredu gwaredu'r wlad yn ieithyddol. Ond meddylwch – pe bai pob un o'r 100,000 ym mhrottest Dilyn wedi mynd adref ac ymuno â dosbarth Gwyddeleg, neu'r un mor bwysig pe bai'r rhai yn eu mysg a oedd yn medru'r Wyddeleg wedi sefydlu grŵp parhaol ac epilol i siarad â'r dysgwyr, beth fyddai wedi digwydd?

Beth a ddigwyddasai pe cymerid llwybr arall? Byddai'r peth mawr a oedd wedi sicrhau'r protestio – sef ewyllys y bobl – wedi bod yn ymledol. Byddai'n ymgryfhau, ac yn ffrwythlon weithredol oherwydd y bobl a oedd yn caru'r iaith yn ymarferol. A thrwy

amlhau'r ewyllys-wyr y galledid esgor ar symudiad cyffredinol a phoblogaidd, ac ymrwymo mewn adennill.

A phe ceid strwythur – effeithiol, cynlluniedig, cryf, dychmyglon – gellid 'cadw'n' egnïol.

Hawdd y gellid casglu bod y Cymry Cymraeg yn ein hardaloedd traddodiadol Gymraeg yn hyderu, ond yn besimistaidd, fod y dyfodol a phob gobaith am unrhyw fath o adfywiad ymarferol yn yr iaith yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y Dwyrain bellach. Cynyddodd y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd o 18,671 ym 1991 i 31,944 erbyn 2001. Mymryn; ond mae pob un ychwanegiad yn bwysig. Yno yn y Dwyrain, meddant, y ceir yr adferiad ar waith bellach ymhlith plant. Nhw biau'r cyfrifiad. Braff hefyd yw gweld Cymraeg swyddogol ar dwf, a'r arwyddion allanol yn lluosogi. Ond yn y bôn, yn ymarferol, yn y Gorllewin y mae'r enciliad yn dorcalonnus ac yn adfeiliol ymhlith oedolion. Crancs sy'n llenwi'r ffurflenni Cymraeg. Nhw hefyd, yn hyn o beth, sy'n gysgod o Ddwyrain y dyfodol.

Tyfodd rhyw fath o serthedd seicolegol yn y Gorllewin, rhyw fath o anobaith wrth glywed *optimistiaeth niweidiol* ymhlith ein hawdurdodau ni'n debyg i'r hyn a geid gan yr awdurdodau yn Iwerddon gynt, a greodd gymaint o hafog yn y wlad honno. Gall yr awdurdodau *geisio* gan fasnachwyr a diwydianwyr, llywodraeth leol a'r llywodraeth ganol, a'r 'dyn cyffredin', er enghraifft i ymgymreigio mewn enw. Cosmetig i gyd. Ble maen nhw'n byw? Gofynnir o ddifri a yw'n bosibl o gwbl i dorri drwy'r llesgedd diwylliannol sy'n eiddo iddynt heb adeiladu sensitif, cadarnhaol, ac ymarferol ar lawr gwlad. Pan nad yw'r Cymry Cymraeg rhugl yn ymuno ym Mlaendir yr adnewyddu, a phan fyddont yn ymgyfyngu ar yr ymylon i arwahanrwydd diymrwymiad o safbwynt yr adennill uniongyrchol, tuedda'r gorau yn eu plith i 'gadw' diwylliant yn lew ac yn hwyliog mewn Geto. A'r un pryd, y maent yn ymwybodol o'r encilio 'anochel'.

Pa fath o beth y dylid ei ddisgwyl? Yn Aberystwyth, yng Nghaerfyrddin, yng Nghaernarfon, yn Wrecsam, ym Merthyr Tudful, ym Methesda, yn y degau o drefydd bach fel Llandysul a Llangefni, a Llanrwst a Llanfair ym Muallt... Ie. Ond yn y pentrefi hefyd.

Dechreuaf drwy ddisgrifio un gangen o eiddo Cyd: y gangen orau cyn belled ag y gwn i. Gwn fod yna eraill sy'n rhagorol o hyd ar ôl tynnu'r Swyddfa Ganolog i ben. Ceir tair gwedd ar ei gweithgaredd, sy'n amrywio rywfaint o flwyddyn i flwyddyn, yn ôl y galw. Ceir cnewyllyn canol o gangen wythnosol yn cyfarfod, am awr bob bore Iau ar y llofft mewn coffe yn y dref, hyd at ryw ddeugain o bobl ar wasgar wrth eu byrddau yn ystod tymor y dosbarthiadau, ond yn dal i gyfarfod, ar raddfa rhyw ddwsin a mwy, boed ddosbarthiadau neu beidio. Cyfarfod yw i ymgom yn syml (uwchben paned o goffi). Weithiau yn y gorffennol bu ambell un yn rhoi sgwrs fwy ffurfiol bum munud, gyda Chymry rhugl bron mor niferus â'r Dysgwyr yn cyd-wrando. Cafwyd mwy o hwyl ar ymddiddan rhydd.

Heblaw hynny, yn ail, trefnir i ddau neu dri o siaradwyr Cymraeg cyfnewidiol o'r gangen (ceid ar un adeg hyd at ryw gant ar y rota) fynd yn eu tro am hanner awr yn ystod yr wythnos, at ddosbarthiadau swyddogol Cymraeg i Oedolion: cyfarfodydd Pontio. Cefnogir y dosbarthiadau'n uniongyrchol felly. Dim ond rhyw ddwywaith y tymor y byddai gwahoddiad i bob aelod unigol felly i fynd i'r cyfarfodydd Pontio yma: dau hanner awr. Bu'n rhoi cyfle i'r aelodau (yn ddysgwyr ac yn gynorthwyr) ymgom yn naturiol ymarferol â'i gilydd. Amheuthun trawiadol o fewn yr ymdrech hon am gyfnod oedd presenoldeb pobl ifainc yr Ysgol Uwchradd Gymraeg leol. A sibrydaf hyn wrth y Mentrau a rydd gymaint pwyslais cyfiawn ar Ieuenctid: 'cyfeirier hwy at yr adeiladu cenhadol'.

A'r drydedd wedd yn y gangen fu'r gweithgareddau: ymweliadau â dramâu, heiciau neu arddwest, côr, cinio Gŵyl Ddewi, darlithiau byrion, cinio Nadolig, Canu Plygain ac yn y blaen. Y Cymry Cymraeg a'r dysgwyr yn mwynhau cwmni ei gilydd, yr integreiddio pellach. Mewn capel lleol gerllaw ceir cyfarfodydd arbennig eraill i groesawu dysgwyr i sgysiau ynghylch hobïau, diddordebau, hanes lleol, 'trysorau' ac yn y blaen. Eisiau pobl ifainc bob amser sydd arnom i amrywio gweithgareddau, eu cymhwyso, a'u hamlhau; ond ceir cyfran eithaf da o'r rheini'n bur aml.

Yn bedwerydd, rhoir cyfarwyddyd yno sut i ymuno â'r Urdd a Merched y Wawr a Chymdeithas Edward Llwyd. Sefydlir plant o ganghennau newydd yn y gymdogaeth.

Yn fy mryd i, dyma'r gangen orau sydd gennym yng Nghymru. Cnewyllyn posibl yw o Gymru'r dyfodol. Ac y mae'r diolch am hynny i'w briodoli i dair elfen. Yn gyntaf, y Cymry Cymraeg gwirfoddol, rhugl a chymwynasgar, elfen amhrisiadwy i'r awdurdodau gellid ei feddwl. Y maent megis 'athrawon' anffurfiol naturiol am ddim. Ac ni wnânt ond clebran. Yn ail, trefn seml y gangen. Ac yn drydydd y dysgwyr unplyg a selog, ynghyd â chydweithrediad hapus eu tiwtoriaid a'r dosbarthiadau. Mae'r ieuenctid yno; ond yn brin. Prin hefyd yw'r cenhadu neu'r cefnogi neu'r ymganghennu: Llambed, Pont-rhyd-y-groes, Tregaron, Llanbadarn Fawr, cydweithredu â Llyfr y Dref mewn clwb darllen, Rhydpennau, Tal-y-Bont: plant Aberystwyth.

Llwch mân y posibiliadau.

Sôn yr ym am *galon* pob gwedd ar adfywiad yr iaith, y *ffactor gwirfoddol*. Y weledigaeth ynghylch anocheledd y gwirfoddol. Dyma un ffordd o'i meithrin. Ceir eraill eto. Sut y gwelaf ddyfodol y math hwn o symudiad?

Gallai sinigiaid ei gladdu cyn ei eni wrth gwrs – ceisiwyd gwneud hynny. Erys y cyfle ar y llaw arall i lwyddo ar raddfa fwy uchelgeisiol.

Gallai cynnydd ddechrau mewn rhanbarth bychan. Gellid dwysáu gweithgareddau ymarferol a grwpiau mân. Nac aneler at y cydweithredu mwy uchelgeisiol cenedlaethol nes *trefnu* un, dau, tri rhanbarth unigol gwir effeithiol. Dechreuer pan geir trefn a pholisi disgybledig ar dechneg y cenhadu ymhlith pobl ifainc. Ceisier cael cefnogaeth ariannol gan y goruwchawdurdodau lle bynnag y byddont yn deall y pwysigrwydd, fel y gellid penodi un trefnydd lleol rhan-amser i sefydlu a chysoni a chenhadu un, dwy, tair cangen; ac yn wleidyddol anghywir dylid talu yn ôl canlyniadau, nid ymrwymo mewn swydd barhaol reolaidd ei chyflog. Ond methwyd â datblygu techneg sefydlu canghennau oherwydd diffyg cefnogaeth a gweledigaeth.

Pan oedd yn ganoledig ac ar ei orau, codi canghennau sefydlog ac wythnosol newydd fu swyddogaeth strwythurol gwaith Cyd. Rhaid oedd sefydlu canghennau er mwyn y cynllun rota neu'r cynllun pontio, a rhaid oedd sicrhau datganoliad llwyr i'r holl ranbarthau. Digon anodd oedd yr ail. Ond yn Aberystwyth, fe gafwyd bod ricriwtio ar gyfer y rota'n ffactor cydlynol. Nid yw'r rota'n mynd â gormod o amser pobl sy'n



wirioneddol brysur. Ac eto, mae'i effaith yn tynnu 'byddin' gudd i mewn i'r Blaendir. Ymhrydant yn llwyddiant a gobaith a gwerthfawrogiad y dysgwyr.

I mi, o leiaf, **yr oedd y rhan a oedd gan y Cymry rhugl yn yr adennill yn gwbl ganolog.** Eu hangen personol hwy efallai oedd fwyaf. Eu diffyg cysylltiad hwy fu'r broblem yn y gorffennol, nid y dysgwyr. Ganddynt hwy yr oedd y clwyf a'r diymadferthedd. Wrth gwrs, roedd eu cymorth i'r Dysgwyr, ym mryd y Dysgwyr eu hunain yn amhrisiadwy. Ond undod y Cymry rhugl â'r adferiad uniongyrchol yw angen mawr Cymru ar hyn o bryd. Ni chredaf eto, fod yna ymgais erioed wedi bod gan yr awdurdodau i wynebu'n ddeallus nac i ddatblygu cenhadu disgybledig er mwyn adeiladu gwirfoddoldeb yn ei gryfder. Ni buont erioed yn ddigon brwd i ymuno'n bersonol yn yr adennill.

Os ceir gwell trefniant a gobeithio y'i ceir – megis y'i cafwyd gyda'r Eisteddfod Genedlaethol, bydd mawr angen diogelu'r Gwirfoddol.

Braf yn ddiweddar yw gweld rhai swyddogion tua'r canol yn genedlaethol, i lawr yn yr arena, yn ymuno â'r sector gwirfoddol gan eu bod yn credu yn y peth, gan weld y sialens ymarferol yn lleol, ac mai da ymuno â'r bobl a fu wrthi yn wythnosol, yn rhan o'r gwaith o adfywio uniongyrchol. Heb i'r uchaf ymuno â'r isaf, a heb fod y 'canol' i lawr ar y ffâs yn rhoi hwb i atgyfodiad yr iaith, ofnaf yr hyn fydd gan yr iaith i'w ddweud wrth ddiwedd yr unfed ar hugain: yr wyf am gyfieithu un o gerddi Ewropeaidd enwocaf yr ugeinfed ganrif gan ei chymhwyso i *Iaith Pawb* mewn ffordd go chwithig: 'Y Datrysiad' gan Bertolt Brecht:

*Ar ôl gwrthryfel Mehefin 17eg*  
*Trefnodd Ysgrifennydd Undeb yr Awduron*  
*I ddalennau gael eu dosbarthu yn y Stalinallee*  
*A ddwedai fod y bobl*  
*Wedi fforffedu hyder y llywodraeth*  
*Ac ni allent ei adennill ond*  
*Drwy ddyblu'u llafur. Oni fyddai'n*  
*Symlach felly i'r llywodraeth*  
*Ddiswyddo'r bobl ac*

### *Ethol un arall?*

Wrth gwrs, dychanu'r Wladwriaeth Dotalitaraidd yr oedd Brecht. Ond carwn ystyried y gerdd yng ngoleuni'r Iaith. Carwn ei chymhwyso beniwaered. Mae hi heddiw'n galw am help canolog yr awdurdodau i'w hadfer hi'n uniongyrchol. 'Dowch', gwaedda hi hefyd wrth y brwdfrydigion, 'nid i wrthdystio'n unig er mwyn i bobl eraill wneud rhywbeth. Dowch,' gwaedda eto, 'nid i "gadw'n" obeithiol-anymarferol nes darfod. Ond dowch yn hytrach i'n helpu yn uniongyrchol i adennill y wlad oll ein hunain. Oni ddowch heddiw, yn swyddogol ac yn wirfoddol, ni ellir ddim ond mynd oddi yma a'ch diswyddo chi, Bawb. Byddir yn ethol iaith arall.'

Mewn gwirionedd, pe sylweddolid cyfanwydd cydlynol y fath symudiad cynhwysfawr, gwneid cymaint o les i'r Cymry rhugl ag i'r Dysgwyr yng nghyfarfodydd Pontio : dyma ystyr Iaith Pawb. Bu'n arbrawf pwysig i ddysgu ganddo: yn llwyddiant ym mhatrwm y gangen leol, yn ddiffygiol yn y dechneg o sefydlu canghennau.

Fel athrawon a phrifathrawon ein hysgolion yn boddi o dan adroddiadau ac arolygu a chofnodion ac asesu a gwerthuso bythol ac ychwanegu dyletswyddau ymylog, felly y gellir yn y Mudiad Iaith suddo o dan adroddiadau. Pe bai'r adroddiadwyr eu hunain yn ymuno ar y ffâs, gwelent y gwir strwythur, y lle i'r Cymry Cymraeg a'r Dysgwyr yng Nghymru Pawb.

Ped ymffurfient yn iawn, hoffwn i weld bellach, o bosib dan gysgod neu ymbarél y Canolfannau Iaith penigamp newydd, dyweder, yn sicr mewn cydweithrediad â hwy, werthfawrogiad o rym ysbrydol a meddyliol Gwirfoddoli. Heb y Bobl, mwy nag ofer fyddai ymdrechion Swyddogol. Cydlyniad yw neges *Iaith Pawb*. Gwelwyd ynddi gyfuniad priodol yr economaidd a'r cymdeithasol, y diwydiannol a'r addysgol, y diwylliant traddodiadol a'r gwleidyddol. *Ond yr her yn y canol fydd cyfuno hyn oll â'r ewyllys. Rhaid cael canol ewyllysgar.* O bendroni am hynny, o arogl'r gwirfoddol nes llenwi'u hysgyfaint, o ystyried o ddifri mor hanfodol yw'r ewyllys, bydd ein harweinwyr o'r diwedd yn wynebu craidd y dyfodol. Byddant yn croesi'r gamfa chwyldroadol o 'Statws a Hawliau' i diriogaeth lawer pwysicach 'Adennill'. Nid llai o

her yw symud o'r pcedi achlysurol o lwyddiant Didacteg Ail Iaith i ddarparu strwythur trefnus a lliwgar ac unol yn y dosbarthiadau.

#### 4. UN PROFIAD O GYFUNDREFNU'R GWIRFODDOL

##### 1. *Sylweddoli Union Natur Adennill: sut yr aeth Cyngor y Dysgwyr yn CYD*

Pan gafwyd Cyfarfod Cychwynnol gwirfoddol ac answyddogol yn Aberaeron i hybu Dysgu Cymraeg i Oedolion drwy ymdrefnu'n Fudiad Cenedlaethol, ychydig a wyddid sut y byddid yn symud ymlaen. Cymerwyd yr enw 'Cyngor y Dysgwyr'. Ond buan y sylweddolwyd ar y ffâs y byddai'n *rhaid* i'r Cymry Cymraeg rhugl fod yn *gydradd* eu harwyddocâd yn y symudiad hwn â'r Dechreuwyr. Mabwysiadwyd y teitl CYD oherwydd Cyd-weithio, Cyd-ennill, Cyd-siarad.

2. Penderfynwyd ar y dechrau – heb bres – mai anochel fyddai *gweithio'n ddatganoledig*, bob grŵp yn ei ardal ei hun ac yn ganolog wirfoddol. Sefydlwyd rhai grwpiau eraill ledled Cymru. Ond ar ôl i'r Cadeirydd fod ar daith yn ceisio sefydlu grŵp yng Nghaerdydd, ac yna yn Aberhonddu, a manau eraill, ysgrifennwyd sawl erthygl i hysbysebu'r mudiad yn y *Traethodydd*, gyda chrynodeb yn y *Cymro*. Cafwyd ymweliad gan Brif Drefnydd Bwrdd Datblygu Cymru Wledig (y Canolbarth), a oedd wedi hoffi'r syniad o hybu adain ddiwylliannol yn yr ardaloedd gwledig ac o drefnu gwyliau dysgu fel *diwydiant*: ymserchodd ef yn y gair diwethaf. Cytunwyd felly i noddi gweithiwr rhan-amser dros dro i CYD. Dyma amser pryd y byddem oll, y dysgwyr a'r Cymry rhugl, yn cyfrannu at gasgliad mewn cyfarfodydd! Dyna ddechrau canoli; ond ni ddatblygwyd ar y pryd dechneg sefydlu canghennau ac nis clymwyd ysywaeth wrth 'dalw trefnwyr yn ôl y ffrwythau'.

3. Cafwyd cryn anhawster i sefydlu *Techneg Sefydlu Canghennau*. Yr oedd angen defnyddio papurau Bro, cysylltu â dosbarthiadau, a chanfasio neu recriwtio. Bob amser, yr hyn yr oedd taer angen amdano oedd cael Cymry Cymraeg cefnogol lleol neu gysylltu â rhywun brwd a adwaenai y cyfryw fod arall a ddeallai botensial y gwirfoddol. Yn ôl y traddodiad, ysywaeth, chwiliai'r Cymry Cymraeg brwd yn aml am fodd i hybu'r iaith ar wahân i gyfathrebu â dysgwyr eu hunain. Anodd oedd argraffu'r ddelwedd mai dwy ochr oedd i 'aelodaeth' mewn Mudiad o'r fath. Ond ricriwtio personol oedd y dull gorau ymhlith Cymry Cymraeg a Dysgwyr o ledu'r 'aelodaeth'.

4. Yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, sefydlwyd Prif Gwrs – 'Crefft Adfer Iaith'. Yr oedd hyn yn caniatáu i'r myfyrwyr lunio *prosiectau niferus ymchwilgar*. Cymerwyd gwaith CYD fel rhan o'r cwrs swyddogol hwn yn estyniad ymarferol yn y maes i'r gwaith academiaidd. Cafwyd cangen yn Neuadd Pantycelyn. A chafwyd Swyddfa Barhaol gan y coleg i CYD fel rhan o'i weithgaredd yn Adran y Gymraeg. Cynhyrchwyd llyfrynau defnyddiol gan fyfyrwyr ifainc megis Llyfryddiaeth Hanes Dysgu'r Ail Iaith gan Helen Prosser, Yr Wlpan yn Israel gan Richard Crowe, Cymraeg yn yr Ysbyty gan Gareth King, Casgliad o Ganeuon i Ddysgu'r Gymraeg gan Elin Meek, a llawer eraill. Anodd cofio'r cwbl, ond yr oedd yr estyniad deallusol hwn i'r Symudiad yn rhoi rhuddin iddo. Cafwyd grant i anfon Richard Crowe i Israel er mwyn cyflawni'i ymchwil.

5. *Cafwyd nawdd* gan amryw: Bwrdd Afonydd a Nentydd Cymru, Banc Barclays, Prifysgol Aberystwyth a ddarparai swyddfa, ac yn anad neb maes o law gan y Swyddfa Gymreig. Bu'n gyfnod gweddol lewyrchus, a thwf araf cyson. Maes o law, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb diwethaf i Fwrdd yr Iaith, a oedd â'i fryd ar sefydlu'r Mentrau – ac yr oedd ymwneud ag *adennill* gwirfoddol yn ddieithr i'r Bwrdd. Ond gellid hawlio'n ddiogel mai'r peth aeddfetaf a mwyaf deallus a mwyaf ymarferol o safbwynt adennill yr iaith a wnaeth y Cynulliad erioed fu sefydlu'r Canolfannau Iaith yn estyniad mwy ymwybodol i'r hen Adrannau Allanol a Chymraeg yn y Prifysgolion. Honnid mai rhan o waith y Canolfannau fyddai rhoi cyfle o leiaf i barhau cynllun 'Pontio' CYD (sef y cynllun o atodi dosbarth drwy drefnu ymddiddan rhydd rhwng aelodau'r dosbarthiadau ac aelodau CYD). Roedd diddordeb gan y Canolfannau hefyd mewn cysylltu'r Dysgwyr â'r Gymuned. Ond digon o waith yw rhedeg dosbarthiadau; ac yr oedd natur gwaith CYD yn gofyn annibyniaeth a dull gwahanol o wobrwyo staff. Penderfynodd CYD ymdoddi yn y symudiad newydd. Ac ni ellir ond canmol y Digwyddiadau a geidw fath o gysylltiad llac neu dynn â bwrlwm y Ganolfan Iaith.

6. Yn ystod y cyfnod y bu gan CYD staff ohono'i hun, buwyd yn trefnu ffeiriau, cyngherddau, dramâu, teithiau cerdded, gwyliau yn Nant Gwrtheyrn, a *llawer o weithgareddau o'r fath*. Yn hyn o beth eto, y mae'r Canolfannau Iaith, mewn modd

proffesiynol yn ymgymryd â thipyn o ddi-ddanwch o'r fath, er bod rhai o ganghennau annibynnol CYD yn parhau i gynnal corau, ac yn y blaen.

7. Un o swyddogaethau CYD (drwy *Cadwyn Cyd* a llawer o ddulliau eraill) fu *Marchnata'r Adfywiad* ymhlith Oedolion. Bu gan Fwrdd yr Iaith a CBAC, gyda llawer mwy o adnoddau, swyddogaeth flaenllaw mewn Marchnata. A gellid rhag-weld y byddai angen yn y dyfodol lawer mwy o drefn ar hysbysebu'n genedlaethol 'ble y ceir grwpiau siarad (man cyfarfod ac amser)', 'ble y ceir 'digwyddiadau' ayb ... Ond ymgyfyngu mewn tloidi fu hanes CYD gynt. Bellach, gwneir hysbysebu o'r fath gan y canolfannau yn fwy effeithiol o lawer. Y perygl mawr yn awr – eto – yw gadael i'r elfen wirfoddol lacio a llithro a diflannu.

Dylwn bwysleisio mai cyfyngedig wrth reswm, ac yn fwriadol felly fu profiad CYD 'cenedlaethol' o fewn amlochredd y Mudiad Iaith. Ceir symudiadau gwirfoddol eraill ymhlith oedolion, a bu'n bolisi o'r dechrau beidio â 'chystadlu' â neb arall. Byddid o hyd yn cael ein hysbrydoli wrth ymgysylltu â gwahanol rannau o Gymru lle y ceir cynifer o unigolion ac o gymdeithasau sydd eisoes yn ymwneud mor ymroddgar â'r achos hwn. Ond nid yr un yw'r pwyslais: cawn oll ein hysgogi gan slent newydd a grymus pobl eraill sy'n dysgu, ynghyd â'r rhai sy'n cymdeithasu â hwy. Caed Ffeiriau a Gwyliau Cenedlaethol. Wrth edrych yn ôl ar *Iaith Ifanc*, trafodion y gynhadledd fawr a gynhaliwyd ym 1992 gan CYD, ac a drefnwyd gynt gan Siôn Meredith, gwelwn mor amlochrog y pryd hynny oedd y cynrychiolwyr o bob rhan o Gymru. Arbrawf pwysig addawol oedd y cwbl. Rhagbrawf.

Yn fy marn i, ar hyn o bryd (diolch i'r chwe chanolfan iaith) yr ydym yn mynd drwy'r cyfnod mwyaf addawol o ran potensial a gafwyd erioed i'r Gymraeg ymhlith oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg. Ac os llwyddwn i gydlynu'r Cymry Cymraeg gwirfoddol yn y symudiad gwahanol hwn, ac os bydd ymrwymiad gwirfoddol o du myfyrwyr y Prifysgolion dyweder, mae yna bosibilrwydd codi brwdfrydedd ac effeithiolrwydd mawr ledled ein gwlad. Ond diau fod angen cael hwb ac ysgogiad a disgyblaeth mewn strwythur gwir broffesiynol a gwybodus, yn arbennig yn yr ardaloedd tenau eu poblogaeth.

Mi wn bellach mai dihangfa anodd yw protest gan mwyaf mwyach. Mae gennyf brawf, yn wir. Bûm yn holi rhai o'r bobl ifanc lew, sy'n dal i wrthdystio'n erbyn unieithedd Saesneg swyddogol cymaint o'n gwlad, pam na wnânt sefydlu *grwpiau adennill*? A dywedent yn gwbl onest wrthyf ei bod hi'n rhy anodd. Byddai'n gofyn dyfalbarhad ac amser. Bod yn Gymry naturiol yw eu bryd: traddodiadol oedd eu tuedd hwy, tan gynnal gig neu sesh, twitian ar y We, eisteddfota, ymuno â'r côr, a Chlybiau Gwawr, cymryd rhan yn y ddrama leol, capela hyd yn oed, cyfrannu i'r papur bro, mynd i ddosbarth Cynghanedd, gwrando ar S4C, cefnogi Noson Lawen a Chyngerdd a thwmpath, Cinio Gŵyl Ddewi a Chinio Nadolig, noson gerddorol, cwis, barbeciw, sesiwn coginio, dadlau uwch peint; ac o weithredu, ymatal rhag Cyfarfod Ymgom â Dysgwyr. A ddylid disgwyl dyfal-barhad adeiladu strwythurol gan fyfyrwyr nad ydynt yma ond am funud awr?

*Seicoleg colli yw seicoleg cadw.* Seicoleg y digalon. Yr unig gadw call yw cyfeirio ymwybodol obsesif i adennill neu roi'r gweithgareddau Cymraeg mewn fframwaith effro lle y ceir drachefn adennill newydd. Heblaw hynny, ar lawr symudol sy'n llifo tuag yn ôl, dyw sefyll yn yr unfan ddim yn ddewis dilys. Drachefn, mae adennill yn golygu meddwl a theimlo adennill ryw ben bob wythnos. A'r ffordd i wneud hynny yw bod bob wythnos yn rhan ohono. Gall mwyfwy ddigwydd ar We, wrth gwrs. Mae angen cyfundrefn yn y fan yna hefyd.

Wrth wylid hyn oll, ni thâl bod yn gysurus nac y ddof. Dyw *anghofio* ysywaeth, ein bod ar ymyl dibyn yn ieithyddol, ddim yn wynebu'r unfed ganrif ar hugain. Nid dyma'r ganrif i ddynwared cyd-destun a diwylliant cefndirol cyfforddus y bedwaredd ganrif ar bymtheg na'r ugeinfed. Bydd rhai o'n siaradwyr brodorol yn pryderu'n syfrdan ddiymadferth weithiau wrth dybied bod y degau o filoedd o henoed sy'n cael eu pwmpio i mewn i'r wlad, i brynu tai rhad (sydd y tu hwnt i gyflog y gweithwyr lleol) ac i feddiannu cymdeithas Gymraeg cefn-gwlad, yn digwydd fel pe na bai'r iaith yn bod. Ysgubir ardaloedd cyfan i'r ffos bob blwyddyn. Yn CYD ceir y fraint o adnabod rhai diwylliedig a gwâr o blith y mewnfudwyr hyn, rhai sydd yn bobl eithriadol o ddiddorol. Os na ellir rheoli sydynrwydd y mewnlifiad, ac nis gellir, gellir yn sicr fanteisio ar

ewyllys y rhai sydd am hybu'n diwylliant yn eu plith. Ni raid ofni'r rhain un tipyn, os yw'r Cymry Cymraeg eu hunain yn deffro.

Seicoleg ildio yw seicoleg cadw. Yr unig gadw call yw adfywio. Meddwl a theimlo adennill.

Mewn adolygiad craff gan Dr Gwen Awbery yn *Planet*, fe sylwodd hi fod yna duedd mewn adroddiadau a strategaethau swyddogol i drafod dyfodol y Gymraeg drwy weithio o'r uchod i'r isod. Dyma hefyd agwedd y protestwyr: anelent am yr awdurdodau! Erfyn y maent hwy am i'r awdurdodau goruchel wneud rhywbeth drostynt o hyd. Gan yr awdurdodau y mae'r grym a'r hawl i weithredu. 'Nhw' felly sydd bob amser ar fai. Ychwanega Dr Awbery: 'If this strategy fails to take into account some feature of the situation which later turns out to be crucial, we will have a major crisis on our hands.'

Cais i sôn am nodwedd felly yw'r sylwadau hyn. Ple ydyw, nid i'r awdurdodau yn gyntaf, ond i'r protestwyr (ymwybodol neu isymwybodol) eu hunain, a'r cadwyr, sef i'r Cymry mwyaf ymrwymedig yn achos yr iaith, y bobl a chanddynt wir ddiddordeb yn ffyniant y Gymraeg, sef y bobl sy'n cyfrif, fod yn barod i wneud rhywbeth am ddim. Sefyll yn y bwlch. Ond i'r awdurdodau wedyn.

Yr wyf yn mentro dweud nad y gwleidyddion sydd wedi arwain erioed yn yr achos hwn, nac a fydd chwaith yn y dyfodol, ond y bobl. Gall gwleidyddion hyrwyddo a chefnogi ar eu gorau, gallant hefyd ddistrywio os na sylweddolant beth yw patrwm angenrheidiol adfywio. Y *bobl* yn eu *bröydd*, – yr *holl* bobl – sy'n cyfrif yn yr adnewyddu. Y bobl, hwythau a sefydlodd yr Ysgolion Cymraeg yn nannedd diffyg hyder a llesgedd. Ac ar hyd yr amser, hyd yn oed gydag addysg stadudol, yr hyn a ofynnant gan yr awdurdodau yw mwy o ddealltwriaeth a chydweithredu strategol.

Bu'r gwaith o brotestio bid siŵr yn arwrol ac yn ffrwythlon yn y gorffennol. Dichon bellach, er hynny, fod angen newid arddull. Nid protest fydd yn datroi rhieni Cymraeg sy'n magu'u plant yn Saesneg, bellach, ond agwedd gymunedol a adeiledir gan bwyll ac mewn dyfnder. Felly hefyd gyda grwpiau ymgom.



Mewn cymuned fach neu fawr, mewn cadarnle neu wanle, mae sefydlu grŵp bach rheolaidd sy'n ymarfer siarad y Gymraeg, ac yn ennill pobl, yn gam unplyg gadarnhaol ymlaen. Heblaw ychwanegu siaradwyr newydd, mae'n medru torri rhagfarnau llawer. Mae cynnull un belen eira ac wedyn ddwy neu dair yn gallu troi'n gaseg eira sylweddol maes o law. I'r adenillwr gall olygu awr yr wythnos efallai, gall olygu hanner awr. Ond mae amlhau munudau prin o'r fath yn mynd yn bell, fel ceiniogau'r werin a adeiladodd Brifysgol Cymru: gall olygu cenhedlaeth newydd a *mudiad* dwfn nid tân siafins gwasgaredig.

Y gwir yw mai'r hyn sydd mewn golwg gennym oll yw cynllunio a meithrin *ffordd o fyw*. Ac y mae'n ddigon teg rhestru'r gofynion eraill - addysg Gymraeg, S4C, Gwasg ddyddiol ar y We, polisi tai a gwaith, iaith swyddogol ac yn y blaen. Y 'pethau oddi uchod' weithiau. Ond ai felly y mae bywyd y gymuned, strwythur moesol a delfrydol y gymdeithas ei hun, yn mynd i newid yn y bôn? A yw'r bobl eu hun yn mynd i fod yn gyfrifol o gwbl ac yn uniongyrchol yn yr adennill? Nid rhestr o nodweddion neu o sefydliadau i 'gadw'r iaith' yw'r hyn sy'n ddigonol nac yn bennaf bwysig yn yr argyfwng presennol. Mae angen newid agwedd a blaenoriaethau'r bobl, a'r bobl arweiniol yn anad neb yn gyntaf. Yr hyn y mae ei angen yw agor trafodaeth i adeiladu seicoleg yn ein plith a gweithredoedd cadarnhaol a chyfrifol lle y mae'r bobl sy'n deall angen adennill yr iaith eu hunain yn gwybod beth yn awr i'w wneud yn uniongyrchol. Gwelant sut y mae llunio strwythur iddynt hwy eu hunain a all gyflawni'r dyheadau hyn cyn belled ag sy'n bosibl. Nhw eu hunain, felly wrth gyflawni'r adennill yn uniongyrchol am ryw gyfran fach bob wythnos, yw'r hanfod yn y canol.

Does dim dwywaith nad y cadarnleoedd o hyd yw hanfod bodolaeth yr iaith. Does dim dadl nad y cymunedau lle y deil yr iaith naturiol hyd yn oed yn eu gwendid eithaf yw echel iachaf pob mudiad adfywiol. Rhaid dal ati i weithio o blaid polisi tai a pholisi gwaith sy'n gymunedol gadarnhaol, wrth gwrs. Ond nid yw'r cadarnleoedd hyn heb angen am grwpiau sgysio mewn tref a gwlad. Ac yn sicr, gyda'r allfudo digymrodedd ohonynt, ffolineb yw gadael holl dynged yr iaith yn nwylo cefn gwlad yn unig. Does dim digon o ruddin ar ôl. Rhaid cynllunio Cymru Gymraeg drefol, bob un

ynnddi o fewn potensial ei arbenigedd, neu'i hobi, neu'i swydd ei hun, fel y bo'r 'pobman' sy'n uno'r Pawb yn beth naturiol posibil.

Camgymeriad yw ynysu'r cadarnleoedd. Ac yn sicr, camgymeriad fyddai dosbarthiad gwahaniaethol yn ôl iaith ledled Cymru. Graddfa o fathau o gymunedau cydlynol, dyna a geir ledled Cymru. Rhaid pwysleisio undod ewyllysiol amrywiol yng Nghymru i gyd. Rhaid sicrhau a dihysbyddu cynnydd mewn ffyrdd gwahanol ond cyffelyb ym mhob parth o Gymru, yn gytûn.

Ac yn y bôn, oedolion cyfrifol (gan gynnwys rhieni) yw'r allwedd i'r uno. Ceir cyfle, bellach, i gydio dymuniad gwan y Cymry Cymraeg i adennill tir yn gyfrifol o fewn awyrgylch seicolegol o gilio â dymuniad cryfach y dysgwyr. Dyma'r croeso i ffrwythloni hanfodol. Clywir bellach am gymunedau traddodiadol Gymraeg lle y mae'r Cymry brodorol yn mabwysiadu'r Saesneg a'r unig ymgais i siarad y Gymraeg yw'r ymdrech a geir gan y dysgwyr. Erfyniant am atebion yn y Gymraeg. Y brif siom o hyd ledled Cymru mwyach yw'r Cymry Cymraeg rhugl a thybiedig frwd sy'n amharod i ymuno yn yr undod cadarnhaol uniongyrchol hwn: ni ddysgasant eto y ffordd i grwpio ac ennill. Dyma bolisi sy'n fwy nag ymgyrch syml. Gall fod yn heintus. Saith disgybl oedd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth pan sefydlwyd hi. Yn awr, mae mwyafrif o'r siaradwyr Cymraeg sydd mewn rhai trefi o dan 16 oed: Caerdydd 39.9%; Rhondda Cynon Taf 41.9%; a Chaerffili 54.5%. Disgwylia'r Oedolion drueiniaid am atgyfodiad cyffelyb, a mwy cyfrifol, ac yn y pen draw un mwy niferus. A ddaw?

Ar hyn o bryd, mae yna ddau fwllch, mewn Polisi ac Adnoddau, yn y Mudiad iaith. Ac fel y mae'n digwydd, y ddau hyn yw'r galon.

Pan ataliwyd grant Bwrdd yr Iaith i CYD, yr oedd gan yr olaf 145 o ganghennau. Egyr y ffaith honno lawer posibilrwydd o hyd.

## 5. MEITHRIN EWYLLYS YR IAITH

Wrth drafod y ddogfen swyddogol *Iaith Pawb* a'r gweithrediadau ymarferol sydd eisoes ar waith, soniais am y rhaniad rhwng y Blaendirol ar y naill law (y gwaith uniongyrchol – pontio Pawb – sydd ar gyfer pawb yng Nghymru, o *adfer* yr iaith), ac ar y llaw arall y Cefndirol (y gwaith o adeiladu cyd-destun i sicrhau amgylchfyd cyfiawn ac adeiladol i *gadw'r* iaith). Ni ellid hepgor y naill na'r llall yn Strwythur Adfywiad. Cangen o adfywio yw cadw iach. Ond sôn yr oeddwn yn y bôn am Ewyllys y Genedl. Cwynais fod arweinwyr y gorffennol a'r cefnogwyr mwyaf hygryw yn y presennol yn tueddu i uniaethu'r 'Cefndirol wleidyddol â Phlant' fel y llwybr ennill cyflawn dihangus. Nid oeddent yn wynebu cyfrifoldeb adeiladol arall, a chyfraniad hanfodol a gwirfoddol yn arbennig ymhlith oedolion eu hunain.

Yr oedd ymatal rhag gweithredu personol i oedolion yn ysgafnhau'r sefyllfa, wrth gwrs; ac ym mhob cyfeiriad y dyddiau hyn, ceisir polisi sy'n 'ysgafnhau' neu'n twpeddio addysg uwch, llenyddiaeth, gwleidyddiaeth, crefydd, a diddanwch. Efallai y byddai rhywun yn disgwyl iddynt hwy, bobl adnabyddus a gweithgar brysur, ymuno yn y gêm eu hunain. Soniais am gyfraniad hanesyddol Saunders Lewis hyd yn oed yn hyn o anogaeth o blaid y Cefndirol. Fe'i croesawyd ef ar y pryd gan y brwdfrydigion. Ond gwelwn bellach nad hynny oedd yr ateb i gyd y dylid ei geisio, o bell ffordd. Braidd yn anochel oedd rhoi blaenoriaeth i adfer yr iaith mewn modd llawer mwy cyfrifol gyffredinol ac uniongyrchol ym meddylfryd ac yn ewyllys y boblogaeth effro. Galwn bellach am hybu Blaendir hwnnw.

Rhoddodd Saunders restr o ffurflenni ac yn y blaen ar sail dadansoddiad unochrog iawn o'r broblem. Ac onid yw peth felly ar flaen y gad o hyd? Sut yr oedd ei gyngor ef yn gefndirol felly? (i) Nid oedd yn ymwneud â *chynnydd yr iaith* yn uniongyrchol ymhlith y bobl. (ii) Nid oedd yn ymwneud â chyfrifoldeb y *bobl oll* yn uniongyrchol, a'u rhan gydlynol yn y cynnydd hwnnw – yn arbennig o du'r Cymry rhugl ac o du'r dysgwyr (yn lleiafrif ac yn fwyafrif, yn wleidyddol eu bryd neu beidio). Gyda phob parch, yr oedd ei ddadansoddiad yn Wyddelig iawn (ac yn rhamantus). Clymodd y Gymraeg wrth faterion cwbl newyddiadurol, ac er yn bwysig, yn eilbwys. Apeliodd at

elfen o weithredu cyflym, at y cyhoeddus swyddogol, at y cyfryngau, ac at yr ifanc gwrthryfelgar. A chamgymeriad fyddai difriô'r fath ymdrechion ymarferol, diwyd a dewr.

Cafwyd pob un o'r manylion, a ofynnodd ef, eu derbyn yn gymharol fuan, ac yn bellach yn ddaeryddol, yn ôl yr ardaloedd, nag a enwodd ef mor anghenedlaethol. Fe'u cafwyd hefyd yn gymharol rwydd ar yr wyneb, hyd yn oed yn yr ardaloedd Seisnigaf. Cafwyd enillion y tu hwnt i'w awgrymiadau, diolch i Gymdeithas yr Iaith. Felly y bu ei ofynion yn rhesymol ac ymarferol o fewn cyfyngiadau cyhoeddus. Ond ni chawsant fawr o effaith ddofn ar nerth y mudiad adennill. Ni bu Cymdeithas yr Iaith yn cynnal gwerysilloedd adennill ymhlith eu dysgwyr. Ac yr oedd ei gofynion yn annigonol, am eu bod yn wleidyddol ac yn rhy rhwydd.

Ni chafwyd ysywaeth yr 'obsesiwn' hollol angenrheidiol ynghylch adennill yn gyntaf. Ymhle yn ei araith yr oedd pobl Trefynwy a phobl Prestatyn, heb sôn am yr ueginiau o bentrefi cefn gwlad erbyn hyn a oedd yn colli'r iaith? Onid oedd y rhain yng nghanol 'Cymru' hefyd? Ai gwleidyddiaeth a ddatrysai angen y rhain? Ai ceisio clymu'r iaith genedlaethol yr oedd Saunders yn gyhoeddus swyddogol wrth ardaloedd Cymreigaidd sydd bellach wedi diflannu yn y cyfamser i raddau helaeth? Ble y cafwyd awgrym ganddo o adfer tiriogaeth? Ni wyddai ef ymhle y câi ei gyfeillion gorau. Onid ymhlith adenillwyr?

Mewn gwirionedd rhoddai ef y bai a'r cyfrifoldeb ar y bobl anghywir. Yr oedd yn enwi Cefndir, ac yn esgeuluso'r Blaendir. A gweithredai'r 'cosmetig' i raddau (digon angenrheidiol), cyn ymgrynhoi ar y gweithredu llai ymosodol ond mwy cadarnhaol ar gyfer 'Pawb'. Y ni. Pwysai ar allanolion, yn hytrach nag ar ymrwymiad y galon yn fwy uniongyrchol ymarferol, yn yr uno.

**Gwir, os yw'r Gymraeg yn mynd i fyw, mai mewn cyd-destun o iaith swyddogol gyhoeddus ei statws yn y Cefndir y bydd rhaid iddi fod. Yn ail. Ond bydd hi'n iaith yn gyntaf sydd hefyd mewn fframwaith Blaendir o ymadfer yn barhaus. Dyma feddylfryd hollol chwyldroadol i'r Cymry Cymraeg isradd, ysywaeth. Ac ni ddigwydd hynny heb fod yr adeiladwaith adferol yn gyflawn**

**weithredol, a heb fod cyfle o atyniad i bawb (yn Gymry a Dysgwyr parhaus) fod yn rhan o broses sydd ar gyfer y *Pawb* yn y bôn. Rhaid i'r athrawiaeth fod yn fwy treiddgar a deniadol na 'hawliau' a thynnu'r Cymry Cymraeg i mewn i'r adennill. A dylid disgwyl cefnogaeth amhleidiol allweddol.**

Gwir y gellir meithrin peth Ewyllys drwy frwydr. Ond dyfnach yw'r Ewyllys ddyfal a feithrinir drwy adeiladu parhad.

Fe ŵyr Iwerddon bellach nad yn yr ysgolion a thrwy anwirfoddoldeb plant y bydd adfer iaith. Ac nid gan lywodraeth chwaith. Atgyfodi'r iaith yn y boblogaeth aeddfed sy'n dod rywsut yn gyntaf mewn cenedl effro. Ac nid am ei chadw ond am ei chynyddu'n barhaus a chreu cyd-destun deniadol iddi o ran oedolion. A hynny'n gyfrifoldeb ac yn ymwybod ac yn fframwaith amlwg i Bawb. Mae yna drefn olynol gyfrifol o fewn y gymdeithas. Ac ysbryd gwahanol. Mae gennym unigolion a chymdeithasau glew iawn sy'n awyddus ac sy'n ceisio trefnu'i *chadwraeth*. Ond nid wyf yn credu bod Bwrdd yr Iaith na Saunders Lewis na Chymdeithas yr Iaith erioed wedi ystyried o ddifri pa ran gwbl allweddol sydd i'r Cymry Cymraeg brwd a'r rhai cyffredin tawel – sef hwy eu hunain yn aml – yn adfywiad uniongyrchol yr iaith. Nid oes digon o siarad nac o feddwl am hyn. Nid ydynt erioed wedi cymryd hyn yn ystyriaeth gyfrifol – nid yn unig y posibilrwydd ond yr orfodaeth sydd i fapio Mudiad Oedolion poblogaidd ledled Cymru, ym mhob tref fach a mawr, lle y rhoddid cyfle i'r Cymry rhugl i *wneud rhywbeth mawr ac ymarferol ac anghyffredin* o'r diwedd a all chwyldroi'r sefyllfa ymarferol yng Nghymru. Nid chwyldroadol yn yr ystyr o sarnu, a darnio, a chyrraedd y newyddiaduron, ond chwyldroadol adeiladu a chadarnhau a chynyddu, gan hen ac ifanc, yn y dref, yn y gweithdy, yn neuaddau'r Colegau, mewn pentrefi anghysbell, yn y Cynulliad ei hun yn wirfoddol (ond heb hepgor nac aelodau a staff y Cynulliad, na Bwrdd yr Iaith na'i staff na Chymdeithas yr Iaith), eithr gan leiafrif i ddechrau. Ni chredaf y dylai neb fod yn gysylltiedig ag arolygu'r fath gynllun ond rhai sydd eu hun, o ewyllys eu calon, yn ymwneud â chynnal y fath grŵp ymddiddan.

Mae yna syched mawr ymhlith rhai Dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Dw i ddim mor siŵr a yw'r Cymry Rhugl Brwd yn sylweddoli hynny nac mor awyddus i adfywio'r Gymraeg i'r un graddau. Gwn i ar hyn o bryd am un gŵr a gwraig, o gangen

Cyd yn Llambed, sy'n cyrchu i Aberystwyth yn aml er mwyn cael ymarfer siarad â Chymry rhugl, a hynny'n ychwanegol at y grŵp a drefnir ganddynt yn eu tref eu hun. Rhag ofn bod rhywun craff yn amau fy mod i'n brolio Aberystwyth: yr un modd y bu un gŵr ifanc ar un adeg o Aberystwyth, heblaw mynychu cangen y dref hon yn cyrchu i Lambed hefyd i gangen Cyd yno er mwyn amlhau'r cyfle i siarad Cymraeg. Mae dwy arall o'n haelodau wythnosol yn Aberystwyth yn dod ymhellach – un o Raeadr a'r llall o'r Bermo. Dyna'r ewyllys dw i'n sôn amdani. Mae'r siwrneiau'n ôl ac ymlaen i Lambed, Rhaeadr a'r Bermo yn dipyn o filltiroedd. Faint o Gymry Cymraeg ewyllysgar sy'n byw yn y cyfwng rhwng y trefi yma ac Aberystwyth a fyddai wedi cwtogi ar eu taith, dw i ddim yn hollol siŵr.

Yn y gwaith o adfer, yn y *Blaendir* (sef ar y ffâs), mae ymrwymiad ymarferol y Cymry rhugl brwd yn allweddol. Fe all ein Llywodraeth lawnsio llond gwlad o strategaethau a chasglu ystadegau a'u monitro hwy hyd at syrffed. Ac y mae hynny'n angenrheidiol. Fe allwn lenwi'r wlad â phosteri a ffurflenni dwyieithog. Ond os na chynyddwn gylchrediad uniongyrchol yr iaith a chynyddu'r dymuniad i'w defnyddio, os na chynyddwn ymwybod o bresenoldeb ymrwymedig y cynnydd, yna y mae pobl yn mynd i edrych arni'n ddall a gwranddo arni'n fyddar. Cyfarfod sy'n adeiladu ewyllys. Os nad esboniwn ac na threfnwn a dihysbyddu undod Pawb a'r lle sydd yn bosibl i Bawb, yn yr adnewyddu, ni byddwn wedi deall trefn adfywio. Ac erys y Cymry Cymraeg yn enciliol, yn geidwadol, ac yn ddi-obaith.

Os datryswn botensial y Defnydd, dyrchafwn y Statws yn effeithiol.

Eto, mor bwysig hefyd yw datblygu a moderneiddio'r *Cefndir*, fel y ceisiwyd ei wneud. Gellid datblygu meddylfryd o anelu'n gyson at gyd-destun o ddiddanwch ac o waith bob dydd a fydd yn barod i weddill yr unfed ganrif ar hugain, wrth amlhau'r cyhoedd. Datblygu'r ymwybod hwnnw o'r gorfodol i'r gwirfoddol sydd o bwys i seicoleg pob gwedd ar ddiddanwch. A diau fod y *Cefndirol* yn bennaf werthfawr yn seicolegol. Mae angen lledu'r ymwybod cyson o adennill mewn gweithgareddau deniadol o bob math ymhlith y boblogaeth yn y 'Fro' draddodiadol bondigrybyll. Gellid amlhau mewn pynciau a hobïau a chwaraeon. Mae gennym ail ffrynt felly.

Mae Dysgwyr yn wahanol i Gymry iaith gyntaf. Maent yn bobl sydd wedi symud ymlaen ac i mewn i'r iaith. Weithiau cânt groeso. Ond y maent yn seicolegol wedi profi ac yn synied am iaith sy'n ennill tir o'u mewn hwy eu hunain. Dônt â'u seicoleg gyda nhw. Gall y Cymry rhugl, os deffrônt, ymrwbio yn y profiad gwefreiddiol hwn. Sôn yr ym nid yn unig am ddarparu cyfleusterau swyddogol, ond am *ddefnyddio'r* cyfleusterau hynny'n wirfoddol ymarferol yn y pen draw. Sôn yr ym am greu fframwaith meddyliol eang drwy'r wlad o Adennill gwirfoddol. Nid cael polisi i'r sefydliad hwn a'r sefydliad arall i ddefnyddio'r iaith yn allanol yn unig, eithr ei defnyddio mewn ymrwymiad strwythur gan bobl go iawn yn y fan a'r lle. Ac ni ddigwydd hynny onid ailgyfeiriwn ewyllys lleiafrif lawer mwy niferus o'n pobl. Mae angen mwy o gyswllt uniongyrchol, i ddechrau, rhwng y Cymry Cymraeg brwd a'r adennill diriaethol.

\*

\*

\*

A gawn grynhoi'r sylfeini? Dyma gopi o ddalen a luniais untro i esbonio: **ATHRONIAETH CYD**. Dalen bropaganda oedd. Ond fe'i dodaf yn y fan yma fel crynodeb, fel casgliad bachog o'r rhan yn y Strwythur Iaith sydd a wnelo â rhan y Pawb cyffredin ym Methodoleg Holi ac Ateb **y llwybr dysgu**.

**Egwyddor yw CYD cyn ei fod yn Fudiad. Dywed nad gwaith i'r dysgwyr Cymraeg yn unig yw cyfrifoldeb adfer yr iaith yn uniongyrchol, ond her i ewyllys ac i weithrediad ein holl bobl.**

Dyma beth o'r syniadaeth sydd y tu ôl i Fudiad CYD:-

1. *Cadw drwy Adennill yw'r nod*. Nid yw hyn yn lleihau ein parch at y rhai sy'n ceisio *cadw'r* iaith yn draddodiadol. Ond y math o gadw sy'n gweithredu yn CYD yw'r cadw sy'n ennill ac yn gweithredu'n gadarnhaol gynyddol. Yng Nghymru, heb fod hynny'n digwydd yn barhaus gan bawb sy'n caru'r iaith, does dim dyfodol i'r iaith oherwydd mewnfudo, allfudo, a phriodasau cymysg. Mae Adennill yn cynnwys Cadw. Ni ellir Adennill heb Gadw hefyd. Ond y mae'n bwysig bod y polisi a'r ymwybod o adfywiad ar y blaen hyd yn oed i geidwadwyr, ac nad yw'r agwedd amddiffynnol ddim yn meddiannu'r canol.

2. *Mae'r gair CYD yn awgrymu dwy ochr.* Mae hi'r un mor bwysig a phleserus i Gymry Cymraeg wneud rhywbeth cadarnhaol a gweithredol i adfer yr iaith yn uniongyrchol ag ydyw i Ddysgwyr. Mae angen meithrin yr ymwybod o adfywio yn gyffredinol yn y gymdeithas. Rhaid dechrau bob amser mewn lleiafrif. Ond gall dyfu'n fudiad poblogaidd ar sail egwyddor sy'n atyniadol. Oherwydd bod Cymry rhugl yn rhan o'r mudiad, y mae potensial i ddyblu maint y fyddin sydd ar gael o blaid cyd-ennill yr iaith. Does dim meithrin ewyllys cadarnhaol mewn cymuned heb gydweithrediad a dealltwriaeth gan y ddwy ochr. Ysbrydiaeth ac ennill mawr i'r Cymry Cymraeg yw nid yn unig cymdeithasu â phobl ddiddorol dra adeiladol eu bryd, eithr dyfnhau'n cydymdeimlad ag un o fudiadau mwyaf ffrwythlon diwylliant y byd.
3. *Ni sy'n gwneud.* Ein cyfrifoldeb ni yn gyntaf yw. Nid yw hyn yn feirniadaeth ar fudiadau protest sy'n gofyn i bobl eraill wneud pethau. Ond gweithia gogwydd CYD tuag at ganoli'n bryd ni'n bennaf ar weithredoedd gwirfoddol gan bobl yn bersonol. Y bobl a chanddynt fywaf o gonsérn ac sy'n fwyaf rhwymedig ac o ddifri, y bobl sy'n caru'r iaith a'r diwylliant yw'r rhai sy'n debycaf o feddu ar y penderfyniad tawel diwyro a'r dyfal barhad i ddwyn y maen i'r wal. Mae trosglwyddo cyfrifoldeb yn agwedd sy'n rhy rwydd ac adfeiliol. Ond y mae pob gweithred gadarnhaol, neu bob cyfarfod o CYD, yn gallu rhoi boddhad i "ni", wedi adennill rhywbeth heddiw.
4. *Oedolion sydd yn y canol,* gan gynnwys wrth gwrs bobl ifainc. Pobun a all *drefnu* neu fynychu cyfarfod rhwng dau (neu fwy) o bobl. Dyma'r rhai sy'n gallu lliwio barn y gymdeithas, y rhai fydd efallai'n codi teulu, rhai sy'n gwirfoddoli i wneud ymdrech adeiladol. Mor aml y bydd plant y penderfynwyd rhoi'r iaith iddynt heb ymdrech ar eu rhan hwy, heb ddewis personol, yn gallu'i gollwng yn ysgafn a llithro oddi wrthi. Ond y mae dewis cyfrifol yr oedolyn yn weithred hanfodol sy'n rhan o'r adfywiad ei hun: peth bywydol yw dewis o'r fath gan rai mewn oed. Gall oedolion wneud hyn yn rhan o wead cymdeithas mewn oed.
5. *Holistig* yw'r golwg ar CYD a chan CYD o'r gymdeithas. Hynny yw, mudiad pontio yw rhwng y ddwy garfan ieithyddol fwyaf sylweddol yn ein gwlad, sef y



rhai Cymraeg eu hiaith a'r rhai di-Gymraeg. Ceisir integreiddio Dysgwyr i mewn i lawnder bywyd a diwylliant Cymru. Ac felly y dysgwn ddeall ein gilydd yn well a natur Cymru gyflawn. Achos i Gymru Bawb yw hyn. Hunan-dwyll yw rhannu fel y gwnaeth Iwerddon drwy neilltuo'r Gaeltacht. Celwydd yw. Mae angen amrywio darpariaeth yn ddatblygol mewn amryfal ranbarthau. Ond yr un yw'r nod ym mhob rhan o Gymru, ac adennill parhaol yw'r polisi cyffredinol sefydlog. Cymru'n Un yw sy'n Amryw.

6. *Mae CYD yn rhan o symudiad* amrywiol ac eang yng Nghymru. Daw *ar ôl* y dosbarthiadau neu'r dulliau eraill o ddysgu'r iaith, a *chyn* llawnder y gweithgareddau a gynigir gan y We, Mentrau Iaith, Merched y Wawr, yr Urdd, Cymdeithas Edward Llwyd, y Ffermwyr Ifainc, yr eisteddfodau, y corau, y cyfryngau, yr eglwysi, y cyhoeddiadau, y canu modernaf, Cerdd Dant, grwpiau dawnsio, y cymdeithasau di-rif, swyddi o lawer math a'r cyfathrebu Cymraeg amlochrog. Pont sy'n cydio wrth eraill yw, rhwng y dosbarthiadau a'r mudiadau sydd ar flaen y gad, a holl weithgareddau Cymraeg y cymunedau fel y'u hybir gan y Mentrau. Mewn mudiad adennill cyflawn ceir llaweroedd o ffryntiau gwahanol. Ffôl yw difrïo'r un, yn arbennig lle y bo'r gwaith yn hunanddisgybledig, yn ffrwythlon, ac yn gyson gadarnhaol. Rhaid hefyd gael symudiadau negyddol o'n mewn, megis protest, ond i'r rhain beidio ag ennill y blaen ar yr adeiladu cyfrifol. Ond mae'r amllder amrywiol yn y cyfan yn wedd ar iechyd pob rhan.

Yn hyn oll o dasg, mae angen strwythuro, gan ddechrau'n lleol bob tro:

1. Ricriwtio dau neu dri ... a rhagor ... drwy gyfathrachu llafar, papur lleol. Sefydlu amser a lle rheolaidd. Trafod dull o weithredu arferol, ffurfiol neu beidio. O bosib, ethol swyddogion.
2. Perthynas â changhennau eraill – drwy genhadu a sefydlu rhai newydd, drwy gydweithio ar weithgareddau penodol: eisteddfodau, ffeiriau, teithiau, corau, gwyliau. Ymdeimlo â bod yn rhan o Symudiad poblogaidd.

3. Drwy grantiau, ambell waith, gellir o bosib sicrhau trefnydd lleol ('ffatri sefydlu canghennau') dros dro a all ymroi i ricriwtio'n bersonol mewn ardaloedd newydd agos o hyd. Ond dylid clymu'r taliadau neu'r cyflogau wrth y llwyddiant.
4. Mae cysylltiad aelodau â dosbarthiadau'n eithriadol o werthfawr. Perthynas wasanaethgar yw – hynny yw, yn ôl dymuniad y tiwtor. Y tiwtor sy'n pennu natur, pryd, a hyd y cyswllt hwn. A da, ar ddiwedd pob sesiwn o ymweld â dosbarth, yw trefnu'r un nesaf.
5. Y cyswllt mwyaf gwerthfawr ar hyn o bryd (ac y mae hyn eisoes yn diriogaeth dda i'r Canolfannau Iaith) yw Rhieni a Phlant yr Ysgolion Cynradd Cymraeg. Dyna'r rhai addawol a ddangosodd eisoes wir ddiddordeb a chefnogaeth mewn mynychu dosbarth ar ôl oriau'r ysgol. Ac y mae hyn yn tanlinellu cyswllt arall a all fod o bwys enfawr: sef y cyswllt cydweithredol â'r Canolfannau Iaith eu hunain, sydd yn aml yn barod i fynd ymhellach o lawer na waliau'r dosbarth.
6. Byddir ymhellach ymlaen yn ceisio sôn am gyswllt arall yn y Strwythur. Sef y mawr angen i harneisio lle Diddanwch Cymreig wrth Adfywio iaith ymhlith Dysgwyr mewn Oed. Ym mha ffordd y gellid mabwysiadu Pontio'r Iaith yn ddeniadol hwyliog fel y bo'n anturiaeth ychwanegol a Chymreig ddifyr ac ysbrydoledig i broffesiynolwyr ac amaturiaid Maes Difyrwch? Cawn weld. Dyma gredaf i yw swyddogaeth arbenigol y Mentrau.
7. Er mai'r lleol (a'r rhanbarth) yw'r cryfder, gellid o bosib symud ymlaen o'r herwydd i sicrhau trefniadaeth ganol genedlaethol, yn gefnogol nid yn ymyrrol, a all fod yn fantais i hysbysebu, arolygu'r sefyllfa drwy'r wlad er mwyn llenwi bylchau, a gwybodaeth am weithgareddau, a sicrhau llediad drwy stondinau mewn ffeiriau ac eisteddfodau. Ond rhaid i bobl y canol fod yn rhan brofiadol o'r sector gwirfoddol a hwythau'n cael rhan bersonol yn yr ymgyrchu.

**PONT 2**

CYNLLUNIO

CYRSIAU'N

BROFFESIYNOL

## RHAGAIR

### *Nod y rhan hon o'r ymdriniaeth*

Mae i bob ardal ei chymeriad a'i hanghenion ei hun, ond ychydig o effaith a gaiff hynny ar ddull na phatrymau dysgu ar raddfa genedlaethol. Ond dichon mai helpfawr yw sylwi ar un gwahaniaeth sy'n arwyddocaol a ymwna â'r dechneg o sefydlu grwpiau ymddiddan gwirfoddol. Y mae'r rhaniad rhwng ardaloedd sy'n adennill eisoes a'r rhai sy'n colli'n gyflym ar hyn o bryd yn cyfateb yn fynych i'r cyferbyniad rhwng y rhai mwyaf trefol a'r rhai sy'n denau eu poblogaeth. Yn yr ardaloedd Cymreiciaf, sef yr ardaloedd sydd o dan y bygythiad mwyaf y dyddiau hyn, mae yna gyfle munud olaf i'r Cymry Cymraeg wneud rhywbeth cadarnhaol o'r diwedd a heb fod naill ai'n geidwadol nac yn gwynfanllyd. **Yn lle'r diwylliant protest, sy'n rhedeg at 'Mam', sef y llywodraeth, i fod yn gyfrifol: ymrwymant yn yr adennill eu hunain.** Ac yna, caiff y dysgwyr yn yr ardaloedd yna gyfle i ymarfer ymuno yn y gymuned mewn trefniant bwriadus groesawus. Bydd yr ymwybod o obaith yn cynyddu o'r ddeutu. Bydd mwy o realaeth yn dod i mewn i'r sylweddoliad o gyflwr a phosibiliadau ymarferol yr iaith. Adeiledir yr iaith honno yn gyfannol; a'r Cymreictod naturiol a'r Cymry Cymraeg fydd fwyaf ar eu helw.

Yn yr ardaloedd lleiaf Cymraeg, caiff y ddwy ochr yr un cyfleoedd â'r ardaloedd Cymreiciaf, ond mewn trefn wahanol. Y dysgwyr fydd fwyfwy ym mlaen y darlun, ac angen taer y Cymry Cymraeg yn fwy cynorthwyol. Yma, caiff y ddwy ochr fwy o ymdeimlad o rwyddineb ennill tir, dônt yn rhan o rym adfywiad grymus. Mae'r wybodaeth honno yn fwy o syndod i'r Dysgwyr, fod yna fath o wareiddiad hynafol modern ynghudd, yn llawn wmf, ar stepyn y drws. Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng y ddau fath o gefndir yn bennaf yn dwyn effaith ar y technegau o sefydlu canghennau.

Ceir llawer o lacrwydd ac amrywiaeth lleol a phersonol wrth strwythuro gwirfoddoldeb cyfarfodydd clebran i Gymry Cymraeg a Dysgwyr ar y cyd. Nid oes cymaint o esgus nad aethpwyd erioed ati'n systematig, mewn tymor hir, i raddio strwythurau'r iaith Gymraeg ar gyfer ei dysgu. Sonnir weithiau fod gennym gyrsiau wedi'u strwythuro. Honnir yn hyderus fod 'y dull strwythuro wedi methu'. Ond

synnwyr bawd yw sail y rheini. Rhaid yn gyntaf amlinellu'n llawn gyfundrefnau'r iaith mewn modd didactig (tasg hir), ac yna ystyried ym mha drefn egwyddorol y dylid eu cyflwyno, cyn cael cwrs strwythurol boddhaol. Yn yr un modd, y mae angen strwythuro trefniant sefydlu grwpiau ymddiddan.

Nid cryfhau yw unig bwrpas strwythuro. Mae'n hwyluso ac yn rhwyddhau.

Yn yr ymdriniaeth hon trafodir materion heblaw problem sefydlu grwpiau: gwneir hynny **ochr yn ochr** â chynllunio'r gwaith o lunio a chyflwyno cyrsiau. Arolygir y gwaith o baratoi deunydd i adfer yr iaith yn addysgol, ar gyfer dysgu gwirfoddol a statudol, sylfeini sydd o hyd yn anorffen. Dadleuir bod modd cyflawni hyn oll yn fwy cyfundrefnus. Cymer amser hir yng Nghymru i wneud hyn yn broffesiynol yn fanwl egwyddorol; ond am y tro gellid ymglyfyngu i ddisgrifio a mabwysiadu'n enghreifftiol bedair cyfundrefn greiddiol. Sef Cyfundrefn y Ferf, Cyfundrefn y Frawddeg, Cyfundrefn Treiglo, a Chyfundrefn Holi ac Ateb; pedair cyfundrefn ganolog mewn cwrs iaith, gyda'r olaf yn uniongyrchol ddefnyddiol ar gyfer grwpiau clebran. Crybwyllir cyfundrefnau eraill, wrth ymlwybro ymlaen megis Cyfundrefnau Ymarferion ar gyfer adeiladu adnodd cyflawn a allai fod wrth law ar gyfer athrawon yn lle casglu hap a damwain. Dechreuir drwy strwythuro'r dysgu sy'n arwain i strwythuro grwpiau.

A dadleuir y dylai fod gennym yng Nghymru mewn canolfan briodol un person neu rai personau sy'n hyddysg mewn Ieithyddiaeth Gymwysedig a Didacteg Iaith a allai gyfarwyddo'n gyson ymarferol a chynhyrchiol a rhoi cyfarwyddyd proffesiynol ac arwain ymchwil yn y maes hwn. Dylai'r person arweiniol ei hun fod yn brofiadol o gynllunio cwrs a'i gyflwyno, ac wedi'i hyfforddi mewn Adran Ieithyddiaeth gymwysedig o safon gydwladol. Dylai fod gennym hefyd gyfnodolyn safonol academaidd sy'n cyhoeddi astudiaethau ymarferol a gwaith enghreifftiol yn y maes.

Cafwyd yng Nghymru gyfresi braf o athrawon, tiwtoriaid, a chyflwynwyr cyrsiau gwir ddawnus ac ymroddedig. Ond gwnaethpwyd popeth erioed mewn cyd-destun brys ac argyfwng. Ac yr oeddem fel pe baem yn dechrau o'r newydd o hyd. Lle y cafwyd dadansoddiad ieithyddol proffesiynol, ysywaeth, bu'n rhy bell oddi wrth y dosbarthiadau. Fe'i cafwyd yn annibynnol ar gyfeiriad a gwth ymarferol astudiaeth i

adeiladu'r iaith yn y meddwl ac yn y dosbarth. Ni chynlluniwyd yn broffesiynol o'r herwydd, nis unwyd gan wella a gwella'n ymarferol i'r athrawon mewn olyniaeth gynyddol gyda phob cwrs newydd a luniwyd. Cafwyd ar un adeg dafodieithgwyr a gramadegwyr pur na lunient gyrsiau. O'r herwydd, anwybyddwyd bodolaeth real ac ymarferol iaith lafar safonol. Ond y mae angen hyfforddiant ymrwymedig gwahanol ac ymarferol drwyadl mewn didacteg.

Nid trafodaeth ramadegol ar y ferf a phwyntiau ynysedig felly a ddymunir bellach yn y cyd-destun hwn. Ac eto, mae angen arolwg o'r diriogaeth oll a'i pharamedrau a'i chydlyniad, mewn gramadeg, geirfa, a dulliau dysgu. Mae angen strwythuro cyfanswm y materion sy'n berthnasol i ddysgwyr. Yna, gellir ynysu problemau. Gellir penodoli'r strwythurau dechreuol a chanlynol (a chyferbyniol efallai), penderfynu'r cyd-destun sefyllfaol neu ffwythiannol sy'n addas i'r strwythur, cymhwyso'r fethodoleg holi ac ateb i'r strwythur a'r eirfa dan sylw, ac ymgynghori â'r model cyflawn ymarferol. Ond cyn hynny, bydd angen o hyd amlinelliad syml o rywbeth mor elfennol â Chyfundrefn y Ferf. Ac ni chafwyd un drwyadl o hynny tan heddiw.

## 6. YR ALWAD AM GYNLLUNIO PROFFESIYNOL GWYBODUS

Hoffwn i gymryd y gair 'YES' fel symbol ar gyfer y gyfrol hon. Mae'n air syml. O'r braidd fod yna air symlach. Ond a wyddoch chi sawl gair a ddefnyddir yn y Gymraeg ar gyfer ei fynegi? Saith? Dwsin? A wyddoch fod ymhell iawn dros hanner cant o eiriau gwahanol ar lafar? Ac yn llenyddol, gellir ychwanegu at y rheini.

Dyma arwydd o fwlch syml yn ymwybod y Cymry Cymraeg naturiol nad ydynt fel arfer yn ei wybod yn syth pe holid hwy am yr iaith. Ac i athro ail iaith cyfyd broblem yn y gwaith o ddadansoddi a datrys problem yr iaith. A wyddoch am unrhyw arolwg unrhyw le, unrhyw astudiaeth gyflawn o'r broblem ddidactig elfennol hon, o safbwynt trefn olynol y dysgu? **Mae'r maes mor amlwg yn broblem fel na ellir ei gweld.** Mae'r gair bach hwn mor bwysig a gwaelodol i'r sawl sy'n dysgu'r iaith, nes ei bod yn rhythu ar Ddysgwyr yn ei symlder a'i gymhlethdod heb ei weld. Cymerir y cwbl yn ganiataol fel y gallwn hwylio yn ein blaen heb sylwi arno.

Tybiwn fod Ie, Oes; Ydw, Wyt, Ydy, Ydyn, Ydych, Ydyn; Do; Oeddwn, Oeddet, Oedd, Oedden, Oeddech, Oedden; Bydda, Byddi, Bydd, Byddwn, Byddwch, Byddan; Byddwn, Byddet, Byddai, Bydden, Byddech, Bydden; Byswn, Byset, Bysai, Bysen, Bysech, Bysen; neu rywbeth felly yn gwneud y tro. Ond beth am frawddeg fel 'Wnewch chi'r gymwynas hon? Gwna.' A dyma ni'n dechrau ar: Gwna, Gwnei, Gwna, Gwnawn, Gwnewch, Gwnan; wedyn – Ca, Cei, Caiff, Cawn, Cewch, Cân; wedyn – Dylwn, Dylit, Dylai, Dylen, Dylech, Dylen. Ond ystyrier y frawddeg 'Weli di'r aderyn yna? Gwela.' Neu 'Glywi di'r aderyn yna? Clywa.' 'Allwch chi wneud hyn heddiw? Galla.' A dyna dros ddwsin arall yn y fan yna. Ac yn y blaen. A pha ferfau eraill sy'n gweithredu'n debyg? Ond ble, sut y trefnir dysgu hyn? Mae'r broblem yn cael ei chymryd yn ganiataol. Mae'n rhy dechnegol. Edrychwn ffordd arall. Nid yw yno.

**Mae'n rhan o'r rheswm dros roi'r fath le i'r dull Holi ac Ateb fel sylfaen cwrs.**

Ond yn sydyn, i ambell athro mae'r bwlch elfennol hwn yn rhythu arno am y tro cyntaf yn ei lawnder. Mae yna batrymau perthynas ac ymarferol yn y fan yma. Ond cyn i baratöwr cyrsiau ystyried ym mha drefn y dylid cracio'r her yma, rhaid iddo eistedd yn

ôl a meddwl yn drefnus. Dyw polisi, neu ymchwil, neu ateb politicaidd ddim yma nac acw heb wneud rhai pethau sylfaenol. Felly y mae hi yn achos Egwyddorion 'Gwirfoddol', 'Pawb', 'Ewyllys'. Mae yna fylchau syml, syml yn y meddwl wrth ystyried adennill iaith. Brysiwyd i ateb y broblem gynt gyda'r ateb anghywir – Deddf, Plant, Statws – ac ni fyfyrwyd, nid astudiwyd symlder ofnadwy'r broblem i Bawb. Buwyd yn dilyn anhrefn draddodiadol. A'r broblem yw, oherwydd llesgedd arfer, a rhwyddineb anwybyddu, y gallwn fynd yn ein blaen at y diwedd yn hapus, heb byth ystyried bod yna rai atebion eglur wedi bod yn rhythu arnom yn ein hwynebau yn groes i'r graen.

Nid Gramadeg na Geiriadur yw hyn. (Ond gwych yn yr achos hwn yw'r pedwar dosbarth ar 'Yes' a amlinellwyd yn yr athrylithgar *Geiriadur yr Academi*, Griffiths a Jones, 1995.) Cyfeirlyfrau yn y fan yna yw'r Gramadeg a'r Geiriadur a fydd wrth law gan athro iaith. Nid peth felly a geir yn y gyfrol yma. Bydd Gramadeg yn ôl pob tebyg yn crynhoi, hyd yn oed yn rhannu, pob math o ffeithiau egwyddorol am yr iaith yn ôl trefn Rhannau Ymadrodd. Rhaid cael gramadeg yn sail i bob iaith. Ond nid dysgu'r wybodaeth honno yw dysgu 'iaith'. Bydd Geiriadur fel arfer yn rhestru geiriau'r iaith yn ôl trefn yr wyddor yn ôl y llythrennau cyntaf. Nid dysgu'r rheini ar y cof yn ôl y math yna o olyniaeth a wna'r dysgwr. Ac eto, roedd eisiau i rywun baratoi'r ddau beth hynny ymlaen llaw. Trafod problemau gwella'r Adennill yw baich y llyfryn hwn: dadansoddi, mabwysiadu, cofio iaith. Ond codi'r cwestiwn **trefn**.

Bydd y dysgwr yn cyfarfod â geiriau (mewn brawddegau yn bennaf) yn ôl trefn addas mewn dysgu. A dylai fod cynnydd cyson a gofalus rhwng un pwynt dysgu a'r llall. Eisoes dadansoddwyd yr iaith gan ysgolheigion, ond yn bwysicach y mae'r siaradwyr brodorol eu hunain wedi dadansoddi'n bywyd, ac adeiladu'n deall ac wedi ffurfio'r hyn y gellir ei alw'n 'arfer da' wrth siarad o'r tu mewn iddi. Ein gwaith ni fydd penderfynu beth sy'n greiddiol; ble y dechreuwn; a beth sy'n ddefnyddiol ar gyfer datblygu hynny, o gam i gam. Byddwn yn ymwybodol iawn o ddethol, ac yna o drefnu, a hynny oll *heb* y cymhelliad aruthr sydd gan y baban sydd heb gyfrwng cyfathrebu ieithyddol parod o gwbl. Crynhown yn fras y llwybr y bwriadwn ei ddilyn.



## I. *Model Iaith Lafar Safonol*

Oherwydd y pellter yn y Gymraeg rhwng yr iaith safonol lenyddol a'r iaith dafodieithol, ceir anhawster weithiau i benderfynu pa ffurfiau y dylid eu dysgu'n gyntaf i ddysgwyr ail iaith. Ond ers canrifoedd oherwydd sefydlu iaith lenyddol safonol pregethwyr, Ysgolion Sul, cylchdeithiau'r beirdd, a ffactorau eraill, megis y cyfryngau heddiw, cydnabuwyd a datblygwyd, tan ddylanwad llenyddiaeth, iaith lafar safonol. Gan na chafwyd digon o ymchwil, bu'n rhaid dibynnu hyd yn hyn ar brofiad sylwadaeth ac egwyddorion wrth baratoi model llafar safonol.

Pan glywn ein Gweinidog Treftadaeth neu ddarlledwr y tywydd yn siarad, dyna a siaradant.

Ond o leiaf gobeithio y byddwn yn cytuno oherwydd profiad didactig nad oes angen cyd-gyflwyno dewisiadau geirfaol. Ffolineb yw cyflwyno cywair llafar a llenyddol yr un pryd: dyweder *sydd/sy*; *yr oedd/roedd*. Dewiser yr anffurfiol safonol bob tro yn hytrach na'r ffurfiol hynafol:

*peidiwch â smygu yn hytrach na nac ysmygwch.*

Problem fach. Dywedir hynny yn y fan hon, oherwydd mai un o'r gwyrddroadau mwyaf cyson mewn cyrsiau yw anghysondeb ac amlhau posibiliadau blith draphlith bentyrrol ddiangen. Sylwer mewn Llafar Anffurfiol ar hepgor y rhagenw perthynol a geir mewn Cymraeg Llenyddol 'dyma'r dyn (a) welodd e'. Ac felly y rhagenw gofynnol: 'Aeth e i'r tŷ?' Wrth i'r ail ennill ei le, a cholli collnod, ceir enghraifft o bleidio Cymraeg Llafar Safonol. Ond ceir anwadalwch o hyd.

*Ond pwy bynnag sydd wedi bodloni ar ddysgu 'Maen nhw' yn hytrach na 'Maent hwy', mewn cwrs i ddysgwyr, eisoes wedi cydnabod yr angen i gael model o iaith lafar. Hyd yn oed y rhai sy'n ymosod ar Gymraeg Llafar Safonol. A chan na ddefnyddiwyd 'maent hwy' mewn cywair naturiol mewn unrhyw dafodiaith ers cannoedd o flynyddoedd, mae'r ffaith honno'n gymorth i benderfynu beth yw'r arfer ar ddechrau cwrs dysgu. Rych chi ar y ffordd i Gymraeg Llafar Safonol.*

Gwelwn felly mor bwysig o safbwynt cyflymder dysgu — ffactor eithriadol werthfawr — yw rhoi *un ffurf* ar y tro, heb gymhlethu a phentyrru drwy ddefnyddio dewisiadau na chyfystyron 'diddorol'. Dyna un o feiau negyddol cyffredin ein cyrsiau fel pe bai ein dysgwyr am ddysgu amrywiaeth o dafodieithoedd yr un pryd.

Wedi'r Cyfarwyddwr ymchwil, drwy'r lluniwr cwrs, a'i Ramadeg a'i Eirfa wrth law, dylid bod wedi hen ddethol ffurf lafar gyson cyn cyrraedd tiwtoriaid ac athrawon. Bu hyn yn fater gwleidyddol ddiwylliannol o'r dechrau ysywaeth. Hyfryd, hyfryd yw ymrafael tra bo Rhufain yn llosgi. Ond symudwyd gan bwyll tuag at gonsensws deallus. Bellach, dylid rhoi'r sylw blaenaf i'r olyniaeth gydlynol neu'r drefn, ac yna i beidio â gwro'n anghyson at amrywebau diangen.

## **II Graddio Strwythurau**

Peth i'r cefndir ac i'r paratoi yw graddio.

Gall gor-ddibynnu trwm ar raddio arwain at fod yn ddienaidd, mae hynny'n wir. Ac mae gormod o ddrilio, er ei fod yn dderbyniol, yn gofyn am gynildeb gyda phlant. Fel arfer, y mae cymhelliad oedolion yn fwy amyneddgar. Gallant ddeall egwyddor graddio. Gallant oddef disgyblaeth drilio, er enghraifft, ac ymarferion â phatrymau os ydynt yn argyhoeddedig bod yna symud yn ei flaen, a chynnydd hyderus. Ond hyd yn oed gydag oedolion, dylid arwain mor gyson ag sy'n bosibl at ymddiddan. Ond hyd yn oed gyda phlant gwerthfawrogir tipyn o ddrilio hwyliog cyflym. Dylid felly o fewn patrwm o raddio sicrhau fod yna lwyfannau neu 'seiliau' bob hyn a hyn, manau aros, i ailadrodd ac i ymdroi'n adolygol. Dyna pam yr amlinellwyd rhaglen atodol i strwythurau yn *Dysgu Cyfansawdd* 185, lle y defnyddir Chwaraeon, Posau, Cartwnau, Darnau Darllen (Lecture Expliquée) ar wahanol bynciau ac yn storiol, ynghyd â Strwythurau a Chaneuon, ayb. i adolygu'n bennaf, o fewn patrwm Graddio. Mater o werthuso cyflwyno yw hynny.

Ysgerbydau yw Strwythurau wedi'u graddio. O amgylch yr ysgerbydwaith yna y mae'r cig a'r cnawd. Mae a wnelo graddio ag olyniaeth a grwpio, ac â chyflymder y dysgu (gan gynnwys ailadrodd ac adolygu).

1. *Y Cam Cyntaf*, i Gynllunio Cwrs, felly yw mapio'r gyfundrefn / neu'r cyfundrefnau sy'n cael eu trafod yn ôl eu cyswllt â'i gilydd. Wrth gwrs, mae llawer o'r patrymau eisoes ar gael, yn oer megis, mewn llyfrau gramadeg, a rhestri geirfaol ar gyfer ffwythiannau.

(a) Rhaid sicrhau bod y gramadeg yn fanwl gywir. Ac erys rhai cyfundrefnau y mae angen eu dosbarthu a'u dadansoddi yn eu graddio, megis Cyfundrefn y Ferf.

e.e. Bydd rhai gramadegau yn dal i sôn o hyd am 'rhedaf' fel y Tymp Presennol.

Dyfodol yw. Nid oes Presennol ond yn y ferf 'Bod', a rhai o'i hestyniadau, megis 'Gwybod'.

(b) Rhaid sicrhau bod y ffurfiau gramadegol yn gyson unol â'r hyn a benderfynwyd yn benodol bendant yn y Model Llafar Safonol:

e.e. Gwrthodir 'Nage fi sy'n dweud' am ei bod yn rhy leol. 'Cysondeb' sy'n groes i'r 'lleol' yw'r amod bob amser. A 'chyffredinolrwydd' yn amod arall cyn belled ag sy'n bosibl.

(c) Mae angen o hyd lunio amlinelliad llawn dosbarthedig o'r Mathau o Ymadroddion a Brawddegau (Cymalau) sydd yn wynebu'r Dysgwyr, ynghyd â'r Treigladau perthnasol.

2. *Yr Ail Gam*. O fewn trefn yr olyniaeth, dechreuir gyda'r Frawddeg Gnewyllyn Symlaf neu Fwyaf Ffrwythlon sydd i'w chyflwyno mor fuan ag sy'n bosibl.

Hynny yw, er y gellid efallai ddewis 'amgylchfyd' o ran cartrefolrwydd cwrs, gydag ymadroddion hwylus, fel aperitif (e.e. Bore da, Noswaith Dda, Hwyl Fawr), rhaid i *drefn* y cwrs gwaelodol ei hun yn hwyr neu'n hwyrach ddechrau a dilyn y tu allan i'r dull ebycheiriol, cyn belled ag y gellir, — (a) Llwybr sylfaenol di-dor; (b) Lle y mae brawddeg 3, yn dilyn brawddeg 2, yn dilyn brawddeg 1 cyn belled ag sy'n bosibl o ran cystrawen a symlder. Y ddwy egwyddor hyn yw'r adain strwythurol ar ddysgu cyfansawdd.

### **III Graddio Geirfa**

Gellid graddio geirfa mewn ffyrdd gwahanol. Y dull 'ysgolheigaid' cyntaf oedd yn ôl amllder defnydd. Bellach, codir ystyriaethau eraill.

(a) Gellid grwpio geirfa yn ôl sefyllfa (neu ffwythiant) er mwyn adeiladu brawddegau sy'n mynd gyda'i gilydd yn ymarferol mewn ymddiddan.

(b) Gellid ystyried rhai grwpiau geirfa ymhellach ymlaen er mwyn adnabod cenedl enwau; ambell grŵp — yn ôl terfyniadau, ambell un yn ôl meysydd ystyr.

(c) Gellid grwpio geirfa mewn rhai achosion yn ôl y dull o lunio 'lluosog'.

Nid yw graddio geirfa mor bwysig bellach â graddio patrymau. Dibynna ar amgylchfyd neu ar oedran y dysgu. Byddir o hyd yn ystyried defnyddioldeb, amllder, a hwylustod, ond yn ôl *fel y mae geirfa yn ymglypsu mewn sefyllfaoedd, ffwythiannau, a thybiannau craidd ac ailadroddoldeb*. Dyna'r adain sefyllfaol mewn dysgu cyfansawdd. Hynny a fydd yn penderfynu'r Eirfa. Ond os ysgerir y ffwythiannol rhag y graddedig, mae yna rywbeth o'i le ar y cwrs. Ac eto, fel yr esbonnir ymhellach, gellir cadw llygad cefndirol hefyd o hyd ar yr hen 'gyfrif amllder' geirfaol a fu mor bwysig ers talwm: gw. *Graddio Geirfa*, R. M. Jones. Soniaf yn fanylach am hyn ymhellach ymlaen.

#### ***IV Methodoleg Holi ac Ateb***

Yn gynnwys mewn cwrs dylid dysgu'r grefft o holi ac ateb gan mai dyma'r modd i ysgogi cwestiynau mewn dosbarth.

Mae hyn yn cyfuno â (i) phroblem 'Yes/No' yn y Gymraeg.

â (ii) phroblem y Frawddeg Bwyslais.

Dyna'r ddolen gydiol gyntaf mewn Methodoleg sy'n clymu Strwythur wrth Sefyllfa (neu Ffwythiant).

Arf anhepgor a hynod bŵerus yw cwestiyna yng nghynhyrsgaeth yr athro. Mae'n mynnu ymateb gweithredol gan y dysgwr. Ac y mae'n gam amlwg ymlaen at ymddiddan.

Mae yna bedair ystyriaeth arbennig wrth ddatblygu fframwaith cwestiyna mewn cwrs:

1. *Dylid gwylid rhag ceisio cael atebion artiffisial a 'llawn er mwyn ymarfer â'r iaith'*: e.e. Nid 'Ydy John yn dod? Ydy, mae John yn dod.' Yr hyn sy'n naturiol yw 'Ydy John yn dod? Ydy.' Er mor bwysig yw Cwestiyna Cytundeb fel hanfod mewn Cwestiynu, Cwestiyna Gwybodaeth yw'r rhai sy'n ysgogi'r mwyaf estynedig o ymateb naturiol. Ac eto, er ceisio anelu at holi ac ateb naturiol yn y diwedd, ni raid bod yn brennaidd chwaith, gan fod drilio trawsnewid patrymau'n galw am rywbeth heblaw ymddiddan 'naturiol' ambell waith. Nac ofner ambell ffurfioldeb.

2. *Ymarferiad Sylfaenol yw Holi ac Ateb ar gyfer Darn Darllen (lecture expliquée)*. Dyma un senario:

Fe all athro gymryd unrhyw Darn Darllen, a throi pob gosodiad yn gwestiwn. Yn wir, gellir mynd ymhellach, a chynllunio rhediad gwers fel hyn:

- (i) Darllen paragraff;
- (ii) Esbonio cystrawennau a geirfa'r paragraff;
- (iii) Dril 'artiffisial' cyfieithu brawddegau byrion ar lafar: Cedwir y brawddegau'n gwta er mwyn cael ymateb mor sydyn ag sy'n bosibl, tan amrywio yn ôl safle elfen yn y frawddeg i lunio dril. Cyfeirir â'r bys at ddysgwr er mwyn peidio â gwastraffu amser. Y frawddeg yw'r uned. Ni cheisir cyfieithu fesul gair. Da yw 'rhedeg' ambell batrwm heb fod yn undonog, gyda newidiadau mân, er mwyn cynnal sydynrwydd yr ymateb. Dyma gwllwm adolygol i 'ddrilio' amrywiol. Sylwer pa batrymau a ddysgir cyn cyrraedd y rhediad ymarferiadol hwn.

e.e. Breakfast is ready / Is breakfast ready? Her breakfast is ready / Is her breakfast ready? My breakfast is ready / Is my breakfast ready? His breakfast is ready now / Is his breakfast ready now? ayb.. Y cyflymder 'ar y pryd' yw'r gyfrinach.

- (iv) Wedi cyrraedd y diwedd, darllen y darn yn gyfan drachefn, gan arwain at holi ac ateb *rhydd* a naturiol yn y Gymraeg: athro a disgybl; disgybl a disgybl.

### 3. *Graddio Cwestiynau*

Maes o law, bydd yn rhaid amlinellu grid cwestiynau, er mwyn arolygu'r maes yn weddol ddihysbyddol. Dosberthir y maes cyn graddio'n gyferbyniol.

(a) Mae ***Cwestiynau Cytundeb*** yn dod i mewn ag un maes pwysig i ddysgwyr, sef Amrywiaeth y geiriau Cymraeg ar gyfer 'Yes'. Yn hwyr neu'n hwyrach, mae'n briodol cael gwersi penodol ar y rhain:

Gwersi i gyflwyno: 'Ydych chi? Ydw.' 'Ydw i? Ydych.' 'Ydy e? Ydy. Nac ydy.' Dyna'r ateb o safbwynt dysgwr sy'n cyfateb i: 'Are you? I am.' Hynny yw, defnyddir y ferf i ateb.

Cyferbynnir hefyd oddrych amhendiant neu un heb y fannod. 'Oes rhywun wedi agor y drws? Oes. Nac oes.' Wedyn, tympau eraill y ferf: Ydy e wedi mynd? Aeth e? Oedd e yn Aberystwyth?

(b) Mae ***Cwestiynau Gwybodaeth*** yn dechrau â Ble mae? Sut mae? Beth yw hwn? Pwy? Faint?: Pwy yw? Pwy sy? ayb..

Gellir plethu Cwestiynau Gwybodaeth â Gwersi Cytundeb wedyn rhwng ei gilydd, e.e. Ydy'r llyfr gan rywun? Ble mae'r llyfr?, ond *sicrhau sefydlu* un patrwm yn gadarn cyn mynd at y llall.

### 4. *Amrywio adeiladwaith a threfn Cwestiynau*

Un peth sy'n maglu dysgwyr yw amrywio trefn patrymau cyn sefydlu pob un yn ei dro. Mae eisiau cyferbynnu dau beth cyn cyferbynnu tri. Cymerer y posibilrwydd o sefydlu cyfres o holi ac ateb ar ddechrau gwers: ymarferiad digon buddiol os nad eir ymlaen â'r un peth yn rhy hir. Sut ych chi heddiw? Ddim yn ffôl. / Wedi blino, mae arna i ofn. / Dw i'n barod i'r gwaith. ayb.. Sut mae'r tywydd heddiw? / Ddim yn ffôl. / Gallai fod yn well. / Dyw hi ddim yn ddigon cynnes. Datblygu ymhellach yr un drefn. Yna, dechreuer amrywio'r olyniaeth gan bwyll. Ceir dosbarthiad arall ar Gwestiyna sy'n

arwyddocaol yn y gwaith o amrywio, sef Cwestiynau Caeth a Chwestiynau Rhydd. Mae Cwestiynau Caeth fel arfer yn ieithyddol rwyddach na rhai Rhydd. Fel arfer, mae'r atebion yn gyfyngedig ac yn gymharol ddiddewis. At ei gilydd, mae'r Cwestiynau Rhydd yn fwy ystwyth eu hatebion. Mae'r Cwestiynau Caeth megis 'Ydy hi'n bwrw glaw? Ble dych chi'n byw?' yn ffeithiol syml ac yn gofyn am ateb penodol. Ond mae Cwestiynau Rhydd fel 'Sut le yw Aberystwyth?' yn fwy amrywiol eu hatebion.

### ***V Model Ymarferion***

Mae llunwyr cyrsiau yn y gorffennol wedi gwneud gwaith glew wrth hel Ymarferion Difyr yn ogystal â Defnyddiol, megis Caneuon, Chwaraeon, Posau, Naratif, Dramodigau. Ond 'hel' yw hynny: y mae angen proffesiynoli hyn oll a dosbarthu a chategoreiddio'r cwbl ar gyfer graddio a chymhwyso i bob cam yn y cyrsiau.

Peth buddiol yw casglu a dosbarthu'n ddadansoddol y mathau o Ymarferion sydd ar gael. Carwn esbonio ychydig o'm cefndir personol ynghylch arolygu Ymarferion. Ar ddechrau'r 60au pan fûm yn ymchwilio ym Mhrifysgol Québec yn yr Ysgol Ieithyddol yno, ceid amrywiaeth o Adrannau (Seineg a Ffonoleg, Arddulleg Gymharol, Seico-Gyfundrefneg Iaith, Hanes Ieithyddiaeth, a Didacteg Iaith). Yr olaf a'm denodd i Québec yn gyntaf, er mai Seico-Gyfundrefneg a brofodd yn fwyaf ei hysbrydoliaeth i mi yn y diwedd. Yr oeddwn yn Gymreig eiddigeddus o'r holl rychwant o adnoddau iaith a geid yno. Ni pherthynai Didacteg i'r Adran Addysg, lle yr hyfforddid Athrawon (a gwneud Ymarfer Dysgu), ond i Ieithyddiaeth. Astudiaeth Ddadansoddol-Ymarferol hollol academiaidd a hollol ymarferol mewn Ieithyddiaeth Gymwysedig oedd Didacteg. Ac un o'r cyrsiau mwyaf difyr yn y cwrs oedd **Dadansoddi Cyrsiau ac Ymarferion**. Ceisiai'r awdurdod bydenwog Athro W. F. Mackey lunio grîd i ni, fel canllaw i fwrw golwg eang ar draws gofynion ymarferion a'r dulliau gwahanol i'w hadeiladu a'u trafod. Ceisiai ystyried y mathau gwahanol o Ymarferion yn ôl posibiladau y technegau gwahanol a defnyddiol.

Ysgrifennais bwt am y Cwrs hwn wedi dod adref yn Rhifyn Medi o'r *Athro*, 1964. Yno nodais deipoleg ymarferion William F. Mackey, ac y mae'n adlewyrchu

catholigrwydd a threfnusrwydd ei feddwl. Seiliodd ef y dadansoddiad ar ei argyhoeddiad mai teipiau o ailadrodd effro ac ystwyth oedd pob dysgu iaith. Yn sicr, nid oes osgoi ailadrodd mewn iaith, hyd yn oed pe na bai'n golygu ond bod y dysgwr yn ailadrodd geirfa a phatrymau brawddegol cyfundrefnol yr athro. Gwelai ef dair lefel neu offeryn neu ysgogiad cynorthwyol yng nghyd-destun dysgu iaith: (i) Diriaethol (Ostensible: gwrthrychau real); (ii) Darluniadol (Graphique); (iii) Geiriol (Verbale). Canfyddai ef hefyd bedwar categori o ailadrodd posibl; a dau gyfrwng, Llefaru ac Ysgrifenedig; Derbyn a Mynegi yn ddau ymateb. A nodais o'r herwydd mai un ar bymtheg sydd o Gyfryngau mewn ymarferion fel hyn:

CATEGORIAU	LLAFAR		YSGRIFENEDIG		
	Derbyn	Mynegi	Derbyn	Mynegi	
(i) Parotiaith	1	2	3	4	Parotiaith = efelychu
(ii) Ychwanegiaith	5	6	7	8	Ychwanegiaith = dysgwr yn ychwanegu ar sail patrwm
(iii) Amrywiadiaith	9	10	11	12	Amrywiadiaith = dysgwr yn trawsffurfio ar sail patrwm
(iv) Defnyddiaith	13	14	15	16	Defnyddiaith = creu sefyllfa, a phrocio ymddiddan

Gwelwch ar sail hyn fod yna 16 o ymarferion yn bosibl yn ôl y method o ailadrodd. Ond wrth gyfuno'r rhain â'r tri ysgogiad neu'r tri offeryn (Diriaethol, Darluniadol, Geiriol), fe geid 48:

Teipiau o ailadrodd	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16
DIRIAETHOL																X
DARLUNIADOL																X
GEIRIOL				X	X					X						

Heriwyd y dosbarth i enghreifftio ymarferiad yn ôl y cliwiau ar gyfr lleoliad y croesau a nodais. Heriwyd ni hefyd i ddadansoddi cyrsiau yng ngoleuni hyn.

Yn fy ysgrif yn yr *Athro*, amlinellais y math o ymarferion sydd yn bosibl mewn pump o'r 48 hyn o slotiau. Nid dyna fy mwriad yn awr, er y gellir felly roi cig ar yr esgryn hyn. Dweud yr wyf ar hyn o bryd mai ffrwyth myfyrdod ymlaen llaw yw peth fel



hyn. Ac mae mawr angen ystyried yr amrywiaeth anferth sydd ar gael mewn dosbarthiadau iaith. Mae dull disgybledig Mackey yn sicr yn un o'r ffyrdd gorau i gyflawni'r dasg. A chyda myfyrwyr neu diwtoriaid mewn cwrs, gellid herio'r cydweithwyr i lenwi dyweder ryw chwech o safleoedd ag enghreifftiau. Rhais innau bum croes yn y safleoedd a enghreifftiais.

Eithr rhaid cyfaddef nad yw pob un o'r rhain bwysiced â'i gilydd. Erys y dasg o werthuso ymarferion. Hyn hefyd yw graddio. Byddwn innau wedi tueddu, oherwydd y profiad Cymraeg, i nodi hefyd *Sfferau* o ymarferion. Dyma'r *Sfferau* o weithgaredd sydd wedi profi'n ffrwythlon yng nghyd-destun y bwriad yn y pen draw i gorffori dysgu ail-iaith lle y ceir llawer mwy o hylifedd rhwng addysg ddwyieithog ac addysg arweiniol Gymraeg: 1. Caneuon, 2. Chwaraeon, 3. Dramodigau (ar sail sefyllfaoedd), 4. Posau, 5. Darnau Darllen, 6. Mathemateg, 7. Byd Natur, 8. Crefft, 9. Daearyddiaeth, 10. Hanes, 11. Ymarfer Corff. Pwysig yw dod at yr iaith o amlder o gyfeiriadau yn y pen draw. **Ac un o'r tueddiadau Cymreig mwyaf clodfawr a gwreiddiol fu cymhwyso ail iaith mor gynnar ag y gellir i Sefyllfa Dysgu Pwnc Arall.**

Oherwydd y duedd i edrych tuag allan am arweiniad wrth ddysgu ail iaith, fe fethwyd â datblygu'n ddigonol yng Nghymru yr arweiniad brodorol a gafwyd gan Gwyn M. Daniel a Moelwyn Preece i ddysgu'r ail iaith drwy'i gwneud yn gyfrwng gwybodaeth. Yn *Cyflwyno'r Gymraeg* 1964, 74-92, ymdriniais yn enghreifftiol â defnyddio'r ail iaith i 'feddwl' — yr iaith yn arwain at Ddaearyddiaeth, Rhifyddeg, Ymarfer Corff, Gwaith Llaw, Natur a Hanes ynghyd â chyfeiriad llawn at Gynllun Gwaith dwy flynedd gan Moelwyn Preece a ddatblygodd y dull hwn gydag arddeliad gwyd.

Mae hyn oll, yn gyntaf, yn ffordd o feddwl ynghylch amrediad ac amrywiaeth o ymarferion. Ond yn fy mryd i, y mae arolwg go drwyadl o gyrsiau dysgu Cymraeg fel ail iaith, a llyfrau dysgu Ffrangeg a Saesneg, tan gasglu ymarferion newydd wedi profi'n fuddiol a chystal â dim wrth ddadansoddi'r posibilïadau ymarferol.

## VI *Ymchwilio*

Cyn dechrau ar Ymchwil mewn Addysg, mae mawr angen myfyrio, a defnyddio synnwyr cyffredin.

Un o'n diffygion yng Nghymru fu diffyg ymchwil sy'n ymgysylltu â'r dosbarth, ac â'r adnoddau crai. Mae ymchwil ym maes yr ail iaith yn gallu bod yn hynod esoterig, ac y mae'n llwyddo'n hwylus i fethu â bod yn ddefnyddiol. Ceir ymchwil o'r fath ym mhob maes academaidd, wrth gwrs. Nid wyf am fychanu ymchwil ar 'agweddau' at yr iaith gan Gymdeithasegwyr, a'r hoffter o ystadegau. Ond bu gormod o Gymdeithaseg nas clymwyd wrth wella defnyddiau. Bu'n rhy newyddiadurol, er enghraifft, dibynnid ar amgylchiadau dros dro a chymhleth ar y pryd. Ond yn y Gymraeg, mae cynyddu ein medrau a'n defnyddiau ail iaith yn fater o fywyd neu farwolaeth i ddyfodol hunaniaeth diwylliant Cymru. Mae'n rhy hawdd cael ymchwilio yn y sefyllfa, gan anwybyddu'r cyraeddiadau neu'r amodau 'dros dro', a all ddarfod hefyd os yw un cwrs yn well na'i gilydd, ac agweddau rhieni'n rhagori am y tro, oedran dysgu'n wahanol, dulliau dysgu, maint y dosbarth, dosbarth cymdeithasol yn uwch, ac yn y blaen, materion sydd mor gyd-gymhleth nes gwneud holl ganlyniadau ymchwil yn gwbl ddi-werth mewn dim amser oherwydd bod yr hyn a fesurir yn llai syml nag a ganiatâ'r ymchwil ei hun yn ddilys. Mae'n debyg i 'wyddor' polau piniwn; o wythnos i wythnos.

Ceir llawer o ganlyniadau go sigledig oherwydd gorsymleiddio amodau addysgol. Credaf serch hynny y gall fod ymchwiliadau Cymdeithasegol yn y maes a allai gyfrannu at benderfynu ffwythiannau geirfa a defnyddioldeb mathau gwahanol o ymarferion, yn fwy o werth.

Ond fe ellir ar y llaw arall ymchwilio'n uniongyrchol ac yn fwy parhaol ei werth drwy ddadansoddi ieithyddol a seico-systemaidd ar gyfer *ymarferoldeb cyrsiau a dulliau dysgu athrawon i gynhyrchu gwaith solet a defnyddiol*. Wrth baratoi rhaglen ymchwil, y mae'n sylfaenol bwysig bod yna werthuso gofalus ymlaen llaw beth yw effaith ddatblygol canlyniadau tebygol i'r ymchwil a wneir gan ystyried

- (1) llawnder ac ymarferoldeb yr hyn sydd dan sylw mewn prosiect unigol,
- (2) defnyddioldeb ymarferol a parhaol y nod.

A yw'n werth ei wneud?

(1) Er enghraifft, gwastraff ar amser a maldod, os cywirdeb 'dihysbyddol' sydd mewn golwg, fu ceisio pwyso a mesur llwyddiant disgyblion, ac ansawdd neu werth cwrs (neu gyrsgiau cymharol) heb ystyried (a) Yn y lle cyntaf, faint o baratoad a geid wrth raddio strwythurau gramadegol i'r cwrs, wrth raddio geirfa, wrth baratoi methodoleg ac ymarferion addas? (b) Wrth gymharu tebyg â thebyg, a gyfrifid yn fanwl (tybed) gefndir ieithyddol y dysgwyr (eu haddysg, eu gallu), eu hoedran, oriau cyswllt, medr a phrofiad yr athro, natur ieithyddol y cyfathrebu yn y dosbarth — ai yn ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg y bu'r dysgu? Dyw rhoi egni i fesur effaith cwrs gwael ddim ond gwastraff amser heb ystyried yr *holl* ffactorau hyn. Gwell fel arfer yw hunanddadansoddiad profiadol gan athro hunanfeirniadol, gan geisio'r hyn sy'n bosibl ac yn weddol sefydlog.

At ei gilydd, dyw anwybyddu materion o'r math hwn, a cheisio ymchwilio'n symleiddiol heb ystyried criterion allweddol a chwbl sylfaenol, ddim yn arwain i undim ond oferedd. Hynny yw, ymchwil er mwyn ymchwil yw, neu ar gyfer traethawd gradd ddiamcan. Os ceir bod ymchwil o'r math hwn yn y bôn yn amhosibl o gymhleth ac yn ffeithiol anymarferol oherwydd llawnder y maes, yna mae angen troi egnion yn benderfynol oddi wrthi at ddosbarth ymarferol a dadansoddi materion mwy parhaol.

(2) Mae'n rhaid ceisio clymu ymchwil wrth waith buddiol yn y dosbarth. Er enghraifft, gall dadansoddiad o wallau fod yn werthfawr dros ben os yw'n arwain at ymarferion adferol neu iachaol. Ond mae cymharu 'gwallau iaith ymhlith pobl ifanc ail iaith â gwallau plant iaith gyntaf' at ei gilydd yn gwbl ansicr ei werth a'i ddefnyddioldeb cyn dechrau. Gellir dod o hyd i batrymwaith gwallau wrth gwrs, a chymharu cyrsiau (a'r ymarferion adolygu) yn ôl yr angen cyson. Mae'n amlwg fod cwestiwn fel 'ydy gwall treiglo cynddrwg â gwall cystrawen?' yn gwestiwn swrealidd a heb fynd i unman. Ond fe'i gwelais gan un ymchwilydd.

Mae ymchwilio y tu allan i ddosbarthiadau ym maes 'clymu'r dysgwyr wrth y Gymuned Gymraeg' eto'n ymarfer buddiol i Gymdeithasegwyr lle y gellir dod o hyd i bwyntiau ymarferol yn y dulliau o hel grŵp, hysbysebu, a'r drefn ddatblygu. Gellir

casglu cyfarwyddiadau gwerthfawr ar gyfer ymgyrch sefydlu cyfleoedd sgysio. Ond mae angen llunio ar sail amryfal brofiadau yn gyntaf raglen ymarferol ar gyfer trefnu grwpiau o'r fath, – sut y bydd ricriwtio Cymry Cymraeg a fydd yn rheolaidd eu cymorth?: yn annibynnol ar ddsbarth?; ar ddiwedd dosbarth neu fel grŵp mewn man ac ar amser annibynnol?; mewn trefniant cynorthwyol gyda mudiadau Cymraeg sefydlog yn y cylch – megis Merched y Wawr, Aelwyd yr Urdd, Eisteddfod Genedlaethol, Cymdeithas Edward Llwyd, Côr, Clwb Cerdded:~ ayb..

Bydd y gwaith fel arfer yn anffurfiol. Ond ar dro gall arolwg o Ymarferion mewn gwahanol ddeunyddiau neu sefyllfaoedd, ynghyd ag Ymarferion Ynganu, olygu casglu dygn cyn dod o hyd i'r Ymarferion mwyaf poblogaidd a defnyddiol.

Hyd yn hyn, ychydig sydd o wybodaeth ymarferol gwbl ddibynnol sydd wedi'i phrofi'u hunan yn ddigonol ym maes Seicoleg Addysg. Perthyn Iaith ei hun yn y bôn i'r Gwyddorau, mae'n wir. Ond perthyn *Dysgu* Iaith i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau yn hytrach nag i'r Gwyddorau, gyda'r holl amrywiaeth a'r cymhlethdodau sy'n perthyn i'r Dyniaethau. Ond mewn ieithyddiaeth, datblygwyd yr astudiaeth wyddonol o'r gair a'r frawddeg ers miloedd o flynyddoedd.

Dyna Ragymadrodd bras yn unig i gyflwyno'n gwta chwech o weddau ar Grefft Dysgu Iaith. Dyna'r dadleuon cyffredinol o blaid proffesiynoli rhai sectorau allweddol y buwyd braidd yn esgeulus yn eu cylch yn y gorffennol. A hwy yw calon adennill iaith. Ceisiwn yn awr ddychwelyd at y materion hyn i fanylu'n enghreifftiol fesul un.

## 7. MODEL IAITH LAFAR SAFONOL (YSGRIFENEDIG)

Penderfynodd bron pob hyfforddwr ail iaith yn y Gymraeg fabwysiadu model llafar yn bennaf wrth gyflwyno'r iaith o'r dechrau. A chawn gydystyried un model canolog llafar a fydd yn ddefnyddiol mewn Cwrs Iaith o'r fath. Awn ati, drwy gydol y dasg honno i ystyried problemau penodol, ymarferol wrth geisio adeiladu'r Cwrs Holi ac Ateb yn y pen draw. Bydd hynny'n gofyn Iaith Lafar Safonol, ac yr ym yn cael ein hwynebu ar unwaith gan broblem ymarferol dethol y dylid troi ein meddwl o'i chwmpas.

Bu'r Cydbwyllgor Addysg dros y blynyddoedd yn brysur ffrwythlon ynglŷn â hyn yn nannedd beirniadaeth a leihaodd yn sylweddol bellach. Lluniwyd cyfres gynyddol feirniadol ddatblygol o fodelau. A'r cwbl a honnwn yw bod eisiau, ar hyn o bryd, yn y cyfwng presennol sydd arnom ym myd dysgu iaith, i bob trefnydd a thiwtor unigol, yn ogystal â'r goruchel awdurdodau, fod wedi ystyried rhai o ofynion y 'broblem' hon.

Beth yw'r iaith lafar safonol (ysgrifenedig!)? Dyma'r iaith naturiol y bydd y rhan fwyaf o'r tiwtoriaid a'r athrawon eisoes yn ei defnyddio yn eu cartref ac yn y dosbarth ac yn awr mewn llawer o gymdeithasau beunyddiol. Cywair yw weithiau ochr yn ochr â chywair lleol cyfyngedig tafodiaith a all beri 'trafferth' i'r ymwybod o safoni.

Mae'n gywair ar yr iaith sy'n gyffredin iawn erbyn hyn, ac yn mynd yn fwy cyffredin oherwydd addysg ffurfiol, y cyfryngau, rhwyddineb teithio, a chyfarfodydd rhwng pobl a'i gilydd o wahanol ardaloedd neu gefndir. Dichon fod rhyw ffurf ar y cywair hwn wedi bodoli erioed. Math o dafodiaith yw, a bydd llawer yn cymhwyso eu tafodiaith ei hun iddi ychydig, yn ôl cynulleidfa. Mewn rhai ardaloedd a chylchoedd diwylliedig ym mhobman, dyna'r norm.

Y tu ôl iddi y mae elfen o ddiwylliant. Bydd y siaradwr safonol yn gyfarwydd â darllen y cywair 'llenyddol', yn ogystal ag ymweld â gwyliau diwylliannol, dramâu, neu â mynychu capel neu eglwys lle y clywir y cywair llafar hwn. Mae'n wrandawr ar y radio a'r teledu. **Ond nid cywair artiffisial na ffug mohono. Nid cywair gwneud yw.**

**Mae'n bod yn gyffredin ers canrifoedd, ac erioed.** Y gwaith cyntaf fu ceisio'i ddisgrifio fel safon, oherwydd bod cynifer o amrywbau ynnddi.

Mae'n gryn syndod i rywrai nad oes cydymffurfio haearnaidd o'r tu mewn i'r cywair safonol hwn. Hynny yw, ceir gwahaniaethau acen a rhai elfennau geirfaol a gramadegol sy'n gwbl dderbyniol o fewn ei gylchred fel rhai cydnabyddedig ac fel rhai llydan eu cyffredinedd. **Ond mae yna amrywiaeth unol hefyd**, er ei fod yn gyddealedig ddisylw gan mwyaf.

O ran Geirfa, dyna'r agwedd seml amlwg ym mryd siaradwyr tafodiaith wrth glywed geiriau bathedig newydd neu wrth glywed tafodieithoedd eraill ar y cyfryngau. Ond Gramadeg yw'r hyn sy'n cynnig yr amrywio mwyaf, a'r broblem fwyaf, o fewn y modelau gwahanol o ddysgu iaith lafar: 'e.e. ddaru, so fi, sana i, a.y.b.'!

Oherwydd amllder yr amrywbau cwbl dderbyniol o fewn yr iaith lafar safonol, doeth yw i athro neu i luniwr cwrs fabwysiadu 'model' unplyg rheolaidd. **I ddysgwr yn arbennig y mae casglu amrywbau yn fwy o rwystr na'i werth ar y dechrau.** Gall fod yn farwol mewn cwrs. Mewn cwrs cyffredin mewn dosbarth neu ar y cyfryngau, y mae cysondeb sefydlogrwydd dethol a chyson yn hanfodol er mwyn hyder, cadernid, a rhwyddineb y dysgwr. Gwiriondeb llwyr yw corffori amrywbau mewn cwrs, onid ar ôl i rai blynyddoedd o ddysgu cyson basio. Os oes hiraeth am ddysgu amrywbau ar diwtor, gohirier hwy'n ymarferol i gyfnod diweddarach. Trecher yr hiraeth. Os yw tiwtor yn teimlo ysfa am grybwyll rhai ffurfiau lleol sydd heb fod ym mhatrwm cyffredin model y rhanbarth, crybwyll hwy'n gyflym, ac yn ôl at y model tan yn ddiweddarach.

At ei gilydd, cyfyngedig yw'r prif leoedd y ceir amrywbau. Y ferf 'bod' yw'r pechadur mwyaf. A cheisir trafod rhai o'r egwyddorion y tu ôl i ddethol model. Yr ydym oll yn gyfarwydd â chyhoeddwy'r radio neu gyfwelwyr sy'n 'loyw' eu hiaith safonol, megis ar hyn o bryd Beti George, Dewi Llwyd, Huw Llywelyn Davies, Rhun ap Iorwerth, Vaughan Hughes, ac Angharad Mair a llawer o rai eraill. At ei gilydd, yn yr amgylchfyd presennol, ni ellid disgwyl llawer gwell, er bod yna ddyrmaid o feini tramgwydd megis 'cyfleon: dw i ddim yn gwybod os yw e'n dod; pan y gwelodd ayb.'

At ei gilydd, cymharol ddi-fai yw'n cyflwynwyr ar y cyfryngau. Nid erys llawer o bwys o'r cyfryw wyrdroadau na ellid ei dwtio mewn hanner awr pe dymunid hynny.

Bydd y sawl sy'n meddu ar iaith felly yn ddealladwy ym mhob rhan o Gymru ac fe deimlir ei fod yn siarad yn gywir naturiol. Felly, ceisir cynghori yn y fan hon (ar sail casgliadau pwyllgor cenedlaethol, sef '*Egwyddorion*' ar flaen *Ffurfiâu Ysgrifenedig Cymraeg Llafar*, CBAC, 1991) yn ôl cytundeb a fabwysiedir wrth *ddethol* ymhlith yr Amrywiadau. **Y nod yw nodi cyn lleied o amrywiadau ag sy'n bosibl neu'n briodol, a'u cyfyngu i'r rhai lleiaf cyfyng 'dafodieithol'**. Na'ch twyller eich hun. Erys digon o'r amrywiadau derbyniol. Yn fynych ceir mwy nag un posibilrwydd syml:

Ai John sy'n achwyn? | John sy'n achwyn?

A welodd e'r dyn | Welodd e'r dyn?

Mentwrn yn y nodiadau hyn beidio ag awgrymu'n haearnaidd, ac eto enwi'r posibilrwydd a ystyriaf ar hyn o bryd fel mater i'w drafod ar gyfer y cam nesaf yn y 'safoni'.

Glyner yma wrth yr ail, y mwyaf cyffredin ar lafar. Ac eto, glyner yn ysgrifenedig wrth y llafar cynhenid megis: e.e. '*Nac oes. Nac ydy* | *ynganer g* fel sy'n gywir erioed yn yr iaith lafar.'

Pwynt go eithriadol fydd pwynt felly.

Na chwyddwn yr eithriadau o'r fath yn fwgandod. Gŵyr bron pawb am y dull safonol ar ynganu ei (i), ein (yn), eich (ych), eu (i).

Na feddylier chwaith y gellir cymryd **un** Cymro Cymraeg diwylliedig a darllengar sy'n dod o un o gnewyll Cymraeg cyfoes eu hiaith, a chael bob tro gan y 'goreuon batrwm' i'w gymeradwyo fel un 'safonol' i'r dysgwr ym mhobman.

Yn yr holl amrywiaeth 'cyfoethog' a 'ganiatêr' o fewn cylch y cywair safonol, ceir llawer o ddewis. Y tro cyntaf y bûm i'n ceisio sefydlu model i ddysgwyr, y ddau a ddewisais oedd Syr Thomas Parry a'r Athro Jac L. Williams, y naill o Wynedd a'r llall o Geredigion. Ond methais fwy nag unwaith â dethol yn unplyg ddoeth. Dysg profiad

dosbarth mewn sawl ardal beth yw natur darganfod y safon. A rhaid bod yn barod i ddiwygio yn yr ymchwil. Ond gorau po gyntaf y sefydlogir.

Anturiaeth fawr oedd ceisio chwilio iaith lafar ysgrifenedig safonol. Bu llawer o wawd, wrth gwrs. Ac agenda personol. Deil rhai gweddau ar y frwydr o hyd. Ac nid hawdd eu datrys gan fod yr amrywiadau hyn yn fynych o'u mewn eu hunain yn 'safonol'. Ac ychwanegwyd bellach amddiffyniad ceidwadaeth i mewn i flynyddoedd o ddefnydd.

Erbyn y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn mewn cwrs, digon teg yw rhoi sylw ysgafn cynnil achlysurol (o ran diddordeb) i rai o'r amrywiadau tafodieithol o ran geirfa a chystrawen, y naill a'r llall. Ond rhan o hanfod y frwydr hon o lunio cwrs yw milwrio'n erbyn gwahaniaethau neu alleiriau cyfredol bythol bresennol yn ddiweddar. Y perygl wrth fod yn rhy amhendant yw cyflwyno dwy iaith yr un pryd.

Cyffelyb yw'r frwydr hefyd yn erbyn dysgu'n gyfredol yr iaith lafar a'r iaith lenyddol. Dyma eto dasg gyfiawn ddigon *i'w gohirio* nes bod yr iaith lafar safonol eisoes wedi'i sefydlu ym meddwl y dysgwr, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae pob dysgu 'cyfredol', mewn cwrs unplyg, cyson, a chyflym yn annoeth.

Ond cymerer nodyn difrif fel a ganlyn mewn un gyfrol barchus a rhagorol: [dyma'r ferf *cael* (gorffennol) wedi ei hysgrifennu'n llawn yno yn ôl amrywiadau pâr i'r dysgwr]:

<i>'Llafar</i>	<i>Ysgrifenedig</i>	<i>Ffurfiol iawn</i> (very formal)
Ges i	Ces i	Cefais
Gest ti	Cest ti	Cefaist
Gaeth e / hi	Cafodd e / hi	Cafodd
Gaethon ni	Cawson ni	Cawsom
Gaethoch chi	Cawsoch chi	Cawsoch
Gaethon ni	Cawson ni	Cawsant'

Dyma adlewyrchiad triphlyg trist ac ecsentrig o hen arferiad amrywebol dryslyd ymhlith athrawon, pentyrru 'gwybodaeth' anorffen yn wastraffus. Mae angen llunio



penderfyniad rhesymol ac ymarferol yn y fan hon. Dethol yn unplyg gall. Awgrymaf yn gyntaf fod hyd yn oed dwy golofn yn ddiangen ac yn ormodol. Heb sôn am dair. Ac mewn ambell enghraifft, mewn rhai llawlyfrau o'r fath, gall ymestyn hyd yn oed ymhellach. Mae yna gymaint arall i'w ddysgu i ddyfnhau a helaethu'r iaith cyn cyrraedd pethau fel hyn. Ar y tudalen sy'n dilyn y tabl triphlyg uchod dysgir:

‘Wrth ysgrifennu rhywbeth ffurfiol, mae'n bosibl newid:

Gaeth / Cafodd Catherine Zeta Jones ei *geni* yn Abertawe

Ganwyd Catherine Zeta Jones yn Abertawe.’

Mae'n wir bod treiglo *ges i* yn gyffredin ar lafar, er bod *ces i* hefyd yn dal yn naturiol. Y gwir yw bod y treiglad yma (byrfoddiad sy'n deillio, dybiaf i, oherwydd ‘fe’ neu ‘mi’ golledig) yn gyffredin wrth ddefnyddio bron pob ferf. Ond awgrymwn i beidio â threiglo yn y model unplyg gan gofio'r cyd-destun negyddol neu'r gofynnol, a chan gofio defnydd llafar traddodiadol sy'n dal yn fyw.

*Cymraeg Llafar Safonol* yw'r Gymraeg a siaredir gan siaradwyr heb arddangos tafodieithoedd gwahaniaethol eglur o fewn rhanbarth. Mae 'Model' yn gorfod dewis, ysywaeth. Ceir wrth gwrs rai ffurfiau tafodieithol parchus (hollol gywir, traddodiadol a phert) na byddai siaradwyr sydd wedi'u haddysgu mewn Cymraeg safonol yn eu defnyddio mewn amgylchiadau cyhoeddus cyffredinol, fel arfer: e.e. cyfrifid ‘tên’, ‘cêth’, boed yn Nwyrain Morganwg neu ym Mhowys yn gyffredinol ansafonol, er yn dafodieithol safonol. Mewn cwrs dylid defnyddio ‘cath’; ac nid dyma'r achlysur i fynd i'r stanc dros lafariad.

Cyfrifid ‘wes’ ‘we(dd)’, eto yn gyffredinol ansafonol, er yn dafodieithol hollol gywir.

Y mae ‘ôs’ ar y llaw arall bellach mor hynod gyffredin nes ei ganiatáu ym mhobman yn safonol, os yn safonol ‘ddieithr’ mewn ambell le. Er hynny, mewn cwrs, gellid cymeradwyo ‘oes’ o hyd (ar lafar ac yn ysgrifenedig), gan fod ceidwadaeth yn y fan yma heb darfu'n ormodol ar glustiau odid neb. Yng Nghymru, ceir gan 'y dosbarth canol' fwy o oddefgarwch 'arfer da' tuag at dafodieithoedd mewn cyd-destun cymharol ffurfiol nag sy'n gyffredin mewn gwlad fel Lloegr lle y ceir traddodiad solet dros ddwy

ganrif addysgol (a mwy) lle y ceid cywair cymharol sefydlog. Braff yw gweld balchder mewn tafodiaith, ond nid mewn cwrs ail iaith sy'n gogwyddo at safonau cyn belled ag sy'n bosibl o fewn Cymru oll.

Buan y gwelir fod angen llunio egwyddorion dewis:

1. Os oes dewis, cadwer y mwyaf cyfan sy'n cael ei ddefnyddio ar lafar:  
'Does dim' / Nid: 'Sdim'.
2. Os oes undod go lew ar lafar, derbynier yr un mwyaf cyffredin:  
'Ydyn nhw' / Nid: 'y dyn nhwy'.
3. Dyma faterion amgylchfydol a effeithiodd ar lif y llafar: yn y Gymraeg (talfyrru, gwyro, ayb.) codwyd rhai problemau oherwydd –
  - (i) Diweddarwch, bri a hyd traddodiad llenyddol llafar parchedig a byw yng Nghymru hyd at y Dadeni. Ceidwadaeth yr iaith lenyddol safonol wedi cyfieithu'r Beibl yn ymyrryd â pharch i'r iaith lafar safonol.
  - (ii) Ansicrwydd ffiniau geiriau oherwydd treulio seiniol amrywiol (Rwy'n, Dwi'n, Dw i'n, Wi'n ayb.) Nid yw pob siaradwr diwylliedig bob amser yn llefaru'n groyw draddodiadol fanwl. Mae yna duedd yn y Gymraeg, megis yn llif y llafar mewn ieithoedd eraill, i ollwng llafariaid, cytseiniaid a sillafau. Mae llif y llafar yn y Gymraeg yn nodedig wrth i un gair effeithio ar y nesaf wrth gydio yn ei gilydd. Ond cafwyd yn gyffredinol ym mhob iaith wâr mai aros mor safonol a diamrywiaeth ag y gellir yw'r ymarferol, o leiaf am rai blynyddoedd mewn cwrs ail iaith.

Effeithir hefyd ar yr iaith safonol gan bwysau cryf dwyieithedd. Ac yn hyn o beth, fe all y safon brofi'n ystwyth. Ceir lefelau o oddefgarwch. Ac mae'n gofyn bod yn glust-denau wrth synhwyro pa un sy'n amhersain o hyd i laweroedd. Ystyrir rhai ffurfiau'n is-safonol; ac y maent yn debyg i 'We was there' yn Saesneg. Dyma ffurf dra chyffredin i'r Sais dosbarth gweithiol. Ond ni byddai siaradwr sy'n meddu ar lefel gymedrol o addysg yn hoffi cael ei ddal yn ei defnyddio, neu'n cael ei ddysgu felly.

Problem yr is-safonol yw.

## *Cymraeg Llafar Safonol ac Is-safonol*

Weithiau ceir ymgais i amdiffyn Cymraeg Is-safonol, ar y sail

(1) fod pobl yn defnyddio'r iaith, a bod pob iaith yn 'gywir' os yw pobl yn ei defnyddio; dull ieithyddion hanner-pan.

(2) nad oes 'hawl' gan neb i ddweud a gawn ddefnyddio'r ffurfiau neu beidio.

'Ych chi'n barod i 'neud e?' 'Dw i YN!' 'Dw i YN hefyd' 'Ydy e YN?' 'Ydy'.

'Ble mae'n dod o?' 'Ble mae'n mynd i?' 'Sut mae e fel?'

Ceir yn llai gwrthun y cyferbyniad rhwng y Safonol: 'Fe ofynnaf a yw e'n dod' a'r Is-safonol (os): 'Fe ofynna i os yw e'n dod (cyf. Saesneg).'

Gall yr ail olygu: Fe ofynnaf ar yr amod ei fod yn dod.

Ceir hefyd: Dwi'n teimlo fel cwningen.

h.y. (a) Hoffwn gael cig cwningen i ginio (Saesneg: like, berf: hoffi).

neu (b) Dwi'n teimlo'n afieithus (Saesneg: like, tebyg i).

Rwy'n tybied mai'r dewis gorau i ddysgwyr fyddai'r ffurf lafar safonol draddodiadol, gan fod y safonol yn dderbyniol 'naturiol' i glust pawb, ac yn ymddangosiadol ddiuedd o safbwynt cywair.

Byddai dysgu neu 'ganiatáu'r is-safonol i ddysgwyr addysgedig a deallus yn cyfleu diffyg diwylliant annheg. Gall hynny fod yn rhan o agenda politicaidd digon naif gan awdur i fynegi gwerinoldeb neu ffug werinoldeb. Ceir hefyd yr agwedd 'Ond ydw i'n radicalaidd?' yn ddigon diniwed. Ond gydag agwedd felly, y mae'r athro'n manteisio ar ei safle am resymau amhriodol. Clustdneurwydd chwaethus sy'n rheoli.

Yr iaith lafar safonol a all uno Cymru Pawb.

Mae gwthio ffurfiau is-safonol ar ddysgwyr fel pe bai athro Saesneg yn dysgu 'we yurd (heard) e (he) wur there', ffurf dra chyffredin a gwerinol, ond y mae'r *cywair* yn 'anghywir', ac ni byddai llawer o bobl, o fewn cyd-destun cymharol addysgedig, am iddynt gael eu dysgu fel yna mewn dosbarth. Yng Nghymru, ceir balchder lleol ac

ystwythder at ddosbarth ‘gwerinol’, mae'n wir, fel y ceir siaradwyr ffurfiol (megis Prifathrawon Prifysgolion) sy'n medru bod yn dderbyniol ystwythach eu cywair yn y Gymraeg nag yn Saesneg o safbwynt tafodiaith. Ond nid mater o ddosbarth yn unig yw croywder a rhywiogrwydd iaith.

Nid dilyn patrwm y siaradwr diwylliedig yn ddigwestiwn yr ydym wrth ystyried model ar gyfer Cymraeg Llafar Llenyddol Safonol. Clywais wraig ddiwylliedig a darllengar o'r Bala yn sôn am ‘y blodau yn yr ar’ a ‘mynd i weld y *gerddi*’. Meddyliwch am y broblem o ollwng seiniau, a dysgu newyddian sut y mae llunio lluosog yn y Gymraeg. Mae ‘yr ardd’ yn ynganiad cwbl naturiol ym mhobman. Ac nid oes angen ‘yr ar’ ar ddysgwr, diwylliedig neu beidio. Mae yna ystyriaethau eraill wrth chwilio am fodel. A yw'r ffurf lenyddol yn arferedig ar lafar yn gyffredin o hyd? A yw'n ffitio'n briodol o fewn cyflwyniad gramadegol hwylus? Os felly, dylid ei hyrwyddo. Mae'r gwyrad o ‘a’ i ‘e’ wrth gwrs yn rhan o arferiad yr iaith ar lafar ac yn orfodol yn llenyddol: gardd, gerddi. Ac wrth gwrs, y mae'r terfyniad –i yno yn gyffredin safonol: aceri, allweddi, amlenni, arglwyddi.

Wrth geiso sefydlu model Llafar Safonol, bu'r Llenyddol yn ymyrrwr ffyddlon. Felly y cafwyd rhai problemau fel —

*Ffurfiâu Llafar Dilys Talfyrru neu Gwtogi*

Atebion	ydw (Nid: ydwyf)	ydyn (nid ydym)
	wyt (Nid: ydwyt)	ydych
	ydy (Nid: ydyw)	ydyn (nid ydynt)

*Problem bwysicaf y model i iaith lafar safonol fu:*

dw i / dwi / wi / w i / rydw i/ ayb. Gan bwyll, 'dw i' sy'n ymlusgo allan o'r frwydr.

Ceid dadl o blaid cadw'r rhagenw ôl yn annibynnol yn y fan hon o ran trefn ‘sgrifenedig’ er mwyn cydymffurfio â'r rhediad. Yn llif y llafar ceir problem hepgor gair crwn: dechrau gair, canol, a diwedd gair. Ac uchod, hepgor diwedd yn bennaf.

Ceir gosodiadau cwbl syml lle y bydd y geiryn ‘y’ neu'r ‘a’ ofynnol ragferfol yn diflannu.

Y mae ef yn gyrru:                      Mae e'n gyrru.

A ydynt hwy yn gyrru?              Ydyn nhw'n gyrru?

Yn wir, yn nhafodieithoedd y gogledd, ceir: Wyt ti wedi bod yno o'r blaen?

A dewis: Do / Naddo; Ydw / Nac dw

Gan fod yr ail yn safonol i bobman arall yn ogystal ag yn gyd-safonol yng Ngwynedd, dewiser mewn cwrs yr un sy'n gyffredinol.

### *Rhai Problemau Eraill*

Dychwelwn at broblem *Talfyrru* yn Llif y llafar ym mhob iaith. Ond mae'n nodedig safonol yn y Gymraeg. Gwelsom hepgor geiryn rhagferfol cadarnhaol:

(Fe) ganodd (Mi) ganodd. Ceir Yr oedd > **Roedd**

Felly'n gyffredinol hefyd geiryn rhagferfol negyddol: ni, nid, na, nac, nad  
Sylweddolir y negydd gan 'dim' (+ treigladd).

**Doeddwn** i ddim yn ceisio gwneud hyn.

**Does** neb wedi awgrymu hynny.

(**Dewis:** does dim yn lle sdim. Does neb yn lle sneb.)

*Ceir trafferth nid annhebyg yn y negyddu pwysleisiol*

Ddim fi fwytaodd y cig. Nid fi fwytaodd y cig. Nage fi fwytaodd y cig.

Ceir y tri ar lafar ond yr ail mewn sgrifennu 'unffurfiol' mwy 'llynyddol' hefyd, efallai.

Gellir, felly, ystyried bod yna dair problem gyson sydd wedi milwrio'n erbyn cydsynied ymarferol yn yr iaith lafar safonol.

(1) Perthynas yr Iaith Lenyddol.

(2) Perthynas Tafodiaith.

(3) Perthynas yr Is-Safonol.

Felly, wrth inni ymbaratoi ar gyfer cwrs sy'n sylfaenedig ar Holi ac Ateb fe fyddwn yn wynebu yn o fuan broblemau neilltuol i sylwi arnynt yn yr iaith lafar safonol. Bydd rhaid gwneud penderfyniad. Ond mater o amser (heb fod yn rhy hir) a fydd yn 'sefydlu' rhai o'r ffurfiau hyn yn y 'diwedd'.

1. *Cwestiwn Hepgor 'a'*, y geiryn gofynnol + ferf; ac 'ai' + unrhyw ran ymadrodd ac eithrio berf.

Collir yr 'a' / 'ai' yn yr iaith lafar safonol yn fynych iawn:

Ydych chi'n mynd heddiw? (Chwi > chi bob amser)

Ydy e'n mynd? (ef > e, fe, o, fo bob amser)

Oes lle i bawb?

Welodd hi'r ateb?

Twm sy'n achwyn?

Yn yr ysgol y bydd hi?

Atodyn: De: Dyna'r ateb i(e) fe? Gogledd: Dyna'r ateb, ie?

2. *Cwestiwn Goslef*

Hynny yw, gwahaniaethir rhwng gosodiad a chwestiwn yn syml drwy oslef.

John sy'n mynd. John sy'n mynd?

Ceir *atodynnau* yn y cyd-destun gramadegol hwn: O'r gorau? Iawn? Gellir ateb drwy'r un gair neu drwy ymadrodd, ond gyda gwahanol oslef.

3. *Cwestiwn Negyddol*: atodyn

Dyna chi syndod, ynte: gogledd

ynte fe: de

Gwelir yn y fan hon ar unwaith: (a) fod yna rai ffurfiau llafar safonol sy'n gyffredin i bob cefndir tafodieithol, (b) a rhai sy'n amrywio yn ôl y cefndir tafodieithol.

4. *Cwestiwn ebychiadol*

‘On’ d’ yn weddol gyffredinol

On’ d yw hi’ n braf?

On’ d oedd ’na sŵn?

#### 5. *Atebion i Gwestiynau*

Ateb gyda ‘Gwneud’: pob berf ond bod, gallaf, medraf, cael, dylai

Ewch chi heddiw? Gwna(f).

Weithiwn ni gyda’n gilydd? Gwnawn.

6. *Ailadrodd y Ferf* (er nad y person, heblaw’r trydydd) gyda bod, gallu, medru, cael, dylai: Fedri di ddod? *Medra*(f), nid *Gwna*(f)

Mae ychydig o ferfau eraill yn cael eu hailadrodd mewn atebion: mynd, dod, (gweld, clywed) weithiau. Ond gan fod ‘gwneud’ mor rheolaidd gyda’r holl ferf ac eithrio’r pump a nodwyd, gellid cymeradwyo *mewn cwrs* ymgyfyngu i’r dewis a nodwyd uchod.

Dyna faes lle y ceir problem ymarferol bwysig ymlaen llaw wrth lunio cwrs.

Yr un modd gyda chyflwyno *isio, ishe, eisiau*: mae’r sain *sh* yn arferol mewn safleoedd cyffelyb e.e. ceisio (ceisho), tresio (tresho) ayb. Bydd y dysgwr eisoes wedi dysgu bod pob *ae, ai, au* ddiacen ar lafar ar ddiwedd gair yn troi’n *e* yn y De Orllewin ac yn *a* yn y Gogledd Orllewin: felly dysgwyd eisoes ddarllen yn uchel neu ddweud rhywbeth tebyg i *eisiau* yn *eishe / eisha*. Yr ateb yn y fan hon yw peidio â chreu môr a mynydd o’r orgraff! Glyner wrth ‘eisiau’ yn ysgrifenedig (a dilyn y rheol o ynganu -au, -ei, -ae, fel e / a)

Ynglŷn â chyflwyno tafodiaith o ran gwybodaeth – ar ôl cyrraedd lefel sefydlog yn y cwrs – gall hynny fod yn gyfyngedig ac yn fater y gellid ei gyflwyno mewn dwy neu dair gwrs. Y mae cyflwyno’r iaith lenyddol ar y llaw arall yn gofyn sylw ychydig yn fwy estynedig, gan arwain at ddarllen, a all ddatblygu i fod yn gwrs llawn. Ond gwell ei neilltuo i fod yn swmp gyda’i gilydd yn hytrach nag yn achlysurol yma ac acw

fel cilsylwadau mewn cwrs sy'n parhau i gymryd yr iaith lafar safonol (ysgrifenedig) yn sylwedd.

Gwelodd y rhai sy'n ymwneud â'r maes hwn yn ymarferol feunyddiol, wyneb yn wyneb â dosbarthiadau, mai mantais yw cydsynied yn gyffredinol cyn belled ag sy'n bosibl. Yn wir, gall rhai carfanau wrthryfela, dryllio pob consensws, a mynd eu ffordd eu hun. A gellir cydymdeimlo â'r anawsterau. Dyna pam y mae'n bwysig, cyn mynd at enghreifftiau unigol, inni lunio rhai egwyddorion a all fod yn ganllaw haelfrydig a chytbwys sy'n parchu pob ardal ond yn nodi manteision undod.

Ceir ambell enghraifft yn y Gymraeg (oherwydd ambell ysgolhaig dylanwadol fel William Salesbury) lle nad yw'r darlleniad ddim mor ffonetig ag y gellid ei ddisgwyl: e.e. ei, ein, eich, eu. A gellid disgwyl rhywun yn awgrymu diwygio'r orgraff. Ond fe benderfynwyd ar yr orgraff yna yn weddol gyson ers tro bellach. A gwastraff ar egni, a chynnen, fyddai ffrwyth y fath ymyrraeth. Mae ynganiad yn y Gymraeg — ar wahân yn bennaf i'r 'y' — sy'n weddol syml, yn 'ffonetig' fel y dywedir. A hynny sy'n gymharol wir gyda Chymraeg Llafar Safonol.

Nid ymgais i ddeddfu yw'r drafodaeth; ond crybwyll rhai o'r problemau a'r egwyddorion yr ydys yn ceisio'u pennu.

Ond yn gynnar ar y trafodaethau ymhlith athrawon, sy'n dirwyn bellach tuag at sefydlogrwydd go lew i raddau, fe gafwyd awgrym mwy academiaidd (ac ecsentrig) na'i gilydd a ddeilliai o'r parch a gafwyd tuag at yr Iaith Lenyddol a'i safonau. Awgrymwyd gan ambell un ecsentrig y dylid argraffu a sillafu brawddegau 'yn llenyddol', ond eu hynganu nhw yn ôl dull llafar safonol. Hynny yw, awgrymwyd yn bwyllgorol un tro y gellid gweld yn y testun ar bapur:

'Pa ddosbarth yr ydych chi'n ei hoffi?'

'Pam na ddaeth ef?'

'Y maent yn dweud na fydd ef ddim yno.'

Ond awgrymwyd y dylai'r athro neu'r disgybl ei hunan, wrth siarad, neu wrth ddarllen y brawddegau, *ynganu* yn wahanol:



‘Pa ddsbarth dych chi’n ei hoffi?’

‘Pam ddaeth e ddim?’

‘Maen nhw’n dweud fydd e ddim yno.’

Ymhen hir a hwyr, drwy drugaredd, cytunwyd ar yr ail fersiwn ar gyfer ynganiad (**a sgrifennu**). Ond erys tri eithriad pwysig i'w clywed mewn 'modelau rhanbarthol'.

- (1) Oherwydd bod **rheoleidd-dra** go gyson gydag -au, -ai, -ae diacen yn y sillaf olaf (e.e ‘blodau’, ‘tafodiaith’, ‘gwahaniaeth’) i amrywio'r ynganiad mewn dwy ffordd mewn pedair ardal bendant, a hynny mewn cannoedd o eiriau, cymeradwywyd cael sillafiad unffurf yn llenyddol ysgrifenedig. Ond bydd yr athro a'r disgybl eu hunain yn *yngan* yn ôl yr amrywiad lleol: blode / bloda; tafodieth / tafodiath; gwahanieth / gwahaniath. A hefyd ateb / atab wrth gwrs. Nid -au, -ai, na -ae, felly yn y rhain o ran ynganiad, eithr o ran ysgrifennu 'llafar'.
- (2) Yn y rhagenwau 'ei, ein, eich, eu, ac' sut bynnag chwaith: cymeradwywyd mai'r ffordd gywir o'u hynganu wrth ddarllen yw ‘i, yn, ych, i, ag’. Felly dyna a gedwir mewn Iaith Lafar Safonol. Ysgrifennu felly'n llenyddol anffonetig; ond yngenir hwy oll fel yn gyffredin ar lafar.
- (3) Problem arbennig yw'r rhagenw blaen dibynnol ‘fy’. Cymeradwywyd yn *Ffurfiâu Ysgrifenedig Cymraeg Llafar*; CBAC, 1991 ysgrifennu *y* + treigladrwynol lle y bo'n bosibl, ac *yn* gyda phopeth arall — *y nhad, yn afal i, yn siswrn i*. Erys hon yn un o brif broblemau safoni llafar mewn cwrs dysgwyr. A bydd eisiau ymdrech ddewr i ddatrys yr anghytundeb... Rhagor o waed.

Diau y bydd yna ddatblygiad o hyd oherwydd anesmwythyd lleol ac oherwydd ansicrwydd parhaol wrth symud tuag at sefydlogrwydd safon.

Nid wyf yn y fan hon yn ceisio cyflwyno ateb terfynol i'r problemau sy'n codi, eithr pwyntio i'r cyfeiriadau y bydd rhaid ymchwilio yn y dyfodol am ddatrysiad(au) cyffredinol. Ond wele faes cyfan dyrys dadleuol gwaedlyd lle y myn rhywrai gynnal y frwydr gyhyd ag y gellid.

## 8. MODEL GRADDIO STRWYTHURAU

### *Model i'r Graidd-Frawddeg*

Mae Cyfundrefn y Frawddeg yn un o'r patrymau y mae angen ei hystyried yn ddwys.

Yr hyn yr ym ni am ei wneud yn awr yw meddwl am y Frawddeg Seml yn Strwythurol. Dyma mewn gwirionedd, sylweddoli hefyd yr Ateb o fewn sefyllfa 'Holi ac Ateb'.

Mae i'r Gnewyll-Frawddeg dri phrop neu dair colofn gynhaliol. Gwyddom eu henwau technegol, y rhannau ymadrodd traethiadol: I Enw, II Berf (Ansoddair), III Adferf.

- I. Mae'r cynheilydd sylfaenol i'r Frawddeg yn fath o Enw fel arfer (h.y. gall fod yn rhagenw, neu'n ymadrodd enwol). *Gall sefyll ar ei ben ei hun yn frawddeg. Tân!* Ond gan amlaf, mae'n ganolbwynt disgyrchiant sylweddol i'r Frawddeg. Hynny yw, gweithreda'r Enw fel cynheiliad i'r Ferf a'r Ansoddair a'r Adferf. O ran rhediad Mynegiant y frawddeg, gall amrywio yn ei safle allanol — ar y dechrau, yn y canol, ar y diwedd. Enwi rhywbeth neu enwi rhywun yw'i swyddogaeth bennaf. Yn wir, yn safleol allanol Mynegiant y Gymraeg, y norm yw mai'r Ferf sy'n arwain yn nhrefn y frawddeg normal, sef yr hyn a ddywedir yn amserol am yr Enw. Dyna'r rhan ddeinamig yn y Frawddeg, sy'n pennu Tymp yr hyn sydd dan sylw. Ond yn y meddwl, yr Enw ei hun yw'r hyn y dywed y Ferf amdano.
- II. Felly, yn feddyliol, mae'r Ferf yn pwyso ymlaen ar yr Enw. Yr Enw biau'r Ferf. Ymddengys yr Enw yn fwy seicolegol sefydlog, a'r Ferf yn fwy symudol at ei gilydd.
- III. Ac yna, yn ei thro, gellir dweud rhywbeth syml a sylfaenol am berthynas bellach y Ferf ei hun, pryd neu ble (lle ac amser) neu sut (y modd) y mae'n gweithio: sef yr Ad-ferf (a all fod yn ymadrodd).

A dyna inni dair colofn gynhaliol ystyrol y Frawddeg.

Gallwn amlinellu'r strwythur a'r gydberthynas hon drwy dabl syml ac elfennaidd er mwyn cyfleu dibyniaeth yn y meddwl: I. Hunanddibynnol, (dywed amdano'i hun); II. Dibyniaeth o'r Radd Gyntaf (pwysu ar yr hunanddibynnol, yr 'Enw'); III. Dibyniaeth ar Ddibyniaeth (pwysu ar y 'Ferf'). Swyddogaeth berthynas wahanol, bob un. Ond o ran trefn Mynegiant:

II	I	III
Mae	Gwilym	yma.
Ydy	Gwilym	yma?
Mae'r	bachgen	yn y tŷ
Oedd	y bachgen bach	yn yr ystafell?
<hr/>		
Rhedodd	y bachgen	yn gyflym, ddoe.
Cysgodd	yr hen wraig	drwy gydol dydd Sul.
Gwelodd	y bachgen	y dyn.

O'r braidd bod 'y dyn' yn y frawddeg olaf yn ymddangos yn Ad-ferf. Eto, mae'n 'adio' at y Ferf. Mae'r *safle strwythurol* ei hun yn 'drydydd', ac yn dibynnu ar safle meddyliol y Ferf sy'n dibynnu ar Enw. Gellir dal *tri chyd-ddibynnydd* yn isymwybodol yn eu perthynas yn y meddwl, yn sythwelediadol eu cyswllt, a hynny'n reddfol megis, yn 'anfwriadus'. Yn y dull seico-fecanig hwn o ddadansoddi, defnyddir y math o berthynas i ddiffinio'r 'gyf-un-drefn'. Adiad at Ferf yw Ad-ferf, ac nid un gair yn unig o raid. Pwysa ar y ferf.

Cyfundrefn graidd y Frawddeg yw'r tri phrop. Ond gallwn fynd un cam ymhellach. Awn at graidd yr *Ymadrodd*. Cyfosodwn, wedyn, strwythur yr ymadrodd ochr yn ochr â strwythur y Frawddeg Seml, gyda'r un tri safle meddyliol. Cyffelyb, ond nid yr un fath yn union, yw'r strwythur hwn hefyd o ran trefn berthynas feddyliol. Ceir

tair colofn feddyliol: gyda'r Enw yn cyfeirio ato'i hun, ac yn hunangynhaliol. Yn fewnol, y mae'r lleill yn dibynnu arno. Ond y mae'r drefn yn yr Ymadrodd yn wahanol yn allanol i'r Frawddeg mewn Mynegiant:

I	II	III
Bachgen	da	iawn
ENW	ANSODDAIR	ADFERF

(Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng Trefn yr Ymadrodd a Threfn y Frawddeg.)

*Dyma'r Patrwm i'r Ymadrodd Enwol, felly:*

Cynnar iawn mewn cwrs yw'r ymadrodd enwol. Ceir strwythur tair lefel (yn llawn) yn y fan hon eto. A'r un yw'r berthynas rhwng y tair elfen yn y bôn:

(bachgen	<i>Enw</i> )
bachgen da	<i>Enw + Ansoddair</i>
bachgen da iawn	<i>Enw + Ansoddair + Adferf</i>

Mae'r enw (neu'r hyn sy'n gyfatebol i enw, megis berfenw neu ragenw) yn hunan-ddibynnol o ran ystyr. Sôn amdano'i hun a wna. Mae'r ansoddair yn disgrifio'r enw, a'r adferf yn goleddfu'r ansoddair. Gellid *ychwanegu* geiriau eraill heb newid dim ar y ffurf gnewyllol.

- e.e bachgen da a gweithgar
- y bachgen (y fannod; mae'r fannod yn chwarae rhan debyg i ansoddair)
- y bachgen hwn
- y bachgen mawr hwn
- y bachgen mawr a thenau iawn hwn

'Mae'r bachgen mawr a thenau hwn yn rhedeg': yn y fan hon, o fewn brawddeg y digwydd yr ymadrodd, ond mae'r cwbl o'r 'ymadrodd' yn llenwi un safle mewn brawddeg neu un golofn — sef colofn yr Enw — yn y strwythur. Hynny yw, y mae'r Ymadrodd yn chwarae rhan un Rhan Ymadrodd — yr Enw. Enwyd pedair prif rhan ymadrodd fel hyn:

Enw	Ansoddair (Gofod) Berf (Amser)	Adferf
1	2	3

Gelwir y rhain yn Rhannau Ymadrodd Traethiadol am eu bod yn traethu am ryw ddeunydd neu syniad, ac yn angenrheidiol mewn brawddeg aeddfed ddatblygedig. Hwysy'n cynnal y brif ystyr sylweddol. Mae'r Rhannau Ymadrodd Eraill, megis cysylltair, arddodiad, rhagenw perthynol, ayb. yn cael eu defnyddio i uno perthynas ac i gynnal cyswllt mewn brawddeg, neu yn achos yr ebychiad i gorffori teimlad.

Gyda'r Strwythur Brawddegol Syml a'r Ymadrodd Syml, mae gennym y ddau'n strwythurau colofnog ar gyfer cynnal brawddegau syml. Yr unig beth a erys yw cael ymadroddion yn adeiladu brawddegau'n helaethach gan ychwanegu drwy gyfrwng rhannau ymadrodd cystrawennol eraill — sef y fannod, yr arddodiad, y cysylltair.

Dyna, sut bynnag, y ddau strwythur mawr syml mewn iaith: calon yr Ymadrodd a'r Frawddeg Normal.

Rhaid cadarnhau hynny oll ar y dechrau, gan mai dyna'r gychwynfan ar gyfer helaethu hyd y frawddeg a'r ymadrodd, yn ogystal ag ar gyfer datblygu eithriadau (fel y cawn weld) megis y Frawddeg Bwysleisiol. O ran cymhlethu'r Strwythur yn y Frawddeg Seml, gallwn gysylltu prif frawddeg (neu gymal) â phrif gymal; neu brif gymal ag is-gymal. Ond o hyd, erys y tri phrop yn ganolog.

Mae'r ffurfiau syml ychwanegol i'r Ymadrodd a'r Frawddeg yn tarddu o gyfundrefn neu o berthynas ddeuol / driol yn y meddwl. Ond mewn Mynegiant gellir cyfuno'r defnyddiau crai hyn i esgor ar Ymadroddion neu Frawddegau llawer mwy uchelgeisiol a chymhleth. Sylwer er enghraifft ar amrywiad go sylfaenol.

### *Y Frawddeg Bwysleisiol*

1. *Y ferf yn gyntaf yn safleol allanol* (galwn hyn yn norm Cymraeg).

Ydy John yn dod?	Oedd John yn dod?	Ydy John wedi dod?
Ydy. Mae John yn dod.		

Ond gellir *Symud Adferf*. Dyma drawsffurfiad, ac ymarfer â thrawsffurfiad.

Ydy John yn dod i'r tŷ?

I'r tŷ mae John yn dod.

2. Gellir canoli pwyslais ar yr enw: efallai am resymau pwysigrwydd neu deimlad.

John sy'n dod?

Ie. Fe sy'n dod heno.

Nage. Nid fe sy'n dod heno.

Mae'r dull cyntaf uchod yn canoli ar berson.

Ydw i'n dod? a'r ateb yn amrywio ar gyfer 'yes / no': Ydych. Nac ydych.

Ydych chi'n dod? Ydw. Nac dw. (Dyma norm y cwestiwn.)

Yn yr holl newidiadau ymarferiadol, gellir eu dysgu ar wahân gan fod cystrawen bwysleisiol yn y Gymraeg yn nodedig.

*Hunaniaeth (Maes diddorol yn y Gymraeg oherwydd y gair am 'Yes')*

Mae'r cwestiwn o gyfleu 'Yes / No' y Saesneg a thwf pwysigrwydd y rhagenw o fewn yr ateb cyfredol yn y Gymraeg yn fater o ddatblygu'r ymwybod o Hunaniaeth.

1. Darganfod 'fi': Mewn iaith plant, 'Lowri 'wneud e' yw un cynnig nodweddiadol gynnar ar frawddeg bwysleisiol. Cam neu sylweddoliad newydd fydd 'Fi 'wneud e'. Sylweddolir hunaniaeth lleoliad mewn gofod. Aeddfedrwydd safle meddyliol yw tri dimensiwn gofod. 'Fi 'wneud e?' 'Ie.'

Gwahaniaethir rhwng

fi / fe; fi / hi – sef ymwybod ag absenoldeb

ti / chi – cywair ar gyfer y person presennol gwrthrychol; a 'lluosog' unigol

ni – lluosog hunaniaeth eto

chi – lluosog lled absennol hunaniaeth eto

nhw – lluosog tra absennol hunaniaeth eto

2. Yn y Gymraeg, felly, ar gyfer y ferf *a'r* adferf arddodiadol, diogelir hunaniaeth. Hynny yw, gellir corffori'r rhagenw yn y ferf ac yn yr adferf arddodiadol: e.e. gwelais, ynddo. Dyma wedd arall ar gadarnhau hunaniaeth yn y Gymraeg drwy gyfuno'r person rhagenwol mewn rhan ymadrodd arall, eto cysylltiol mewn brawddeg.

Felly y gwelwn strwythur y Frawddeg a'r Ymadrodd yn cael ei adeiladu'n elfennaidd, yn gyntefig hyd yn oed drwy ymdroi o gwmpas perthynas. Cyfosodir dau neu dri phrop fel datblygiad ar yr enwi cyntefig plentynnaidd.

Mewn gwirionedd, y mae'n bwysig i baratöwr sylweddoli beth yw **natur elfennaidd** strwythurau iaith. Ac nid amherthnasol, er mwyn ymgynefino ag adeiladwaith iaith oedolion, yw bod athrawon yn glustdenau i dwf iaith y plentyn.

### *Oedran Cynnar i Ddysgu Iaith*

Quintilian (O.C. 30/40 – 100) oedd y cyntaf i amddiffyn yn fedrus iawn ddysgu ail iaith yn gynnar. Fe'i hatgyfnerthid ef ymhellach ymlaen gan sêr y Dadeni Dysg, Erasmus a Comenius. Ac fe'u dilynwyd hwy gan Basedow a Pestalozzi; ond erbyn hynny, roedd gogwydd yr amseroedd yn eu herbyn. Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, deuddeg oed oedd yr oedran normal i gyflwyno ail iaith. Eto, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuodd y pendil symud fymryn yn ei ôl drachefn yn sgil y Dulliau Naturiolaid ac Union prin. Ychydig o sylw poblogaidd a roddid i'r fath awgrym ac arfer, er hynny, oherwydd cyfundrefn geidwadol a gramadegol yr amseroedd. Ond erbyn canol yr ugeinfed ganrif llwyddodd Wilder Penfield (pennaeth yr Adran Niwroleg ym Mhrifysgol McGill) i roi'r ddadl ar seiliau gwyddonol. Cafwyd chwyldro yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn, a diau mai dadleuon Jac L. Williams ar sail ymchwil Penfield a oedd yn bennaf gyfrifol am hyn. Dyma'r cyfnod pryd y newidiwyd polisiau ledled y byd ynghylch derbynioldeb a lles y dysgu cynnar. Yn y cyfnod hwnnw cafwyd chwyldro, a chafodd dros dro gryn wrthwynebiad gan yr Arolygiaeth wlatgar yng Nghymru.

Gresynai Michael West ym 1959 oherwydd y pwyslais newydd, ac felly Franz Closset ym 1963. Ond ni theimlid eu bod wedi wynebu'r dystiolaeth, na'u dadleuon yn argyhoeddiadol chwaith mewn modd yn y byd. Gwrthwynebiad Piaget oedd gryfaf. Ond tanseiliwyd ei dystiolaeth ef yn drwyadl gan Lambert. Wedyn, o hyn ymlaen, cryfhaodd y dystiolaeth yn gyson drwy sylwi ar ymarferoldeb llwyddiannus y polisi, yn arbennig yng Nghymru.

*Ai'r Baban yw Athro'r Dyn?*

Mae Chomsky yn awgrymu bod iaith yn tarddu o frawddegau craidd. Drwy chwarae â llinynnau sy'n dal yr elfennau adeileddol yn y brawddegau hyn gallwn ffurfio brawddegau tarddedig. Neu, ag offer tebyg, gallwn adeiladu brawddegau newydd drwy eu trawsffurfio, drwy ychwanegu brawddeg at frawddeg neu frawddeg o fewn brawddeg. Neu drwy atrefnu ymadroddion.

Yr wyf yn cytuno â'r casgliad hwn yn gyffredinol, ond anghytunaf ag ef ynghylch pa beth yw'r brawddegau craidd hyn a sut y'u ceir hwy.

Pan ddechreua plentyn siarad, fel arfer y mae'n dechrau gyda'r '*frawddeg ungair*'. Os dywed 'Mam' neu 'Tân!' i'm bryd i y mae eisoes wedi uno'r ddwy elfen yn yr ungair — sain a synnwyr. Dyna gyfundrefn: yr arwydd a'r arwyddedig. Mae wedi gwahaniaethu hefyd rhwng Mam a'r gweddill o'r amgylchfyd drwy unigoli neu arbenigoli yn y meddwl; ac y mae'r un meddwl hwnnw'n cyffredinoli wedyn, neu'n ailadrodd drwy gysylltu Mam fan yma a Mam fan draw. Mam heddiw yw hi a Mam yfory. Hynny yw, y mae'r plentyn yn gwahuno. Mae'n dadansoddi ac yn cyfansoddi, yn dirnad ac yn amgyffred. Hefyd y mae'n casglu angorau neu seiliau i'w iaith ar gyfer datblygu pellach; yr arbennig a'r cyffredinol. Dyma gychwynfan gramadeg.

Mae'r gair dechreuol hwn yn gallu sefyll ar ei sodlau ei hun, yn hunandibynnol. Mae'n ymadroddi'n llawn, ac nid yn rhan-ymadroddi. Mae'n gyfarchiad. Mae'n ddisgrifiad mewn gofod. Mae'n frawddeg gyflawn. Ac felly y mae'n barod ar gyfer y cam nesaf yn natblygiad iaith y baban, pryd yr ychwanegir gair at air, nes cael y *frawddeg ddeuair* (neu *ddwy elfen*). Dyma sefydlu perthynas rhwng geiriau. Mae'r enw sef y gair hunandibynnol cyntaf, sy'n sôn am 'bethau' bywyd, bellach yn yr uniad newydd yn dod yn *rhan* ymadrodd. Ond yr hyn sy'n dod i'r amlwg yn fuan yn awr yw bod un gair, yr un ychwanegol, yn dibynnu ar y llall, yn pwyso arno o ran disgyrchiant meddyliol. Mae gan ddau air safleoedd yn eu perthynas unol felly, nid yn unig safleoedd allanol yn olynol, ond yn bwysicach safleoedd mewn perthynas feddyliol.



Ar y dechrau — ac yn wir yn barhaol yn y craidd — rŷm ni'n diffinio hanfod yr ail elfen frawddegol yn ôl y math o berthynas bwysu sydd rhyngddi â'r elfen frawddegol gyntaf. Does dim rhaid meddwl amdano o safbwynt iaith yr oedolyn yn nhermau 'berf' (sef y rhan ymadrodd sy'n corffori amser, o'i chyferbynnu â'r 'enw' sydd fel petai eisoes yn corffori gofod). Dichon y cymer beth amser i'r ddelwedd honno o amser ddatblygu'n glir. Ond o ran perthynas ieithyddol y mae yna eisoes berthynas ddibynnu rhwng '*rhannau ymadrodd*'.

Dyma'r ail ran ymadrodd draethiadol, fel y dywedir. Byddwn i eisoes yn barod i'w disgrifio fel ansoddair weithiau neu ferf. Ond dyma'r un a fydd yn dod yn eglur yn fuan fel naill ai ansoddair neu fel berf *drwy ddibyniaeth* ar enw.

Wedyn, datblygir y trydydd safle. *Y drydedd ran ymadrodd*. Y drydedd ddibyniaeth. Y drydedd elfen frawddegol. Ond yr un yw'r egwyddor. Ychwanegir rhan ymadrodd a wneir i gyflawni'r swyddogaeth benodol drwy bwysu ar elfen arall. Ond o ran cymeriad, y mae'r trydydd safle'n wahanol beth gan ei fod yn dibynnu ar elfen frawddegol sydd eisoes yn dibynnu, lle yr oedd yr ail yn dibynnu ar un a oedd yn hunanddibynnol. Mae gan bob un gymeriad diffiniol gwahanol. Mae tair rhan ymadrodd bob un yn meddu ar briodoleddau unigolyddol. Dyma yn awr y cwlwm brawddegol aeddfed, yr uned sy'n cynnwys amrywiaeth triphlyg. Nid oes ymestyn ymhellach yn y fframwaith canolog. Mae'r brics i gyd yn eu lle. Dyna'r holl elfennau brawddegol wedi cwpla. O hyn ymlaen, chwarae â'r brics, eu datod, eu disodli, eu cyfuno a'u hailadrodd a wneir. Ond does dim elfennau brawddegol creiddiol eraill. Byddwn i yn barod i ddefnyddio term fel 'Ad-ferf' am y drydedd elfen hon, ond inni lynu wrth y diffiniad a roddwyd eisoes yma am ei swyddogaeth neu'i safle, ac nid ei chymryd yn ganiataol fel gair penodol parod megis 'gynnau, toc, ddoe' ac yn y blaen.

Dyna'r tair brawddeg graidd ddilys.

O hyn ymlaen, wrth estyn y frawddeg, yr hyn a wneir yw ymestyn, bob un, o fewn y colofnau neu'r cylchoedd-ystyrol.

*Yr Olyniaeth o fewn yr Iaith.*

*Y fricsen gyntaf: Gwahuno (deall)*

Gweld gwahaniaeth + Gweld tebygrwydd. Dirnad + Cyfathrebu: y gweld hwn yw calon deall. Cael deunydd a threfn + Cyfathrebu. Dyna sy'n dilyn yn anochel.

Dyna berthynas gramadeg. Dyna'r hedyn wrth ystyried Ymarferion Iaith.

Ar y dechrau, bu'r baban yn ei grud cynieithyddol. Ac mae pob math o brofiadau synhwyrus yn taro arno. Mae pob math o ddelweddau yn ymddangos o'i flaen. Gan bwyll mae'n dechrau gwahaniaethu o ran cyfarwyddo: Mam, Dad, golau, ffenest, sŵn dymunol, sŵn annymunol, cysur, anghysur. Mae ganddo gynneddf gynieithyddol i wahaniaethu, cam cyntaf cyn-ddeall. Ond pe na bai ond yn gwahaniaethu, byddai bywyd yn chwalfa. Ped âi ati, fel ôl-fodernydd, i wahanu'n ddiiddiwedd, byddai'n anarchiaeth ac yn gawl i gyd. Heblaw gweld gwahaniaeth, y mae, sut bynnag, yn gweld tebygrwydd, mam fan hyn, mam fan draw, mam y bore 'ma, mam neithiwr. *Dadansoddi + Cyfuno* yw'r undod hanfodol.

*(Beth mae wedi'i wneud? Mae wedi darganfod cynneddfau cynieithyddol — adnabod gwahaniaeth, adnabod tebygrwydd — gyda'i gilydd, er mwyn deall. Mae wedi rhoi sylfaen i'r iaith i gyd. Mabwysiadwyd y broses o 'wahuno', gwahanu ac uno. Dyma'r allwedd i bob gwyddoniaeth, i bob iaith, i bob cyfundrefn. Yr ydym ni'n arfer meddwl mewn cyfundrefnau, sef unedau neu undodau sy'n cynnwys amrywiaeth, fel arfer mewn iaith sy'n undodau deuol a thriol yn barod. Mae'n allwedd hefyd i lunio ymarferion. Gw. Yr adran ar Archgyfundrefnau yn **Canu'r Cynllun.**)*

*Yr ail fricsen ddidactig: Enwi*

Cynhenid oedd Gwahuno mewn deall. Mae'r ail gam yn golygu'r cynhenid ynghyd â'r dynwaredol. *Symboleiddio, dirprwyo: Sain + Synnwyr.* Ond mae un o'r ddwy gynneddf — yr uno, sy'n perthyn i 'ailadrodd' yn cael ei defnyddio drachefn. Mae'r plentyn yn dysgu enwi: 'Owli (Lowri), Mam, Dad, doli, Nedw (Tedi). Hynny yw, mae'n dysgu *cysylltu sain a synnwyr.* Mae'n dysgu *defnyddio sain fel symbol neu*

*ddirprwy i gynrychioli gwrthrych.* Dyma felly ddarganfod ail gyfundrefn *y gair*, undod sy'n cynnwys sŵn ac ystyr, Arwydd / neu Arwyddair mewn undod deuol. *Dyma ddarganfod hefyd Eirfa; ond nid Geirfa yw iaith. Brawddegau disgybledig yw iaith.* Mae'r sŵn y mae'n ei ddarganfod yn sŵn cymharol ddisgybledig ac ailadroddol. Ond un wedd ar hynny yw'r *tair nodwedd sydd ar y sillaf: yn gyntaf, y llafariad a'r gytsain*, sef y sŵn agored a'r sŵn caeedig, cyferbyniad cyfundrefnol rhwng sŵn a math o atal-sŵn neu ddistawrwydd; ac yna'r acen, sydd eto'n cyferbynnu rhwng *pwyslais a diffyg pwyslais*, unwaith eto sŵn a math o atal-sŵn. Sylwer fel y mae cyfundrefnau iaith yn tyfu ym mhob man. Ceir hyn gan rai Anifeiliaid — 'gwich! gwich!' — gyda phob math o 'ystyron': 'Swper? Peryg?'. Symboleiddio yw rhan o'r tyfu.

*Y Drydedd Fricsen: Brawddegau 'llawn'*

Dyma gysylltu gair a gair: canfod perthynas yw i'r symbolau neu'r arwyddion. Gwelsom fod yna *dri cham* wrth ddatblygu'r frawddeg sylfaenol yn y Gymraeg, a thri math o gnewyllyn-frawddeg: ***Iaith ar waith yw'r fframwaith hwn sy'n cynhyrchu amllder o frawddegau.*** Dyfynnaf o gofnodion arolwg personol.

Brawddeg Un Efen (Yr Enw): Owli (Lowri), Mam, Dad, doli.

Brawddeg Ddwy Efen (Enw + 'Berf, Ansoddair, Genidol'): Owli feld (gweld), Owli neid.

Brawddeg Dair Efen (Enw + Berf ayb + Adferf, yn yr ystyr ei bod yn cwpla'r ail elfen). Owli feld canu.

*Dyna'r cwbl a'r 'diwedd': tri cham canolog. Mae'r Frawddeg yn hanfodol yn y fan yna. Swyddogaeth brawddegau yw dweud popeth.* Dyma'r pryd y mae iaith ddynol yn dechrau o ddifri, oherwydd ***yn awr y mae Gramadeg yn dechrau rheoli Geiriadur***, neu mae *ffurfiau* iaith gyflawn yn llyncu'r gair unigol: ***merch: enw, ond hefyd unigol, benywaidd, goddrych brawddeg efallai, ayb.*** Mae'n fwy nag enw yn unig. Perthyn yw pob ffurf. Mae'r frawddeg yn cyflyru pob cyfundrefn mewn iaith. *Mae'r frawddeg seml sylfaenol yn arwain at bob brawddeg gymhleth drwy gyfuniadau a threfn.* Unwaith eto,

mae cynneddf gynieithyddol, nid rheol ramadegol, yn llywodraethu'r cam hwn, y frawddeg. Dibynna'r naill air ar y llall.

Beth sydd yma o safbwynt perthynas y cydlyniad brawddegol i blentyn? Beth yw natur elfennau'r adeiladwaith?

Brawddeg Dair elfen:	Owli	feld	canu?
	I	II	III
Y Rhannau Ymadrodd	Enw	Berf (neu	Adferf
Traethiadol:		Ansoddair)	

[H.y. (A gaiff) Lowri weld y canu?]

Cedwir y fframwaith meddyliol. *Ar y sail yna, drwy Ddisodli neu Drawsnewid un neu fwy o'r colofnau*, y ceir amrywiaeth mewnol yn y frawddeg seml. Drwy gyfuno brawddeg seml â brawddeg seml wedyn yr enillir y frawddeg gymhleth. Hynny yw, dyna'r elfennau i'w cyfuno mewn ymarferion. Ceir hefyd, mewn cyfuno mynegiant, amrywiadau mewn olyniaeth allanol, hynny yw yn nhrefn y geiriau; ond yr un drioliaeth sydd i'r berthynas fewnol. Nid rhes o eiriau yw iaith: 'lladd, llanc, llew', *ond Cyfundrefn: Perthynas*. Swyddogaeth gwahanol rannau sydd yn y cyfan: dyna hefyd Fywyd.

*Y Bedwaredd Fricsen: Amrywio'r Tri Llwybr*, y fframwaith.

Gwelwn fod tair colofn yn cynnal y frawddeg. Rhown hwy yn y drefn lefaru normal, er nad yn y drefn fewnol o berthynas. A gwelwn rai amrywiadau a ddatblygir. Sylwer: dyna drefn arferiadol y frawddeg Gymraeg, nid y frawddeg yn ddwfn strwythurol (Mae hynny yn debyg ym mhob iaith Indo-Ewropeaidd).

I	II	III
Mae	Gwilym	yma
Ydy	Gwilym	yma?

Mae'r	bachgen	yn y tŷ.
Oedd	y ferch fach	yn yr ystafell?

Gellir cael pob math o amrywiadau ymhob un o'r tair colofn: 'Mae'r ferch yn fach. Mae'r ferch yn rhedeg. Mae'r ferch yn gweld. Mae'r ferch yn gweld y bachgen'. Yr hyn sy'n bwysig yw cyswllt â'r hyn a gafwyd yn y ddealltwriaeth o ddibynnu.

Rhedodd	y bachgen	yn gyflym
Gwelodd	y bachgen	y ferch.

(*Ac felly ymlaen, bob amser yn gosod bricsen ar fricsen, heb neidio, heb gymysgu ar y dechrau nes bod pob cystrawen yn gadarn. Dyna'r llwybr anochel mewnlol. Dyna sy'n gorfod digwydd yn y meddwl ac mewn ymarfer. A dylai amlinelliad o natur adwaith mewnlol olynol yr iaith o ddechrau cwrs hyd y diwedd fod gan yr athro ei hun cyn dechrau ar waith.*) Bellach, gwelwn yr Ymadrodd wedi cyrraedd.

Seiliwyd yr ymadroddion ar frawddeg o driolaeth y rhannau ymadrodd traethiadol

YMADRODD	1. Enw	2. Ansoddair	3. Ad-ferf
BRAWDDEG (CYMAL)	1. Enw	2. Ansoddair	3. Ad-ferf

(Sgrifennaf Ad-ferf er mwyn tanlinellu'r ffaith y gall gair arall heblaw Adferf (megis Enw neu Ansoddair neu ymadrodd neu gymal) weithredu yn safle'r Mynegiant fel Ad-ferf yn y strwythur meddyliol).

Gwybod symler y cnewyllyn hwn fydd yn cadarnhau'r dull o feddwl am raddio. Ac os caf ddyfynnu *Dysgu Cyfansawdd: 'Ni byddai neb yn cymysgu **trefn** dysgu Mathemateg drwy ddechrau ffwrdd â hi gyda theori Cwantwm ac yna fynd at geometreg Pythagoras, wedyn at dabl chwech, yna at rifo o 20 i 40, wedyn at rifo o 10 i 15, wedyn at dabl 2 ayb..'*

Ond dyna a wneir mewn ambell gwrs wrth ffwythiannu'r treigladau a'r mathau gwahanol o frawddegau sydd yn yr iaith. Neidio i dreiglo heb ymbaratoi. Cymysgir

olyniaeth heb wreiddio o hanfod i hanfod, drwy ddibynnu ar ffwythiant amgylchfyd yn hytrach nag ar natur adeiladwaith yr iaith.

*Datblygu'r Craidd-Frawddeg*

Yn 1963, ym Mwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, 221-235, ceisiais gyflwyno gwaith Noam Chomsky i ddarlennwyr Cymraeg. Fel y gwelir yn fy nodiadau yno, yr hyn a oedd gennyf mewn golwg yn bennaf oedd dyfnhau'r gwerthfawrogiad o arwyddocâd Ymarfer â Phatrymau i athrawon ail iaith.

Noam Chomsky oedd ieithydd enwocaf y byd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Erys ôl ei feddwl ar bob cwrs dysgu doeth ym maes ail-iaith byth wedyn. Ond yr oedd y gwaith a wnaethpwyd ym maes Ymarfer â Phatrymau, ac yn arbennig wrth sylwi ar raddio Patrymau, fel y'i ceid gan Fries, Mackey, Lado a llu o rai eraill, wedi ei ragflaenu mewn sawl ffordd ymarferol. Defnyddid y ddau ansoddair 'Cenedlol' a 'Trawsffurfiol' i ddisgrifio'r ysgol y perthynai Chomsky iddi, am ei fod yn esbonio sut y gellid cenedlu brawddegau, a beth oedd y berthynas y gellid ei chanfod a'i gweithredu rhwng mathau gwahanol o frawddegau: megis cadarnhaol / negyddol, gweithredol / goddefol, — perthynas a ystyriai ef yn 'drawsffurfiol'. Wrth ystyried 'craidd-frawddeg' (kernel sentence) ar gyfer ei thrawsffurfio, yr hyn a wneir yw dadansoddi hanfodion y frawddeg ar ffrâm gysylltiol sy'n dal yr elfennau gwahanol. Dodir yr elfennau yn ôl trefn olynol hierarchaidd ar linyddau.

Drwy drafod y llinyddau cyswllt rhwng yr elfennau gellid esgor ar frawddegau newydd, gan gorffori yn y model drawsffurfiadau disodlol rheolaidd.

[Un o'r gwendidau yng ngwaith Chomsky oedd iddo ddechrau drwy gyflwyno craidd-frawddegau heb ddangos sut y'u cafwyd hwy, pam a sut y'u lluniwyd. Mewn gwirionedd yr oedd Chomsky wedi lled hwylio heibio i'r sylweddoliad a gafodd *Synthesis Saussure* rhwng Tafod / Mynegiant, sef Langue + Parole = Langage, a finiogwyd, ac a ddyfnhaodd Guillaume.]

## *Sythwelediad*

Yn ei waith diweddarach, ar ôl yr arloesi a gaed yn *Synthetic Structures*, sef yn *Aspects of the Theory of Syntax* aeth Chomsky ati i fyfyrion am 'sythwelediad' y siaradwr brodorol ynghylch iaith. Dyna'r farn a lywia'r siaradwr i werthuso ymadroddion, i synhwyro'u hamwysedd, a pherthynas agos neu beidio brawddegau â'i gilydd. Ond nid yw Chomsky yn pennu union natur y sythwelediadau hyn, mwy nag y llwyddodd i bennu beth oedd a sut y ceid y brawddegau craidd. Ac y mae'r naill a'r llall yn gysylltiedig. Dangosodd Gustave Guillaume fod gan yr unigolyn eisoes, cyn dysgu, beth gwybodaeth sythwelediadol sy'n sail uniongyrchol i iaith. Anieithyddol neu gynieithyddol yw. Gellir ei ddiffinio. Felly, y mae'r ymwybod syml o gyferbyniad (gwahanu) presenoldeb / absenoldeb yn fyw iawn i'r plentyn cyn iaith. A dyna'r union gyferbyniad cwbl ganolog ymhellach ymlaen (wedi'i goethi'n 'gwahuno', sef gwahanu + uno) wrth ddosbarthu neu gyferbynnu categorïau neu safleoedd meddyliol megis (i) Amserau Berfau: presennol, gorffennol, dyfodol, (ii) Person y rhagenw: fi, ef ac yn y blaen. Sythweled presenoldeb/absenoldeb sy'n trefnu'r rhain. Wedyn, mae gan bob plentyn, cyn siarad, ymwybod o Ddisgyrchiant, hanfod perthynas. Daw i sylweddoli fod un peth yn pwysu ar beth arall: mae'r llwy yn syrthio ar y ford, ac yn aros yno, ac mae ei gorff ei hun yn gallu pwysu a dibynnu ar gorff arall. Yn awr, dyma'r egwyddor 'disgyrchiant' sydd y tu ôl i berthynas 'Enw' ac 'Ansoddair / Berf'; a pherthynas 'Ansoddair / Berf'; ac 'Adferf'. Heb y sythwelediad cynieithyddol hwn a gymer y plentyn yn ganiataol ni ellir trefnu'r elfennau ieithyddol yn gyfundrefn bwrpasol o ddibynnu gyda'i gilydd. Ond ceir nifer o sythwelediadau nid anghyffelyb, sy'n gynieithyddol, ond na ellir ymdopi'n ieithyddol hebddynt — megis, er enghraifft, yr ymwybod sythwelediadol sydyn o gyferbyniad rhwng un a llawer (i esgor ar Rif mewn enwau, rhagenwau, ansoddeiriau, adferfau rhagenwol, berfau, ac yn y blaen); rhagoroldeb / israddoldeb (i esgor ar gymharu ansoddeiriau) dewis un yn hytrach na'r llall; sŵn a thawelwch (i esgor ar gyferbynnu acen / diacen neu lafariad / cytsain; absennol, presennol ar gyfer amserau'r berfau), yn ogystal â'r tri rhagenw (yn ôl 'absenoldeb'); rhoi a derbyn. Ac yn y blaen. (Yn fy nghyfrol *Canu'r Cynllun*, yr wyf

wedi amlinellu cyfundrefn yr Archgyfundrefnau. Dyma'r sythweliadau yr ydym yn sôn amdanynt.) Dyma eto allwedd i lunio ymarferion.

Fel y cawn weld eto (a chyfeirio'n ôl at y brawddegau craidd) a drafododd ef, y sylweddoliad isymwybodol o ddibynnu a welsom uchod wrth drafod Enw a Berf, dyna hefyd y cwlwm sythwelediad sy'n sylfaen i'r gyfundrefn o *frawddegau craidd* a fabwysiadwn.

Hynny yw, adeiledir mecanwaith sylfaenol yn yr ymennydd sy'n sylfaenedig ar sythwelediadau elfennaidd iawn. Dyma'r adeiladwaith a'r gynhaliaeth ar gyfer geiriau y gellir eu hamrywio. Ceir patrymau cynhaliol cymharol sefydlog, sy'n gnewylllyn sefydlog y gellir ei drawsffurfio yn ôl patrymau rheolaidd — ansefydlogrwydd o fewn sefydlogrwydd. Y Gramadeg isymwybodol yw hyn oll. Dyma'r hyn sy'n creu creadigrwydd a fydd yn fwy na rhestr brennaidd. Cyfarfod â sefyllfaoedd newydd yw prawf creadigrwydd.

Nid mabwysiadu arferion, felly, yw dechrau dysgu iaith. Nid gweithredu fel parot. Nid dysgu gwybodaeth ddeallol gymhleth yw chwaith. Mae yna adeiladwaith gweithredol cymharol gryno yn yr ymennydd sy'n gallu esgor ar frawddegau diderfyn. Meistroli a gweithredu'r adeiladwaith yn ôl arferion yn yr iaith unigol yw'r gamp. Defnyddio adeiladwaith deall. Rhaid adeiladu'r mecanwaith cynhyrchu cryno hwn, ac ynghyd â hynny yr eirfa heb fod mor gryno (ond y mae angen eto ei dethol a'i graddio yn ôl yr angen).

Yn hyn o sylweddoliad y mae'r astudiaeth o iaith plant bach yn allwedd i amgyffred beth yw'r llwybr gorfodol y mae'n rhaid ei ddilyn wrth adeiladu iaith o gwbl. Wrth sylweddoli dyfnder a chryfder yr adeiladwaith, canfyddwn mor bwysig yw dysgu patrymau. Yn wir, y mae astudio iaith plant bach yn bwysig — (a) er mwyn deall camre twf iaith; (b) wrth lunio strwythur polisi i adfer iaith drwy fabwysiadu'i chyfrwng mewn ysgolion meithrin.



Hyd yn hyn, buom yn cyfrif 'brics' gan olrhain 'camre' mewn dysgu. Ystyr graddio yw ystyried beth yn union yw'r brics, a beth yw'r olyniaeth neu'r drefn naturiol neu orau ar gyfer eu cyfundrefnu.

Gyda'r adferf yn ei lle, y mae'r gyfundrefn o rannau ymadrodd traethiadol yn ei lle yn gwllwm cyflawn. Dyma bellach fydd asgwrn cefn cyfundrefn y frawddeg hefyd. Gwelir fy mod wedi lawnsio fy nhrafodaeth ar strwythurau drwy sôn am iaith plant. Ac nid lle drwg i gyd yw hwnnw. Ond mae'n rhaid bod yn wylidwrus. Clywir ambell ddidachtegydd, wrth geisio amddiffyn y 'dull blêr' o ddysgu iaith, neu'r 'dull naturiolaid' yn cyfeirio at y diffyg trefn — Hei ho! — sydd gan faban, ac 'athrawon' y baban, o fynd ati i ddysgu iaith. Ond go brin fod beirniaid didachtig o'r fath wedi efrydu cyfundrefnau iaith plant gyda llawer o gydwybodolrwydd na'r dull trefnus isymwybodol sydd gan y plentyn.

Mae'n wir y gellir dysgu llawer am natur iaith oedolion ac am ddysgu drwy efrydu iaith plant. Ond rhaid disgwyl yr annisgwyl, a pheidio â mynd â syniadau parod anystwyth ein sylweddoliad rhamantaidd oedolyn yn ôl er mwyn cymhwyso'n syniadau ôl-ddigwyddiad am blant. Nid ymbalfalu cymharol ddigyfeiriad yw tuedd plentyn. Darganfod byd am y tro cyntaf a wna hwnnw, ac yn anad dim darganfod trefn reidiol. Dysg honno yn oddefol cyn ei dysgu'n weithredol.

Dyna'r sut y mae athrawon 'greddf'ol' gyda phlant bach yn graddio'n sythwelediadol. Dysgant mewn patrymau o hyd.

Dywed Chomsky ei fod yn credu bod yna fath o ramadeg cynhenid *cyffredinol* y tu ôl i bob iaith. Cyfraniad Guillaume cyn Chomsky oedd manylu ar hynny a diffinio'r elfennau cynieithyddol sydd ar waith yn cynnal cyfundrefnau iaith ei hun. Mentrodd Guillaume ddsbarthu ieithoedd y byd yn dri dosbarth mawr yn ôl y dulliau gwahanol y trinnir yr elfennau cynieithyddol hyn ganddynt. Ond ni chafodd ef mo'r un corff o boblogeiddwyr na'r un gyfundrefn hysbysebu Americanaidd â Chomsky i wneud ei waith yn fwy treuliadwy gan y sefydliad academaidd.

Beth bynnag, credaf fod iaith plant yn faes academaidd lle y deir o hyd i ffeithiau i gadarnhau'r dehongliad a gyflwynwyd gan Guillaume.

### *Model o Gyfundrefn y Ferf*

Dyma ddwyn ein camera'n nes yn awr, a manylu ar un rhan ymadrodd yn arbennig.

Mae'r Ferf Gymraeg, o'i chymryd fesul gwedd yn hanfodol syml. Ac y mae'r plentyn bach brodorol yn ei dysgu, yn isymwybodol, yn unplyg elfennol.

Ond y mae'r nifer o ffurfiau (neu o amserau) ar y ferf mewn gwirionedd yn hynod niferus. **Yn wir, gellid dweud bod yna saith ar hugain (6+21) o dypau yn y Ferf Gymraeg.** Wrth ddysgu ail iaith, mae'r amser cyswllt a'r cymhelliad yn bur wahanol. A mantais yw sylweddoli hyd a lled y broblem cyn dechrau. Heb ddosrannu'n systematig drefnus, gellid drysu. Drwy drugaredd, y tu ôl i'r tympau hyn ceir egwyddorion cryno.

Dylai'r rheini fod yng nghefn meddwl y sawl sy'n cynllunio cwrs. Hynny yw, pan fo rhywun yn llunio cwrs, ymlaen llaw dylai'r adeiladwaith llawn fod eisoes yno'n glir. Y diwedd ar y dechrau. Ac ar sail yr olwg banoramig yn y dadansoddiad, gellid dethol yn ofalus olynol, un ac un. Ni bydd y cwrs yn dysgu ond yn ôl un pwynt ar y tro, neu un egwyddor. Efallai, o ran diddordeb, y gellid adolygu'r maes wedyn 'ar y diwedd', fel y bydd y dysgwr deallus ac aeddfed yn gallu gweld y patrwm cyfan. Ond yn ymarferol, symud o gam i gam a wneir mewn map lle y mae'r cwrs-luniwr ei hun yn gwybod yn union ble mae'n mynd heb fod angen ei ddweud wrth y dysgwr. Edrychwn ar y map cyflawn yn gyntaf cyn chwilio llwybr.

Dau fath o olwg sydd ar Amser y Ferf Gymraeg. Dyna un ffordd o feddwl amdani.

*Dwy ffordd o drin amser:*

A. Cryno

B. Cwmpasog

Dechreuwn gyda'r Ferf 'Bod':

A. Mae'r Ferf Gryno yn gwta. Mae'n gweithio ar ei phen ei hun, a hefyd o fewn y Ferf Gwmpasog. Mae yna dri safle neu gyfnod syml iddo fel arfer (mewn symudiad Amser: rhwng Gorffennol a Dyfodol. Anodd dweud faint o amser sydd yn ymestyn

o fewn y Gwneud Presennol). Yn y ferf reolaidd, dyna'r drefn; ond yn y ferf frenhinol 'bod' ceir chwe chynnod neu safle. Ceir dwy lefel.

B. Mae'r Ferf Gwmpasog yn cynnwys Berf Gynorthwyol. Ceir sawl Berf Gynorthwyol yn y Gymraeg: *Bod, Gwneud, Cael* yn gyntaf. 'Bod' yw'r fwyaf cyffredin o ddigon. A 'Bod' ar ryw olwg yw'r unig ferf sy'n cynnwys yr Amser Presennol ac Amherffaith, a'r holl Amserau (neu Dympau) syml i'r Ferf, — a hynny ar ddwy lefel, sef chwech i gyd. Yn hyn o beth y mae 'bod' yn afreolaidd. Hynny yw, y tu allan i'r ferf 'Bod', o'r braidd fod amser Presennol yn y Ferf Gryno Reolaidd:

A. BOD Dyma'r chwe Thymp Cryno i'r Ferf Bod (Y Ferf Gyflawn) yn y Modd Mynegol:

	Cyfnod 1	Cyfnod 2	Cyfnod 3
Lefel I	Buais	Dw i	Byddaf (Bydda)
<hr/>			
Lefel II	Byswn (Buaswn)	Oeddwn	Byddwn

Mae'r ail lefel yn cyfleu math o ddisgwyl neu amodi neu anorffennedd.

Edrycher ar y ffurfiau hyn. Sylwer ar y prif gytseiniaid, sef y cytseiniaid o gylch y llafariad yng nghyfnod 1 a 3 yn y ddwy lefel uchod:

Cyfnod 1	Cyfnod 3
B s	B dd (Prif gytseiniaid)

Ond sylwer ar y gwahaniaeth rhwng y **ddwy lefel**:

Lefel I Terfyniad gwahanol ym mhob cyfnod                      II Terfyniad unol **—wn**

Cymerer yn awr y berfau eraill yn gyffredinol; ni cheir cyfnod 2 ynddynt:

RHEDEG	1	2	3
	Rhedais		Rheda(f)
<hr/>			
	Rhedaswn		Rhedwn

Gweler y bwlch yn y patrwm. Y presennol a'r amherffaith heb fod yno. Dyna sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o'r berfau yn y Gymraeg. Dim ond pedwar tymp sydd yn y berfau cyffredin fel arfer. Yr ydym yn cyfleu'r Presennol a'r Amherffaith yn y berfau cyffredin, drwy gyfuno gyda'r ferf 'Bod'. Mae'r gystrawen gwmpasog yn cydweithio â berfenwau eraill i lunio'r Presennol a'r Amherffaith yn y Gymraeg.

Mewn gwirionedd, adeiladwyd chwe amser 'Bod' uchod o ddwy ferf. Y mae Cyfnod 2 yn ferf hollol wahanol ac arbennig sydd wedi'i chorffori yn y gyfundrefn, yr unig ferf sy'n cyflawni gwaith Presennol ac Amherffaith (gydag ambell eithriad fel 'gwy-bod'). A honno sy'n gallu gwneud y gwaith arbennig o drafod cyfeiriad yr Amser Presennol (sydd yn y Gymraeg yn cynnwys yr eiliad yma) yn awr — 'Dw i yma'; ond hefyd yn gallu cynnwys yr amser sydd wedi bod — yn y gorffennol — 'Dw i yma ers blwyddyn'; — neu ychydig i'r dyfodol — 'Dw i yma am flwyddyn arall'. Ni ellir gwneud hyn yn Saesneg yn y Ffurf Gryno. Rhaid bod yn gwmpasog yn y Perffaith Saesneg: 'I *have been* here for a year'. Mewn gwirionedd, mae delwedd y Presennol Cymraeg yn y meddwl fel hyn  $\longleftrightarrow$ . Mae delwedd y Presennol Saesneg fel hyn  $\rightarrow$ . Bydd gramadegwyr Saesneg yn sôn am safle eu presennol cryno fel Non-Past.

B. Mae yna wedd arall ar y dadansoddiad o Amser y mae'n rhaid rhoi sylw iddi. Gelwir hyn gan Ramadegwyr yn '**Agwedd**'. Mae'r Ferf Gwmpasog gyda'r Ferf 'Bod' a chyda'r arddodiaid 'yn' ac 'wedi' yn gyfoethog fanwl wrth ddadansoddi Amser yn y Modd Berfenwol:

Bod yn (Mewnfodol)	Bod wedi (Perffaith)	Wedi bod yn (Gorberffaith)	Bod am (ar) (Disgwylgar)
-----------------------	-------------------------	-------------------------------	-----------------------------

---

1. Buais i'n rhedeg	.....	.....	.....
2. Dw i'n rhedeg	Dw i wedi rhedeg	Dw i wedi bod yn rhedeg	Dw i am redeg
3. Bydda i'n rhedeg	Bydda i wedi rhedeg	Bydda i wedi bod yn rhedeg	Bydda i am redeg
4. Byswn i'n rhedeg	Byswn i wedi rhedeg	Byswn i wedi bod yn rhedeg	Byswn i am redeg
5. Roeddwn i'n rhedeg	Roeddwn i wedi rhedeg	Roeddwn i wedi bod yn rhedeg	Roeddwn i am redeg
6. Byddwn i'n rhedeg	Byddwn i wedi rhedeg	Byddwn i wedi bod yn rhedeg	Byddwn i am redeg

Carwn ddiffinio rhai o nodweddion ‘Agwedd’ (Aspect) fel ffenomen, oherwydd nid rhestr yw ond egwyddorion ar waith. Delwedd neu raniad sylfaenol o Amser yw sy'n dynodi pedwar cyfnod (yn y Gymraeg) lle y mae digwyddiadau yn botensial. Mae a wnelo'r pedair Agwedd â gwahaniaethau sydd ar gerdded *o fewn* cyfnodau'r digwyddiad. Yn Saesneg fe gyflawnir hyn mewn ffordd wahanol drwy rangymeriad (participle). *Yn y Gymraeg, yr arddodiad sydd ar waith ac yn pennu cyfeiriad a natur y digwyddiad.* Ond cystrawen gwmpasog sydd i'r 'Agwedd'.

Dyna chwe amser cryno (syml mynegol) ac un ar hugain cwmpasog (berfenwol).

Sylwer ar ddau bwynt pwysig:

A. Dim ond gyda *Bod* y mae'r gorffennol uchod yn gwmpasog. Hynny yw, nid oes Perffaith na Throsgynnol i ‘Buais’. Amhosibl yw Buais wedi mynd/ Buais wedi bod yn mynd. Y rheswm yw bod y gorffennol cryno Cymraeg yn sefydlu delwedd yn y meddwl o edrych oddi ar un pwynt yn y gorffennol, ac y mae'r weithred yn delweddu mynd *ymlaen* o'r fan yna.

Buais yn/*Fi nawr* ...>

Mae'r arddodiad *yn* yn awgrymu'r parhaol, a'r ‘Perffaith’ yw defnyddio *wedi*, gan awgrymu fod y meddwl yn ei sefydlu'i hun ar ôl y weithred. Cyfuniad yw'r drydedd

golofn: y golofn 'drosgynnol' sy'n ymestyn dros gyfuniad o'r ddwy golofn o'i blaen. Mae'r amherffaith ar y llaw arall yn gysgod o'r presennol yn y gorffennol, hynny yw y mae'n gallu cynnwys amser cyn y weithred ac wedyn: mae'n gallu edrych yn ôl.

Rown i'n rhedeg ers wythnos (wedyn). Anghywir yw — \*Buais i'n rhedeg ers wythnos; (*megis* \*buais wedi rhedeg).

Rown i'n rhedeg am wythnos arall (cynt). Cywir — Buais i'n rhedeg am wythnos arall.

B. Erbyn heddiw, mae *byddwn i / byswn i* yn dechrau troi'n un tymp ar lafar, 'byswn i' fel arfer. Ar hyn o bryd, gellir defnyddio'r naill a'r llall o hyd — mewn rhai tafodieithoedd mae'n amodol neu'n ddisgwylgar. (Mae'r cwbl o lefel *-wn* yn tueddu i fod yn 'ddisgwylgar'). Awgrymaf ddefnyddio un ohonynt yn unig mewn cwrs, a pheidio â dysgu'r ddau, o leiaf am gyfnod. [Mae ambell dafodiaith yn cadw'r ddwy: 'Byswn i'n mynd' (amodol). 'Byddwn i'n mynd bob Sul' (Amherffaith arferiadol).]

Hynny yw, y mae'r hen gyfundrefn chwechol syml, yn colli un o'r tympau ar lefel II, sef naill ai o'r Cyfnod 1 neu Gyfnod 3. Mae'n mynd yn gyfundrefn bum-tymp (fel y sylwa rhai fod Cyfundrefn y Ferf yn Ffrangeg yn troi o fod yn bum-tymp i fod yn bedwar-tymp ar lafar, gan gollu'r Gorffennol syml – a gedwir yn yr iaith lenyddol o hyd.)

Sylwir bod y ferf 'bod' yn bwysig ac yn eithriadol. Yn y bôn cyfuniad yw o fwy nag un ferf. Dwy ferf wahanol amlwg yw 'mae' ac 'yw', hynny yw yn y trydydd person. Mae 'yw' yn golygu 'uniaethu': dyna'r un peth: e.e. 'John yw'r dyn. Mair yw'r ferch hyna(f).' Mae 'mae' ar y llaw arall, yn golygu 'bodoli (corffori, meddu ar)' ac y mae'n amseru berfenw: e.e. 'Mae John yn dod. Mae'r haf yn wlyb.'

Wrth gyflwyno'r Ferf yn gyflawn, yr hyn sy'n ofynnol yw dosbarthu patrymau, eu carfanu, ac yna ymarfer â hwy yn eu tro, gyda digon o fylchau rhwng y prif batrymau, a chan gyferbynnu'n rheolaidd.

[Nodyn: Sylwer nad oes rhangymeriadau gweithredol yn y Gymraeg: S. Walking, walked. Defnyddir arddodiad+berfenw. Dichon fod pŵer yr arddodiad i'w weld yn y modd y mae'n rheoli 'person' gramadegol' hefyd: amdani, amdanat, fel pe dywedid S.

forher, forit, Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy iaith wrth wahaniaethu rhwng 'gweithgaredd' a 'chyflwr' yn y ffurfiau parhaol: C. Mae'n ymddangos i mi. Dw i'n tybied. (Ond nid S. It's seeming to me. I am supposing.)]

## DEFNYDD O'R FERF

Y prif beth y mae'r Ferf yn ramadegol yn ei wneud yw dadansoddi amser.

1. Safle'r Amser mewn cyfnod.
2. Awgrymu ai sydyn ynteu parhaol yw'r Ferf.
3. Dywed rywbeth am Amser: dau gyfeiriad sy'n bosibl i lif Amser. Y mae Amser fel llinell symudol — llinyn yw heb led, dim ond hyd. Gall roi delwedd ei fod yn dod o'r dyfodol ac yn mynd drosom ac yn diflannu i'r gorffennol. Neu gall roi'r ddelwedd o'n cario ni o'r gorffennol ymlaen i'r dyfodol. Yn ôl Guillaume, y ddelwedd sylfaenol o amser yw'r un ddisgynnol, yn dod o'r dyfodol i'r presennol, ac yn ôl i'r gorffennol. Hynny yw, mae 'yfory'n' dod yn 'heddiw', ond dyw 'doe' byth yn dod yn 'heddiw'.

### **(a) Cymerwn y delweddau gwahanol er mwyn gwahaniaethu rhwng y Gorffennol a'r Amherffaith:**

'Rhedais i' = gweithred sydd fel arfer yn y gorffennol ar un pwynt — ac yna'n digwydd yn sydyn, ac yr ydym yn cyfeirio o bwynt gorffennol *ymlaen*.

Cymharer (i) 'Roeddwn i yn Aberaeron ddoe'.

â (ii) 'Buais i yn Aberaeron ddoe'.

Tuedd Gorffennol Syml yw ymwrthod â *wedi* / *newydd*: 'Ar Fedi 4, 1768 yr oedd baban yn cael ei eni yn Aberystwyth.' (Disgwyl sy'n anorffen, chwilfrydedd; ac amherffaith). 'Ar Fedi 4, 1768, ganwyd baban yn Aberystwyth.' (gorffenedig; a gorffennol).

Mae (ii) yn edrych yn ôl at un pwynt, ac yn symud ymlaen o'r fan yna. 'Buais i'n Aberaeron, buais i'n Aberteifi, ac yn Llandysul wedyn.' Nid awgrymir fod dim ar



gerdded cyn i'r ddelwedd ddechrau: cf. 'A Duw a ddywedodd, Bydded goleuni, a goleuni a fu ... A'r hwyr a fu, a'r bore a fu, y dydd cyntaf'.

Tuedda (ii) i fod yn fwy sydyn na (i), ond nid bob amser.

Mae (i) yn edrych yn ôl at gyflwr parhaol, ac yn cynnwys rhyw fath o deimlad fy mod i mewn cyflwr (yng nghanol amser) gyda pheth amser ynghynt a pheth amser wedyn. Cyflwr gweddol parhaol yw 'roeddwn i' a 'dw i'. Nid felly (ii).

**(b) Yn y ferf gwmpasog, math o arddodiad yw 'yn' ac 'wedi' e.e.**

'Mae yn dod'. h.y. mae ynghanol y dod.

'Mae wedi dod'. h.y. mae'n sefyll yn y lle ar ôl dod.

Gelwir y cyntaf yn Bresennol (parhaol).

Gelwir yr ail yn Berffaith (gorffenedig). Ond mewn gwirionedd, presennol yw'r ferf yn 'Mae wedi dod', ond 'wedi' rhywbeth.

Sylwer: cyfetyb 'wedi' i 'have' yn Saesneg. **Yn y Gymraeg, 'does dim berf 'have', 'Mae gan y bachgen gar.'** (The boy has a car.) Yr arddodiad a ddefnyddir, fel pe bai ar ran y ferf (neu'n achlysurol, defnyddir yn lle hynny 'cael, piau, meddu ar, eiddo). Arddodiad sy'n awgrymu gorffennol yw 'wedi', 'yn' ar y pryd; ac ar gyfer y dyfodol, gellir defnyddio arddodiaid eraill, megis *ar*; *am*: e.e. Mae am fynd. Mae ar fynd (ar fedr).

Os gofynnir am y 'Gorberffaith', yr oedd hyn wedi datblygu yn Nhabl A, Bod — buaswn. Ers talwm yn nhabl B — Rhedaswn oedd y Tymp, ac mae rhai yn dal i'w defnyddio'n llenyddol. (Saes. 'I had been'; 'I had run'). Ond yn awr, ar lafar, y cwmpasog yw'r Gorberffaith yn Gymraeg:

'Roeddwn i wedi bod, yr oeddwn i wedi rhedeg'.

A dyna'r un i'w ddefnyddio mwyach.

Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng y ddau bâr canlynol:

- (i) Pan fyddwn i yng Nghaerfyrddin, fe fyddwn i'n aros gyda Gwilym. (achlysurol, arferiadol)

Pan oeddwn i yng Nghaerfyrddin, roeddwn i'n aros gyda Gwilym. (un achlysur)

(ii) Fe ddwedodd na fyddai fe byth yn mynd i'r capel nawr. (arferiadol, gall fod heb baroddrwydd i'w wneud)

Fe ddwedodd na fysai byth yn mynd i'r capel nawr. (amharoddrwydd)

4. Un o'r gweddau pwysig ar yr iaith a ohirir yn y drefn raddio yw'r hyn a alwaf yn 'drydydd person cyffredinol'. (*gwelir* — h.y. yn gyffredinol: cyferbynnir yr arbennig *gwêl ef*, *gwêl hi*). Cyfetyb hyn i'r 'goddefol' Saesneg, ac fe'i gelwir weithiau yn y Gymraeg 'yn amheronol' (am nad oes un o'r personau rhagenwol ynghlwm wrtho). Ond mae pob berf (heblaw'r berfenw) yn bersonol.

Her yr athro yw symleiddio y camre hyn oll, drwy ddethol a graddio.

#### 5. *Y Cwmpasog a'r Ferf Gynorthwyol*

(i) Gellir ystyried bod y gystrawen gwmpasog yn cynnwys y ferf '**Bod**' yn bennaf ymhlith y Berfau Cynorthwyol.

Sylwer yn arbennig ar y defnydd negyddol:

dw i ddim      dŷn ni ddim

dwyt ti ddim    dych chi ddim

dyw e ddim      dŷn nhw ddim      cf. doedd e ddim.

Yn y dyfodol, ceir amrywiaeth: fydd e ddim

a bydd e ddim

Gyda dysgwyr, dylid dewis un yn benodol, ac aros gydag ef: y ffurf ddirreigladd sy'n draddodiadol; ond mae treiglo yn dilyn yr arfer mewn berfau eraill. Sylwn wrth gwrs nad yw *ni(d)* yn arferol ar lafar; ond erys y [d] yn 'dyw e ddim, doedd e ddim'.

(ii) Nid 'Bod' yw'r unig ferf gynorthwyol. Pwysig yn gymharol gynnar ar ôl sefydlu'r presennol gyda 'Bod' yw '*Gwneud*'

'Wnewch chi ddarllen hyn? Gwna.'

'Wna i ddim aros. Mi wnaiff e ddod os arhoswch chi.'

'Redwch chi heddiw? Gwna.'

(iii) Angenrheidiol hefyd yw '*Cael*'.

'Ga i agor y drws? Cewch.'

Negyddu: hepgorir 'ni(d)' yr iaith lenyddol, ar lafar. A defnyddir treigladau llaes neu feddal: e.e. Chei di ddim mynd. Chei di byth fynd. Chanodd hi ddim.

Gellir gweld bod y darlun gweddol helaeth hwn o'r Ferf yn ymddangos yn gynhwysfawr, ac yn nodi materion nad oes angen ond i ddysgwyr aeddfed iawn eu gwybod. Fe'u nodir yma fel enghraifft o'r math o arolwg y mae angen i Gyfarwyddwr Cwrs-lunwyr a thiworiaid fod yn ymwybodol ohono. Wedyn, y mae'r dethol a'r graddio yn digwydd. Ond gofaler na ddychrynir dysgwyr gyda gormod yr un pryd.

*Graddio a awgrymir:* Trefn dysgu'r tympau. Awgrymaf: Dw i; Dw i'n rhedeg; Dw i wedi rhedeg; Rhedais; Roeddwn i'n rhedeg; Buais; Buais i'n rhedeg; Bydda; Bydda i'n rhedeg; Dw i wedi bod yn rhedeg; Arhoswch; Gwna; Cewch.

Does dim angen llawer o drefn raddio i'r lleill gan fod y sylfeini yn y fan yna, a dônt i'w dysgu yn ôl patrwm y rhai pwysicaf a ddysgwyd eisoes. Hynny yw, erbyn meistrolï'r rhain, bydd y lleill oll yn syrthio i'w lle.

Mae'r Ferf Gymraeg, o'i chymryd fesul gwedd yn hanfodol syml. Ac y mae'r plentyn bach yn ei dysgu, yn isymwybodol, yn unplyg elfennol.

Ond y mae'r nifer o ffurfiau (neu o amserau) ar y ferf mewn gwirionedd yn hynod niferus. Heb eu dosrannu'n systematig drefnus, gellid drysu. Drwy drugaredd, y tu ôl i'r rhain ceir egwyddorion cryno. Dysgu patrwm yw dysgu'r tympau cwmpasog.

Yr hyn a wnaethpwyd yn y fan yma oedd nid graddio'r ferf, (ac ni cheisir yn y nodiadau hyn hyd yn oed mapio'r holl diriogaeth ar gyfer graddio), ond crybwyll yn enghreifftiol y *math* o diriogaeth (mewn rhaid) y mae'n briodol ei mapio'n llawnach cyn mynd ati i raddio'n gyfundrefnus. Dadlau'r wyf ynghylch maint a dull y dadansoddi proffesiynol y bydd ei angen yn lle'r amaturiaeth bresennol.

## *Cyfundrefn Treigladau*

Cyfundrefn o gyfundrefnau yw iaith. Astudir treigladau hefyd yn ôl amgylchiadau trefnu, mewn grwpiau.

Cyfundrefnau unigol bychain yw pob un gyfundrefn unigol. Tyfant a chyd-ymgysylltant â'i gilydd: geiriau,/ ymadroddion,/ i lunio cymalau/ brawddeg. Hynny yw, perthynas yw'r gyfundrefn unigol. Perthynas yw'r iaith i gyd hefyd. Yr ydym yn ceisio olrhain llwybr dynol allanol o gam i gam wrth ddysgu ar hyd echel amser mewn olyniaeth o dwf. Llwybr ymestynnol yw'r twf o'r gair hyd y frawddeg. Yr ydym hefyd yn dadansoddi beth sy'n digwydd yn yr unedau yn fewnol.

Am mai cyfundrefn o gyfundrefnau sydd yna, a pherthynas reolaidd rhwng unedau gwahanol â'i gilydd, mae yna ffordd o feddwl am y perthnasedd, sef Trawsffurfio. **Trawsffurfio yw ansawdd y 'Dull' neu'r ymarferiad fel prif ffordd o ddysgu yn y nodiadau hyn. Mae Trawsffurfio yn tanlinellu'r math o berthynas sydd rhwng geiriau, ymadroddion, a brawddegau. Sylfaen yw 'trawsffurfio' ar gyfer un o'r prif 'ddriliau' wrth ddysgu iaith. Dyna pam y mae gwreiddio'r norm yn gychwynfan mor bwysig. Trawsffurfio hefyd yw'r dull o adeiladu o gystrawen i gystrawen.** Patrwm yw'r norm. Seiliwyd yr ymadroddion ar frawddeg o drioliaeth y rhannau ymadrodd traethiadol. Ac unwaith eto, **dichon mai yn ôl patrymau rhannau ymadrodd y mae ystyried fframwaith treiglo.** Un nodwedd arbennig a phwysig yn y dasg o ddysgu iaith gydlynol yn Gymraeg yw treigladau. **Mae a wnelo hyn â pherthynas rhannau ymadrodd â'i gilydd ac ag adeiladwaith cystrawen.** Gellir hefyd ystyried treigladau o fewn fframwaith ymadrodd ac o fewn fframwaith brawddeg. Gan fod a wnelo treiglad bob amser â thrawsnewid, o'r cysefin i'r treigledig, dyma ni yng nghanol ymarferiad Trawsffurfio. Mae'n digwydd oherwydd mathau o berthynas, a rhaid i'n dadansoddiad droi o gwmpas sylweddoli perthnasoedd.

Arwyddion o berthynas (hunaniaeth a swyddogaeth) yw Treigladau.

Yn awr, fe geir pob math o berthynas. Ac wrth gwrs, mewn cwrs ail iaith, ni bydd angen inni feddwl am *ambell* berthynas am rai blynyddoedd. Er enghraifft, yn achos yr *Enw*: (i) enw mewn cyfosodiad; 'A finnau, deithiwr blin'; (ii) enw fel

cyfarchiad, ‘Gadeirydd a chyfeillion’; (iii) enw fel ansoddair yn y cyflwr genidol ar ôl enw benywaidd unigol: llwy de, Gŵyl Ddewi, ac yn y blaen.

Ceir amrywiadau hefyd yn achos yr *Ansoddair*. Mae'r mater o chwynnu yn bwysig. Ond fe geir defnydd amrywiol gydag enwau, ansoddeiriau / berfau, ac adferfau sy'n gyffredin ac yn gynnar yn y cwrs, ac felly y tâl i ni ystyried eu lle yn y graddio ac yn yr ymarferion.

O gwmpas tri-pholyn unol y frawddeg a'r ymadrodd Enw/Berf, Ansoddair/Adferf y dawnsia'r patrymau.

I mi, ac i bobl eraill sy'n gyfarwydd â'r iaith lenyddol, mae bodolaeth ac effaith y treigladau'n dreiddgar. Ond i athro ail iaith, mae'n dda cofio mai cymharol ychydig ydynt. Ac er dieithred yw treiglo fel ffenomen ym mryd rhai, drwy gymryd treigladau yn eu tro, gyda seiliau rhyngddynt, ni raid iddynt fod yn ddychryn. O safbwynt graddio, gellid ystyried grwpiau:

*Geiriau'n Peri Treiglad Llaes: c p t*

1. a cysylltair  
â cysylltair  
â arddodiad  
gyda arddodiad  
tua arddodiad
2. ei rhagenw blaen benywaidd (dysgir y rhain yng nghyd-destun rhagenwau eraill)  
'i, 'w rhagenw mewnol benywaidd
3. tri rhifol (dysgir y rhain yng nghyd-destun y rhifolion eraill)  
chwe rhifol
4. ni geiryn rhagferfol negyddol (fe'i hepgorir fel arfer, er cadw'r treiglad)  
na cysylltair negyddol  
na geiryn rhagferfol negyddol  
na rhagenw perthynol negyddol  
oni cysylltair negyddol ('unless, until')

oni geiryn gofynnol negyddol

5. tra adferf

Pum grŵp. Nid yw'n llawer, nac ydyw.

*Geiriau'n Peri Treigladd Trwynol*; y rhai sy'n dechrau ag *c p t*; *g b d*

1. fy neu y: rhagenw blaen: dyma fater i'w benderfynu wrth sicrhau model yr iaith lafar safonol – un o'r prif broblemau. [Dysgir yng nghyd-destun *dy* weithiau Erbyn hyn, gellir cymeradwyo *y* + treigladd trwynol lle y bo'n bosibl, ac *yn* ym mhobman arall: *y* nhir *i*, *y* nghefn *i*, *y* mara *i*, *y* ngên *i*, *yn* afal *i*. (e.e, nid yw *y=fy* yn 'bosibl' o flaen llafariad). Hynny yw, gellir cyplysu *yn* (*fy*) â'r arddodiad *yn* o safbwynt graddio'r dysgu. Mater i fyfyrdod pellach yw hyn pan wneir *y* drafodaeth fanwl ar yr iaith lafar safonol, a'r dethol canlynol i ddysgwyr. Sylwer ar y ddau ddefnydd: (i) Perchnogaeth – *y* nhad, *y* nghanu *i*; (ii) Gwrthrych – *Rwyt ti'n y ngweld i*. ]

2. yn, ym, yng arddodiad

3. pum, chwe (dewisol, a heb effeithio *diwrnod*), saith, wyth naw, deng, deuddeng, deunaw, ugain, deugain, trigain, can – rhifolion yn achos *blwydd*, *blynedd*, *diwrnod*. Un rhifol yn achos *blwydd*, *blynedd*, ond heb effeithio *diwrnod*.

Bid a fo am broblem 'fy', erys y treigladd trwynol yn dreigladd reit gyfyngedig.

Tri grŵp yn unig.

*Cytseiniaid sy'n cymryd Treigladd Meddal*: *c, p, t*; *g, b, d*; *ll, m, rh*.

Dyma'r maes treiglo mwyaf helaeth, o ddigon.

Fel gyda'r ddau dreigladd arall, ceir geiriau penodol sy'n peri Treigladd Meddal. Ond y mae rhesymau gramadegol neu gystrawennol (ramadegol) hefyd yn peri treigladd meddal. Ystyr 'gramadegol' yn yr achos hwn yw: e.e. Yn y frawddeg 'Mae gen ti geffyl', 'Mae yma geffyl', nid yw 'ti' nac 'yma' yn peri treigladd meddal ynddynt eu hunain. Yn y fan hon, sangiad ydynt, sef ymyrraeth yn y rhediad, ac o'r herwydd ceir treigladd meddal.

*Arddodiaid yn Peri Treigladd Meddal*

**Am, ar, at**

**I, o, gan,**

**Hyd, heb, wrth**

**Dros, drwy, dan**

Dysger y rhigwm.

*Cystrawen Brawddeg yn Peri Treigladd Meddal*

Erys yn rhestr anhylaw. Mae angen meddwl yn ofalus am yr olyniaeth.

*A (1)* Enw ar ôl 'yn' traethiadol (ac eithrio yn achos 'll' a 'rh' traethiadol): Mae Dafydd yn frenin.

Enw benywaidd ar ôl y fannod 'y': y fenyw

Enw: pan fydd yn wrthrych i ferf gryno bersonol: Gwelodd long. Prynais lyfr.

Enw'n cael ei ddefnyddio fel adferf: Rwy'n mynd fis i heddiw.

*A (2)* Ansoddair o flaen enw: hen ddyn

Ansoddair ar ôl 'yn' traethiadol; ac er mwyn ffurfio adferf: Mae Dafydd yn cerdded yn gyflym.

Pan fydd yn gweithredu fel gwrthrych i ferf gryno: Gwelais wir garedigrwydd.

Ansoddair fel adferf: yn wlyb ddiferol, yn ddu ddychrynlyd. (ond nid ar ôl ffurf gymharol: e.e. yn llai bygythiol)

*A (3)* a rhagenw perthynol: Dyma'r dyn a welais. (Fe'i hepgorir ar lafar fel arfer) Dyma'r dyn 'welais.

a rhagenw gofynnol: A welaist ti'r dyn? (fel arfer eto, diflannodd ar lafar). Erys y treigladd, er gwaetha'r hepgor.



**A (4)** ar ôl sangiad, neu arddodiad rhediadol: Mae gen i frawd. Mae ar ben y cwpwrdd drysor.

Dyna'r prif achlysuron yng nghystrawennau brawddegau.

\*

\*

\*

Ceir hefyd gyfuniadau ymadroddol symlach:

**B (1)** Rhifolion un + enw benywaidd: eithriadau — ll, rh, mewn enwau, ond heb dreiglo ansoddeiriau benywaidd ag ll, rh: un llong.

Trefnol ail a'r gweddill trydedd, pedwaredd, pumed o flaen enw benywaidd a phan ddefnyddir y trefnolion benywaidd fel enwau ar ôl y fannod.

**B (2)** Enw ar ôl rhagenw blaen: dy, ei (gwr.)

Enw ar ôl rhagenw mewnlol: a'th, a'i.

[Ceir dadl ymhlith athrawon ynghylch *dy eich*. Oherwydd bod camddefnyddio *dy* yn fwy o dramgwydd nag *eich*, ac er mwyn rhwyddineb, gellid gohirio *dy* i oedolion, a chadw *dy* ar gyfer yr Ysgol Feithrin.]

Enw ar ôl dyma, dyna.

**B (3)** Ansoddair ar ôl *mor*, *cyn* (cymharol)

[Llai cyffredin, ac ymhellach ymlaen yn y cwrs: enwau ar ôl pa; naill, rhyw; amryw; cyfryw.]

\*

\*

\*

### *Model Cyflwyno Treigladau*

Paratoi yr ydym ar gyfer trafod dull 'Holi ac Ateb'. A pharatoi mewn modd *graddol*.

Wrth wneud hynny, nid ydym yn y fan hon yn amlinellu cwrs. Arolygu yr ydym y defnyddiau ar gyfer graddoli cwrs. Hynny yw, yr ydym yn bwrw golwg yn eang ar draws meysydd patrymol gramadegol gyda golwg ar gynllunio. Ystyried y broblem cyn ei datrys. O ganlyniad, rhaid disgwyl y byddwn, heblaw sylwi ar weddau go elfennol

yn y cwrs, hefyd yn crybwyll rhai, sydd o fewn yr un maes, ond yn gofyn am eu gohirio o ran y graddio'i hun tan yn ddiweddarach. Pendroni yr ydym uwchben problem trefn.

Hynny yw, yr ydym yn ystyried y deunydd crai sy'n ddatblygedig ramadegol, ond yn ceisio mynd i mewn i'r gramadeg hwnnw wedyn yn ôl trefn ymarferol dysgu.

A'r casgliad y byddwn yn dod iddo yn y diwedd yw hyn:-

Gallwn ddechrau o ran dull gyda 'Holi ac Ateb' gynt ymhlith gwersi cyntaf elfennol. Holi ac Ateb cynnil fydd. Ond eisoes bydd yn briodol inni wybod beth yw'r anawsterau neu'r problemau y cyfarfyddwn â hwy *en route*. Wrth geisio datblygu cwrs yn ôl fframwaith dull 'Holi ac Ateb', eisoes o'r dechrau, down ar draws her y gramadeg neu'r patrymau. Mae gan Holi ac Ateb ei fframwaith, ac y mae gan bob un o'r meysydd mewn gramadeg ei fframwaith. Ein tasg yw cyfuno'r rhain.

Arhoswn, felly, gyda phroblem ddiddorol ond sylweddol y Treigladau a'r Ymadrodd. Problem ydynt mewn cyfuno. A gellir *grwpio'r* problemau hyn — angen cyson wrth raddio cwrs.

*Enw:* y fannod a'r enw benywaidd unigol: *y ferch* (eithrio ll, rh)\*

Yr enw benywaidd unigol a'r ansoddair: *y ferch fawr*\*

*Berf:* Geiryn cadarnhaol a negyddol: *fe* welais, *ni* welais (> welais i ddim)\* \*

Berf ar ôl geirynnau diflanedig: *a, ni, oni*\* \*

Berf ar ôl *pan*\* \*

*Ad-ferf:* Ffurio adferf o'r ansoddeiriau ar ôl *yn* (*yn gyflym*)\*

Bydd enwau sy'n ymddwyn yn adferfol yn treiglo. *Fore Sadwrn, mae e'n dod.*\* \* \*

Traethiad enwol ar ôl *yn*: Mae hi'n ferch fawr. (eithrio ll, rh)\* \*

Yn yr 'ymadrodd adferfol' sy'n cynnwys arddodiad, treigilir ar ôl arddodiaid y rhigwm:



Ond yn yr iaith lafar safonol: Dyma'r dyn *welais i*.

(ii) Dyma'r goddrychol llenyddol: Dyma'r dyn *a'm gwelodd*.

Yn yr iaith lafar: Dyma'r dyn *welodd fi*.

OND *sy*: gydag is-gymal ansoddeiriol yn y goddrychol yn y Presennol gyda'r ferf 'Bod'. e.e Dyma'r dyn *sy'n canu*.

**'y' yr iaith lenyddol. Cymalau didreigladd llafar: Dyma'r dyn *wnes i ofyn amdano*. (collir 'y' yr iaith lenyddol: Dyma'r dyn *y gofynnais i amdano*.) Mae'n cyflwyno is-gymal sy'n defnyddio arddodiad i bwysu arno. (Cymharer 'y' yr is-gymal enwol.)**

### III *Is-gymalau Adferfol*

Y cysyllteiriau mwyaf cyffredin yw

*Lle*: Eisteddodd Huw *lle'r oedd y cysgod*.

*Amser*: Eisteddodd Huw *pan oedd e wedi blino*.

*Amod, rheswm modd*: *Os oedd lle*, byddai fe'n eistedd.

*Er bod lle*, doedd e ddim am eistedd.

*Petai lle*, byddai fe wedi eistedd.

*Er mwyn cael lle*, fe eisteddodd e ar unwaith.

*Oherwydd bod yna le*, fe eisteddodd e.

Eisteddodd, *fel y byddai'n cael lle cynnar*.

*Mor gyflym ag y gallai*, eisteddodd e yn ei le.

Sylwer: Gall cymal rheswm, *lle*, *modd (fel)*, fod yn wrthrychol hefyd, ac felly y bydd yn fath o is-gymal enwol.

Dw i'n gwybod *pam (y) mae'n dod*. Dw i'n gwybod *ble (y) mae'n cuddio*.

## 9. GRADDIO GEIRFA

Maes mawr yw Geirfa, megis Gramadeg.

Wedi ystyried Strwythur y Graidd-Frawddeg a'r Tardd-Frawddegau (sy'n cynnwys mwy nag un cymal), ac wedi arolygu Model o Gyfundrefn y Ferf, yr ydym yn barotach i ystyried y Cynnwys. Hynny yw, o fewn y Ffurf barod, gallwn bellach dywallt y Deunydd. Ond yn ymarferol, y mae Geirfa a Gramadeg yn dod i mewn gyda'i gilydd.

Rhag camddeall, rhaid nodi drachefn, *nid amlinellu trefn cwrs yr wyf*, ond arolygu'r adnoddau trefnus a geir ymlaen llaw — y materion y mae'n rhaid i gynllunydd cwrs ac y mae'n ddoeth i gyflwynydd cwrs — eu hystyried. Mae gan yr adnoddau eu trefn ystwyth, cyn eu hatrefnu'n raddedig i'w gwneud yn fwydadwy mewn cwrs.

Ffordd arall yw hynny o ddweud y gallwn yn awr symud ein trafodaeth o gyfeiriad Tafod (*Langue*: y gyfundrefn ffurfiol) tuag at Fyngiant, o gyfeiriad myfyrio am Ramadeg (Patrymau) tuag at Eirfa, hyd yn oed o'r Isymwybodol at yr Ymwybodol. Ac y mae'r naill yn dylanwadu ar y llall.

Mae hyn yn sylweddoliad anodd weithiau, pan ddaw o'r newydd i rywun; ond y mae'n hynod ddiddorol, ac y mae a wnelo â pherthynas yr Anweledig a'r Gweledig, ac â'r ffaith fod yna ddeddfau a chyfundrefnau anweledig ym mhob modfedd o'r Greadigaeth yr un pryd â'r amlygiad sylweddol yn y golwg sydd mewn cwrs iaith.

Mewn iaith, does dim modd cael gwared â Geirfa. Nid yn unig y mae'n rhaid cael *strwythurau* yn y meddwl ar gyfer geiriau unigol a brawddegau. Ond mae'n rhaid drwy'r rheini fynegi'r iaith honno'n ystyrllon amrywiol yn ôl rhediad geirfaol penodol. Bydd Geirfa yn tynnu at ei gilydd yn grwpiau cydlynol, yn sfferau neu'n ffwythiannau, gyda rhai geiriau allweddol sy'n draws-ffwythiannol. Mae yna rai geiriau fel *yn*, *yr*, *gwneud*, *codi*, *ceisio*, ayb. sydd fel petaent yn 'ddomestig' gyffredin ac yn brigo i'r golwg ym mhobman. Galwaf y rheini'n Sffêr Ddomestig; traws-sfferol yw hefyd.

Bu athrawon yn y cyfnod modern o Vives (1531) ymlaen i Comenius (1592-1670), drwy Heness (1885), drwy Gouin (1880) i H. E. Palmer yn yr ugeinfed ganrif a lluo o bobl yn y pumdegau a'r chwedegau, yn dyfnhau'r efrydiaeth hon: Graddio Geirfa.

Felly, y mae'n rhaid penderfynu ar ffordd i gyflwyno ac ymarfer â Geirfa. Bûm innau yn trafod y broblem droeon: e.e. *Graddio Geirfa*, 1962; *Cyflwyno'r Gymraeg*, 1964; *Yr Athro*, XIII – XVI, *Geiriadur Lluniau*, 1969; *Dysgu Cyfansawdd*, 2003; yn nhair cyfrol *Cyfeiriadur i'r Athro Iaith*, (cyd-awdur gyda Megan E. Roberts) 1974, 1974, 1979, o dan y penawdau 'Amllder Geiriau' Amrediad Geirfa, Berlitz, Credif, Cynllunio Cyrsiâu Dysgu Ail Iaith, Dethol, *Graddio Geirfa*; Roberts D. O., Amrediad, Sefyllfa; ac yn 'Situational Vocabulary', IRAL, IV, 1966 (167yml.)

Ymddangosai gwybod amllder ac amrediad geiriau yn gaffaeliad gwerthfawr i gyrsiau iaith rhwng y tridegau a diwedd y saithdegau. Rhôl ymwybod o gynllunio. Ystyriwyd nad synnwyr bawd a chwiw'r funud oedd y modd priodol i ddedhol a graddio geirfa mewn cwrs. Ac yn wir, o safbwynt y cnewyllyn o eiriau trawsbynciol a thraws-sefyllfaol a geid ar y pryd, deil y rhestr sylfaenol honno o eirfa sylfaenol gyffredinol yn offeryn defnyddiol o hyd, megis yn *Graddio Geirfa*. Hynny yw, fel sylfaen statig. Ond o safbwynt trefnu a graddio ei hun, o safbwynt grwpio effeithiol, symudodd y pwyslais fwyfwy yn ddiweddarach i ganoli ar batrymau cystrawennol. Daethpwyd i drefnu olyniaeth geirfa yn ôl olyniaeth sefyllfaoedd. Eto, erys yn ddefnyddiol o hyd i athrawon a myfyrwyr fel ei gilydd wybod yn union pa fath o eiriau y disgwylir iddynt eu meistroli a'u defnyddio yn weddol gynnar.

Ond daeth y pwyslais llafar mewn 'dull union' yn amlycach hyd yn oed yn y 'cywair ail iaith'. Collwyd hefyd lawer o'r hen sefyllfaoedd gynt — megis mynd i'r swyddfa bost, ymweld â'r fferm, a chyd-destunau eiconaidd eraill mewn diwylliant traddodiadol fel siopa, sydd wedi newid. Ond yr oedd rhyw anocheledd ynghylch meddwl yn ôl sefyllfaoedd wrth anelu at gyfathrebu. Câl'r sefyllfaoedd eu coethi ychydig oherwydd y dymuniad i feistroli ffwythiannau a thybiannau. Ond detholir geirfa'n grwpïol o hyd, gyda meysydd semantig yn golygu'r geiriau ar gyfer y prif gysyniadau mewn amgylchiadau ystyrol penodol. A cheisir bob amser osgoi geiriau esoterig neu brin eu defnydd.

Felly, rhwng *Cyflwyno'r Gymraeg* 1964 a *Dysgu Cyfansawdd* 2003 bûm yn annog fwyfwy'r 'dull strwythurol-sefyllfaol' arweiniol. Bu ambell un yn synied fy mod

yn gwrthwynebu sefyllfaoedd a ffwythiannau; bu dau o leiaf ar y llaw arall yn tybied fy mod yn cefnu ar strwythurau. Ond gwrthwynebu *ysgaru* sefyllfaoedd a phatrymau strwythurol yr oeddwn i. Tybiaf o hyd mai ***nod ac arweiniad cyfansawdd o Ramadeg a Geirfa, strwythur a sefyllfa sy'n ddoeth, ac mai drwy fyfyrion ar y rhain, yn ôl angen oed, cyswllt oriau, hyd yn oed amgylchfyd ardal, y gellid amrywio sefyllfa (ac felly geirfa) wrth baratoi cwrs.*** Erys 'Graddio Strwythurau' bellach yn wedd fwy sefydlog na'r 'Graddio Geirfa'.

\*

\*

\*

Erbyn hyn, yr ydym yn sylweddoli fod y cynnyrch yn yr iaith, sef y rhes o frawddegau gwahanol cyfnewidiol, a diderfyn, neu Fyngiant, yn ffenomen hollol wahanol i'r patrymau, sef y cynhyrchydd cymharol sefydlog yn yr ymennydd. O ble mae'r brawddegau amrywiol hyn yn dod? Beth sydd o'r golwg yn yr ymennydd? Hynny yw, beth yw iaith? A oes gennym ni drefn yn y meddwl neu filoedd o frawddegau parod? Ac a ydym ni'n eu tynnu nhw allan yn eu tro? A yw iaith fewnol fel mecanwaith yn fwy na'r hyn sydd yn y golwg? Neu a yw popeth yn allanol, yn cael ei adeiladu'n gyfan gwbl ar y pryd heb beirianwaith mewnol? Neu a oes rhyw fath o ddyfais sy'n cynhyrchu'r cwbl? A yw iaith yn broses ddeuol? A oes, o'r golwg, adeiladwaith cryno (gramadegol os mynnwch, ond ynghyd â geirfa) sy'n botensial ar gyfer cynhyrchu pob brawddeg? Rhaid dod i gasgliad. ***Allan o'r ychydig y mae'r llawer yn dod. Ac mae'r cnewyllyn bach yna o'r golwg yn hollol wahanol i'r miliynau o frawddegau y mae'n eu cynhyrchu.***

Mae'r cynhyrchydd yr un fath (fwy neu lai) yn eich pen chi a'm pen i. Pe baem ni'n anelu at hwnnw, y peirianwaith cryno, ac yn meistrolï hwnnw, yn dysgu hwnnw, yna dylai fod yn bosibl inni ddweud popeth. *Nid dysgu ar ein cof rai brawddegau i'r achlysur hwn neu'r achlysur arall, fel 'phrase-book' ar gyfer teithwyr, ond dysgu'r cynhyrchydd patrymol ei hun, yna byddem yn anelu at galon y broblem.* Dinistriwyd llawer o effeithiolrwydd Cyrsiâu'r Ysgolion a'r Cyfryngau oherwydd y diffyg hwn. Ac at ei gilydd, Cyrsiâu Wlpan a Chyrsiâu Aeddfed i Oedolion a orosodd orau yn y cyfeiriad hwn, am eu bod yn meddwl busnes.

Dau gyflwr sydd; ac ar hyd y canrifoedd, dwy duedd neu ddwy ysgol gyffredinol o ddysgu iaith. Y naill yn anelu at y Cynhyrchydd yn y meddwl a'r llall at y Cynnyrch yn y golwg.

Ond fe ddadleuwn i fod yr Iaith yn gorfod cynnwys y ddau gyflwr, y ddwy wedd, a bod angen eu priodi nhw, cyfuno'r cynhyrchydd â'r cynnyrch. Cyfundrefn o gyfundrefnau yw iaith, rhai a lunnir yn is-ymwybodol, a rhai mwy ymwybodol. Wedi pwysleisio natur gyfundrefnol y strwythurau, diddorol sylwi fod trefn yr Eirfa yn ymddangosiadol wahanol o ran natur. Onid rhestr arwynebol trefn-yr-wyddor yw Geiriadur? Gwyliwn ddiffyg trefn y Rhestr anghyfansawdd.

Rhestr hefyd yw Ffwythiannau neu Sefyllfaoedd Mynegiant: e.e. Lefel I:

1. Cyfarch ac Ateb Cyfarchiad, 2. Rhoi a Holi am Fanylion Personol, 3. Ffarwelio, 4. Diolch, 5. Mynegi a Holi am Anghenion, 6. Mynegi Hoffter, 7. Disgrifio a Holi am Ddigwyddiad, 8. Mynegi Bwriad.

Onid Dull y Phrase-Book yw hyn o hyd, gan aros ar lefel crwydro anarchaidd?

O leiaf, ymddengys mewn Mynegiant fod yna lacrwydd ymddangosiadol nas ceir mewn Gramadeg. Yr hyn a wneir orau yw darostwng olyniaeth ffwythiannau o'r fath yn ôl hwylustod graddio patrymau. Priodi'r brawddegau trawsffurfiol â rhediadau ystyrol defnyddiol. Sefydlu patrymau a gaiff y sylw pennaf ar y dechrau, gyda geirfa ffwythiannau'n tyfu fwyfwy o fewn hynny.

Roedd yna gryn nifer o wendidau yn ieithyddiaeth Chomsky. Nid oedd wedi llawn sylweddoli grym na disgyblaeth natur y rhaniad rhwng Tafod a Mynegiant a ddisgrifiwyd gan Saussure ac yn arbennig gan Guillaume. Ac felly, er iddo wahaniaethu rhwng *deep syntactic structures* a *surface structures*, ni lwyddodd i wahaniaethu'n union rhwng ansawdd strwythurau cyfyngedig mewn Tafod yn y meddwl a'r strwythurau llawer mwy niferus (diderfyn o bosib) a gaed mewn Mynegiant. Wrth drafod Tafod (*competence*) ni wahaniaethai rhwng yr amodau cynieithyddol neu allieithyddol (fel tri dimensiwn gofod, disgyrchiant ac yn y blaen) a gyflyrai bob iaith, a'r dull unigryw a oedd gan ieithoedd unigol (o hyd mewn Tafod yn y meddwl) o adeiladu ar sail yr amodau hynny. Ac yna, strwythurau mwy unigol byth y cyfansoddi



unigol. Nid oedd wedi gallu esbonio egwyddorion neu wreiddiau'r brawddegau craidd, fel y gwelwn wrth drafod iaith plant. A hynny oherwydd nad oedd wedi treiddio i ddyfnder y gwahaniaethau cynieithyddol eu hunain. Mewn gwirionedd, wrth iddo chwilio am 'universal grammar', yr hyn y chwiliai amdano (a'r hyn y daeth Guillaume o hyd iddo) oedd y gyfundrefn gydlynol o gyferbyniadau anieithyddol cyntefig a ddô'i'n sail i Dafod. Y cyferbyniadau yn y meddwl. Er imi grybwyll yn awr yr hyn a farnwn yn brinderau gan Chomsky, credaf iddo dynnu sylw at natur Tafod a Mynegiant mewn modd gwahanol i Guillaume (a llai manwl), ond y mae angen cadw'r ddau ddadansoddiad mewn golwg bellach. Yn bendant, gwnaeth Chomsky gyfraniad gwreiddiol ar lefel 'boblogaidd', ac ar lefel Mynegiant. Ac i mi, y mae yna gyfraniad yr un mor bwysig o safbwynt didacteg iaith o du'r beirniaid ffwythiannol, fel gan Del Hymes yn y *Penguin Sociolinguistics*, 1972, er mor annifyr yw anwybodaeth enbyd ffwythianwyr o ddyfnder y traddodiad ieithyddol ac o'r cyferbyniad rhwng Tafod a Mynegiant a phedagogiaeth. Rhaid goddef eu hanwybodaeth, er mwyn gwerthfawrogi'u cyfraniad, sy'n ddiamheuol.

Yr ydym yn dal i feddwl am gasglu neu ddedhol yr Adnoddau ymlaen llaw, cyn ymaflyd yn yr Adnoddau hynny i'w troi'n anturiaeth ddysgu. Wrth arolygu neu gasglu'r adnoddau crai, nid yw at ei gilydd nac yma nac acw a ddechreuwn ni ddedhol geirfa'n fanwl yn ôl un ffwythiant yn fwy na'r llall, oherwydd ni ddechreuwn gynllunio'r cwrs nes bod y detholiad oll yn gryno gyfan yn ei le ymlaen llaw. Hynny yw, nid eir yn bell gydag un ffwythiant. Yr hyn sy'n mynd yn bell yw'r patrymau, a all fabwysiadu ffwythiannau yn weddol ystwyth eu trefn. Ni allwn hepgor presenoldeb geirfa na phatrwm yn y diwedd. Cwestiwn tebyg yw i 'ba un a ddaw'n gyntaf, y sain neu'r synnwyr?'

Mae'r plentyn ei hun yn ei iaith gyntaf yn tueddu i ddechrau gydag 'Enwi'. Prawf ef/hi yr amgylchfyd, ac er mwyn i'w ddeall drechu'r gymysgedd, daw i lwybr drwyddo, a gwahaniaethu ynghyd ag ailadrodd. Tuedda i godi'r enwau mewn grwpiau sefyllfaol. Mae'n adeiladu math o sicrwydd drwy adnabod pethau a gweithredoedd — ei anghenion neu'i brofiadau. Dyna sefyllfaoedd beunyddiol megis y gegin neu'r lle chwarae neu'r ystafell wely neu'r ystafell ymolchi, yr ardd, y mynd am dro gyda'r

cymeriadau allweddol, llawer ohonynt yn draws-ffwythiannol ddomestig, megis mam, tad, brawd, chwaer, ffrind.

***Gellid ystyried felly fod sawl ffordd o gyflwyno Geirfa Enwau a berfau.***

- 1. Yn ôl Sefyllfaoedd / Ffwythiannau (ar gyfer y cwbl o'r cwrs)***
- 2. Yn ôl amllder a Defnyddioldeb (ar gyfer y cwbl o'r cwrs)***
- 3. Yn ôl grwpiau neu nodweddion Gramadegol (ar gyfer lleiafrif o eiriau yn unig)***

Trafodwyd y tair gwedd hyn eisoes yn (1) *Dysgu Cyfansawdd*, 2003, 152-159,

(2) *Graddio Geirfa a Geiriadur Lluniau*.

A dof yn ôl at (3) uchod ar ddiwedd yr adran hon, maes o law.

#### *Ffwythiannau a Thybiannau*

Dyma yn gyntaf restr o'r ffwythiannau a thybiannau y gellir eu defnyddio neu'u haddasu ar gyfer cwrs o hyd. Er mai 'Gweithredoedd' yw calon y rhain, ac felly er mai berfau ac nid enwau sy'n ganolog, yn yr Eirfa hon, y mae'r holl sefyllfaoedd sydd yma'n esgor ar ddysgu 'Enwau' hefyd. Awgrymaf y gellid tynnu allan o Restr (2) uchod yr Eirfa sy'n atebol i (1) sef y ffwythiannau a gymeradwywyd i'r Cyd-Bwyllgor Addysg.

Dyma'r rhestr yn weddol lawn:

Lefel I: 1. Cyfarch ac Ateb Cyfarchiad; 2. Rhoi a Holi am Fanylion Personol; 3. Ffarwelio; 4. Diolch; 5. Mynegi a Holi am Anghenion; 6. Mynegi Hoffter; 7. Disgrifio a Holi am Ddigwyddiad; 8. Mynegi Bwriad.

Lefel II: 9. Gofyn am Bethau; 10. Ymddiheuro a Derbyn Ymddiheuriad; 11. Sôn am yr Amser ar y Cloc; 12. Gofyn i Rywun wneud Rhywbeth; 13. Gofyn am Ganiatâd a'i Roi; 14. Trafod Iechyd; 15. Dymuno'n Dda i Rywun; 16. Trafod Arian.

Lefel III: 17. Mynegi Dymuniad; 18. Llongyfarch a Chydymdeimlo; 19. Rhoi a Derbyn Cyfeiriadau; 20. Estyn, Derbyn a Gwrthod Gwahoddiad; 21. Trafod cyfnodau o Amser

(Dyddiau, Wythnosau, Misoedd, Blynnyddoedd, Gwyliau); 23. Disgrifio Lle / Person / Gwrthrych; 24. Cyhuddo, Gwadu a Derbyn Bai.

Credaf fod y rhestr hon, o'i thrafod yn lleol ac yn ôl barn bersonol am natur y dosbarth o ddysgwyr, yn dal yn ddefnyddiol. Ond bûm yn drwm braidd o'r cychwyn ar y dull a welais ar y pryd, ac a welaf o hyd, ysywaeth, o ran y ffordd y defnyddir y rhestr hon gan yr awdurdodau a chan athrawon. Fe'i defnyddir yn ddi-drefn o ran strwythur brawddegol heb ei chlymu'n ddiarbed wrth yr egwyddor o raddio patrymau. Gadawyd i'r Eirfa arwain y patrymau. Collir blaenoriaeth. Rhaid darostwng Geirfa i Ramadeg. Gwelais y pryd hynny a gwelaf o hyd gymysgu olyniaeth, ac anghysondeb mewn trefn hyd yn oed yn yr un wers. Nid enwais neb o'r cyfeiliornwyr y pryd hynny, ac nid enwaf neb yn awr am mai'r rheina, a oedd yn gyfrifol, yw rhai a ystyriaf ymhlith ein pobl fwyaf ymroddgar a mwyaf pwysig i'r iaith yn y wlad. Ond tybiaf mai dyletswydd i arweinwyr iaith (megis llunwyr cyrsiau) yw rhoi sylw cyfartal i Raddio Strwythurau ag i Ddethol Geirfa (Sefyllfa a Ffwythiant). Daliaf yn sicr mai yn y gofal o batrwm i batrwm drwy gydol y ddwy flynedd cyntaf y ceir yr angen am lymder hunanddisgyblaeth ar hyn o bryd. Dyma'r sut y beirniadwyd ymarfer gwael mewn cwrs penodol yn *Dysgu Cyfansawdd* 154: 'Crwydro'n anarchaidd blith draphlith o ffwythiant i ffwythiant heb y ddisgyblaeth lem o gyd-raddio yn ôl tyfiant patrymau, a heb gadarnhau un pwynt cyn mynd at yr un nesaf a oedd yn gydberthnasol.'

Damweinioldeb oedd hyn. Ôl-foderniaeth.

Er mwyn cadw'r briffordd yn amlwg drwy'r Ymdriniaeth bresennol, carwn ein hatgoffa'n hun am Ddull sylfaenol Holi ac Ateb. A charwn ganolbwyntio ar brif ffwythiannau Lefel I a II: sef 2, 5, 6, 7, 9, 12, 13, 14. Dyma gyfres gwbl ganolog wrth ddysgu iaith. Un o hanfodion cynnal ymddiddan rhwng Athro a Dysgwr, rhwng Dysgwr a Dysgwr, a rhwng Dysgwr a Siaradwr rhugl yw *ysgogi* ymateb drwy dechneg Holi ac Ateb.

Ond pwysig ymlaen llaw i Athro a Chwrs-luniwr, wrth geisio cydio yn y gwaith hwn o ddysgu crefft Holi ac Ateb, yw amlinellu "Beth sydd?" Hynny yw: Beth yw'r fframwaith ei hun i ofyn cwestiwn yn y Gymraeg? Mapiwch y cwbl cyn mynd ar

siwrnai. Cesglwch at ei gilydd o dan drefn batrymol yr Eirfa i'r ffwythiannau derbyniol, a defnyddiwch y cnewyllyn hwn yn sylfaen i'r dyfodol.

*Grwpio Geirfa: egwyddorion*

1. Y tebyg yw, mewn cwrs sy'n parchu dosbarthiad a thyfu yn ôl ffwythiannau a sefyllfaoedd, y bydd cryn dipyn o'r Eirfa'n anochel, beth bynnag. O safbwynt amllder a defnyddioldebaeth, fe geir rhai grwpiau geirfaol sy'n draws-sefyllfaol. Dyna'r geiriau sydd yn dod yn uchaf yn yr hen restrï o amllder geirfaol. Ond at ei gilydd, ymddengys y gallwn ddibynnu'n syml ffwrdd â hi ar y sefyllfaoedd i'n harwain gyda'r rheini.

Eto, nid felly, yn gyfan gwbl. Mae yna ddulliau eraill o grwpio.

2. Mae yna feysydd semantaidd, fel y sylwasom, sydd a wnelont â'r duedd i grwpio geiriau a'u clymu wrth ei gilydd yn sefyllfaol, a llunio cymdeithasau o eiriau. (Ond o ran *ffurf* weithiau hefyd, ceir *teuluoedd geirfaol*: e.e. yn ôl rhagddodiad megis *di* mewn berfau — diarfogi, difodi, digalonni; mewn ansoddeiriau — diegni, didosturi, dirifedi, di-wad, digywilydd, dibrofiad, dideimlad, difwriad, diamcan; ac enwau — diweithdra, didwylledd. Fel pe bai'r enwau'n tarddu o'r ddwy ran ymadrodd arall, at ei gilydd. Gellir dysgu rhai o'r rhain gyda'i gilydd, pan feistrolir digon o sylfaen. Ond fel y gwelir, perthyn y math hwn o grwpio geirfa i lefel ddatblygedig o ddysgu.

Ac yna, *an* mewn ansoddeiriau — anghyfleus, anffurfiol, anfarwol, anfoesol, annuwiol, anniben, anghyfiawn, anghyson; ac enwau — anwariaid, anfoesoldeb, anghysondeb. Fel pe bai'r enwau'n tarddu o'r ansoddeiriau at ei gilydd.)

3. Mae sefyllfaoedd yn gofyn sylw i'r cadarnhaol a'r negyddol, a gellir rhoi sylw i berthynas cystrawennau cyferbyniol wrth grwpio geirfa. Ac mewn sefyllfaoedd a ffwythiannau, ceir strwythurau yn ogystal â geirfa.

Lle bynnag y mae yna gyferbyniad ieithyddol, mae yna le i Ymarfer â Phatrymau Trawsffurfiol. Ac y mae hyn yr un mor wir ym maes Geirfa ag ydyw ym maes patrymau gramadegol. Tyr 'strwythur' neu 'ffurf' yn y modd hwnnw i mewn i fydd Geirfa.

Fe ellir cuddio'r strwythurau cyferbyniol hyn o fewn darnau darllen, o fewn dysgu sefyllfaol a ffwythiannol, ond ysgerbwd ydynt ar gyfer cnawd Geirfa. Ac i luniwr cwrs, priodol *meddwl* o leiaf am eu lle mewn grwpio geirfaol.

4. Yn yr un modd, gall fod yn werthfawr o safbwynt strwythur Geirfa fod yna fath o is-grwpio yn ôl cyferbyniadau. Sylwer felly, ar 'gyferbyniadau' fel modd o 'grwpio'.

*Gwrthgyferbynnu Ystyr*

<i>Ansoddeiriau</i>	<i>Berfau</i>	<i>Enwau</i>	<i>Adferfau</i>	<i>Arddodiaid</i>
cynnar, hwyr	mynd, dod	nos, dydd	i lawr, i fyny	o flaen, ar ôl
caled, meddal	esgyn, disgyn	mam, tad	yma, acw	at, oddi wrth
ysgafn, trwm	agor, cau	brenin, brenhines	byth, erioed	dros, dan
cyflym, araf	gwerthu, prynu	tarw, buwch		
tywyll, golau	gorwedd, sefyll	ewythr, modryb		
hen, ifanc	cychwyn, cyrraedd			
lleia, mwya	cael, colli			
drud, rhad	gofyn, ateb	' <i>Gwahaniaethu</i> ' yn hytrach		
uchel, isel	cofio, anghofio	na <i>Chyferbynnu</i> yw'r term		
byr, hir	cynnig, derbyn	gorau wrth gymharu:		
mawr, bach	ennill, colli	nos, noson, noswaith		
agos, pell	gweithio, gorffwys	dydd, diwrnod		
tenau, tew	sgrifennu, darllen			
sâl, iach				

Dull dadansoddol yw cyferbynnu geirfa. Ac y mae'r dull dadansoddol ynddo'i hun, heblaw glanhau ac egluro'r meddwl, yn fodd i adeiladu'r cof.

Ffurfioli yw. Ac y mae ffurf yn cadarnhau Synnwyr.

*Patrymau (Gramadeg) a Geirfa yn cyfarfod â'i gilydd*

Codwn yn awr rai ystyriaethau lle y mae ystyried Graddio Patrymau neu Ramadeg yn effeithio ar Ddethol neu Raddio Geirfa.

Cymerwn rai o'r prif Rannau Ymadrodd (Parts of Speech), megis Enw, Ansoddair, Adferf, Arddodiad yn eu tro.

**ENWAU**

Problem arbennig weithiau, nid yn unig i ddysgwyr, ond i'r rhai sy'n Gymry Cymraeg hyderus o'r crud yw cenedl enwau nas defnyddir yn gyffredin feunyddiol (nac yn wythnosol weithiau). A gofiwn pa un sy'n wrywaidd neu'n fenywaidd gydag 'ewyllys' – y datganiad ysgrifenedig neu'r gallu i ddewis?

**GRWPIO WRTH GYFLWYNO ENWAU**

Ychydig o drefn amlwg sydd yn y Gymraeg wrth ddsbarthu enwau yn ôl cenedl neu rif (lluosi). Ond gellid tynnu sylw at rai defnyddiol.

**CENEDL ENWAU**

Ceir rhaniad bras iawn rhwng

LLE (Enwau lleoedd)

AMSER (Enwau amser)

Benywaidd

Gwrywaidd

1. Gwlad, ardal, bro, ystrad, tref:

Mae amryw *o'r cyfnodau pwysicaf*

Cymru, Morgannwg, Llŷn;

yn y dosbarth hwn:

Tref, llan, dinas, caer: Llandysul, Treffynnon,

tymor — gwanwyn, haf

Caerffili: felly enwau lleoedd.

mis — Ionawr, Hydref

Ynys: Llanddwyn, Enlli, Echni.

dydd, diwrnod — Llun (nid gŵyl,

na nos)

Enwau'r mynyddoedd eu hunain: Yr Wyddfa

Carnedd Llywelyn (ond nid y geiriau 'bryn'

cyfeiriadau gwynt — de ddwyrain

a ‘mynydd’ eu hunain).

2. Cysylltiedig â gwlad, bro — iaith, tafodiaith,

— Saesneg, Dyfedeg (ond nid y mathau o

Gymraeg, Saesneg a.y.b. Saesneg Canol,

Cymraeg Llafar sy’n wrywaidd.)

Cysylltiedig ag iaith: llythyren, cytsain,

llafariad.

-----  
Mae cryn nifer o sylweddau neu

enghreiffiau o fater yn wrywaidd:

arian, aur, haearn, cig, calch a.y.b.

(eithrio — diod, teisen, torth)

-----

Mae’r berfenwau i gyd yn

wrywaidd: cerdded, canu.

Nid yw dosrannu o ran Sfferau Ystyr yn fawr o help ysywaeth.

Pwysicach yw rhai terfyniadau y mae’n werth eu cofio. O’r herwydd, gellid neilltuo gwers benodol gyda dysgwyr datblygedig i feithrin geirfa yn ôl grwpiau o’r rhain. Dyma radd go aeddfed yn y dysgu.

**GWRYWAIDD** yw *terfyniad enwau’n dechrau â d* (o ran tueddiad):

— deb cywirdeb, uniondeb, duwioldeb

— der poethder, blinder

— did glendid, endid

— dra glanweithdra, ffeidd-dra

— dwr cryfdwr, sychdwr

Felly hefyd, gwrywaidd yw **rhai terfyniadau sy’n gorffen â d**:

— ad argyhoeddiad, bygythiad (mae un ymhob cant yn fenywaidd)

— id ieuenctid, newid (yr unig eithriad o bwys yw ‘addewid’)

— dod annibendod, cybydd-dod

— yd bywyd, ysbryd

---

*Ceir grŵp o derfyniadau sy'n tueddu i orffen ag r:* — er, — or, — ur, — wr sydd eto'n wrywaidd: ager, anghyfiawnder, actor, brodor, blaenor, papur, pechadur, gweithiwr.

*Ceir grŵp lle y ceir r o flaen llafariad y terfyniad:* — tra / — dra, — rwydd sydd hefyd yn wrywaidd: diweithdra, gweddustra, symlrydd, trefnusrydd.

*Ceir grŵp o derfyniadau sy'n cynnwys w:* — wch, — wm, — wr, — wg: llwch, hyfrydwch, llongwr, prynwr, rhagolwg, iorwg.

Wrth grwpio ac ymdroi ac ailadrodd, dyfnheir ymdeimlad.

Ceir rhai grwpiau o enwau sy'n meddu ar genedl FENYWAIDD yn ôl eu terfyniadau:

*1. Mae hyn yn weddol gyffredin lle y bo'r terfyniad yn cynnwys e:*

eg: tacteg, techneg, telyneg

ell: cawell, llinell, cylllell

en: casgen, cansen

es: angyles, mynwes

Gwyn / Gwen; sylwir weithiau ar y rhaniad y / e; gwrywaidd at ei gilydd yw — yn, — ydd, — yd, — ych

er bod — eb yn fenywaidd yn fynych e.e. archeb, deiseb, nid yw'n wir bob amser: creulondeb, godineb,

nac yn edd: gwirionedd, maswedd,

nac yn er: rwber, pryder.

*2. Terfyniadau unigol cyffredin sy'n fenywaidd*

aeth, iaeth (*Dyma derfyniad tra phwysig; ond eithriadau yw 'gwasanaeth, gwahaniaeth, hiraeth, amrywiaeth'*):

as: priodas, teyrnas, perthynas

fa: noddfa, graddfa, porfa.



## LLUOSOG ENWAU

Un grŵp i sylwi arnynt wrth ddysgu lluosogi:

Gan fod cynifer o derfyniadau lluosog gwahanol a ychwanegir ar gyfer enwau, mae yna un dull pwysig o lunio lluosog, sef drwy *ollwng*, lle y gellir canfod cyfle i garfanu. Hynny yw, ceir grŵp o *enwau lle y mae'r lluosog rywfodd yn esgor ar yr unigol*. Gelwir hyn weithiau'n 'lluosog mewdol'. Hynny yw y mae fel pe canfyddid yr enw yn gyntaf megis casgliad cyfan unigol sy'n cwmpasu grŵp lluosog. Mae'r amllder yn fath o undod. e.e.

Grŵp o anifeiliaid	grŵp o lysiau, coed cnwd	grŵp yr ymatebir iddynt fel mäs
mochyn < moch	gwinwydden < gwinwydd	seren < sêr
pysgodyn < pysgod	bresychen < bresych	blewyn < blew
llygoden < llygod	glaswelltyn < glaswellt	
chwannen < chwain	moronen < moron	
plentyn < plant	deilen < dail	
	collen < cyll, coll	

Weithiau ceir grŵp o enwau sy'n amrywio, o ran mân oleddf ar ystyr, o gwmpas yr un sylfaen ystyrol a ffurfiol, ac y mae'n rheidrwydd rywsut i'w trafod gyda'i gilydd megis *nos, dydd*: dyna'r grŵp mwyaf diddorol.

Nos *nos*: nos da (ffarwelio)

*noswaith*: noswaith dda (cyfarch wrth gyfarfod). Yn llythrennol, yr achlysur o *nos*, y digwyddiad mewn amser, 'y waith hon' — this particular time; ar ôl rhif — dwy noswaith (cyfeiriad at amser).

*noson* noson: Mae'n noson braf, noson wlyb: cyflwr neu ddisgrifiad, ac ar ôl rhif — dwy noson.

DYDD *diwrnod*: ar ôl rhif: neu'n cyfeirio at amser: pa ddiwrnod? pum diwrnod.

mewn disgrifiad: diwrnod braf, diwrnod da.

*dydd*: cyferbynnu amser golau â nos neu noson sy'n amser tywyll, a phob man arall lle na ddefnyddir diwrnod.

### ANSODDEIRIAU

Un o'r pethau diddorol ynglŷn ag un dyrnaid o ansoddeiriau dethol gweddol gyffredin yw bod eu hystyr yn gwahaniaethu yn ôl eu safle.

Gan mai safle normal yr ansoddair yn Gymraeg yw *ar ôl* yr enw, mae ei osod *o flaen* yr enw yn tueddu i'w 'wyro' o ran synnwyr. Gellid efallai fentro dweud bod *ar ôl yr enw* yn llythrennol wir, ac y gall ei ddodi *o flaen yr enw* roi iddo wedd 'drosiadol' neu emosiynol.

coes gam      cam dystiolaeth

plant mân      mân dystiolaeth

trysorau prin      prin ddeugain

stori wir      gwir arwr

adeilad hen      hen blant

Dichon fod yr awgrym 'emosiynol' yn yr ail yn gywir; ond gan fod emosiwn yn gallu dibynnu gymaint ar amgylchiadau, a chan fod rhai o'r ansoddeiriau eisoes yn llythrennol emosiynol, ni ellir rheol haearnidd. Cymerer:

Gŵr unig      unig ŵr

Yn y fan hon, mae'r cyntaf ynghlwm wrth ryw deimlad, mae'n wir; ond yr ail yn bwysleisiol, ac yn cyfleu eithafrwydd unswydd yr unigryw. Ond yn yr ystyriaeth o grwpio, mae'r dyrnaid hwn eto'n enghraifft fechan o achlysur dysgu.

## **ADFERF ac AD-FERF**

Ceir ambell adferf sy'n unigryw gywrain megis *byth* / *erioed*. Mae hyn fel yr amrywiadau ar 'nos, dydd' uchod yn ymwneud ag amser. Gellid cyfleu negydd yn ogystal â chadarnhad.

e.e. Fyddwch chi'n gwneud hyn? Byth. Cymru am byth.

Ydych chi erioed wedi gwneud hyn? Erioed.

Gyda *byth*, byddwn fel arfer yn cyfeirio at fath o ddyfodol, naill o ran safle neu o ran cyfeiriad edrych. Gellir cyfeirio at *byth* 'ar ôl, neu ymlaen oddi wrth' hyd yn oed wrth sefyll yn y gorffennol: megis 'Doeddwn i byth yn mynd i'r Eglwys pan own i'n ifanc'. Gydag *erioed*, byddwn yn cyfeirio at fath o orffennol fel arfer, hyd yn oed o safle'r presennol. Gall gyfeirio at gyfnod 'cyn' sefyllfa: 'Dyw e erioed wedi bod yn Abertawe. Doedd e erioed wedi bod yng Nghaerfyrddin.'

Grŵp yw pob cyferbyniad. Mae'r elfen ad-ferfol, sef y drydedd elfen yn adeiladwaith y frawddeg gyflawn ac aeddfed, yn ffactor tra phwysig o safbwynt trefnu ystyr. Yr wyf yn cyferbynnu Adferf ac Ad-ferf, y gyntaf yn Rhan Ymadrodd a'r llall yn safle ym mynegiant adeiladwaith y frawddeg. Yr Ad-ferf yw'r trydydd safle dibynnu yng nghwlwm y Rhannau Ymadrodd Traethiadol sy'n sgerbwd i frawddeg. Gwelwn yn y cyferbyniad mewn Adferf / Ad-ferf mor ystwyth y gall un gair amrywio mewn modd mor amryddawn ac amleiriog o safbwynt yr adnoddau sy'n llenwi'r safle hwnnw. Mae'r Ad-ferf yn amrywio o ran safle mewn Mynegiant: gall fod ar y dechrau, canol, neu ddiwedd brawddeg. Gall amrywio hefyd yn ôl ei tharddiad, mewn Rhannau Ymadrodd eraill.

Yn gyntaf, drwy feddalau enw: *Ddoe* yr oeddwn i'n oer. *Ganllath* o gopa'r mynydd, gwelais lwynog. Oedodd *flwyddyn* (arall).

Yn ail, drwy ymestyn yn ymadrodd amrywiol, a all eto fod yn amrywiol ei safle: *Acw* yr oedd yn byw'n *gysurus*. Es i *adref*, yn *syth*. Eisteddodd hi yn yr *ystafell*. *Drannoeth* daeth e'n ôl. Mae'n gweithio *brynhawn Sadwrn*.

Yn drydydd, drwy ddefnyddio ansoddair yn adferfol: Fi ganodd *olaf*. Hi sy'n sgorio *fynychaf*. Neu mewn dibeniad: Mae'r blodau hyn yn *brydferth*.

Yn bedwerydd, drwy ddefnyddio cymal adferfol (hynny yw, tan gynnwys berf): Roedd yn sâl *pan gododd* ef. *Os gwelwch yn dda*, agorwch y drws.

Ac yn bumed, drwy fod yn wrthrych mewn brawddeg (yn enw, neu'n rhagenw): Fe welais i ddyn. (hynny yw yn enw o ran ansawdd, ond yn ad-ferfol o ran dibyniaeth).

## **ARDDODIAID**

Cyferbynnir un manylyn mewn dau gwrs dysgu, y naill yn meddu ar strwythur, a'r llall heb strwythur:

Cwrs 1: 'Ceir treigladd meddal ar ôl *'o, i, wrth, am, at, dan, dros, drwy, gan'*; cyferbynnir â chwrs yn awr sy'n hoffi strwythur, ac sy'n ei fabwysiadu ymhobman:

Cwrs 2: 'Dysgwch y rhigwm am arddodiaid sy'n treiglo'n feddal:

*Am, ar, at, / I, o, gan, / Hyd, heb, wrth / Dros, drwy, dan, '*

Mae odl yn y fan hon yn fodd syml i gyferbynnu. Yn y fan hon, oherwydd cyffyrddiad strwythur felly, y mae difflastod rheol treiglo i'r dysgwyr a'r anghenraid i ymgyfarwyddo ag arfer treiglo yn sydyn yn goleuo o dan hudlath ffurf.

Gwaith paratöwr cwrs yw dyfeisio technegau cofio o'r fath lle bynnag y ceir rheolau ychydig yn gymhleth. Patrymer byth.

## CASGLIADAU

Buom yn ceisio arolygu prif drefn yr iaith ar gyfer y rhai sydd am ailystyried y dasg o'i dysgu. Ar hyn o bryd, ymddengys y sefyllfa ym maes ail iaith yn rhy dameidiog ac ansefydlog. Symbol o'r sefyllfa yw'r gormodedd o amrywebau mewn *Cymraeg Llafar Safonol Ysgrifenedig*. Dylwn bwysleisio: yn yr ymdriniaeth bresennol, dw i ddim wedi ceisio cyflwyno model cyson o ddim byd; dim ond codi ystyriaethau problematig ar drothwy cam newydd. Dyma faterion y bydd yn rhaid eu trafod yn llawer mwy trwyadl nag mewn pwyllgor mewn astudiaeth realistig ac ymarferol. Bydd yn rhaid cyfuno ysbryd arbrofol â thrwyadledd araf. Oherwydd gormes hunanamddiffyn tafodieithol, oherwydd pleidio hoff ffurfiau annwyl, oherwydd ceidwadaeth ochr yn ochr â gormod o lacrwydd, cadwyd gormod o amrywebau tafodieithol pan ddymunir model cenedlaethol. Ar gyfer cysoni â'i gilydd, hyd yn oed o fewn yr un rhanbarth, ac yn sicr ar gyfer cyrsiau cenedlaethol, camgymeriad alaethus fu hyrwyddo a chefnogi amrywebau ffwdanus diangen. Cymeraf dipyn o'r bai am hyn. Fel Cadeirydd ar bwyllgor yr adroddiad diwethaf hwnnw ers talwm, dylwn fod wedi ymddwyn yn debycach i John Morris-Jones (gyda Phwyllgor yr Orgraff) a mynnu unffurfiaeth weddol gyson. Roedd y peth yn bosib, meddid. Ond nid yn 'wleidyddol ddoeth'; a gadawsom etifeddiaeth ofnus, gyfaddawdus, anymarferol ar gyfer ein disgynyddion. Eto, dichon mai dyrnaid yn y bôn sydd o eithriadau o'r fath sy'n aros yn 'ystyfnig'. Mae angen pwyso a mesur yn hydeiml.

Yn fy marn i, dylid anelu at gwrs cenedlaethol (i'r ail iaith ar y cyfryngau neu'r we, mewn canolfannau preswyl cenedlaethol, neu i ardaloedd sydd yn gymysglyd o ran eu hamlder tafodieithoedd megis Caerdydd ac Aberystwyth: hynny yw, cyn belled ag sy'n bosib). Rhoddai hynny arweiniad. Ni cheir hynny ond drwy ffwdan; ond gwnâi les i gael cnewyllyn o raddio, o batrymu mewn ffwythiannau unplyg. *Ar fideo, ac mewn dosbarthiadau lleol*, dylid cynnwys hefyd ddau argraffiad o'r un cwrs, y naill i'r Gogledd a'r llall i'r De, lle y cynhwysir ffurfiau mwy lleol (nifer fechan os gellir), ond sydd hefyd yn gwbl 'safonol' ar lafar ac yn ymestyn y tu hwnt i un neu i amryw o fröydd lleol: ffurfiau megis 'ddaru i chi fynd', 'gweloch chi' efallai yn hytrach na 'gwelsoch chi', a geirfa megis 'fo, rwan'. Nac amlhäer *ar y dechrau* ffurfiau geirfaol

lleol chwaith: hances, macyn, necloth a.y.b.. Gellir cael y lleiafswm o amrywiaeth o fewn ystwythder o undod ar gyfer dosbarthiadau unigol; gellir cael cyrsiau rhanbarthol sy'n gymharol unol yn genedlaethol, ond yn cynnwys y gwahaniaethau eiconaid; ond ar y cyfryngau cenedlaethol yn sicr, dylid rhoi blaenoriaeth i'r egwyddor 'nac amlhaer amrywebau o flaen yr un dosbarth.' Y nod o hyd yw na luosogir dewisiadau.

At ei gilydd, aneler at gydnabod Cymraeg Didafodiaith, h.y. Safonol o leiaf ym maes Ail Iaith. Iaith fyw heb ffiniau yw. Ynnddi, cymharol ychydig o amrywiadau geirfaol pwysig sydd fel y sylwir wrth wrando ar y cyfryngau (*cenllysg / cesair*). Nid 'ffurfio pont rhwng yr iaith lafar a'r iaith lenyddol' a wneir mewn iaith safonol fel y dywed rhai sylwebyddion. Nid 'symleiddio' iaith mewn unrhyw fodd yw chwaith. Dyw 'Maen nhw' ddim yn symlach nag 'y maent hwy'. Nid ffurfio iaith a wna fel y gwnaeth Esperanto drwy lunio ffurfiau gramadegol artiffisial ymwybodol. Cydnabod a wna ffaith, a cheisio'i darganfod: iaith gymharol gyffredin yw sy'n bod eisoes ar y radio, yn y pwlpudd, mewn cyfarfodydd rhwng pobl o wahanol ranbarthau, mewn ysgolion, os mynnir — ac ar lawr aelwyd ymhlith y 'dosbarth canol' Cymraeg yn gyffredinol.

O sefydlu cysondeb iaith fel hyn, hwylusir materion ymarferol megis Arholiadau. Dyna pam y tybiaf mai CBAC yw'r corff delfrydol a phriodol ar gyfer argraffiad newydd ar yr iaith lafar safonol. Ond mae gwir angen rhagor o ymchwil yn gyntaf, a llawer o drafodaeth agored ynghylch y problemau, hyd yn oed ynghylch y rhagfarnau. Gyda'r bwllch adnabyddus rhwng Cymraeg Llafar a Chymraeg Llyfr, a chan fod traddodiad llenyddol mor fawr gan Gymru, gweddus yw bod disgwyl i ddysgwyr hynaf yr ysgolion ac i oedolion feistroli'r cywair pwysig hwnnw. Yn wir, gan mai anghysonderau o fewn yr iaith lafar yw'r bwgan o hyd ar hyn o bryd, gwelir fel y mae'r iaith lenyddol yn gallu bod yn ymyrraeth anochel ond helpfawr. Ond rhaid bod yn wylriadwrus. O flaen fy llygaid ar hyn o bryd, mewn cwrs ail iaith, ar yr un tudalen ceir 'mwyaf' ochr yn ochr â 'mwyaf'. Mae'n anochel mewn cyfnod o drawsnewid, ond yn anffodus. Mae amlhau amrywebau fel yna yn annerbyniol. Gwell at ei gilydd neilltuo pob sôn am 'ffurfiau llenyddol' tan gyfnod aeddfed mewn cwrs.

\*

\*

\*

Seiliwyd y drafodaeth hon oll ar y ffaith fod yna batrymau brawddegol ar gael. Mae'r rheina'n cael eu hailadrodd o ran adeiladwaith, ac yn cael eu trawsffurfio'n rheolaidd. Mae hyn yn arwain at hyfforddi patrymau — 'Ymarfer Patrymau' — ac at drefnu'r cydlyniad neu'r berthynas rhwng y naill a'r llall o gam i gam. Cynigir fod yna'r fath beth â chnewyllyn o frawddegau sylfaenol sy'n ymagor. Gellid cymhwyso ac ychwanegu at y rheini, a dwyn perswâd.

Sylwer felly ar *natur* Graddio.

Cyferbynier yr 'Hen ffordd' ganol yr 20fed Ganrif o olynu patrymau: *Dyma lyfr: | Llyfr yw hwn. | Dangoswch lyfr: | Beth yw hwn? | Llyfr. | Ai llyfr yw ef? | Ie. Nage. | Mae'r llyfr ar y ddesg. | Rwy'n dangos llyfr.*

'Un Ffordd Newydd' ddiwedd yr 20fed Ganrif: *Mae Twm yma. | Mae bachgen yma. | Oes bachgen yma? | Nac oes. Does dim bachgen yma. | Ydy e yma? | Mae e yma. | Mae e'n cerdded yma. | Mae e'n cerdded yn gyflym iawn. | Mae e'n cerdded yn gyflym yn y tŷ.*

Ni roddwyd y cyferbyniad hwn ond er mwyn tanlinellu natur wrthgyferbyniol y darn anraddedig a'r darn graddedig. Ond wedi dweud hynny, brysier i gyflysu'r egwyddor honno â'r egwyddor gyfathrebol ffwythiannol a sefyllfaol a atgyfodwyd yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Cydnabyddir y cydestun cymdeithasol naturiol mor fuan ac mor gyson ag y gellir. Eto, nid yw naturioleiddio iaith yn ddogma digymrodedd bob amser wrth ddysgu ail iaith. Ail iaith yw hi. A phriodol yw drilio Ymarfer Patrymau Disodli a Thrawsnewid o bryd i'w gilydd. Mae'n gymorth i wreiddio arferion sy'n groes i batrymau gwreiddiedig yr iaith gyntaf. Mae dril dwyieithog yn medru bod yn ymarferiad hwylus i gyfleu ystyr yn fanwl gyflym, tan symud o'r hysbys i'r anhysbys. Mae'n rhagori ar y dull union mewn sawl ffordd, drwy arbed amser, a thrwy gydnabod proses cyfieithu sydd eisoes ar waith ym meddwl y dysgwyr. Dengys yr isymwybod gydlyniad yr holl iaith yn gyfundrefn o Gyfundrefnau. Nid 'sefyllfa' ond patrymau sy'n llywio trefn y dysgu ar y dechrau. Ond at y 'sefyllfa' yr ydys yn anelu mor fuan ag sy'n bosibl. Yr

un pryd mae llwyddiant cyflymder dril dwyieithog yn cadw'r bêl i symud yn ysgafn, yn aml, yn fyw, gan bwyntio'n benodol at y man dysgu.

*[ATODIAD: Dyma ddryll bach o nodiadau ynghylch rhaglen y bûm yn gweithio arni lawer o flynyddoedd yn ôl. Crair yw, yn wir. Eto, tybiais yn y cyfwng presennol, y buasai mynegiant o brofiad yn gallu bod yn rhan o'n pendroni presennol. Disgrifiwyd Cymraeg i Oedolion I, 1965, a II 1966 ar y pryd fel trobwynt o fath bach yn Hanes Dysgu Ail Iaith yng Nghymru (Y gwir yw bod angen cydnabod llawer o'r arloeswyr a fu cyn hynny). Bid a fo am hynny, teg o hyd yw amlinellu ychydig ar hanes ei baratoad.*

**Symudiad un:**

*I. A. Myfyrdod rhagymadroddol: Darllen ugeiniau o erthyglau; dwsinau o lyfrau ar ddidacteg ac ieithyddiaeth gymwysedig. Dethol geirfa; graddio gramadeg; penderfynu dull(iau). Ymweld â dosbarthiadau. Bu hyn yn waith llawn amser am rai blynyddoedd. Ymgymryd â dosbarth arbrofol.*

*B. Llunio a chyflwyno gwersi gaeaf 1961-2*

*Adolygu 1962-3*

*C. Cyhoeddi cwrs cyfyngedig 1963-4*

*Galw cynhadledd i athrawon i'w drafod cyn arolygu: casglu hefyd sylwadau ysgrifenedig.*

*Adolygu yn wyneb ymateb eraill.*

*CH. Rhoi cynnig ar y cwrs adolygedig 1964-5*

*Adolygu terfynol*

*Cyhoeddi Cymraeg i Oedolion I, 1965*



*Dyma'r tro cyntaf i Gymraeg Llafar Safonol fel model cyflawn gael ei ddefnyddio mewn cwrs cenedlaethol; a defnyddid gwahanol ymarferion patrymog gan droi tablau'n frawddegau; y tro cyntaf i ddefnyddio driliau llafar cwta dwyieithog mewn cwrs Cymraeg; ac i ddarnau darllen gael eu cymhwyso'n gwestiynau patrymog.*

*Cyhoeddwyd y Ddwy Ran yn ddwy gyfrol yr un: sef Llyfr yr Athro, a Nodiadau'r Dysgwyr.*

*II Bwriad yr **Ail Symudiad** oedd symud drwy Ddarnau Darllen tuag at Gwestiynau 'Caeth' a thuag at Holi ac Ateb 'Rhydd'.*

*O fewn cyfnod I uchod, dechreuwyd eisoes ar yr ail ran yn yr ail flwyddyn 1962, a hynny gyda'r bobl a ddilynodd y flwyddyn gyntaf 1961-2.*

*Y datblygiad newydd oedd:*

*(i) Canolbwyntio fwyfwy ar droi Darnau darllen yn holi ac ateb (tt 10-18) Defnyddiwyd cylchgronau'r Urdd ar y pryd (a chyhoeddi atodiad cyfarwyddyd i'r cylchgrawn ar gyfer athrawon).*

*(ii) Rhaglen ar gyfer llunio cwestiynau (tt 50-51)*

*(iii) Rhestr o gwestiynau rhydd a luniwyd: mim-mem (gw. t 94. Noder, cafwyd rhestr o 89 o gwestiynau).*

*(iv) Ymarferion caeth helaeth yn arwain at ymddiddan rhydd.*

*Cyhoeddi Cymraeg i Oedolion II, 1966.*

*Caniatewch ddyfarniad y Cymro:*

#### *'RASIO I DDYSGU*

*Y llyfr gyda'r mwyaf poblogaidd ymhlith dysgwyr Cymraeg yw "Cymraeg i Oedolion" ac er pan gyhoeddwyd ef gyntaf ym Medi 1965, gwerthwyd dros 9,000 o gopiâu a Nodiadau i Ddysgwyr.*

*Ychydig dros wythnos yn ôl cyhoeddwyd mil o gopiau o wythfed argraffiad y gyfrol ac erbyn hyn dim ond rhyw 250 o'r rheini sydd ar ôl.*

*Nid yng Nghymru yn unig y defnyddir y llyfr. Dywedodd Gwasg y Brifysgol iddi dderbyn archebion o drefi yn Lloegr gan gynnwys Rhydychen, Caer, Lerpwl a Llundain.*

*Yn ogystal fe'i defnyddir mewn ysgol ddyddiol ym Manceinion lle dechreuodd athrawes o Gymru gynnal dosbarthiadau dysgu Cymraeg fel rhan o amserlen yr ysgol.'*

*Drwy gydol y cyfnod hwn o baratoi cwrs, datblygwyd (yn gyfeiliant) yr astudiaeth academaidd o waith cyfoes mewn leithyddiaeth gyfredol, megis darllen Chomsky ac eraill. Ar sail hyn o brofiad, a chyda myfyrdod ynghylch pa broblemau a chwestiynau i'w trafod a'u hystyried, aeth yr awdur i un o Ganolfannau blaenaf y byd mewn Didacteg Iaith, sef Québec, i dderbyn (am flwyddyn) hyfforddiant dwys yn y maes. Cyn mynd i gwrs o'r fath, mantais oedd bod ganddo lwyth o broblemau pendant i'w harchwilio ac i'w datrys. Wedi dod adref, am resymau personol, trosglwyddwyd yr ymchwilydd o faes Didacteg Iaith i Theori Beirniadaeth Lenyddol. A chollwyd y cyfle (i raddau) i lafurio'n llawn amser yn yr achos pwysig hwn.*

*Mewn gwirionedd, roedd y cwrs arbrofol ar y pryd yn warthus o undonog ac unffurf. Fe'i cyflwynwyd yn gynamserol. Manteisiwyd ar yr esgus ei fod yn arbrofol, a bod dosbarth o oedolion amyneddgar a arhosai ar ddi-hun drwy gydol driliau cyfieithu byr-gyflym. Ond ymdrech gyntefig annigonol oedd. Rhy garedig oedd y derbyniad a gafodd o lawer iawn, ac nid adlewyrchai hynny ond y prinder enbyd o'i gwmpas ar y pryd, sy'n disgwyl o hyd am waith llawer mwy graddedig ac ymarferedig. Y gair tecaf yn sylwadau'r Cymro oedd 'Rasio' yn y teitl.]*

## 10. METHODOLEG HOLI AC ATEB

Daeth yn bryd inni, bellach, gan feddu mi obeithiaf ar ymwybod o adeiladwaith sylfaenol yr Ymadrodd a'r Frawddeg Seml, droi i wynebu fframwaith 'Holi ac Ateb'.

Unwaith eto, dadansoddwn yn gyntaf batrwm cyfan 'Holi ac Ateb', ac yna myfyriwn am y mathau o gwestiynau sydd ar gael, a'r dulliau o ateb, (cyn dethol yn ôl trefn olynol ddysgu o fewn cyfundrefnwaith llawn). Bydd hyn yn golygu ystyried a chynnwys rhyfeddod nid dibwys y dull Cymraeg o ateb yn gadarnhaol ac yn negyddol (*Yes: No*), a hefyd ddirgelion y Frawddeg Bwysleisiol.

Arolygwn y grid cwestiyna drwy ystyried Cytundeb, Gwybodaeth, a Dewis.

### 1. **CWESTIYNAU CYTUNDEB**

Nid yn ôl trefn y cyflwyniad, ond yn ôl trefn cyferbynnu ystyriaethau 'ymyrraeth' â'r iaith gyntaf.

(i) *Arwain ag unrhyw ran ymadrodd **ond** berf:*

'John sy'n achwyn?' (gyda goslef cwestiwn: dyma'r hen batrwm llenyddol 'Ai John sy'n achwyn?' Erbyn hyn, er bod yr hen ffurf lenyddol ar lafar o hyd, mae'r llall bron wedi monopoleiddio'r llafar) 'Ie.'

Coch yw gwallt Mam-gu? Nage.

Yn yr ystafell roedd yr athro? Ie.

Gall unrhyw ran ymadrodd ac eithrio berf ddilyn y geiryn gofynnol 'ai' (diflanedig) a geid yn gyffredin yn yr iaith lenyddol. Felly hefyd y mae hi mewn iaith lafar safonol pan hepgorir *ai*.

(ii) *Arwain â berf.*

(a) *Bod: Oes ...? Ydy ...? Oeddwn ...? Fyddwn ...? ayb.*

Ateb: Oes; nac oes. Ydy ... ayb

(b) *Bobun eraill*: Welodd e? Aethoch chi? ayb (Gorffennol: Do)

Diddorol sylwi ar leferydd 'Gwneud': Ddoi di heno? Gwna. Ddarllenwch chi'r llyfr? Gwna. Defnyddir 'Gwneud' gyda phob berf ond *bod, gallu, medru, cael, dylai*: e.e. Fedri di glywed? Medra. Ddylai fe fynd? Dylai. (Problem arall yw 'Ddaru i chi fynd?')

Dyma ddychwelyd eto at broblem arbennig 'Yes' yn y Gymraeg. Sylwer fel y mae 'Na' mewn Cymraeg llafar yn datblygu'n ffurf gyfyngedig fwy cyffredin, fel y bydd yr ateb cadarnhaol amrywiol yn 'afreolaidd' ac y gall yr ateb negyddol 'na' ddatblygu'n unffurf reolaidd: yn lle 'nac oes, na ddo, na ddylai', ayb. Y rheswm am hynny yw byrfoddi hwylus atebion negyddol sy'n dechrau'n gyffredin â 'na' yn wahanol i ddechreuadau'r cadarnhaol.

(iii) *Atodyn mewn cwestiwn*

(a) Gosodiad cadarnhaol + Atodyn negyddol

Mae e'n dod on'd yw e? Ydy. Hwn yw'r ateb on'd e? (yn hytrach nag Ynte? Nac Ynte fe?).

Roedd hi'n hwyr, on'd oedd hi? Oedd.

(b) Gosodiad negyddol + Atodyn cadarnhaol

Doedd e ddim yn hwyr, oedd e? Nac oedd. (yngan. Nag oedd)

(c) Cofia fwyta'r afal, iawn? Iawn. O'r gorau. (yngan. gore, gora)

Welwn ni chi wrth yr orsaf, gytuno? Iawn.

## II. *CWESTIYNAU GWYBODAETH*

(i) ***Rhagenw*** Pwy? Beth? Faint? Cyfetyb y rhain i'r Frawddeg Bwyslais: John sy'n dod. Pwy sy'n dod? Sylwer ar dair gwedd ar 3ydd person unigol 'bod'.

(a) *yw*: Pwy yw'r dyn? Beth yw e? (*yw* yn cael ei ddilyn gan enw neu ragenw)

(b) *sy*: Pwy sy'n siarad? (*sy* yn cael ei ddilyn gan unrhyw ran ymadrodd ond enw / rhagenw)

(c) *mae*: Pwy mae e'n siarad amdano? Pwy mae e'n ei weld? (yn 'Pwy sy'n siarad', *Pwy* sy'n gweithredu. Yn 'Pwy mae'n ei weld?' *Pwy* yw'r un sy'n derbyn y weithred.

(ii) ***Adferf*** Ble? Pam? Sut?

Ble mae'r bobl yn mynd? Pam maen nhw'n mynd? Sut maen nhw'n dod yn ôl?

### III. CWESTIYNAU DEWIS

Yn y caffe mae Tom, neu yn y sinema?

Ydy e'n ddiog, neu ydy e'n sâl? Mae'n sâl./ neu Sâl yw ef (gydag elfen o bwyslais.)

Ond ceir ffordd arall o feddwl am adeiladwaith cwestiynau: Beth yw union 'air' y cwestiwn?

*Grŵp I. Y ferf yn gwestiwn (bod):*

*Ydy* Twm yma? *Ydy*.

*Oes* bachgen yn yr ardd? *Nac oes*.

*Oedden* nhw'n dod? *Nac oedden*.

*Grŵp II. Yr adferf yn gwestiwn (Ble, sut, faint, pam, ym mha le, i ble) + (mae, maen):*

*Ble* mae Twm? *Mae e* yma yn y lolfa.

*Sut* mae Twm? *Mae e'n sâl*.

*Sut* oedd y ffarmwr yn mynd? *Ddim* yn ei gar.

*Faint o'r gloch* mae'r merched yn codi? *Ym mha ysgol* mae Gwilym?

*I ble mae'r byd yn mynd? Dw i ddim yn gwybod.*

*Pam dych chi'n dod heno?*

*Grŵp 3: Y rhagenw yn gwestiwn: (Beth?, Pwy, P'un, Faint, Pa dŷ) + (yw, ydy) + (Enw, Rhagenw):*

*Beth yw hwn? Dyna focs y bwyd.*

*Pwy yw honna? Chwaer Twm yw honna.*

*P'un yw'r prifathro? Fe yw'r dyn tal yn y canol.*

*Faint yw hwn? Pum punt.*

*Pa ddosbarth yw'r gorau? Faint o'r gloch yw hi?*

**[Nodyn: yw, ydy + goddrych pendant: sef rhagenw, y fannod + enw, enw heb dreigladd]**

*Grŵp 4: Y rhagenw yn gwestiwn: (Pwy, beth, faint) + (sy) + (Ad-ferf)*

*Pwy sy yma? Siân.*

*Beth sy'n bod? Dw i'n sâl.*

*Beth sy'n cadw sŵn? Mae Twm yn gwybod.*

*Faint o lyfrau sy ganddo fe? Pa weithiwr sy'n dod yn ei le?*

**[Nodyn: sy + naill ai adferf, neu 'n + berfenw neu ddibeniad.]**

*Grŵp 5: Negyddir cwestiwn*

*Pwy sy'n mynd?*

*Pwy sy ddim yn mynd?*

*Pwy sy wedi mynd?*

*Pwy sy ddim wedi mynd?*

*Ble mae'r bechgyn sy'n gweithio?*

*Ble mae'r bechgyn sy ddim yn gweithio?*

*Dyma'r dynion sy'n canu.*

*Dyma'r dynion sy ddim yn canu.*

*Pwy oedd yn y cyfarfod?*

*Pwy oedd ddim yn y cyfarfod?*

*Dyma'r dyn gollodd y wobr.*

*Dyma'r dyn gollodd ddim o'r wobr.*

*DARLLEN A HOLI (METHODOLEG a CHYSTRAWEN)*

Un ymarferiad traddodiadol a thra adnabyddus yng nghelfyddyd Dysgu Ail Iaith yw'r hyn a elwir yn *Lecture Expliquée*. Ond ystyriwn hwn yn awr o fewn cyd-destun ein dull dewisol 'Holi ac Ateb'. Symudwn o'r herwydd o'r Holi ac Ateb mewn sefyllfaoedd a ffwythiannau llafar tuag at ymangori mewn Darn Darllen gwrthrychol a phenodol.

Ar ôl darllen y Darn Darllen, a'i esbonio'n eirfaol ac yn batrymol, yr hyn a wneir yn ymarferol yw bod yr Athro'n troi gosodiadau / brawddegau (cadarnhaol, wedyn negyddol) yn gwestiynau. Hynny yw, defnyddir y Darn Darllen yn bwnc i'w drafod. Cawn, felly, ddysgu peth gwybodaeth ffeithiol efallai o flaen ein llygaid, ac y mae modd esgor ar gwestiynau ac atebion cytûn a chywir ddefnyddiol.

*Darllenwch*

*Yn agos i Gaerdydd, mae pentre o'r enw 'Pentyrch'. Dyw hi ddim yn anodd egluro ystyr yr enw. Yn syml, pen y twrch (Boar's Head) yw e. Ond ar ôl dweud hynny, pam y mae lle yn cael enw fel yna? Gall fod bryn neu graig yn agos, ac oherwydd y siâp od, mae wedi rhoi enw i'r pentre. Gwaetha'r modd, does dim tebyg yn agos.*

*Ond mae'n well gan ysgolheigion gredu mai dyna'r lle yr oedd pobl yr ardal yn dod at ei gilydd i gyfarfod. Roedd yna bolyn efallai, yn debyg i bolyn totem yr Indiaid. Roedd pen twrch efallai yn cael ei roi ar ben y polyn yn arwydd i bobl ddod at ei gilydd i hela.*

Wrth gwrs, gellir cael darnau darllen ar bob lefel. Ond yn fras, yr un yw'r egwyddorion wrth eu trafod.

Dau baragraff sy yn y darn. Awgrymir y dull hwn o'u trafod:

1. Darllen y paragraff cyntaf. Yna'r ail.
2. Esbonio o'r newydd gystrawennau a geirfa'r paragraff ar ddiwedd pob un.
3. Dril dwyieithog. Cyfieithu cyflym mewn patrymau: *It is near Cardiff. It is near Merthyr. It is not near Swansea. It is not near Bangor. It is difficult to explain the meaning. It is easy to explain the name. It is difficult to explain the meaning of the*

*name. After saying that. After explaining that. After getting that. A hill can be near. A village can be near. A boar can be near. Why does a place get a name? Why does a hill get a name? Why does a rock get a name? a.y.b. nes blino.*

4. Holi 'Ydy?' 'Ydych chi?' 'Oes?'

*Ydy Pentyrch yn agos i Lundain? Nac yw [Na/Nac ydy] Mae'n agos i Gaerdydd.*

*Ydy hi'n anodd egluro ystyr yr enw?*

*Ydych chi'n gwybod am anifail sy'n debyg i 'dwrch'?*

*Oes bryn tebyg i ben twrch yn yr ardal?*

*Oes pentre gyda'r enw Pentyrch yn agos i Southampton?*

*Ydych chi wedi bod ym Mhentyrch? a.y.b.*

Holi 'Pwy sy?' 'Beth sy?' 'Beth yw?' gan droi'n ôl at 'Ydy' ambell waith.

Beth sy wedi rhoi enw i Bentyrch?

Pwy sy'n egluro enw'r lle?

Ydy ysgolheigion yn egluro'r enw?

## YMARFER Â PHATRYMAU

Bydd yn rhaid dychwelyd at hyn wrth drafod Ymarferion. Ond mae yna reswm arbennig dros grybwyll y mater yn y fan hon, gan mai perthynas i Drawsffurfio yw Holi ac Ateb. Wrth drafod Holi ac Ateb, buom yn trafod Trawsffurfio patrwm cwestiwn yn batrwm gosodiad. A hyn yw'r hen ymarfer sy'n dwyn y teitl 'Ymarfer â Phatrymau', sef 'Pattern Practice'. (gw. *Cyflwyno'r Gymraeg*, 133-143)

Sylfaenwyd 'Ymarfer â Phatrymau' ar Ailadrodd Strwythur Brawddegau neu weddnewid yr ymholiad yn ôl patrwm rheolaidd (un patrwm ar y tro, cyn amrywio) gan newid Geirfa weithiau mewn gwahanol safleoedd. Mae angen ysgogiad a chyfarwyddyd i wybod sut y mae rhedeg ymarferiad o gwmpas dosbarth. Cwestiwn yw'r ysgogiad craidd. Felly, nid cyfieithu nac ailadrodd cyffredin yw hyn, eithr rhedeg ar lafar gyfres o



gystrawennau rheolaidd, fel y bydd y cyfnewidiadau rheolaidd bob tro yn herio'r ailadrodd. Sylfaenir y patrwm drwy gyfarwyddyd ac enghraifft ar y dechrau, a rhedir wedyn. Gall fod yn ddigon cyfleus inni bellach fanylu ar rai o'r Rhannau Ymadrodd (Parts of Speech) yn unigol gan ddechrau'n fwyaf arbennig gyda'r Ferf. Dyma ni ar y naill law yn manylu ychydig ar y defnyddiau crai, ac ar y llall yn awgrymu pwysigrwydd Trawsffurfio. Hynny yw, wrth wneud rhywbeth mor ymarferol â chyflwyno cyfundrefn i'r athro, byddwn yn manylu hefyd ar y Dull y gall ei chyflwyno mewn cwrs. Soniwyd hyd yn hyn am Ddull Holi ac Ateb. Wrth fanylu, symudwn tuag at yr hyn a alwaf yn 'Ymarferion' a 'Chyfyngu': amryfath ddulliau o ymarfer â'r iaith. Gall y Cyfyngu amrywio yn ôl oedran, a chynnwys caneuon, chwaraeon, a llawer arall.

Sôn y byddaf, er hynny, am Gyfundrefnau, a chan mai perthynas yw hanfod pob cyfundrefn, awgrymaf fod Ymarferion o fewn cwrs yn gallu rhoi cryn sylw i'r hyn a gyferbynnir. Pa begynau neu gyfochredd a fabwysiedir yn wrthrych i'r Trawsffurfio: cwestiwn / ateb â phatrymau?

*Trawsffurfio* ARAITH UNION / ARAITH ANUNION.....GWEITHREDOL / GODDEFOL (Yn y Gymraeg, e.e. Gwelir defnyddio'r term 'amhersonol' weithiau, a goddefol. Dichon mai trydydd person cyffredinol yw'r term gorau ar gyfer hyn.) A PHETHAU ERAILL :--

Dyma enghreifftiau o'r mathau gwahanol o Drawsffurfio:

Newid Geirfa: Berf [Newid amser, person, syml / cwmpasog, rhagenw, rhif enw, cenedl enwau, rhagenw gwrthrychol, enw genidol, arddodiaid rhagenwol, graddau ansoddair, cymalau. Gall hyn arwain at Araith Union / Araith Anunion ac at Weithredol / Goddefol]

Dyma enghreifftiau yn ôl amrywiol batrymau:

1. *Rhoi'r gwrthwyneb* (ansoddair)

Mae fy nghar i'n newydd. Sut mae'ch car chi? Mae e'n hen.

Mae fy ngardd i'n sych. Sut mae'ch gardd chi? Mae hi'n wlyb. a.y.b.

2. *Cyfuno cwestiwn ac ateb*

Ble mae'ch arian chi? Yn (f)y mhoced. Mae f'arian i yn (f)y mhoced.

Ble mae'ch cartref chi? Yn y dref. Mae (f)y nghartref i yn y dref.

Ble mae'ch mab chi? Yn yr ysgol. Mae (f)y mab i yn yr ysgol. a.y.b.

3. *Newid amser berf* drwy ateb yn negyddol gyda newid amser

Ydych chi'n sâl heddiw? Nac dw, ond roeddwn i'n sâl ddoe.

Ydy e'n rhydd heddiw? Nac ydy, ond roedd e'n rhydd ddoe.

Mae hyn yn arwain ymlaen at Ymarfer â Phatrymau heb gwestiynau efallai.

*Newid person berf*

Fe ganoch chi. (nhw). Fe ganon nhw.

Fe droais i. (nhw) .....

Fe es i. (nhw) .....

*Newid berf gwmpasog yn orchmynnol (ac fel arall)*

Dw i'n galw. Galwch.

Dw i'n rhoi. Rhowch.

Dw i'n mynd. Ewch.

4. *Newid enw a rhagenw*

Mae'r *llaeth* yn y jwg. Mae e yn y jwg.

Mae'r *ardd* tu ôl i'r ysgol. Mae hi tu ôl i'r ysgol.

*Newid rhif enw*

Mae'r *ysgol* yn llosgi. Mae'r ysgolion yn llosgi.

Fe *gollais* i'r *plentyn*. Fe gollon ni'r plant.

*Cenedl enwau*

Mae'r *fuwch* yn y cae. Mae'r tarw yn y cae hefyd.

Roedd y *bachgen* gyda chi. Roedd y ferch gyda chi hefyd.

*Enwi'r rhagenw gwrthrychol.*

Dw i'n gweld y bobl. Dw i'n eu gweld nhw.

Mae hi'n gwerthu'r dillad. Mae hi'n eu gwerthu nhw.

*Newid enw genidol yn rhagenw*

Darllenwch lythyr y ferch. Darllenwch ei llythyr.

Anfonwch bapurau'r dyn. Anfonwch ei bapurau.

Dw i'n gweld y dyn heno. Dw i'n ei weld e heno.

Menyw. Dw i'n gweld y fenyw heno. Dw i'n ei gweld hi heno.

Llongau. Dw i'n gweld y llongau heno. Dw i'n eu gweld nhw heno.

5. *Newid Arddodiaid i gynnwys rhagenw*

Mae Twm yn dweud wrth y dyn. Mae Twm yn dweud wrtho fe.

Roedd y plant yn siarad am y llew. Roedd y plant yn siarad amdano fe.

Fe fydd llyfrau gan y fenyw. Fe fydd y llyfrau ganddi hi acw.

6. *Newid Ansoddeiriau o'r wedd gysefin i'r gymharol.*

Mae (f)y nesg i'n lân. Sut mae'ch desg chi? Mae (f)y nesg i'n lanach.

Roedd (f)y ngardd i'n llawn. Sut oedd eich gardd chi? Roedd (f)y ngardd i'n llawnach.

7. *Cymalau: Araith Union yn Anunion*

Fe ddywedodd e: 'Dw i'n mynd' ... Fe ddywedodd e ei fod e'n mynd.

Fe ddywedodd e: 'Maen nhw wedi blino' ... Fe ddywedodd e eu bod nhw wedi blino.

Fe ddywedodd e: 'Mae hi'n bwrw glaw' ... Fe ddywedodd e ei bod hi'n bwrw glaw.

*Cyfuno Cymalau: er*

Dw i'n mynd heddiw. Mae'r ffordd yn ofnadwy. ... Dw i'n mynd heddiw er bod y ffordd yn ofnadwy.

Fe ganodd y bachgen. Roeddech chi'n darllen y llyfr. Fe ganodd y bachgen er eich bod yn darllen y llyfr.

8. *GEIRFA: cysylltu enw â berf*

Beth wnaeth yr athro? Fe aeth yr athro ymlaen i ddysgu.

Beth wnaeth y milwr? Fe aeth y milwr ymlaen i ymladd.

Paentiwr. Fe aeth y paentiwr ymlaen i baentio.

9. *CYFIEITHU CYFLYM (O FEWN TABL)*

Was	I	doing something	last week?
	he	giving	before?
	she	sending	yesterday?
Were	we	using	as well?
	you	reading	last night?
	they	looking	in the town?

Ateb: (i) rhywbeth (cadarnhaol)

(ii) dim (negyddol)

Yn anterth y mudiad strwythurol mewn dysgu ail iaith, gwelid llawer o dablau o'r math hwn. A'r hyn a oedd yn sylfaen i'r dull oedd y gred mai dysgu'r strwythurau oedd y gwaith isymwybodol pwysicaf i'w dysgu yn y meddwl. Roedd y casgliad hwnnw'n gywir. Gellid newid yr Eirfa'n ymwybodol. Ond ceisid gwneud y patrymau, drwy ailadrodd, yn rhan o ymdeimlad y dysgwr â'r iaith. Y patrymau'n sefydlog felly, a'r eirfa'n gyfnewidiol. Cafwyd gwared â hyn gan rywrai, er colled fawr iddynt, yn syml am iddynt 'ddweud' bod y gwaith yn rhy anniddorol, yn rhy debyg i waith trwm. Ond nid oes dwywaith nad yw adeiladu strwythurau'n isymwybodol, ac ailadrodd cyfnewidiol yn rhan werthfawr o ddysgu iaith effeithiol. A thrwy sefydlu rhythm rhesymol cymedrol, gellir hwyl.

Dyfynnaf o'r *Athro*, Medi 1965:

*'Pam dril artiffisial fel hyn yn lle clebran a sbort ffwrdd-â-hi?*

*Am fod y dasg o ddysgu ail iaith yn wahanol i ddysgu iaith gyntaf. Mae hyn yn wir mewn sawl ffordd – yn yr amser cyswllt, yn y cymhellion, ac yn yr anawsterau a roddir gan batrymau ieithyddol a ddysgwyd eisoes ac sy'n ymyrryd, a.y.b.. Wrth gyfundrefnu'r gwaith yn ffurfiol, a llwyr feistroli patrymau yn eu tro mewn carfanau ffrwythlon, yr ydym yn crynhoi'n hadnoddau – 'streamlining'. Yr ydym yn delio ag un broblem ar y tro, a'i datrys gobeithio, yn hytrach na gorfodi'r dysgwr i bicio'i ffordd drwy ddryswch iaith aml-gymalog amryw-dröedig y Cymro naturiol.'*

10. *Darluniau'n ysgogiad*

Yn yr ymarferiad hwn, defnyddir lluniau i ysgogi geirfa, yn hytrach na chyfieithu. Fe ellir rhoi'r ciw drwy gyfrwng darlun. Wrth ddefnyddio cardluniau, fe geid ymarfer fel hyn, e.e.

Ydych chi'n gweld y blodau? Ydw, dw i'n gweld y blodau / llun o risiau / llun o fwg / llun o fwthyn / llun o goeden / llun o ardd / llun o lawnt / llun o simnai / llun o frws / llun o gloc.

Gall Dysgwr I ofyn y cwestiwn, a Dysgwr II ei ateb, ac ymlaen.

A gellir dangos y llun anghywir weithiau er mwyn ysgogi ateb negyddol.

11. *Cyfnewid gwasgarog*

Dyma fwy o her i'r meddwl. Cyfyd y broblem o ystyried ym mha le yn y frawddeg y dylid gosod y gair prociol: e.e.

*Dw i'n galw'r bachgen / Cario / Dw i'n cario'r bachgen / ni / hi / gweld / chi / galw / e / gadael / roedd / nhw.*

Yn lle ystwytho'r un 'sianel' feddyliol o hyd, symudir felly o sianel i sianel.

Cofiwn o hyd: wrth ddysgu ail iaith, symudir o waith caeth (neu ddrilio) tuag at waith rhydd. Ac un bont hynod ddefnyddiol yw Darllen a Holi (*lecture expliquée*). Ond wrth symud i mewn i Ddarllen a Holi, gwiw yw cael cefndir o *Ymarfer â Phatrymau* er

mwyn sylweddoli cymaint nerth a phwysigrwydd yn yr iaith newydd yw sefydlu strwythurau canolog.

Mae Trawsffurfio yn thema strwythurol o'r pwys mwyaf. Mae'n ymwneud â dwy ffaith. Mae'n wedd ar strwythur yr iaith wrth gwrs. Dengys fel y mae cystrawennau allanol wahanol yn perthyn i'w gilydd o safbwynt cystrawen gysylltiedig, gyferbyniol, reolaidd. Ac y mae'r berthynas hon wedyn yn annog yr athro i'w phwysleisio, a'i defnyddio mewn ymarferion. Hynny yw, dylid adeiladu'r berthynas felly yn isymwybodol neu yn ymwybod y dysgwr.

Hynny yw cyfundrefn o gyfundrefnau yw iaith lle y mae popeth yn cydlynu.

Dyma sydd yn bwysig mewn graddio. Tyf strwythur y meddwl a'r deall po fwyaf y gwelwn y cyfundrefnau yn ymblethu yn ei gilydd. Heb yn wybod i'r dysgwr, mae'r tameidiau geirfa a'r enghreifftiau patrymol unigol y mae'n eu dysgu yn cydadeiladu'n adeiladwaith unol rhyfeddol. Maent ynghudd yn ei gilydd. Drwy'r trawsffurfio y dadlennir gwedd ar y cydlyniad llawn isymwybodol.

Un o'r cyfundrefnau cyfoethocaf yng ngramadeg y Gymraeg, onid y gyfoethocaf oll yw'r Ferf. Dadansoddiad o Amser, y ffyrdd gwahanol y gellir cyfleu Amser yn y Gymraeg, dyna yw cyfundrefn y Ferf. Nid pawb sy'n sylwi bod gennym 6 o dympau syml ac 16 o dympau cwmpasog (o leiaf). Wrth gwrs, yn ôl graddio trefn dysgu, y ferf 'Bod' a fydd yn arwain y ffordd gyda'r Amser Presennol, wedyn naill ai'r Gorffennol Syml neu'r Amherffaith Syml i'r un ffordd. Bydd y rheini'n arwain ymlaen at y Presennol a'r Perffaith mewn berfau cwmpasog.

A chan bwyll – weithiau gan adolygu drwy drawsffurfio cyferbyniol – fe awn o gam i gam.

## 11. EGWYDDORION YMARFERION

Gwêl y cyfarwydd bellach fod y myfyrdod hwn ynghylch paratoi cyrsiau ail iaith yn ymdroi o gylch **egwyddor** y gyfundrefn ieithyddol. Anogir gwneud 'patrymau' yn sylfaen i'r dysgu; yn sylfaen i holi ac ateb, yn sylfaen i ddeall adeiladwaith y frawddeg, a hyd yn oed i eirfa.

Yn y rhagymadrodd, yr wyf eisoes wedi disgrifio dosbarthiad o'r mathau o ymarferion sydd ar gael. Cymeradwyais ystyried dosbarthiad cyfrwng-seiliedig yr Athro W. F. Mackey. Yn y cyd-destun presennol a gyraeddwyd bellach, sef Dysgu Cyfansawdd ieithyddiaeth gymwysedig / sefyllfaoedd cyfathrebol, nid wyf yn ymwrthod â'r dosbarthiad cyfrwng-seiliedig. Fe'i hystyriaf yn offeryn sicio neu gadarnhau. Ond daliaf mai'r llwybr unplyg a chanolog (pennaf) i'w ddilyn yw'r un cyfundrefnol ieithyddol ymlaen drwy eirfa wedi'i threfnu yn ôl criteria defnyddioldebol.

Ar gyfer iaith, y mecanwaith cymharol sefydlog yn y pen ydyw 'Tafod', (yn yr ystyr drosiadol). Dyma'r hyn a ddefnyddir i gynhyrchu pob math o 'Fyngiant'. Yr wyf yn synied am ymarferion iaith mewn dau gyflwr: strwythurau Tafod, dyma'r rhai dyfnaf – y potensial canolog; a strwythurau Mynegiant, sy'n fwy arwynebol ac fe'u llunnir weithiau ar y pryd. Ond gan fod strwythurau Mynegiant yn cael eu llywodraethu a'u cyflyru gan strwythurau Tafod, yr wyf yn mynd i fwrw golwg dros y strwythurau yn gyffredinol gyda'i gilydd yn yr adran hon.

Ym mhob strwythur ieithyddol isymwybodol ceir bob amser mewn Tafod ddau neu dri safle pegynol sylfaenol (ddim mwy). Ffuriant gwllwm cynnil. Fe'i cedwir mor gryno oherwydd bod cyferbynnu delwedd isymwybodol yn sythwelediadol sydyn. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer Ymarfer Trawsffurfio. Pan soniwn am iaith, yr ydym yn synied am gyfundrefn o gyfundrefnau. Y mae gan bob cyfundrefn ei hegwyddor unol seml hi ei hun: e.e. Y mae cyfundrefn person y rhagenw yn driol ac yn ymwneud â safle a pherthynas person mewn gofod tri-dimensiwn; y mae rhif – boed mewn enw, rhagenw, berf, ansoddair, neu adferf a lunnir gan arddodiad rhagenwol – bob amser yn ymwneud â chyferbyniad yr un a'r llawer, ac yn y blaen. Oherwydd ffurf seml y ddeuoliaeth neu'r drioliaeth ganolog, gall y meddwl yn isymwybodol ymateb yn

sythwelediadol sydyn i berthynas ffurfiol gyferbyniol unol neu driol pob cyfundrefn ieithyddol o fewn Tafod.

Mewn strwythur felly, ceir nid yn unig safleoedd ffurfiol, ond hefyd safbwynt cyfeiriol, neu drefn olynol feddyliol a deinamig isymwybodol yn arwain o'r naill i'r llall. Felly, mewn ymarferiad, rhaid cynllunio bob amser yn ddeuol neu'n driol gyfnewidiol gan gofio'r seiliau. Ar sail nifer gyfyngedig o strwythurau 'cynhenid', pwysig a chreiddiol mewn Tafod, gellir esgor ar rai tarddiadol neu eilradd mewn Mynegiant, megis o'r gosodiadol i'r gofynnol, o'r gweithredol i'r atblygol neu 'oddefol', ac yn y blaen. Arweinir y cwbl hyn o hyd yn y broses ddysgu drwy gyferbynnu ac ailadrodd. A dyna hefyd yr offer sylfaenol ar gyfer ein hyfforddi a'n hymarfer. Does dim brawddeg heb strwythur; a brawddegau yw prif ffrwyth iaith. Fyddai yna ddim ystyr chwaith i iaith heb strwythur, pe na bai'n fwy na strwythur sain-synnwyr sydd i'r frawddeg un-gair.

Yn y patrymau hyn, pwysleisir strwythur y gyfundrefn drwy rannu'r brawddegau yn golofnau. Nid drwg o beth yw bod yr athro neu'r cwrs yn cadw'r drefn hon mewn golwg wrth raddio. Mae yna batrwm syml a chdir sydd eisoes ym meddwl y dysgwr. Ond bydd perthynas o fewn patrwm yr olyniaeth lafar yn amrywio. Yn sylfaenol yn y frawddeg Gymraeg, y norm yw bod y ferf yn rhagflaenu'r enw mewn brawddeg ddibwyslais. Trefner cyrsiau, brawddegau, ymarferion o gylch egwyddor batrymol.

Yr wyf yn mawr obeithio iddi ddod yn eglurach eglurach, yn arbennig erbyn hyn, nad strwythurwr amddifad mohonof. Yr wyf yn sefyllfawr (hyd yn oed yn ffwythiannwr) hefyd. Ond cyfansawdd, yn fy mryd i, yw'r unig gyrchddull sylfaenol posibl. Os oes ymgyrch gennyf, ymgyrchu'r wyf yn erbyn sefyllfawyr (neu ffwythianwyr) amddifad. Hynny yw, sefyllfawyr negyddol ar hyn o bryd nad ydynt yn barod i ddarostwng sefyllfaoedd i strwythurau.

Yr achwyniad sydd gennyf yw bod sefyllfawr amddifad yn gallu dysgu 'Rhaid cadw'r drysau ar gau' cyn 'Dydy'r car ddim yn dechrau'; neu 'Croesewir cathod' o flaen 'Ble mae'r cwpan?' A hynny ar egwyddor neu'n ôl dogma amddifad anhysbys ynghylch



'naturioldeb' sefyllfa / ffwythiant. Mae pawb yn gwneud camgymeriadau mewn manylion. Ond y mae camgymeriad mewn egwyddor hanfodol yn treiddio ymhellach.

Yr wyf yn siŵr fod yna ugeiniau o gyrsiau rhwng y chwedegau a heddiw lle y cynlluniwyd y camre yn gynyddol ofalus a lle y cadarnhawyd y camre blaenorol ar hyd y ffordd drwy ymarferion hwylus. Ond llawer a fu'n esgeulus iawn. Yr hyn sy'n bwysig yw gweithio ar y sail mai cydlyniad yw iaith lle y mae popeth yn ffitio i'w gilydd mewn modd cyd-lynol.

Ymwybod hynafol a chadarn yw graddio ystyrion ac ymarfer â phatrymau, a gresyn fyddai'i golli. Meddai Ascham 1515-68 (gan adleisio Donatus a Priscian): 'After the child hath learned perfectly the eight parts of speech, let him learn the right joyning together of substantives with adjectives, the noun with the verb, the relative with the antecedent.' Hen hen gyngor; mae'n rhy ffurfiol; ond ni wellwyd ar yr egwyddor sylfaenol olynol.

Ac meddai Comenius (1648), 'Gadewch inni ddysgu yr ychydig cyn y llawer, y byr cyn yr hir, y syml cyn y cymhleth, y cyffredinol cyn yr arbennig, yr agos cyn yr anghysbell, y rheolaidd cyn yr afreolaidd.'

Ceisier gwella ar hynny hefyd. Ond roedd y dynion hyn y pryd hynny yn cydnabod egwyddorion graddio cydlynol.

Er bod yna arloeswyr glew cyn 1939, byddaf yn synied yn gam neu'n gymwys mai'r ail ryfel byd yn yr ugeinfed ganrif a ail-sefydlodd strwythuraeth o ddifrif yn y cyfnod diweddar. Ar wahân i ychydig o unigolion gweledigaethus *cyn* yr ail ryfel byd, rhyw foesyngrymu a wnaed, am yn ail (neu gyda'i gilydd), tua gramadeg-cyfieithu ar y naill ochr a thua'r dull union ar y llall. Y rhyfel a'n difrifolodd oll. Yn y lluoedd arfog yr oedd angen proffesiynoldeb ynghylch meistrolï ieithoedd dieithr yn effeithiol gyflym er mwyn clustfeinio a dad-godio'r cyfathrebu gan y gelyn, ac er mwyn sbio, a hefyd yn syml, wrth goncro neu ail-goncro gwledydd estron, er mwyn cyfathrebu'n ymarferol o ddydd i ddydd â swyddogion neu â masnachwyr neu hyd yn oed â gwerin y gwledydd hynny. Doedd dim amser i'w wastraffu ar gyrsiau blêr.

Roedd eisiau i'r deunyddiau a'r dulliau loywi a 'gweithio' o'r diwedd, felly. Ni ellid fforddio methiant na hyd yn oed arafwch mwyach. Cafwyd mwy o ddrilio cyflym, ymarferion llafar, a phatrymu cystrawennau'n ailadroddol. Dim chwarae. Cofiaf weld ffilm am fywyd yr Almaen yn ystod y rhyfel, pryd yr oedd milwyr eisoes yn dysgu Saesneg drwy ddril dwyieithog tebyg ddigon i'r hyn a oedd gennym yn Aberystwyth (oherwydd Carl Dodson) yn nechrau'r chwedegau.

Erbyn y chwedegau yr oedd Ymarfer â Phatrymau ac Ieithyddiaeth Gymwysedig a'r Labordy Iaith wedi dod o America (o gyfeiriad Fries, Lado a'u cymrodyr) ac ymsefydlu'n gadarn. Dechreusom oll wedyn efrydu Chomsky, a'i ragflaenwyr a'i olynwyr. Ond, fel yr wyf eisoes wedi'i awgrymu, buan y dechreuwyd anesmwytho ynghylch y modd yr oedd y chwyldro Chomskyaid hwn wedi gordo'r gorllewin mor hysbysebwl gyflym ac mor gyflawn, a hynny braidd yn anfeirniadol fel y gwnâi Ôl-Foderniaeth ym meirniadaeth lenyddol y saithdegau.

O ran trefn dysgu, y mae rhai athrawon cyrsiau'n hoffi dechrau drwy ddysgu cyfarchion syml ynghyd ag ynganu (a hyd yn oed darllen y rhain yn uchel): Bore da, Noswaith Dda; Hwyl fawr; Beth yw'ch enw chi? Gall peth felly greu 'amgylchfyd' i'r wers. Gall ffurfio drama fach. Ond na'n twyller ein hun. Er mor werthfawr yw'r fath berthynas ragymadroddol o fewn y dosbarth, bydd trefn y cwrs – ei hoffi neu beidio – yn dechrau o ddifri gyda'r Frawddeg Gnewyllyn Symlaf. Er y gellir ein twyllo'n hun fod dysgu ychydig o ymadroddion parod yn golygu 'dechrau siarad ar unwaith', gorau po gyntaf y cyflwynir dechrau'r Olyniaeth a'r Patrymau. *Yr hyn sy'n bodloni yn yr iaith yn y bôn yw symudiad trefnus, a symud ymlaen yn gynyddol, yn adolygiadol o bryd i'w gilydd, ond yn llwyddiannus ddatblygol.*

Da yw bod cwrs yn cael llwybr sylfaenol di-dor. Mewn cwrs felly, yn ganolog (gyda mân ogwyddo) y mae brawddeg 3 yn y cwrs, yn dilyn brawddeg 2, yn dilyn brawddeg 1 cyn belled ag sy'n bosib o ran cystrawen.

Eisoes, fe wêl pam y mae materion eraill heblaw patrymau cystrawennol yn codi sy'n effeithio ar Raddio – megis Geirfa (e.e. Sefyllfaol neu Ffwythiannol; Amllder a Defnyddioldeb) ynghyd â Dull Dysgu (e.e. Holi ac Ateb). Gan mai trafod Egwyddorion

Graddio yr ydym, ac nid cyflwyno cwrs graddedig gorffenedig, trafodir y materion hynny o dan eu penawdau penodol. Priodol cofio, er ei bod yn ymddangos yn arwynebol amlwg fod baban yn dysgu Geirfa cyn dysgu ffurf Brawddeg, fe ddysg y ddau beth yr un pryd. Hynny yw, er mai enwi yw cam naturiol cyntaf y baban, teg dweud ei fod yr un pryd yn dysgu'r Frawddeg Un elfen Fabanaidd. A chan fod ffurfiau brawddegau yn brinnach neu'n gynilach na Geirfa, a chan fod y baban yn dilyn yn fras drefn brawddeg un elfen, dwy elfen, tair elfen, a chan fod gramadeg yn sylfaen i bob brawddeg a ddywedir, priodol yw canolbwyntio ar dwf brawddegau.

Sylwer: pan sonnir am 'un elfen', nid meddwl am un 'gair' o raid yr ydys. Ceir un gair sy'n cynnwys mwy nag un elfen ystyrol weithiau: 'Codwch' (lle y corfforir 'chi' yn y gorchymyn berfol.) A cheir ambell ymadrodd ystrydebol sy'n debyg i ebychiad, un clwm y gellid ei aralleirio ag un gair yn rhwydd, megis 'debyg iawn; gan bwyll; ac ar unwaith'. Mae mwy nag un gair yn y clwm, ond un elfen ystyrol.

Sylwer hefyd: pan feddyliwn am drefn ddysgu, nid dilyn 'rhwyddineb' o anghenraid a wneir, ond yn hytrach dwf ffurfiol olynol naturiol o fewn sefyllfa. Ni byddwn yn cyflwyno'n gynnar ambell ffurf 'hawdd', er ei bod yn bosibl i'w wneud, os yw'n anghyffredin o ran defnydd: e.e. cystrawen megis 'Hir pob aros'; 'Deuparth gwaith ei ddechrau'. Byddai mynd ar ôl peth felly yn grwydrad ffôl oddi wrth briffordd gyson gynyddol, heb fod yn rhan o'r olyniaeth o geisio patrymwaith syml.

O safbwynt dyfeisio ymarferion o fewn cyd-destun strwythurol, dyfeisio deuoliaethau neu drioliaethau yr ydys yn bennaf. Canolbwyntier ar sylfeini syml. Nid chwiw yw honni mai *deuol* yw iaith, oherwydd natur ffurfio. Gwyddys yn gyffredinol mai anghywir oedd Wittgenstein – fel y bu'r 'cyfathrebwyr' yn dysgu iaith bendramwnwgl – yn y ganrif ddiwethaf wrth dybied mai 'Language is usage'. Rhaid cael ffurf a defnydd i'w defnyddio *cyn* ei ddefnyddio. Ni wneir ffurf iaith ar y pryd wrth siarad. Mae'r Mewnol yn rhagflaenu'r Allanol, a Deall yn rhagflaenu Dweud. Datblygir y Mewnol drwy wahaniaethu ac uno.

Ond nid iaith yw'r Mewnol heb yr Allanol, na Deall heb y Dweud. Yn fyr, rhaid cael y ddwy wedd gyda'i gilydd – y Gramadeg gyda'r Geiriadur, y Patrwm ynghyd â'r

Sefyllfa (neu'r Ffwythiant). Ac felly, gyda'r sawl sy'n gyfrifol am hyrwyddo adfywiad yr iaith, pwysig yw meddwl am y drefn i bob dim, yr olyniaeth a'r cydlyniad, ble y dechreuir a phle yr ydys yn mynd – ynghyd â'r modd y troir hynny'n ddefnydd.

Heblaw ieithyddiaeth gymwysedig, y mae rhai gweddau ar ddidacteg, megis ar ddwyieithedd – theori dysgu, oedran dysgu, cyfundrefnau deall, – yn cymhlethu'r sefyllfa; mae criterion dysgu iaith yn amrywiol. Ond os cedwir llygaid yn unionsyth ar adeiladwaith yr iaith ei hun, bydd patrwm yr iaith yn ysgerbwd i gynnal yr ystyriaethau eraill.

### YMARFERION PATRYMOG

Sylwn yn awr ar enghraifft benodol o un ymarferiad neu gêm i ddelweddu'r egwyddorion y buom yn eu trafod. Gêm 'Kim' yw'r enw ar yr hen ymarferiad hwn. Gellir ei ddisgrifio yn ôl tri cham:

1. Dodir nifer o wrthrychau ar fwrdd. Cyflwynir hyn i'r dosbarth, gan gyfleu'r gwrthrychau gweledig drwy'u henwi yn eu tro. Ac adolygu ar hyd y daith drwy gael atebion un-gair naturiol i'r cwestiwn 'Beth yw hwn?'

Felly: pensel, allwedd, botwm, llyfr, cerdyn, sbectol. Yna, gellid amrywio cwestiwn ag ansoddair: pensel coch, allwedd arian, botwm du, llyfr glas, cerdyn melyn, sbectol glir.

2. Yna, byddir yn gorchuddio a holi cwestiynau lle y mae'r atebion naill ai'n un-gair neu'n ailadrodd peth o gynnwys y cwestiwn.

Gorchuddir y gwrthrychau â lliain. A holir yn eu tro:

Beth oedd lliw y pensel? Pa liw oedd y pensel? (botwm, llyfr, cerdyn)

Beth oedd ar ben y llyfr? (allwedd, botwm, cerdyn, sbectol, pensel)

Oedd y llyfr ar yr ochr dde neu ar yr ochr chwith? (allwedd, pensel a.y.b)

3. Ceisier ateb sy'n rhoi ychydig mwy o orfodaeth ar y dysgwr i ddefnyddio patrwm mwy nag un gair neu ymadrodd cwta naturiol.

Ble mae'r botwm? Ydy'r cerdyn ar ben y llyfr? Ar y chwith neu ar y dde?

Yn awr, yn dechnegol o ddilyn categoreiddio Mackey, gellir dosbarthu 'Kim' yn Wrthrych Defnyddiaith Mynegi Llafar, sef rhif 14 ymhlith yr ymarferion yng nghyddestun Dadansoddi Ymarferion. Cofiw'n fod yna ddau gyfrwng: llafar / ysgrifenedig; tri chyd-destun: gwrthrych / darlun / geiriol, a phedwar categori o ailadrodd, sef (i) parotiaith (ailadrodd efelychiadol); (ii) ychwanegiaith (ar sail patrwm), a (iii) amrywiadiaith (newid neu ddisodli; (iv) defnyddiaith (creu cyd-destun – dychymyg, darlun). Ac yn 'Kim' ceir cyfle i fwy nag un o'r rhain.

Cymerer, yn enghraifft arall, y '*dril dwyieithog*' a ddaeth i fri (er ei fod yn bur hynafol) yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf drwy frwdfrydedd heintus Carl Dodson. Roedd y syniad o 'ddril' yn tramgwyddo pob math o gymhlethau gan hen hwiangerddwyr y dull union a'r chwaraewyr ysgafn. Ond profodd yn effeithiol gyflym. Arbedid amser gan gyfieithu cwta, cyflym yn ôl patrymau datblygol pwylllog. Yr oedd yn fodd hefyd a ddilynai broses o 'esbonio' a oedd eisoes yn digwydd ym meddwl y dysgwr a wyddai'i famiaith eisoes, sef cyfieithu sythwelediadol. Yr oedd gwibio o ddysgwr i ddysgwr yn y dosbarth yn peri i bawb fod yn effro, ac i elfen o gyffro ysgogi'r adrenalin. Anodd i athro a disgybl gynnal y fath egni'n hir ar y tro bid siŵr; a rhaid oedd amrywio'r gwaith ag ymarferion neu ymddiddan neu gyd-drafod mwy hamddenol.

Ond ymhlith cyd-destun ystyr, dyma gyfle 'geiriol' (o'i gyferbynnu â 'gwrthrych' neu 'ddarlun'). Sylwer bod pob cwestiwn yn ei dro yn cydlynol arwain at yr un nesaf e.e.

1. *Un yn ysgogi dau.*

A. Has she been running?

D (i) Ydy hi wedi bod yn rhedeg?

D (ii) Ydy. Mae hi wedi bod yn rhedeg.

[Dyma sefydlu patrwm neu gwllwm o frawddegau. Estynnir y dril.]

A. Has she been running through the country? [Ymestyn drwy ychwanegu syml.]

D (i) + D (ii) ac yn y blaen.

Gwelir bod yna fath o raddio patrymau drwy gwestiwn (ateb; ateb ac estyn)

## 2. *Trawsnewid.*

Gellir o fewn yr estyn ymagor i ymarfer â phatrymau mewn dwy ffordd:

- |                                 |  |   |
|---------------------------------|--|---|
| a.                              |  | b.                                      |
| A. Dw i'n gweld y fenyw heno.   |  | A. Beth wnaeth y milwr?                 |
| D. Dw i'n ei gweld hi heno.     |  | D. Fe aeth y milwr ymlaen i ymladd.     |
| A. Dw i'n gweld y llongau heno. |  | A. Beth wnaeth y paentiwr?              |
| D. Dw i'n eu gweld nhw heno.    |  | D. Fe aeth y paentiwr ymlaen i baentio. |

Gwelir yn yr holl ymarferion patrymog ein bod wrth anelu at ystyr yn meddiannu peth sy'n fwy sylfaenol, sef y gyfundrefn gyfnewidiol.

Dyma gyfrinach graddio cyrsiol doeth a grymus.

## 3. *Adeiladu Tablau Cyfnewid*

Gŵyr pob tiwtor am dablau cyfnewid i adlewyrchu adeiladwaith brawddegau byr a hir. Gellid gosod y dasg i'r dosbarth, yn rhydd, neu'n gaeth. (h.y. Drwy osod 'Pwy' yn y golofn gyntaf a 'sy'n' yn yr ail.) Sut y gellir gwella potensial tabl fel hyn?

Pwy	sy'n	dod	i'r dosbarth	heno?
	agor		y drws	i'r plentyn?
	gwneud		swper	yn y gegin?

gw. 'Disodli, Dril, Labordy Iaith, Tablau Cyfnewid, Ymarfer â Phatrymau' yn *Cyfeiriadur i'r Athro Iaith.*

## 4. *Disodli Llafar drwy arweiniad*

*Tiwtor:* Mae hi'n yfed coffi. Te.

*Dysgwr:* Mae hi'n yfed te.

*Tiwtor:* Llaeth.

*Dysgwr:* Mae hi'n yfed llaeth.

*Tiwtor:* e.

*Dysgwr:* Mae e'n yfed llaeth.

*Tiwtor:* cwrw.

*Dysgwr:* Mae e'n yfed cwrw.

*Tiwtor:* yn y bore

*Dysgwr:* Mae e'n yfed cwrw yn y bore.

5. Cyplysu geiriau: enwau, berfau, ansoddeiriau [gyda threigladau llaes]

Nid yw'r cyplysu o anghenraid yn gyferbyniadau, ond yn eiriau sy'n mynd gyda'i gilydd yn ddigon naturiol. Un dysgwr yn codi gair a'r nesaf yn cyflenwi ychwanegiad – cadair a bwrdd, ci a chath, bwthyn a phlas, halen a phapur, pensel a phapur, mynd yn gyflym, dringo a chwmpo. Wedi cael yr Ymadrodd, gellir hawlio Brawddeg: 'Mae'n symud cadair a bwrdd. Mae'n bwydo ci a chath.'

6. Yna, gellid cymryd un gair neu sefyllfa a chasglu geiriau (unrhyw ran ymadrodd) sy'n perthyn i'r un cyd-destun, gan symud o gylch y dosbarth yn yr un ffordd – *mynydd*: dringo, uchel, cwmpo, nant, pysgota, defaid, bugail.

7. Atgyfnerthu 'hefyd' a 'chwaith'.

*Tiwtor:* Mae'r dyn yma'n gweithio.

*Dysgwr:* Mae ei wraig yn gweithio hefyd.

*Tiwtor:* Dw i'n mynd i'r dre ar y bws ymhen hanner awr. Beth amdanoch chi?

*Dysgwr:* Dw i'n mynd i'r dre ar y bws ymhen hanner awr hefyd.

a.y.b

*Tiwtor:* Dyw'r gwaith yma ddim yn rhy anodd. Sut mae'ch gwaith cartre chi?

*Dysgwr:* Dyw y ngwaith cartre i ddim yn rhy anodd chwaith.

*Tiwtor:* Dyw Iorwerth ddim yn gwrando ar y wers. Beth am Eleri?

*Dysgwr:* Dyw Eleri ddim yn gwrando ar y wers chwaith.

*Tiwtor:* Beth amdanoch chi?

*Dysgwr:* Dw i ddim yn gwrando ar y wers chwaith.

8. *Symbyliad rhannol*

*un gair:* 'Geraint'. Dyw Geraint ddim yn barod i fynd i'r dre ... 'gyda fi' ... 'y prynhawn yma'.

*'eisiau mynd'* Dyw Geraint ddim eisiau mynd i'r dre ... 'gyda fi' ... 'y prynhawn yma'.

*'na Mair'*. Dyw Geraint na Mair ddim eisiau mynd i'r dre.

9. *Ymarfer Geirfa Dysgwr aeddfed:* Tyfu geiriau.

*byw:* bywyd, difywyd, bywoliaeth.

*bodlon:* bodloni, bodlondeb, anfodlon, anfodlonrwydd, ymfodloni.

Bu hyn o nodiadau yn arolwg o'r sefyllfa ar gyfer 'tymor hir' o baratodau. Nid wyf yn cofio cyfnod erioed yn Hanes Cymru pryd yr aethpwyd ati gan bwyll i wneud paratodau trylwyr ac amlochrog i lunio cwrs. Buom bid siŵr mewn argyfwng erioed. Roedd brys i ateb ar y pryd: rhaid cael canlyniadau gweladwy nawr. Ond mae'r argyfwng presennol yn fwy terfynol. Ac yn baradocsaid, mae'n galw am arafwch dyfal ac aml-ystyriol. Ni wn a allwn ddisgwyl dealltwriaeth gan awdurdodau sydd â'u hystyriaethau hyd yn oed mewn Prifysgolion weithiau yn symud o etholiad i etholiad, ac yn gofyn am yr ateb parod. Bid a fo am hynny, bydd academwyr ymarferol sy'n meddu ar brofiad yn codi, mi obeithiaf, a fyn fyfyrion. A gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn gyd-ysgogiad ymlaen llaw i'r rheini.



## 12. YMCHWIL A CHASGLIADAU

Ni bydd Cymru byth yn bod heb Loegr a Saesneg. Dyma sefyllfa arhosol, ac y mae angen meddwl am gynllunio nid ar gyfer y flwyddyn nesaf, eithr ar gyfer y tymor hir datblygol. Nid problem na phoendod yw hyn os trefnir yr ymateb yn iawn. Ysgogiad yw; antur a *all* feithrin cyd-ddealltwriaeth ddiwylliannol a chyfoeth cyd-draddodiadol yn y pen draw. Dylai hyn effeithio ar ddyfnder cyson yr Ymchwil yn y maes, gwaith a all gyfrannu ar raddfa gydwladol ac amlochrog, gan mor gyffredin yw'r sefyllfa ar raddfa fydeang.

Mae angen math newydd o Ymchwil yng Nghymru yn gysylltiedig â'r grefft o Ddysgu Ail Iaith. Mae angen Ymchwil ynghylch y dechneg o sefydlu Grwpiau Ymgom o fewn cymunedau, lle y corfforir Cymry rhugl gwirfoddol a dysgwyr difrif yn yr un drefn strwythuredig. Mae angen ymchwilio i'r agwedd marchnata: ricriwtio a datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu'r iaith, ac ynghylch y cyflogi ysgogol (talu yn ôl canlyniadau) i hyrwyddo diwydrwydd mewn sefydlu grwpiau. Mae angen hefyd yr hen ymchwil, ond yn llawer mwy caboledig; ymchwil Gyfansawdd lle y mae cydlynu Patrymau a Geirfa yn gyd-sylfaenol o'r cychwyn. Hynny yw, ni allwn fodloni ar ddadansoddi graddio Patrymau neu Gyfundrefnau Gramadegol yn ynysig. Ni allwn chwaith fodloni ar arolygu Sefyllfaoedd, Ffwythiannau, na Thybiannau heb eu cysylltu'n ddi-ffael â threfnu'r gramadeg. Mae'n bryd inni symud oddi wrth y rhestri at y Cydlyniad rhwng y naill ochr a'r llall. Dyna sy'n gorfod digwydd yn y dosbarth ei hun. Dyna y mae'n rhaid ei gael yn ymarferol yn y cwrs, a hefyd ym Mholisi Iaith yn y wers yn gyffredinol. Felly, y mae'n rhaid astudio'n fuan yr arolwg cyfansawdd o Ffurfiâu mewn dadansoddiad go sefydlog o Ramadeg *ynghyd â'r* arolwg Geirfaol sy'n raddedig yn uniongyrchol ar gyfer dysgu sefyllfaoedd. Yn fuan yn awr, o'r fan yma ymlaen, ar seiliau defnyddiau ymarferol, y mae angen mesur a gwerthuso'r technegau gwahanol sy'n gweithio ar y ffâs i'w cyflwyno: hynny yw, trefnu'r cyd-ymarfer a chynorthwyon megis posau, chwaraeon ayb. yn systematig. A bydd hyn yn arwain at y Diddanwch o fewn y polisi o ddenu Pawb i mewn i'r Adennill, gan fod yn ddyfeisgar ynghylch Diddanwch Adenillol mewn Cymdeithas Ddwyieithog.

Sôn yr ŷm am gael y Nod cydlynol yn ein hymchwil mewn golwg o'r cychwyn, ac am feddwl am Eirfa a Sefyllfaoedd o safbwynt Patrymau, gan gadw golwg yn agos ar yr adnoddau o fewn cyrsiau ymarferol. Ni ddylai dim ymchwil fod yn ynysedig oddi wrth y dosbarth nac oddi wrth y polisi cyfansawdd sy'n arwain at y grwpiau llafar a'u diddanwch yn y gymdeithas. Bydd yr Ymchwilwyr yn gwneud eu gwaith mewn dosbarthiadau i raddau helaeth o'r cychwyn cyntaf. Nid yn unig bydd pob ymchwilydd yn cymryd dosbarth; ond bydd yn cadw cysylltiad ymarferol â dosbarthiadau a thiworiaid eraill, gan brofi'r defnyddiau. Bydd yn dyfeisio gwersi ar gyfer tiwtoriaid eraill. Bydd yn cynghori ac yn ymholi. A bydd yn arolygu cyrsiau cyhoeddedig gyda golwg ar gywiro, ychwanegu, dileu, gwella.

A bydd yn cadw nodiadau beirniadol manwl, nodiadau o dan benawdau – megis: addaster cystrawennol yn y pwynt arbennig yn y cwrs; addaster geirfaol; cysylltiadau posibl uniongyrchol â'r patrymau nesaf; y lle sydd i ailadrodd patrwm ac felly gyda geirfa; methodoleg (sef yr amrywiadau yn eu trefn; cyswllt â phob myfyriwr unigol; y grwpio neu'r camre yn y wers – y datblygiad; rhythm y wers a Gwerthfawrogiad Dadansoddol o grefft gwersi; ymarferion – gwrando, dweud, darllen, sgrifennu; ymarfer patrymau; dialog – holi ac ateb, disgrifio; adolygu). Dylid sylwi, wrth arolygu ambell lefel, pa ddefnydd a wneir o strwythurau gyda chaneuon, chwaraeon, dramodigau byrion, posau, darnau darllen (byd natur, daearyddiaeth, hanes, ymarfer corff, mathemateg gyda phlant); ymddiddan 'rhydd', cefndir, gwyliau, hobiau, tywydd. Yn y pen draw, bydd y rhain yn ymffurfio'n griteria gwerthuso cwrs – paratoad y gwersi, y rhagymadrodd, y canol datblygol, a'r casgliad. Mae angen torchi llawes.

Yn awr, wrth drafod Strwythur Cyrsiau, yr wyf ar ryw olwg yn defnyddio Trosiad Mawr. Yr wyf yn awgrymu bod llawer o'r hyn a ddysgwn ac a enillwn wrth efrydu Adennill Iaith mewn cwrs strwythuredig celfydd yn ddrych neu'n gyffelybiaeth i'r egwyddorion mawr a mân sydd ar waith mewn polisi gwlladeang. Sôn yr wyf yn ganolog nid am y gweithredoedd yn unig, eithr am yr adferiad yn hyder a morâl y 'Pawb'. Rhan o raglen gadarnhaol fwriadus yw, mewn cyd-destun cydwladol. Un o'r technegau Ymchwil yn y maes hwn yw *cymharu* – gosod gwaith cyffelyb i athro ac athro sy'n dysgu rhyw bwynt patrymol penodol, cyd-drafod y paratoad, cyd-ystyried

cynllun y wers, ac yna dadansoddi'r canlyniad, gan ymdrin â phob dim gyda'r unigolyn. A'r un modd wrth baratoi cwrs ac wrth ystyried y gwaith o ledu a sefydlu canolfannau adennill neu grwpiau CYD.

Gwaith yw sydd bob amser yn hunanfeirniadol. Byddir yn adolygu'n gyson ac yn arolygu ar lefel fwy cyffredinol, gan ystyried gydag enghreifftiau ym mha ffordd y mae Dysgu Cyfansawdd ei hun yn anfoddhaol. Hynny yw, ni ddylid petruso rhag archwilio'r sylfeini o hyd i'r hyn a gymeradwyir yn y drafodaeth bresennol hon. Rhaid i'r peth weithio'n hunanfeirniadol. Ac oherwydd ei fod yn gweithio, dylid dathlu hynny.

Mae gennym yng Nghymru beth profiad o Ymchwil ym maes dwyieithedd. At ei gilydd, fel llawer o ymchwil ystadegol a wnaed ym maes Addysg, ni bu'r profiad yn eithriadol o fuddiol oherwydd ei gorsymleiddio. Rhwng y dauddegau a'r chwedegau, buwyd yn ceisio cymharu grwpiau unieithog Saesneg â grwpiau dwyieithog Cymraeg. Profid eu Cyniferydd Deallusrwydd, yn Saesneg yn fynych. Ac ymhellach ymlaen, cyfrifid eu Cyrhaeddiad Addysgol yn ffactor ychwanegol. Yna, dosberthid y rhai a brofwyd yn ôl eu Cefndir Economaidd-Gymdeithasol. Ond nid ystyrid am flynyddoedd 'Agwedd' y plant na'r rhieni at y weithred o ddysgu Cymraeg; nid ystyrid 'oedran' dechrau dysgu'r iaith, na'r 'dulliau dysgu', na 'phersonoliaeth' yr athro, na'r 'ardal', nac a oedd tîm Cymru wedi ennill yn ysgubol ar y pryd (neu beidio), sef agweddau tymhorol at Gymreictod a symleiddiwyd yn enbyd. Ynglŷn ag agwedd rhieni, sydd yn amlwg yn debyg o ddylanwadu rhywfaint ar agwedd y plant, gellid cymharu'r agweddu amrywiol arwynebol yn ôl yr arfer a wneir o bryd i'w gilydd gan Gymdeithasegwyr i restru'r Can Person Pwysicaf yn Hanes Cymru, neu bolau piniwn gwahanol bleidiau o fis i fis yn ystod y flwyddyn etholiad, neu ganeuon pop (neu glasurol) o bryd i'w gilydd: mae agwedd yn gallu bod yn bwysig, eithr yn hynod arwynebol, ac yn dra chymhleth.

Gellir meithrin Agwedd adeiladol, a'i dathlu, drwy sicrhau ac arddangos fod y Cynlluniau'n gweithio. Ni ddylid profi Agwedd ar wahân i'r nod o wella'r sefyllfa.

Ond beth ydym yn ei wneud yn awr? Sôn am werth a chymhlethdod ymchwilio'n 'wyddonol' ym maes addysg yr ydym. Gwneir casgliadau eithafol ambell waith heb fod yr ymchwil wedi rhoi sylw cwbl angenrheidiol i 'holl' broblemau cwbl

amlwg y broblem. Nid ystyriwyd y cymhlethdod cyflawn yn wir ymarferol ymlaen llaw. I lawr yn y dosbarth y deuir o hyd i'r atebion ymarferol mwyaf defnyddiol i'r athro unigol, ond ar ôl ystyried amllder y posibiladau.

I ba raddau, felly, y gellir bod yn 'wyddonol', yn weddol sefydlog, yn gyfundrefnol, yn ddisgrifiol gytûn wrth ddisgrifio'r drefn ar gyfer adfer y Gymraeg? Gellir gwneud gwaith buddiol ar:

### *I Yr Iaith Lafar a'r Iaith Lenyddol yn eu llawnder*

A oes modd ymchwilio yn yr iaith *lafar* safonol? Yn wir, beth yw'r iaith *lenyddol* safonol ei hun, o ystyried sgwrs nofelau a dramâu?

Ni chafwyd erioed astudiaeth gyfundrefnus 'gyflawn' o'r iaith lafar safonol. Ac os yw'r iaith lenyddol safonol yn golygu'r iaith yr ysgrifennwyd ein llenyddiaeth ynddi, yn safonol genedlaethol, o gyfnod i gyfnod, yna pur wasgarog yw'r gwaith hyd yn oed ar hynny. Cafwyd astudiaethau o iaith lafar unigolion, yn arbennig yn y cyfnod diweddar. Cafwyd astudiaeth o'r iaith lenyddol yn yr Oesoedd Canol. A chafwyd astudiaethau pwysig ar hanes yr iaith yn gynnar, ac yn y Beibl, ac mewn llawer o weithiau unigol, mewn rhyddiaith ac mewn barddoniaeth. Cafwyd llu o efrydiau yn dadansoddi gwahanol agweddau gramadegol ar yr iaith lenyddol a llafar. A chafwyd rhai gramadegau gorchestol gan J. Morris Jones a Peter Wynn Thomas. Ac fe ddwedwn fod y gramadegau hyn a'r geiriaduron penigamp sydd gennym, gan Brifysgol Cymru a chan yr Academi Gymreig, a'r gwaith ar yr Orgraff, yn ganllawiau disgrifiol da wrth ysgrifennu'n llenyddol 'safonol'. Ond rhaid dychwelyd at y cam nesaf o hyd a sylweddoli'r angen am fodel didactig cyson ac ymarferol.

Gwaetha'r modd, bu rhai'n amau a oedd yna'r fath beth â'r iaith lafar safonol. Cafwyd 'agenda' yn ei herbyn. Ac nid oes neb o'r herwydd wedi mynd ati'n gyfundrefnus i'w disgrifio hi na'i thrafod yn ei hamrywiaeth a'i hystwythder go lawn. Felly, erys y maes hwn yn anghenus o hyd yn yr ymgyrch i adfer yr iaith yn effeithiol ac yn rymus. Ceir cydnabyddiaeth fod yna bobl sy'n mynychu pwyllgorau cenedlaethol, sy'n darlledu ac yn teledu, sy'n pregethu neu'n darlithio'n gyhoeddus gartrefol mewn cywair arbennig, a bod yna gywair ymhlith pobl weddol ddiwylliedig (yn ddarllengar

dyweder) lle y ceir dull o lefaru a gydnabyddir yn gyffredinol (er gyda chryn amrywiadau rhanbarthol) fel dull safonol. Mae'n amrywiol gynhwysfawr, ac yn derbyn dylanwad o du tafodiaith ac o du llenyddiaeth. Ond cywir oedd Ifor Williams a G. J. Williams, fel Anwyl a J. Morris-Jones o'u blaen, wrth gydnabod cyfrwng a chywair a oedd yn naturiol ac yn genedlaethol; hynny yw cywair nas amherchid yn lleol, cywair sydd wedi bod yn gynyddol boblogaidd.

Erys hyn yn faes pwysig i Ymchwilydd. Mae angen dau gam:

1. Disgrifiad eangfrydig, mor ddi-hysbyddol ag y gellid ei ddisgwyl, o'r amrywiaeth a natur y gwahaniaethau yn ogystal ag o'r undod sydd yn yr iaith lafar safonol.
2. Trafodaeth ddewr (wedi ymchwil) o broblemau (a'u datrysiad) lle y ceir lluosrwydd o ffurfiau cyfredol fel y gellid llunio cyrsiau ac adnoddau cenedlaethol. A model.

## II *Cynllunio Cyrsiol*

Ymchwil yw hyn o fewn y Celfyddydau neu'r Dyniaethau yn bennaf. Ac y mae'n mynd i gymryd ffurf hollol wahanol i ymchwil arferol yn y Gwyddorau. Gwedd ar hunan-dwyll a ffolineb, fel a gafwyd ym maes Dwyieithedd yw synied bod modd llunio astudiaethau yng Nghreffft Dysgu Gwers neu Gwrs yn debyg i'r fel y dadansoddir neu y disgrifir ym maes deddfol a chyfundrefnol cymharol unionsyth Gwyddoniaeth. Nes yw dadansoddi a disgrifio gwers neu gwrs at y sefyllfa o ddadansoddi a disgrifio cerdd neu stori fer. Mae angen meithrin agweddau artistig a chelfyddydol at wersi yn ogystal ag ymwybod gwyddonol, a chlymu hynny oll wrth arddangosfeydd lliwgar.

Da yw i'r cwsmeriaid wybod drwy adroddiadau cryno (iawn) a gwir am y llwyddiannau a'r methiannau i'w gwella yn y paratodau.

Wrth gwrs, mewn beirniadaeth iaith gyntaf neu adolygu gwers neu gerdd, mae yna gyfundrefnau, hyd yn oed deddfau megis presenoldeb rhythmau iaith, adeiladu cyfannau o rannau, llenddulliau, troadau a ffigurau, hynny yw egwyddorion rhai o'r effeithiau yn y gwaith: y mae cerdd a gwers yn golygu ystyriaethau personol cymhleth

iawn. Ond fel y mae'n bosib i ymchwilio'n llwyddiannus yn natur a datblygiad ac ansawdd cerddi bardd unigol, felly y gellir ei wneud yn achos tiwtor a'i wersi.

Adeiledir pob iaith yn ôl dwy wedd. Ar y naill law, yn fewnol yn yr ymennydd, adeiledir yn ddjarwybod i raddau batrymwaith cyfan o gyfundrefnau 'sefydlog'. Dyma'r cnewyllyn meddyliol sy'n rheoli adeiladwaith brawddegau. Math o ramadeg yw. Fe'i rhoir at ei gilydd fesul cam. Ac y mae'r cwbl yn cydlynu wrth ei gilydd. Gelwir hyn yn '*Dafod*'. Ond try'r cynllun yn '*Fynegiant*' amrywiol a gwreiddiol.

Defnyddir y Tafod meddyliol cynnil i gynhyrchu'n allanol bob math o frawddegau ar bob math o bynciau. Hyn, y Mynegiant yw'r hyn a gynhyrchir. Lle y mae elfen o undod terfynedig o fewn Tafod, y mae'r cynnyrch hwn yn ddiderfyn amrywiol, yn ystwyth, ar y pryd.

A yw'r ddwy ochr hyn yn rheidrwydd ac yn anocheledd ym mhob iaith? Ydynt! Rhaid i'r dysgwr feistroli Tafod er mwyn gweithredu Mynegiant amrywiol. Na: nid oes dewis. Yn draddodiadol, y mae Pedagogwyr yn tueddu i orbwysleisio'r naill wedd neu'r llall, er na ellir osgoi'r un ohonynt. Ond yr her anochel i'r athro yw eu cydlynu.

Gwyrar rhai sy'n canolbwyntio ar Dafod tuag at hyfforddi'r 'strwythurau': 'Strwythurwyr' ydynt. Ceir elfen o gaethiwed, o ddril, o ddisgyblaeth ffurfiol yn sail i'w gwaith. Canolbwyntia'r rhai sy'n canolbwyntio ar Fynegiant ar 'ymddiddan rhydd', ar naturioldeb 'cyfathrebu', ar sefyllfaoedd ac ar ffwythiannau. 'Cyfathrebwyr' ydynt. Ond ni all Tafod hepgor Mynegiant, ac ni all Mynegiant hepgor Tafod, er y gall y naill a'r llall gymryd ei gilydd yn ganiataol. Y ddwy wedd hyn yw'r fframwaith sy'n gorfodi dwyochredd y broses o feddwl am gyflwyno iaith. Ceir Tafod a Mynegiant gyda'i gilydd o'r dechrau. Sylweddolir yno eu gwahaniaeth a'u cydlyniad. A cheisir yma gymeradwyo rhai egwyddorion yn y dulliau o gyflwyno iaith sy'n gallu cwmpasu'r naill a'r llall, heb ystyried eu bod yn milwrio'n erbyn ei gilydd. Ystyrir bod angen dyfeisio ymarferion a thechnegau, olyniaeth drefnus o gamre, a chyferbyniadau sy'n clymu iaith yn undod ymarferol wrth ei gilydd. Felly y ceir Dysgu Cyfansawdd.

Cofir mwynhad a threfn feddyliol y dysgwr. Ond cofir hefyd fod y sawl sy'n paratoi ac yn cyflwyno'r iaith, ar ei ennill wrth gynllunio'r gwaith hwnnw yn ôl

anghenion 'cyflawn' yr iaith yn ogystal ag yn ôl gallu, cyrhaeddiad, a photensial y dysgwr. Llunnir holiadur sy'n bwrw golwg ar draws holl rediad y cwrs, ac yn holi ym mha le yr oedd y cwrs neu wersi unigol yn ddiffygiol, ac ym mha ffordd y ceid llwyddiant. Disgrifiad neu werthfawrogiad yn hytrach nag 'asesiad' ffug-wrthrychol.

\*

\*

\*

Bwriadwyd i'r nodiadau hyn fod yn ymarferol ddefnyddiol, nid yn unig i'r rhai sydd mewn awdurdod dros bolisi cyhoeddus, ond i bawb sydd mewn awdurdod o unrhyw fath yn y Mudiad Iaith, rhai a allai fod yn drefnwyr cyrsiau, arholwyr, arolygwyr a'u gweithredwyr – megis athrawon, tiwtoriaid, a chynllunwyr – yn ogystal â gwirfoddolwyr cwbl 'ddiawdurdod' yn y sector di-dâl. A'r olaf, yn rhyfedd iawn, yw'r pwysicaf o ran potensial – weithiau, y protestwyr gynt sydd wedi bod mor ddylanwadol wrth newid morâl. Ond mae'r Mudiad cadarnhaol yn amlochrog; a gwiw yw canolbwyntio'n golwg cyn belled ag sy'n bosibl ar lwyddiant.

Fe ellid cyffredinoli, ychydig yn anghyfrifol yn ddiaw, fod yna dair adain flaenllaw i'r Mudiad Adfer yr iaith yn y cyfnod diweddar sydd eisoes wedi bod yn llwyddiant. Ble y ceir ein llwyddiant cadarnhaol yn genedlaethol?

Yn gyntaf, *Mudiad yr Ysgolion Cymraeg*, ar bob lefel, er bod angen llawer mwy o ysgolion cynradd ar hyn o bryd, yn syml oherwydd llwyddiant. Gellid dadlau fel y dadleuwyd gynt ar un adeg yn Iwerddon, nad oes angen yn y pen draw ddim ysgolion ond rhai dwyieithog yng Nghymru. I raddau, fe gytunwn ar hynny ar yr amod fod yna ddarpariaeth lawn ar gyfer y rheini sy'n tynnu allan o'r drefn honno. Hynny yw, addysg ddwyieithog i bawb yn gwbl wirfoddol fyddai'r nod normal yn ddelfrydol yn y pen draw, yn wahanol felly i Iwerddon. Ond nod yn y pellter yw hynny. Rhaid anelu'n gyson at wirfoddolwyr, a dyfnhau yn ogystal â lledu'r weledigaeth o Gymru ddwyieithog. Ond byddai'r fath drefn sefydliadol yn dibynnu ar newid yn y farn gyhoeddus ymhlith oedolion. Rhan o ddyletswydd y Mentrau, ddywedwn i, fyddai paratoi defnyddiau cyhoeddus pob lefel o Gymreictod ac ym mhob cyfrwng, a meddwl am y fath symudiad ymhlith amryfal weddau ar ddiwylliant Cymraeg. Mae angen hyn fwy nag erioed yn yr ardaloedd gwledig. Ond erys o hyd bryder ynghylch parhad i'r defnydd o'r iaith yn y

cyd-destun trefol, lle y mae angen amlhau cyfleusterau o fewn yr iaith er mwyn ei chynnal – gwaith i'r Mentrau eto sy'n ymwybodol o anghenion adennill y cydlynu rhwng Dysgwyr a Siaradwyr rhugl yn fwriadus.

Yn ail, *Mudiad yr Iaith Gyhoeddus Ddeddfol*. Cafwyd tipyn o lwyddiant yn y sector cyhoeddus ( Ffurflenni, arwyddion, hyd yn oed cyfathrebu achlysurol) oherwydd bod elfen o orfodaeth neu o drefn sefydliadol ynglŷn â hyn, megis yn Iwerddon. Bu hyn yn fodd i adeiladu ychydig ar yr hyder ieithyddol yng Nghymru, a'r presenoleb gweledol, a llawer llai o ragfarnau. Ond yn y sector gwirfoddol, ni chafwyd fawr o lewyrch am y rheswm bod y mwyafrif llethol o'r boblogaeth yn sefyll y tu allan i ymarferoldeb adferiad ac i frwdfrydedd y fath newid seicolegol, eto megis Iwerddon. Mae eisiau bod yn wahanol i Iwerddon bron bob amser a llenwi'r bylchau a esgeuluswyd. Yn Iwerddon, gwanychodd y wedd wirfoddol ar yr Adfywiad Iaith ar ôl Ymreolaeth. A diffygiodd ewyllys y bobl. [Diau y byddai llwyddiant yn y gwaith hwn ymhlith Oedolion yn esgor yn naturiol ar gynnydd yn y defnydd cymdeithasol.]

Yn drydydd, yng Nghymru bu'r *Mudiad Cymraeg i Oedolion drwy ddosbarthiadau yn llwyddiant ar raddfa fechan* ond hynod bwysig ers y chwedegau, yn bennaf drwy Adrannau Allanol y Brifysgol a dosbarthiadau nos y Cynghorau Sir, a sefydliadau megis Nant Gwrtheyrn a Chyrsiau Gwyliau Harlech a Llambod, ac yn gynyddol fwy felly wedi sefydlu'r Canolfannau Iaith i Oedolion. Cafwyd llaweroedd o ddosbarthiadau ac o wyliau a digwyddiadau. Ac i raddau cynlluniwyd cyrsiau iaith gyda pheth gwybodaeth am ieithyddiaeth gymwysedig a didacteg iaith. Ond yr ydys ymhell iawn o ddi-hysbyddu'r posibiladau yn y sector hwn, ac ymhell iawn o greu Symudiad poblogaidd uchelgeisiol. Ni lwyddwyd – ond mewn rhai pocedi – i ddenu Siaradwyr rhugl i ymrwmo yn yr Adfywiad. Dyma'r bwlch yn y Pawb. *Nid anelwyd yn ddigonol ac o ddifrif at godi ymwybyddiaeth wirfoddol ymhlith corff y boblogaeth*. Dyna'r unig sector, a anwybyddwyd i raddau helaeth gan yr awdurdodau, sy'n cynnig y posibilrwydd o weddnewid yn ddwfn ac o newid morâl y Mudiad Iaith ar raddfa eang drwy weithredu gwirfoddol lleol. Ar hyd y llwybr hwn, yn wirfoddol, y try gweinyddu Cymru yn y Gymraeg yn ymarferol. Mae'n herio cyfrifoldeb yr awdurdodau: mae'n cyflwyno sector newydd i bob pwrpas i'r rhan fwyaf o'r Cymry Cymraeg ymrwymedig i wneud



rhywbeth adeiladol, cadarnhaol, a llwyddiannus bob wythnos. Dylai fod yn bresenoldeb byw a phoblogaidd yn y wlad. Hynny yw, dyma'r bobl sy'n wir bencadlys i Adennill yr Iaith. Math arall o Ymchwil felly fyddai chwilio i sicrhau'n benderfynol sut y gellid trefnu ar raddfa eang iawn ac uchelgeisiol ymrwymiad ymarferol y Cymry Cymraeg ym mhroses yr adennill uniongyrchol hwn.

\*

\*

\*

Mae hyn eto ynghlwm wrth amllder gweithgareddau Cymraeg poblogaidd sy'n digoni'r ddwy ochr – y Dysgwyr o fewn cymdeithasau uniaith Cymraeg.

PONT III

DIDDANWCH

## STRWYTHURO DIDDANWCH I BAWB

### A

#### FFORDD O FYW ARHOSOL

Mae yna dair gwedd a ofyn sylw gan sector yr Oedolion gwirfoddol. Heblaw gwella'r cyrsiau i'r Dysgwyr yn ôl y canllawiau enghreifftiol a noddir yn y drafodaeth hon, a heblaw gofalu am y sector gwirfoddol i'r Pawb, y mae mawr angen ystyried tacteg a pherswâd mewn Diddanwch. A diddanwch fyddai i'r Pawb ar y Cyd.

Efallai y gellid sôn amdano drwy gyfeirio at yr hyn sy'n digwydd yng nghydestun yr Eisteddfod.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn sefydliad rhyfeddol. Ond fe roddwyd iddi swyddogaeth newydd pan lithrodd y Dysgwyr i'w pabell. Daeth eu hanes a'u presenoldeb yn ysbrydoliaeth i'r Cymry Cymraeg, yn arbennig drwy'r teledu, er nad arweiniodd i lawer o gyswllt ymarferol. Ond i mi, gosododd esiampol i'r dyfodol.

Gwyddom erbyn hyn fod y cyfweiliadau a'r eitemau cefndirol gyda 'Dysgwyr y Flwyddyn' yn boblogaidd ar y teledu ac yn rhoi gwefr arbennig i Gymry Cymraeg brwd. Ac yr wyf yn mawr obeithio bod yna chwilio calon ar y pryd yn eu plith wedyn. Anodd credu bod pob Cymro Cymraeg, a gafodd foddhad o glywed y Dysgwyr, wedyn wedi suddo'n ôl yn fwythus neilltuedig am flwyddyn arall i'w seddau heb ymuno yn yr awydd i'w cynnal.

Mae Pabell y Dysgwyr ei hun yn 'safle' wrth gwrs sy'n rhoi achlysur i weithgareddau, posau, chwaraeon, caneuon a chlonc. Gall fod yn geto. Anodd gennyf weld sut y gellid gwella ryw lawer ar y drefn a'r ddarpariaeth yn fewnol. Eto, mi wn y geill dychymyg Pwyllgor lleol y Dysgwyr bob blwyddyn arbrofi ac ymestyn fwyfwy; a synhwyraf eu bod yn gyson uchelgeisiol. Mae'n gallu bod yn agorfa i'r mudiad pontio ar y Maes i ymwelwyr rhugl o fewn cyd-destun ymgyrch.

## 1. *Cyfrwng y Teledu*

Y mae'r hyn sy'n digwydd gyda Dysgwyr y Flwyddyn, a'r gwahanol gystadlaethau i Ddysgwyr yn peri inni weld yn yr Eisteddfod yr Arch-feicrocosm o'r posibiladau a erys yn y Mudiad Iaith. Tybed oni ddaeth y Dysgwyr bellach yn newyddion i'r Teledu ac yn ffactor hollbwysig yn y bywyd cenedlaethol? Gwelwn ryw ddyrnaid ohonynt ar y Teledu adeg yr Eisteddfod; ond byddai'n braf cael mwy o eitemau ar y Newyddion am unigolion ac am ddigwyddiadau (yn deithiau, corau, chwaraeon, hobïau) drwy gydol y flwyddyn, gyda'r syniadau'n tasgu am y modd y ceir y fath gynnydd. Gallai hyn fod yn un o'r themâu cyson gorau sy'n rhoi llawenydd i'r 'Pawb': cyfweiliadau gyda mwy o fewnfudwyr anghyffredin, cystadlaethau a pherfformiadau rhwng dysgwyr a'r oedolion rhugl. Byddai'n braf pe bai'r pebyll eraill ar y maes oll yn cadw cornel i'r Pawb gael sgwrs â'r Dysgwyr. Hynny yw, mae angen troi Cymru'n ffatri ymwybodol o adennill.

Mae mawr angen ail-lunio *cwrs dysgu i'r teledu* sy'n llawer mwy ymarferol, wedi'i raddio a'i gyflwyno'n gyfundrefnus drwy sefyllfaoedd graddedig, heb yr amrywebu poenus a gafwyd o'r blaen er gwaetha'r gamp arbrofol. Y tro hwn, wrth ffilmio ymddiddan osgöer ffurfiau cyfredol amrywiol ar yr iaith ac anghysondebau. Yn y gyfres ddiwethaf, (a) bu gormod o ffwdanu ynghylch 'yr hyn a ddywedir yn y gogledd' a'r 'hyn a ddywedir yn y de' nes drysu a dychrynu gormod o ddysgwyr; (b) bu gormod o ddefnydd o siaradwyr 'naturiol' a ddefnyddiai wahanol dafodieithoedd a chyweiriau ac ymyrraeth ansafonol yn nhrefn cyflwyno gwybodaeth. Mwy priodol yw sicrhau mewn cwrs cenedlaethol fod y dialogau neu ddramodigau, sef yr enghreifftiau lliwgar o ymddiddan, i gyd yn gyson raddedig o fewn yr iaith lafar safonol ac wedi'u trefnu'n bwrpasol gan siaradwyr addysgedig. Dysgwn gan y gorffennol sut y mae gwella. Wrth gwrs, na thwyllwn ein hun mai 'difyrrwch' poblogaidd fyddai hyn byth: fe'i defnyddir er mwyn llwyddo, yn benodol, – y difyrrwch pennaf.

Nid oes amheuaeth ynghylch y gwelliant diweddar yn ansawdd amryw o'r cyrsiau mewn dosbarthiadau ac am yr hysbysrwydd cynyddol broffesiynol a roddir i'r dosbarthiadau. Bydd hyn yn gwella'n gyson gobeithiwn ar sail y profiad presennol. Ond byddai darparu DVD o'r telediad (neu dapiau cefndirol i geir) yn gaffaeliad pellach, os

paratoir hwy'n raddedig. Mae angen i S4C yn gyffredinol o ran polisi fod yn fwy effro i fodolaeth dysgwyr, ac i natur, cywirdeb a sefydlogrwydd Cymraeg Llafar Safonol.

## *2. Cyhoeddiadau: Darllen*

Ceir presenoldeb ffrwythlon ar gyfer llyfrau i Ddysgwyr mewn pabell unigol megis Pabell y Cyngor Llyfrau. Ac i'r Cyngor Llyfrau, y mae'r Dysgwyr yn adran bwysig iawn o'r Farchnad. Braf fyddai pe bai'r Babell honno'n cynnal digwyddiadau – heblaw lawnsio llyfr – a wnâi eu cynnyrch yn ddeniadol fywiog, yn arbennig i Ddysgwyr am un hanner awr bob dydd yn yr Eisteddfod (megis mewn Ffeiriau). Byddai hyn yn gaffaeliad blaengar. Cafwyd Clwb Darllen i ddysgwyr gan Adran Gymdeithasol Llyfrgell Ceredigion yn ddiweddar i hysbysebu llyfrau a allai fod yn ysgogiad i ddychymyg y Cyngor Llyfrau ac i lyfrgelloedd eraill. Rhyfeddod bythol yw Llyfrgell Ceredigion.

Mae mawr angen cymhwyso ar gyfer dysgwyr lyfrau dwyieithog (neu gyfredol yn y ddwy iaith ar wahân) sydd ar gael mewn modd cymharol boblogaidd ac 'anacademaidd' ond safonol: llyfrau gwybodaeth ysgafn fel gwaith John Davies a Marian Delyth ar y Cant o Leoedd yng Nghymru y dylid ymweld â hwy cyn marw. Dyna lyfr sy'n ddeallus ddarllenadwy i bawb, ac â'r wedd ffotograffaid yn gwbl ragorol. Ceir tuedd mewn llenyddiaeth i ddysgwyr i fod yn rhy blentynnaidd yn aml. Ni raid cael barddoniaeth blentynnaidd wrth ddethol cerddi syml eu geirfa. Gellid cael barddoniaeth oedolion o safon heb fod yn hen ffasiwn nac yn drwm ei geirfa. Llyfrau taith (sefydliadau, llyfrau hanesyddol, golygfeydd diddorol o lawer math) a llyfrau am arwyr neu am Gymry neu Gymryesau nodedig: dylid datblygu polisi i adeiladu'r ymwybyddiaeth o'r syml i'r mwy cymhleth o fewn y rhain. Hynny yw, o fewn deunyddiau graddedig, gellid llunio'n fwy systematig nag yn y gorffennol gyfres weddol rad a fuasai'n gaffaeliad hefyd i'r Diwydiant Croeso. Eisoes gwnaethpwyd llawer o waith da ar lefel storïol.

## *3. Strwythuro Cydlynid y Symudiad yn Genedlaethol*

Ond yn y pen draw, sôn yr ym am Fudiad unol i Bawb. Mae eisiau datblygu'r ymwybod o Symudiad ar raddfa genedlaethol, mudiad lle y mae pob gradd ar adfer y

iaith yn gadarnhaol yn dod yn gytûn hysbys – yn ganolog ac yn lleol, mudiad lle y mae rhyng-ffrwytho. Gall fod yn anfantais fawr i'r fath Symudiad ymgymysgu â symudiadau protest sy'n gofyn i bobl eraill wneud rhywbeth, rhag ein camarwain yn ôl i'r hen ystum o ddibynnu ar bobl eraill. Rhaid peidio â chamddiffinio bwriad yr holl fudiad – nid hawliau sydd flaenaf (er pwysiced y rheini mewn cyd-destun arall). Gwaith arbenigol yw 'Hawliau': gwaith arbenigol arall yw Adennill. Dylid cyfyngu'r Symudiad yn eglur ac yn strwythuredig ac yn gyfrifol i'r rhai sy'n ymwneud ag *Adennill* drwy addysg a thrwy gefnogaeth ddiwylliannol hollol anwleidyddol. Dyna'r ddelwedd unplyg unionsyth. Byddai cyhoeddi Cyfnodolyn rheolaidd a threfnu Hysbysrwydd a Gwybodaeth yn ddihysbyddol yn cyflawni'r dasg hanfodol hon fwyfwy, pe bai digon o staff. Ond mae angen strwythuro'r cyd-drafod rhanbarthol a chenedlaethol drwy gyfarfodydd gwirfoddol.

Hyd yn hyn, ar y naill law, dibynnwyd ar blant a'u rhieni. Diffygiodd dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgolion ychydig yma ac acw yn y cyfnod diweddar, nid yn unig am resymau trefniadaeth ddifrwdfrydedd, ond oherwydd cefndir y dysgu ceidwadol, amhroffesiynol anfoddhaol, a'r prinder dysgu i oedolion yn y cefndir heb eto greu'r ewyllys cadarnhaol yn y boblogaeth oherwydd diffyg cefnogaeth y Cymry Cymraeg. Gellid gwella hynny, nid yn unig drwy hyrwyddo addysg ddwyieithog i bawb o'r Ysgol Feithrin ymlaen, eithr hefyd drwy'r Dysgu Cyfansawdd ar y Cyd a amlinellwyd yn y gyfrol hon. Mae'n arwyddocaol fod hynny o symud ymlaen a gafwyd yn dechnegol gan rai athrawon ysgol unigol wedi tarddu o ran ffynhonnell wreiddiol yn y gwella ar Gymraeg i Oedolion.

Er gwaethaf llwyddiant diamheuol *Addysg drwy'r Gymraeg* yn gyffredinol, erys lle i wella. Ar hyn o bryd, ychydig a gafwyd yn ddigon gwreiddiol Gymreig wrth feddwl am *bynciau* y tu allan i'r Gymraeg: mae angen ymatal rhag dynwared yn ormodol y traddodiad Saesneg o hyd, heb ddatblygu ansawdd a fframwaith Gymreig unigolyddol. Bu hyn yn neilltuol amlwg ysywaeth mewn Hanes – lle yr esgeuluswyd hanes cynnar sefydlu uned ddiwylliannol a seicolegol cenedl y Cymry, a llawer o'r hanes cenedlaethol wedyn cyn Oes y Tywysogion mewn llyfrau hanes poblogaidd, stori Arthur drwy Ewrob, arbenigrwydd y Gynghanedd, Diwygio Crefyddol (a Chymdeithasol o'r Beca

ymlaen at y Gwasanaeth Iechyd), datblygiad y Cynulliad; y cenhadu diwylliannol drwy waith arloeswyr yn Nhahiti, Asâm, Madagascar, Corea, Patagonia; Robert Owen, y cestyll; yr arloesi yn y Chwyldro 'Diwydiannol'; a'r anwybyddu ar Hanes gwledydd bach Ewropeaidd sy'n gyffelyb i Gymru. Bu'r Eisteddfod ei hun i raddau yn ymgais ardderchog i ddelweddu Cymru.

Eto, yr hyn a barodd i mi weld yr Eisteddfod fel meicrocosm delfrydol i'r dyfodol oedd canfod – peth y dylwn fod wedi'i hen sylweddoli – mai Gwyliau difyr yw'r Eisteddfod i'r Cymry Cymraeg. Mae yna le pendant i *Ddiwydiant Gwyliau* go iawn yn yr adfywiad iaith. Ac y mae hyn yn estyn adain arall i'r Symudiad. Gwyliau nid gwaith, ac i Bawb eto. Tybed oni ellid estyn ymhellach mewn cyfeiriad o'r fath, yn drefniadol, i'r Pontwyr (Cyd: y Dysgwyr a'r Cynorthwyr)? Sefydlwyd eisoes yn yr Eisteddfod y tri dull o aros mewn gwyliau o'r fath: (1) Gwestai, (2) Carafanau, (3) Pebyll. Mater o drefnu syml fyddai sefydlu 'Y Pawb sy'n Cyfathrebu' hefyd ar wahân ac yn ychwanegol i'r Eisteddfod, gyda chydweithrediad ac ysgogiad y Bwrdd Croeso. Bu'r Bwrdd yn gweld posibilïadau mwyfwy o Wyliau Etifeddïaeth thematig. Buont yn ymwybodol hefyd o'r gwerth marchnata sydd yn arbenigrwydd yr iaith ei hun. Ond diau y gellid datblygu hyn yn fwy systematig o lawer drwy ddisgiau miwsig Cymreig mewn tafarnau a chanu gwerin, drwy grynhoi pwyslais mewn cyhoeddiadau ar wneud Cymru'n lle diddorol oherwydd Cymreictod, a hefyd drwy gyfeirio cyngherddau tuag at Wersylloedd y Pontwyr ar wythnosau penodol.

#### 14. ÔL-NODYN: Dau Argymhelliad

Nid dyma'r lle i fanylu ar Bersonnel Ymchwil. Gellid gwneud llawer drwy atrefnu'r gweithwyr presennol, a'u cyfeirio o'r newydd o ran pwyslais, gyda pheth hyfforddiant. Ond bydd angen dau Arweinydd Ymchwil yn fuan o galibr uchel, y naill yn barod i ddysgu gwyddor graddio iddo'i hun (ac i eraill), a'r llall yn barod i efrydu gwyddor ymarferion; y naill a'r llall yn cydweithredu ar lunio cyrsiau datblygol.

Bydd hefyd angen dau fyfyrwr PhD bob blwyddyn (a hynny'n sefydliadol gyda grant bob blwyddyn, a arolygir yn flynyddol yn ôl y ffrwythau) i ddatblygu technegau sefydlu a chynnal grwpiau Pontio mewn gwahanol amgylchiadau.

Mae'n hen hen bryd i'r Cymry brwd ddeffro i'r sefyllfa gyfoes. Soniai Saunders Lewis gynt am Chwyldro. Ac fe gafwyd Chwyldro. Do, digwyddodd rhywbeth. Yr oedd yn unplyg ffrwythlon wleidyddol, ond i raddau'n ieithyddol lai o lwyddiant.

Cysgod bach oedd hynny i'r ail Chwyldro. Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, ysigwyd yr ardaloedd gwledig hyd eu mêr, ac o ran yr hen batrwm yn derfynol. A dyna'r her ddramatig. Mae Cymru mewn cyflwr cwbl wahanol yn awr. Mae rhai o'r Cymry brwd yn dal i'w twyllo'u hunain y gallant gilio i'w geto er mwyn actio fel Cymry gynt, siarad Cymraeg yn llai-lai efallai gyda'i gilydd, cilio i gragen ddiwylliannol, heb wynebu'r presennol a gweithredu. Rhaid derbyn fod hunaniaeth Cymru *wedi* newid yn ddi-droi'n-ôl. Mae'r Gymru 'naturiol' ar ben. Rhaid deffro i ystyried – beth yn awr? Chawn ni ddim o'r hen Gymru'n ôl.

Ond mae'n bosibl ailfeddwl tua chyfeiriad trydydd Chwyldro: mae gweddnewid Cymru yn golygu ein gweddnewid ni'n hunain. Cymru newydd barhaol eto, atrefnu, llunio sefydliad o genedl gyda strwythur cynyddu a allai adennill nid hen Gymru, ond rhywbeth cwbl wahanol. Erthyl, medd rhai. Heb barhad syml 'naturiol', meddan nhw, does dim parhad. Ond nid felly. Nid oes gwerth mewn bod yn optimistaidd nac yn besimistaidd. Fe ellir o hyd greu Cymru newydd, ffordd o fyw newydd, meddylfryd ('mind set') gwahanol, un yn meddu ar hunaniaeth gwbl newydd ac eto'n hunaniaeth Gymraeg a Chymreig wirioneddol werthfawr ac unigryw, yn etifedd teilwng i orau'r gorffennol, lle y mae'r ymdrech ei hun yn ysblennydd. Gellir llenwi'r lleiaf ymrwymedig



o'n pobl â phresenoldeb adennill. Gellir ar y llaw arall ildio i'r llif. Ac ildio a wneir ar hyn o bryd. Carwn i wahodd y Cymry brwd i siglo breuddwydion ffôl i ffwrdd am oes a fu, i ymwarded â hiraeth gwirion, ac i ddechrau o'r newydd ar daith genedlaethol a fydd yn gorfod bod yn wahanol ac yn fythol adfywiol. Gwahoddwn hwy i feddwl am Gymru ddwyieithog newydd parhaol, ond Cymru o hyd well o bosib.

Bydd yn rhaid gosod yn eu lle strwythurau newydd – patrwm parhaol adnewyddol, trefn newydd-Gymreig, ac eto'n ymgyfeirio'n sefydliadol fodern mewn modd sy'n wynebu'r sefyllfa yn ei newydd-deb aruthr. Thâl hi ddim i ymguddio mwy. Ond yn y llyfryn hwn, bûm yn sôn am rai o'r gwewyr esgor – yr ailstrwythuro poenus, trafferthus, ymwybodol, effro – hen flinder – gan ein hatgoffa'n hunain nad drwy weithredoedd y Ddeddf yr arddelir yr iaith ac y daw Cymru yn Gymru gref; eithr drwy weithredoedd y Galon.